



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol: Cynrychiolaethau

Cyrol 1: 8848-9499

BCW-8848 / [REDACTED] / Llanelli

Mae'r ardal hon yn rhy agos o lawer at Gaerfyrddin i'w chynnwys yn etholaeth Llanelli. Nid yw'r bobl sy'n byw yma yn defnyddio'r un gwasanaethau â'r bobl yn Llanelli, a byddant yn ystyried eu hunain yn rhan o Gaerfyrddin. Mae angen i ffin yr etholaeth fod ymhellach o Gaerfyrddin i'r etholaeth wneud synnwyr fel endid cydlynol.

BCW-8849 / [REDACTED] / Bangor

Mae'r cynnig i symud Bangor i etholaeth Aberconwy yn niweidiol i'w safle yn sir Gwynedd. Mae gan Fangor gysylltiadau cryfach, ac mae'n rhannu problemau ôl-ddiwydiannol, â Chaernarfon, yn hytrach nag Aberconwy. Byddai'r symudiad yn creu problemau gan fod mwyafrif yr etholwyr yn ardal cyngor Conwy, ac mae eu hanghenion yn hollol wahanol i rai Arfon, gyda gwahaniaethau mawr o ran diwydiant, iaith, diwylliant a threftadaeth. Mae Bangor a Bethesda yn gymunedau ôl-ddiwydiannol, ac nid oes ganddynt lawer yn gyffredin â'r ardaloedd twristaidd yn Aberconwy. Fel un o ddinasyddion Bangor, rwy'n gwrthwynebu cael fy nghynrychioli gan Aelod Seneddol o Aberconwy, beth bynnag fo'i liw gwleidyddol.

BCW-8850 / [REDACTED] / Llanelli

Dylai tref Rhydaman gael ei chynnwys yn etholaeth Llanelli yn hytrach nag etholaeth Caerfyrddin, gan fod llawer mwy yn gyffredin rhwng trigolion Rhydaman a Llanelli nag sydd rhwng yr un o'r ddwy dref hyn a Chaerfyrddin. Trefi ôl-ddiwydiannol yw'r ddwy dref hyn, a byddai gan y bobl sy'n byw yno bryderon tebyg, tra mae etholaeth Caerfyrddin yn fwy gwledig. Byddai cyfnewid yr ardal o gwmpas Caerfyrddin sydd wedi'i chynnwys yn etholaeth Llanelli am yr ardal o gwmpas Rhydaman yn etholaeth Caerfyrddin yn arwain at etholaethau mwy cydlynol.

BCW-8851/ [REDACTED] / Glasgow

Newidiwch yr enw i Swansea North and Central (Gogledd a Chanol Abertawe). Mae'n rholio oddi ar y tafod yn well o lawer.

BCW-8852 / [REDACTED] Abertawe

Nid oes gan Pontardawe unrhyw gysylltiad o gwbl ag Aberhonddu a Maesyfed. Mae'n gydweddiad gwael iawn. Mae Aberhonddu a Maesyfed yn sir wledig iawn, ac mae filltiroedd o ardal Pontardawe, tra mae Castell-nedd 5 milltir i ffwrdd ac Abertawe 9 milltir i ffwrdd. Dylid ystyried cadw'r holl ardaloedd yng Nghwm Tawe gyda'i gilydd, naill ai mewn ardal ar gyfer Cwm Tawe neu fel rhan o Gastell-nedd. Yna, gellid symud Ystradgynlais i'r ardal hon, ynghyd ag Ystalyfera, Pontardawe a Chlydach. Mae Gogledd a De Treforys a'r Gelli Fedw yn ardaloedd eraill y gellid eu cynnwys. Gallai'r Clas ddod yn rhan o'r cwm hefyd, ynghyd ag ardal Treforys a Llansamlet neu Gymoedd Dulais, o bosibl. Mae holl gymunedau'r cymoedd, sef Ystradgynlais, Ystalyfera, Pontardawe a Chlydach yn ardal Bae Abertawe ar gyfer gwaith, yn hytrach nag anelu am Aberhonddu a'r tu hwnt.

Byddai hyn yn cadw neu'n ymestyn ffiniau'r ysgolion cyfun lleol rhywfaint. Byddai Cwm Dulais yn ymestyn i'r disgyblion ym Maesydderwen, a fyddai'n gwneud yr ysgol honno'n fwy ymarferol. Byddai'r pellter teithio i'r ysgol yn cael ei leihau ar gyfer lleoedd fel y Creunant a Blaendulais, a byddai cadw'r Gelli Fedw yn yr un ardal â Chlydach yn cadw'r un dalgylch. Byddai cynnwys Y Clas ac efallai rhan o Lansamlet yn cadw dalgylch presennol Treforys.

Gellid edrych ar yr ardaloedd sy'n weddill yng Nghastell-nedd fel etholaeth estynedig gydag Aberafan, heb gynnwys Porthcawl.

BCW-8853/ [REDACTED] Abertawe

Castell-nedd Port Talbot yn rhan o Aberhonddu a Maesyfed? Rydych chi'n ceisio cymysgu gwledig a diwydiannol, y Torïaid a Llafur. Bydd rhywun yn colli allan. Mae ar y gymuned ffermio angen y Torïaid hunanlesol, y mae eu hethos gyda'r cyflogwyr a'r cyfoethogion, ac mae angen dealltwriaeth a thrugaredd naturiol AS Llafur ar boblogaethau Castell-nedd Port Talbot. Tybed ai cyffindwylllo yw'r nod, i wanhau cadarnleoedd Llafur?

BCW-8854/ [REDACTED] Caerdydd

Rwy'n byw yng Nghaerdydd, ond cefais fy ngeni a'm magu y tu allan i Gaerfyrddin. Mae'n amlwg nad yw tref Caerfyrddin wedi'i hystyried ar sail daearyddiaeth / hunaniaeth, ond wedi'i defnyddio i wthio pobl i etholaethau ar sail niferoedd yn unig. Mae'r ffaith bod Pensarn, y bydd unrhyw un yn dweud wrthyh ei fod yn rhan o dref Caerfyrddin, wedi'i gynnwys yn etholaeth Llanelli yn chwerthinllyd. Mae'n bosibl na fydd nifer o drigolion Pensarn wedi rhoi troed yn Llanelli erioed. Sut gallant gael yr un flaenoriaeth gan AS â rhywun o ganol tref Llanelli? Mae'r un peth yn wir yn Nant-y-caws, lle mae trigolion yn uniaethu â Chaerfyrddin yn hytrach na Llanelli. Sut gall Nant-y-caws fod yn rhan o Lanelli, tra mae Llanddarog a Phontyrhyd – sydd ymhellach o dref Caerfyrddin – yn rhan o etholaeth Caerfyrddin? Dylid defnyddio rhywfaint o hyblygrwydd / doethineb o ran ffiniau Caerfyrddin er mwyn sicrhau bod ardaloedd yn cael sylw priodol mewn etholaeth briodol. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun hwn ar gyfer Caerfyrddin a'r ardaloedd cyfagos yn hurt bost.

BCW-8855/ [REDACTED] / Caerfyrddin

Byddai trigolion Llangynnwr a Nant-y-caws yn disgrifio'u hunain fel eu bod yn byw yng Nghaerfyrddin, ac ni fyddant yn uniaethu â Llanelli. Er y dylid canmol y ffaith bod Caerfyrddin yn sedd erbyn hyn, rwy'n credu ei fod yn bwysig iawn peidio â rhoi rhan mor annatod o gymuned Caerfyrddin yn etholaeth Llanelli.

BCW-8856/ [REDACTED] /Caerdydd

Nid wyf yn cytuno y dylid rhoi ardaloedd Gwaun-cae-Gurwen a Brynman Isaf yn etholaeth Aberhonddu a Maesfedyd. Yn wahanol i lawer o Aberhonddu a Maesfedyd, nid yw'r rhain yn ardaloedd gwledig; ardaloedd ôl-ddiwydiannol ydynt sy'n pontio Cymru wledig a Chymru ddiwydiannol. O fod wedi tyfu i fyny yn yr ardal hon, mae'n ymddangos i mi y bydd pryderon pobl yng Ngwaun-cae-Gurwen a Brynman Isaf yn wahanol iawn i bryderon pobl sy'n byw yn Aberhonddu neu Raeadr Gwy, er enghraifft.

Mae fy mhryder enbyd arall yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae Gwaun-cae-Gurwen a Brynman Isaf yn gadarnleoedd yr iaith, ond nid yw hynny'n wir am lawer o Aberhonddu a Maesfedyd. Mae'r iaith yn rhan o ddiwylliant a hunaniaeth Gwaun-cae-Gurwen a Brynman Isaf, ond nid ydyw mewn rhan fawr o Aberhonddu a Maesfedyd. Rwy'n ofni y bydd eu rhoi mewn etholaeth lle mae'r iaith yn llai pwysig yn peri risg i'r iaith ac i ddiwylliant a hunaniaeth yr ardal.

Mae gennyf bryderon tebyg am ardaloedd Pontardawe, Cwmllynfell ac Ystalyfera – sef y rhan gyfan o Aberhonddu a Maesfedyd sy'n ymddangos fel rhyw fath o estynwlad wedi'i amgylchynu gan Gaerfyrddin, Canol a Gogledd Abertawe, a Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd. Mae'n ymddangos yn rhyfedd i mi, o ystyried bod llawer o'r ardaloedd hyn yn ystyried eu hunain yn rhan o gwm Tawe uchaf, bod eu cysylltiad ag Abertawe yn cael ei chwalu, a'u bod yn cael eu rhoi mewn etholaeth sydd â'u prif ardaloedd cryn bellter i ffwrdd (â seilwaith trafnidiaeth cyfyngedig iawn).

Byddwn yn awgrymu ac yn argymhell y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i sut i dylid ymdrin â'r ardal hon. Fel man cychwyn, byddwn yn awgrymu y dylai Gwaun-cae-Gurwen a Brynman Isaf (a gellir dadlau y dylid cynnwys Cwmllynfell hefyd) fod yn rhan o Gaerfyrddin; ac y dylai ardaloedd Pontardawe a Threbannws fod yn rhan o Ganol a Gogledd Abertawe; ac y dylai ardaloedd Allt-wen, Rhos, Godre'r Graig ac Ystalyfera fod yn rhan o Ddwyrain Abertawe a Chastell-nedd.

BCW-8857 / [REDACTED] Pen-y-bont

Mae llai o ASau yn golygu llai o gynrychiolaeth i Gymru gyfan. Gormes Cymru gan San Steffan yw hyn, a bydd yn siŵr o roi glo ar dân annibyniaeth. Mae trin Cymru yn llai pwysig na Lloegr yn mynd i wneud i'r system, sydd eisoes yn teimlo fel petai wedi'i gogwyddo yn erbyn y 'partneriaid llai pwysig', yn realiti.

BCW-8858 / [REDACTED] / Rhuthun

Mae Rhuthun yn Nyffryn Clwyd ac mae wedi'i chysylltu â gweddill y dyffryn yn ddaearyddol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn hanesyddol. Mae wedi'i gwahanu oddi wrth y cymunedau i'r dwyrain gan Fryniau Clwyd.

Mae rhoi Rhuthun yn Nelyn yn ymddangos yn rhyfedd a dweud y lleiaf, ac yn dangos diffyg dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r gymuned leol.

Pam na wnewch chi gadw Dyffryn Clwyd gyda'i gilydd? Byddai'r etholaethau canlyniadol o feintiau ychydig bach yn wahanol, ond o leiaf byddant yn gwneud synnwyr yn ddaearyddol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn hanesyddol.

BCW-8859 / [REDACTED] / Merthyr Tudful

Mae gan Aberdâr a Merthyr broblemau economaidd-gymdeithasol dwfn sydd angen sylw unigol. Ni fydd ymagwedd lle mae un yn addas i bawb yn helpu i ddatrys y problemau hyn. Mae ar Gwm Cynon angen ei etholaeth ei hun.

BCW-8860 / [REDACTED] / Port Talbot

Rwyf wedi drysu o ran yr ymresymiad y tu ôl i rannu pentref bach Pont-rhyd-y-fen rhwng dwy etholaeth. A fyddai wir yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran poblogaeth pe byddai'r pentref cyfan yn un etholaeth neu'r llall?

Hefyd, mae'r enw 'Aberafan a Phorthcawl' yn ddiofal.

BCW-8861 / [REDACTED] / Nantgaredig

Y cwbl rydych chi'n ei wneud yw gwneud gwaith y Torïaid drostynt; dull a fydd yn sicrhau bod pleidleisiau Llafur yn cael eu lleihau a phleidleisiau'r Torïaid yn cynyddu. Mae'n hen bryd chwalu'r glymblaid Doriadd hon.

BCW-8862 / [REDACTED] / Wrecsam

Rydw i'n gwrthwynebu'r newidiadau yn llwyr . Mae lleihau'r nifer o MPs Cymru yn lleihau ein llais yn San Steffan ac yn golygu bad ydym yn cael chwarae teg na chyfle i leisio ein barn.

Yn ogystal, rydw i'n siomedig iawn i weld bys fy nghôd post i yn Alyn a Glannau Dyfrdwy gan fy mod yn byw yn agosach i dref Wrecsam ac yn talk trethu i gyngor Wrecsam ac yn defnyddion adnoddau Wrecsam. Dydy ardal Alun a Glannau Dyfrdey ddim yn berthnasol i fy mywyd i a fy nheulu o gwbl

BCW-8863 / [REDACTED] / Penmaenmawr

Mae rhoi Bangor yn Aberconwy yn cymysgu dwy etholaeth wahanol iawn. Rwy'n gweld beth rydych chi'n ei wneud – cyffindwylo yn erbyn pleidleiswyr ifanc, dosbarth gweithiol Cymraeg eu hiaith, a'u cymysgu â pherchnogion ail gartrefi hŷn Saesneg, gan wanhau un â'r llall er budd yr olaf.

Ond doedd San Steffan byth yn mynd i adael i Blaid Cymru gadw ei seddi'n rhy hir. Imperialaeth yw hyn o hyd, ac mae Cymru'n dal i fod yn drefedigaeth Lloegr.

BCW-8864 / [REDACTED] / Aberpennar

Nid yw hyn yn gynrychiolaeth deg i bobl Aberpennar ac ardaloedd eraill. Nid ydym yn rhan o Bontypridd. Nid ydynt yn yr un cwm hyd yn oed. Byddai'n well rhoi Aberpennar yng Nghwm Cynon, ac os oes angen ei rhoi rywle arall, Merthyr Tudful, gan ein bod eisoes yn rhannu llawer o bethau â'n gilydd.

BCW-8865 / [REDACTED] / Y Drenewydd

Rwy'n cytuno â'r cynigion i gadw enw Maldwyn.

BCW-8866 / [REDACTED] / Bangor

Rwy'n byw ym Mangor ac ni allaf weld unrhyw gyfiawnhad dros rannu'r ddinas yn ei hanner a fydd, yn anochel, yn golygu y caiff ei thangynrychioli, gan fod gan Gonwy flaenoriaethau gwahanol iawn a safbwynt gwahanol iawn o ran twristiaeth/yr iaith Gymraeg.

Cymharwch hyn â'r sefyllfa yn Ynys Môn – sy'n cael ei diogelu'n llawn, er ei bod yn llai o lawer. Pam nad yw poblogaeth Bangor yn haeddu'r un parch?

BCW-8867 / [REDACTED] / Cil-y-coed

Rwy'n croesawu'r newid i ffin yr etholaeth rwy'n byw ynddi, o Ddwyrain Casnewydd i Sir Fynwy.

BCW-8868/ [REDACTED] / Cil-y-coed

Newyddion gwyh os bydd etholaeth Cil-y-coed yn symud o Ddwyrain Casnewydd i Sir Fynwy, gan mai dyma'r sir y mae Cil-y-coed wedi'i lleoli ynddi.

Nid oes gan Ddwyrain Casnewydd unrhyw gysylltiad â Sir Fynwy, ac mae'n teimlo fel colli hunaniaeth. Rwy'n croesawu'r newid ac rwy'n edrych ymlaen at ei gymeradwyo. Hwyl fawr, Dwyrain Casnewydd.

BCW-8869 / [REDACTED] / Casnewydd

Mae'r syniad bod y newidiadau arwyddocaol hyn yn cael eu gwneud gan rywun yn eistedd mewn swyddfa ac yn tynnu llinellau ar fap yn fy nigio. Byddai newidiadau o'r math hwn yn newid bywydau miloedd o bobl yn sylweddol – ac nid er gwell, o reidrwydd. Ar ben hynny, daw'r cynigion hyn ar adeg pan mae llawer o bobl eisiau sicrwydd a sefydlogrwydd yn eu bywydau.

RWY'N DWEUD NA!

BCW-8870 / [REDACTED] / Wrecsam

Nid yw eithrio Brymbo, Y Mwynglawdd, Tanyfron a Bwlchgwyn o etholaeth arfaethedig Wrecsam (a'u cynnwys yn Alun a Glannau Dyfrdwy yn lle hynny) yn gwneud llawer o synnwyr, ac mae'n chwalu cymunedau heb unrhyw reswm amlwg.

- Mae gan Goedpoeth gysylltiadau â'r Mwynglawdd ac maent yn rhan o'r un ardal drefol (<https://www.nomisweb.co.uk/reports/localarea?compare=W37000356>)

- Mae gan Frymbo a Thanyfron gysylltiadau agos â Southsea, sydd yn etholaeth Wrecsam

- Mae pob un o'r pentrefi hyn yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW), yn hytrach na Chyngor Sir y Fflint

- Mae mwyafrif y seilwaith yn y pentrefi hyn wedi'i lunio i hwyluso teithio i mewn ac allan o Wrecsam a rhwng ei gilydd; nid i ardal Glannau Dyfrdwy a Sir y Fflint

BCW-8871/ [REDACTED] / Hwlfordd

Bydd rhoi Solfach a Thyddewi yn ward Ceredigion Preseli yn cyfyngu ar ein dylanwad ar faterion lleol, bydd yn achosi datgysylltiad sylweddol oddi wrth lywodraeth leol ganoledig, a hefyd yn ynysoli ein cymunedau. Byddwn yn dadlau y dylai ffin canol a de Sir Benfro gynnwys ardal y penrhyn.

BCW-8872 [REDACTED] / Dinbych

Bore da,

Rwy'n siomedig i weld, unwaith eto, y diffyg ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i *fathau* o gymunedau y mae ASau i fod i'w cynrychioli fel rhan o'r arolwg hwn gan y Comisiwn Ffiniau.

Rwy'n anfodlon â'r syniad bod rhaid i bob etholaeth fod o faint cyfartal o ran nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth. Er fy mod yn derbyn y gallai hyn arwain at gynrychiolaeth decach mewn ardaloedd trefol, bydd ardaloedd gwledig yng Nghymru, ond fel y gwelir yn yr Alban hefyd, ac ardaloedd nad ydynt yn rhai trefol yn Lloegr, yn colli allan yn sylweddol.

Rwy'n derbyn y gallai'r ymgynghoriad fod y tu hwnt i ddadlau ynghylch cyniferyddion etholwyr, ond hoffwn bledio'r achos i rannu'r ffiniau seneddol mewn ffordd wahanol.

Unwaith eto yng ngogledd Cymru, gwelwn sawl etholaeth sy'n cwmpasu ardaloedd daearyddol braidd yn fawr, ac nid wyf o'r farn bod y rhain yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion preswylwyr (ac felly effeithiolrwydd yr AS i'w cynrychioli'n ddigonol).

Fy marn bersonol yw y dylai fod dwy neu dair etholaeth gul i'r gogledd o goridor yr A55, sy'n rhoi'r dewis i ASau arbenigo mewn mynd i'r afael â materion fel heneiddio'n dda yng Nghymru, problemau yn ymwneud â Llinellau Cyffuriau, a thlodi trefol – mae'r problemau hyn yn effeithio ar bob un o'r trefi mwyaf o'r ffin â Lloegr draw i Fangor (wel, a Chaergybi, ond mae'r etholaeth honno'n un warchodedig).

Byddai cael un neu ddwy etholaeth fwy o lawer sy'n cwmpasu ardaloedd gwledig Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, Conwy wledig a Gwynedd i gyd heblaw am Fangor, yn sicrhau bod ASau yn yr ardal honno'n fwy cymwys i ddeall materion yn ymwneud ag amaethyddiaeth, tlodi gwledig, seilwaith gwledig, a phryderon yn ymwneud â thrafnidiaeth a'r iaith Gymraeg – sydd mewn perygl o gael ei mathru drwy ei lympio â chymunedau arfordirol Seisnigaidd yn bennaf, lle nad oes fawr o ddealltwriaeth o'r Gymraeg, a hyd yn oed llai o awydd i'w dysgu. Dro ar ôl tro, gwelwn ASau sy'n siarad ychydig iawn o Gymraeg, os o gwbl, ac sy'n treulio ychydig iawn o amser, os o gwbl, yn ei dysgu, yn cael eu hethol o drefi arfordirol ac, o ganlyniad, mae cymunedau Cymraeg, gwledig yn cael trafferth uniaethu â'u cynrychiolydd lleol (ac, yn yr un modd, ni ellir disgwyl i ASau ddeall materion mewn ardal nad oes ganddynt unrhyw brofiad o fyw ynddi).

Gall hyd yn oed 5 milltir i'r de o'r A55, mewn mannau, fod yn debyg i fyw mewn byd hollol wahanol.

Mae'r Fflint i Gonwy bron â bod yn un datblygiad trefol di-dor. Yn sicr, rhwng Prestatyn a Phensarn, dim ond arwyddion sy'n dangos eich bod wedi croesi ffiniau

trefi a siroedd.

Mae trefi a phentrefi gwledig wedi'u gwahanu gan filltiroedd o dir anghyfannedd yn bennaf, gan gynnwys tir amaethyddol, mynyddoedd, gweundiroedd a bryniau eraill, fel Bryniau Clwyd. Fel y dangosodd y cyfnod clo 'aros yn lleol' yn ystod y pandemig Covid-19, wynebodd cymunedau gwledig heriau gwahanol iawn i'r rhai a oedd yn byw yn y trefi arfordirol, ac a oedd â mynediad da at ystod o nwyddau a gwasanaethau.

Mae disgwyl i dri neu bedwar AS arbenigo mewn ystod mor eang o faterion, pan ellid llunio'r ffiniau ychydig yn wahanol a chefnogi ASau i fod â ffocws mwy cul o lawer, a fyddai'n galluogi ASau i wasanaethu eu hetholwyr yn well, yn fy marn i ac, yn ei dro, yn rhoi mwy o hyder i etholwyr bleidleisio, oherwydd byddai manifestos ar gyfer y cymunedau hyn yn fwy tebygol o gyfeirio at bryderon penodol.

Os gwelwch yn dda, a wnewch chi ystyried y mathau o gymunedau yn eich etholaethau arfaethedig, a rhoi cymunedau gyda'i gilydd er mwyn iddynt gael eu cynrychioli'n well?

BCW-8873 / [REDACTED] / Casnewydd

Mae'r etholaeth hon yn gwneud mwy o synnwyr o lawer o safbwynt cynllunio rhanbarthol. Mae Aberdâr a Merthyr dan yr un bwrdd iechyd a'r un heddlu. Bydd hyn yn gwneud gweithio'n rhanbarthol yn haws, er budd yr holl etholwyr.

BCW-8874 / [REDACTED] / Merthyr Tudful

Rwy'n cefnogi'r cynnig i alinio Merthyr ac Aberdâr mewn un etholaeth. Mae hyn yn gwneud synnwyr yn ddaearyddol ac yn wleidyddol.

BCW-8875 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Rwyf o'r farn y byddai buddiannau fy nghymuned, sef strydoedd Coed Mieri, Llwyn Onn, Meadow Way, Meadow Drive a Meadow View yng nghod post CF72, yn cael eu gwasanaethu orau drwy fod yn rhan o etholaeth Gorllewin Caerdydd yn hytrach na'r Rhondda, fel mae'r cynlluniau drafft hyn yn dangos.

Mae hyn oherwydd bod pentref Pont-y-clun yn rhan o Orllewin Caerdydd ac, fel ystad, Pont-y-clun yw'r pentref rydym yn gysylltiedig ag ef ac yn defnyddio ei gyfleusterau. Mae ein plant yn mynychu Ysgol Gynradd Pont-y-clun/Y Pant, rydym yn defnyddio gorsaf drenau Pont-y-clun, rydym yn siopa ac yn cymdeithasu ar stryd fawr Pont-y-clun... yn gryno, mae ein bywydau wedi'u cysylltu â Phont-y-clun a dywed pob un ohonom ein bod yn byw ym Mhont-y-clun.

Felly, mae bod mewn etholaeth wahanol i'n prif bentref yn lleihau ein cynrychiolaeth ar faterion sy'n effeithio ar Bont-y-clun, a fydd yn cael effaith niweidiol arnom ni fel preswylwyr ar y strydoedd sydd wedi'u rhestru uchod.

Mae'r newid hwn eisoes wedi'i gynnig fel rhan o'r Arolwg Ffiniau Lleol.

A wnewch chi ailystyried, os gwelwch yn dda?

BCW-8876 / [REDACTED] / Llanandras

Rwy'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau.

Teimlaf fod cydbwysedd anghyfiawn rhwng cynrychiolaeth fawr y cymoedd, yn bennaf, a chynrychiolaeth canolbarth Cymru.

Mae hynny'n amlwg hefyd yn yr Etholiadau Cyffredinol ac etholiadau Cynulliad Cymru.

BCW-8877 / [REDACTED] /Caerdydd

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau, a gostwng nifer yr ASau o Gymru o bron i chwarter, yn peri pryder mawr i mi fel Cymro.

Mae Cymru eisoes wedi'i thangynrychioli yn San Steffan, a bydd bron yn hollol fud bellach, ac ni fydd ganddi nifer ddigonol o ASau i gynrychioli poblogaeth Cymru.

Heb ystyried symud y ffiniau, mae cael gwared ag ASau o Gymru o San Steffan yn hollol frawychus i mi, sydd eisoes yn teimlo'n hollol ddatgysylltiedig a heb lais yn San Steffan.

Mae cael gwared ag ASau o Gymru mewn ffordd mor ddifrifol yn hollol annemocrataidd. Mae Cymru eisoes yn pleidleisio'n groes i dueddiadau San Steffan, gan mwyaf, ac yn aml yn cael llywodraeth yn San Steffan na wnaeth pobl Cymru bleidleisio amdani. Bydd cael gwared ag ASau o Gymru yn gwneud hyn yn waeth fyth.

Mae perygl mawr, yn fy marn i, y caiff democratiaeth ei dileu bron yn gyfan gwbl, os nad yn llwyr, yn fy ngwlad i.

BCW-8878 / [REDACTED] / Casnewydd

Mae'r afon yn creu ffin well, yn fy marn i, ond â gofynion llawer llymach ar waith erbyn hyn, rwy'n derbyn cael fy nhrosglwyddo o un etholaeth yng Nghasnewydd i'r llall. Mae fy mhryderon yn ymwneud yn fwy â'r diffyg cysylltiad â rhanbarthau gwleidyddol sefydledig y Senedd, gan fod llawer o'r etholaethau arfaethedig yn croesi'r ffiniau hyn.

BCW-8879 / [REDACTED] / Rhuthun

Mae'r ffin rhwng Delyn a Chlwyd yn hollol fympwyol ac yn rhannu preswylwyr Sir Ddinbych yn eu hanner. Mae Bryniau Clwyd yn ffurfio ffin naturiol y dylid ei dilyn. Mae cysylltiadau cryf rhwng Rhuthun a Dinbych – ni ddylai'r cymunedau hyn, ynghyd â chymunedau eraill yn Nyffryn Clwyd, gael eu gwahanu. Mae'n hollol afresymol gwahanu Rhuthun oddi wrth Bwll-glas, Clocaenog a Graig-fechan. Mae hefyd yn afresymol gwahanu Dinbych oddi wrth Landyrnog a Bodfari. Mae'r ffiniau hyn yn gwbl artiffisial ac yn anwybyddu cymunedau Dyffryn Clwyd, y ffin rhwng prif gynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint, cysylltiadau trafnidiaeth lleol, ynghyd â daearyddiaeth naturiol yr ardal. Gellir ond disgrifio'r ffin arfaethedig fel cyffindwylllo amlwg. Bydd rhannu Sir Ddinbych yn ei hanner yn cael effaith sylweddol ar gymunedau lleol, darparu gwasanaethau lleol a chysylltiadau trafnidiaeth.

BCW-8880/ [REDACTED] / Pont-y-pŵl

Nodaf eich sylw fod 'rhaid i'r etholaethau yng Nghymru gael eu lleihau o 40 i 32'. Pam 'rhaid'? Er mwyn i bob etholaeth fod yn gyfartal a phleidleisiau fod yn gyfartal, yn ôl pob tebyg. Ond mae'n amlwg nad yw hynny'n wir! Nid yw pleidleisiau'n gyfartal dan ein system bleidleisio bresennol. Ni fydd newid y ffiniau'n datrys y broblem o bleidleisiau anghyfartal. Dim ond cynrychiolaeth gyfrannol all wneud hynny. Pe byddai gennym gynrychiolaeth gyfrannol, ni fyddai angen i ni chwarae â'r ffiniau a byddai pob pleidlais yn gyfartal.

BCW-8881 / [REDACTED] / Cil-y-coed

Nid wyf o'r farn bod yr etholaeth ail-luniedig, sy'n symud Magwyr/Gwndy/Rogiet a Chil-y-coed o ardal Dwyrain Casnewydd i ardal Sir Fynwy yn fuddiol i'r etholwyr, a dylai'r ardaloedd hynny aros yn Nwyrain Casnewydd.

Mae Magwyr/Gwndy, Rogiet a Chil-y-coed i gyd ar hyd coridor yr M4, ac mae'r anghenion o ran seilwaith trafnidiaeth ar hyd y llwybr hwnnw, naill ai ar y ffyrdd neu'r rheilffyrdd, yn gydnaws ag anghenion yr holl ardaloedd ar hyd coridor yr M4 rhwng y dwyrain a'r gorllewin, ac nid oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol ag anghenion y rhai ar draws yr ardal trawsteithio rhwng y gogledd a'r de ar draws etholaeth ehangach Sir Fynwy.

A allaf fod mor hyf ag awgrymu bod agwedd ar gyffindwylo yn digwydd yma, i leihau'r mwyafrif yn sedd Lafur hirsefydlog Dwyrain Casnewydd, â Sir Fynwy sy'n cael ei chynrychioli gan y Ceidwadwyr, yn bennaf, nad yw er lles pennaf y bobl o gwbl.

BCW-8882 / [REDACTED] / Bwlchgwyn

Rydych chi'n honni eich bod yn ystyried cysylltiadau lleol a ffiniau llywodraeth leol, ond eto nid yw Brymbo, Coedpoeth, Bwlchgwyn a phentrefi eraill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'u cynnwys yn etholaeth Wrecsam. Rydym o fewn 5 milltir o Wrecsam hefyd. Dan eich cynigion chi, rydym yn rhan o Alun a Glannau Dyfrdwy. Nid wyf yn teimlo unrhyw gysylltiad â Bwcle neu Shotton. Mae gennyf fwy o gysylltiad (er ar lefel isel) â Llandegla. Nid yw eich cynigion yn gwneud unrhyw synnwyr.

BCW-8883 / [REDACTED] / Caernarfon

Ni ellir mo'i ddychmygu y bydd dinas Bangor yn cael ei gwahanu'n ddwy etholaeth ar wahân. Dylai'r ddinas, gan gynnwys Penrhosgarnedd, fod ag un AS. Byddai ei rhannu'n golygu dau AS yn cynrychioli'r un ddinas, gan arwain at ddryswch a dyblygu diangen. Byddai'n llai trafferthus ac yn fwy rhesymegol iddi gael ei chynnwys yn Nwyfor Meirionnydd, gan ei bod yn cynnwys pencadlys yr heddlu, y llysoedd, yr ysbyty a'r holl wasanaethau cyhoeddus eraill y mae preswylwyr yn eu defnyddio ac y byddant am i'w AS fynd i'r afael â materion yn ymwneud â nhw. Trwy ei rhannu'n unol â'r cynigion, ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i ddaearyddiaeth, wardiau cyfagos, cymunedau a gwasanaethau, neu fel arall mae gormod o synnwyr cyffredin wedi'i aberthu i gyd-fynd â nifer y pleidleiswyr. Os felly, dylid ystyried symud ardaloedd fel Tywyn a'r Bala i etholaethau i'r de, o ystyried pa mor agos y mae Tywyn at Aberystwyth ac ati.

BCW-8884/ [REDACTED] Anhysbys

Oddi wrth: [REDACTED]

I: [BCW](#)

Pwnc: Lleihau nifer yr ASau

Dyddiad: 08 Medi 2021 13:29:35

Annwyl Syr

Mae'r syniad o leihau nifer yr ASau sy'n cynrychioli Cymru yn peri pryder difrifoli mi. Mae llais Cymru yn San Steffan eisoes yn wan iawn. Nid yw Cymru'n cael ei thrin ag unrhyw barch. Trwy leihau nifer yr ASau, bydd pethau ond yn gwaethygu i Gymru os bydd hyn yn digwydd.

Os caiff y cynlluniau hyn eu rhoi ar waith, rwy'n credu y gwelwch fwy o alw am Gymruannibynnol.

Cofion_gorau,

[REDACTED]

BCW-8885 / [REDACTED] / Llanbradach

Mae llais etholwyr yng Nghymru, sydd eisoes yn bitw, yn cael ei ddistewi, i bob pwrpas, er budd y mwyafrif yn Lloegr – maen nhw (senedd Lloegr) wedi deddfu ar gyfer hyn er mwyn sicrhau ei fod yn digwydd.

Mae'r newid i'r ffin sy'n symud Llanbradach, sydd wedi'i leoli 2 filltir o ganol Caerffili, yn chwerthinllyd. Rydym yn byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, ond mae honno'n cael ei dosrannu i fod yn rhan o Gasnewydd.

Rwy'n gwrthwynebu'r newid i'r ffin a chael gwared ag 8 AS o Gymru (p'un a ydynt yn llefarwyr i'w pleidiau nad ydynt yn werth eu treuliau, heb sôn am eu cyflogau, neu beidio). Mewn gwirionedd, rhoi taw ar lais Cymru yw hyn.

BCW-8886 / [REDACTED] / Wreccsam

Rwy'n byw 5 milltir o ganol Wreccsam.

Rwy'n talu rhent a'r Dreth Gyngor i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, ond mae'r cynnig hwn yn alinio rhan fawr o dde-orllewin Wreccsam â'r Drenwydd ym Mhowys, sydd 45 milltir i ffwrdd. Dywed rhesymeg a thegwch y dylai etholaeth arfaethedig Wreccsam gynnwys Bwrdeistref Sirol Wreccsam i gyd.

Mae cymunedau Pen-y-cae, Rhiwabon, Cefn Mawr ac ati yn haeddu gwell. A wnewch chi ailystyried, os gwelwch yn dda?

BCW-8887 / [REDACTED] / Brynaman

Sut allai Cwm-gors, GCG, Brynaman Isaf a Thai'r Gwaith fod yn gysylltiedig â Phowys? Nid oes unrhyw gysylltiad â'r ardaloedd hyn. Os unrhyw beth, mae ganddynt fwy o gysylltiad â Sir Gaerfyrddin. I fynd i Bowys, byddai angen i etholwyr yn yr ardaloedd uchod deithio drwy Sir Gaerfyrddin, i Gastell-nedd Port Talbot, yna Sir Gaerfyrddin ac yna i Bowys. Felly, byddant yn teimlo'n ddigysylltiad ag etholaeth newydd Powys. Rhydaman yw ein cyfeiriad post.

BCW-8890 / [REDACTED] / Rhuthun

Nid yw'n gwneud synnwyr i Ruthun, sydd wedi'i lleoli'n ddaearyddolyn Nyffryn Clwyd, gael ei grwpio ag etholaeth sydd wedi'i lleoli y tu allan i Ddyffryn Clwyd, gan mwyaf, ac wedi'i dominyddu gan drefi arfordirol ôl-ddiwydiannol.

Mae ein heconomiâu'n wahanol i rai'r trefi ôl-ddiwydiannol, yn y bôn, sydd angen strategaeth hollol wahanol a llawer mwy o fuddsoddiad cyhoeddus. Mae ein grwpio â lleoedd fel Yr Wyddgrug, Glannau Dyfrdwy a Phrestatyn mwy neu lai yn sicrhau y bydd eu blaenoriaethau nhw o ran buddsoddiad yn cael eu rhoi uwchlaw ein rhai ni, ac nid yw'r blaenoriaethau hynny'n debyg o gwbl. Byddai ein cynrychiolaeth yng Nghaerdydd a San Steffan yn alaethus.

Rydym yn dref wledig, ac mae ein demograffeg a'n blaenoriaethau'n debycach i leoedd fel Dinbych, Llangollen a Chorwen; mae'n rhaid eifod yn gwneud mwy o synnwyr cael ein cynrychioli yn yr un etholaethâ'r rhain? Fel yna, bydd gennym ni gynrychiolaeth ystyrlon ar lefel genedlaethol, yn hytrach na dod yn ail i drefi a chymunedau sy'n wahanol iawn i'n un ni.

BCW-8891 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Rydym wedi gwybod ers tro bod Caerdydd yn ymgripio tua'r gorllewin, ond y consensws lleol oedd y byddai'n dod i ben ger yr A4119. Bu Brynsadler a Phont-y-clun ym Morgannwg Ganol / Rhondda Cynon Taf, ac mae'r newid hwn yn ymrannu ardal yr awdurdod unedol, gyda'r ysgol gyfun leol, sef Y Pant, yn cael eu gwahanu hyd yn oed. Byddai'n gwneud mwy o synnwyr i gadw Brynsadler a Phont-y-clun gyda Thonysguboriau (sy'n rhannu Ysgol y Pant) yn etholaeth Pontypridd (neu etholaeth y Rhondda hyd yn oed gyda Llanhari a Llanharan). Mae ymlediad trefol Gorllewin Caerdydd allan o reolaeth, ac mae angen tynnu llinell ar hyd yr A4119. Ni ddylai fod yn gwneud ei ffordd ymhellach i'r gorllewin na chyffordd 34 yr M4. Yn yr un modd, mae'r de o'r M4 yn ein hardal ni wedi teimlo fel Bro Morgannwg, yn gyffredinol, fel y mae ar hyn o bryd. Byddai'r rhain yn creu ffiniau da ar gyfer etholaeth seneddol yn ein hardal.

BCW-8892 / [REDACTED] / Bangor

Fel rhywun sydd wedi byw ym Mangor ar hyd fy oes, rwy'n gweld y cynnig i rannu fy ninas enedigol yn ei hanner yn hollol hurt. Sut ar y ddaear ydych chi'n disgwyl i'r ddinas hon weithio os yw'n rhan o ddau awdurdod lleol ar wahân â rheolau a pholisïau gwahanol?

Rhaid i Fangor gael ei chadw'n gyflawn mewn un sir neu'r llall. Ni allwch chi ganiatáu i'r gwiriondeb hwn ddigwydd.

BCW-8893 / [REDACTED] / Llangollen

Nid yw'n gwneud fawr o synnwyr i mi fod Llangollen yn yr un etholaeth â'r Trallwng a'r Drenewydd, o ystyried pa mor anodd ydyw i deithio rhyngddynt, yn enwedig os nad oes gennych chi gar.

Hyd yn oed gyda char, mae'n gyflymach mynd drwy Loegr!

Rwy'n poeni y bydd hyn yn arwain at Langollen (a'r amgylchoedd) yn cael ei hanwybyddu neu ei chynrychioli'n wael ar lefel seneddol yn San Steffan.

BCW-8894 / [REDACTED] / Llangollen

Mae rhannu Bangor fel hyn mor anhygoel o anystyriol, ni allaf feddwl am ffordd gwrtais o'i ddisgrifio hyd yn oed. Beth ar y ddaear?

Ynghyd â chynnwys y ddinas hon, sy'n cefnogi Plaid/Llafur, yn sedd ddiogel y Ceidwadwyr yn Aberconwy, mae'n edrych fel cyffindwylo amlwg i mi.

Rwy'n erfyn yn gryf ar y Comisiwn i ailystyried y penderfyniad hwn.

BCW-8895 / [REDACTED] / Magwyr

Fel un o breswylwyr pentref gwledig Magwyr, Sir Fynwy, rwy'n cefnogi'n llwyr y cynnig i adlinio etholaeth Sir Fynwy i gynnwys Magwyr.

Rwyf wir yn credu y bydd yn cael ei gynrychioli'n well yn y Senedd gan AS Sir Fynwy, yn hytrach na'r AS ar gyfer ardal drefol Dwyrain Casnewydd.

BCW-8896 / [REDACTED] / Caerdydd

Mae cadw'r ardal hon (i'r de o'r rheilffordd) yn rhan o Dredelerch a pheidio â'i hychwanegu at etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn achosi problem.

Fel y dywed tudalen 6 yn yr adroddiad cynigion cychwynnol, ni ddylai etholaethau fod â "rhannau datgysylltiedig".

Ar sail y map ar dudalen 45, rwy'n herio'r Comisiwn Ffiniau i gerdded o Trowbridge i weddill yr etholaeth heb fynd i Dredelerch a heb wlychu.


Mae cymuned Trowbridge yn ynys i ffwrdd o'r Sblot, mewn gwirionedd, gan mai'r unig ffin ranedig yw Môr Hafren (gweler y llun atodedig â'r ffin wedi'i hamlinellu'n goch).

Mae'r ardal dan sylw yn un diwydiannol yn bennaf, ac ni fyddai'n cael llawer o effaith ar nifer y pleidleiswyr yn y ddwy etholaeth sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol.

Mae'r parc diwydiannol eisoes wedi'i rannu, gyda rhan ohono ynn Nhredelerch a rhan ohono yn Trowbridge.

Cardiff South and Penarth (De Caerdydd a Phenarth)

1 : 21,448



- 1 - St. Augustine's (5,318)
- 2 - Cornerswell (4,069)
- 3 - Llandough (1,578)
- 4 - Stanwell (3,365)



BCW-8897 / [REDACTED] / Penarth

A allwn ni gael ein hailgysylltu a'n sir, Bro Morgannwg, os gwelwch yn dda? Nid oes llawer yn gyffredin rhwng Penarth a'r rhannau dwyreiniol pellaf o Gaerdydd, sydd bron a bod yng Nghasnewydd. Heffern gael ein cynrychioli'n gyffredin a'n tref sirol gyfagos, sef Y Barri. Yna, gellid rhoi Gorllewin y Fro yn etholaethau Pen-y-bont ar Ogwr, a fyddai'n cynrychioli'r cysylltiadau diwylliannol ac economaidd agosaf sy'n bodoli yng Ngorllewin y Fro.

Trwy grwpio Canol a Dwyrain y Fro gyda'i gilydd, caiff nifer gywir y pleidleiswyr eibodloni a 4 anheddiad (Y Barri, Penarth, Dinas Powys a Sili - tua 100,000 o breswylwyr) yn yr un etholaeth a dan yr un cyngor sir. Prin yw'r trefi/pentrefi hyn ddwy filltir oddi wrth ei gilydd, ymhell oddi wrth ffiniau cyfagos.

BCW-8898 / [REDACTED] / Caerdydd

Yn lleol, caiff ei hystyried yn Llys-faen, Caerdydd; nid Llys-faen, Caerffili.

Nid oes llawer o bobl yn gwybod bod Llysfaen yn croesi dwy etholaeth, mewn gwirionedd, a dim ond pan wnaed gwaith ymchwil y darganfuwyd hyn.

Roedd y ffiniau'n arfer bod yn wahanol, ac mae gwybodaeth a ffiniau daearyddol hanesyddol yn ymwneud â'r ardal hon. Pe byddech yn ymweld, byddech yn sylweddoli bod Llys-faen Caerffili ond yn edrych dros Lys-faen a Chaerdydd, nid Caerffili. Mae'r prif gysylltiadau ffordd o Gaerdydd, nid Caerffili (dim ond ffyrdd gwledig o Gaerffili).

Yn hanesyddol, rhoddwyd y neuadd gymuned leol i gymuned Llys-faen Caerdydd gan breswylwyr The Mount, Rudry Road, ac mae'r adeiladau allanol bellach wedi'u rhannu'n nifer o anheddau. Roedd hyn i gyd yn cael ei ystyried yn rhan o Gaerdydd yn hanesyddol.

A fydddech cystal ag ailystyried y penderfyniad hwn a newid y ffiniau, o bosibl, i gynnwys y tai ar hyd Rudry Road, sef llai na 10 tŷ a fyddai'n cael yr effaith leiaf, ond a fyddai'n cael effaith leol sylweddol.

BCW-8899 / [REDACTED] / Porthcawl

A wnewch chi labelu'r ardal sy'n cynnwys Porthcawl fel De Morgannwg neu rywbeth o radd uchel yn hytrach nag Aberafan Porthcawl, sy'n enw mor anneniadol ac yn ofnadwy o ddiddychymyg.

BCW-8900 / [REDACTED] / Casnewydd

Mae'r syniad hwn yn hurt ac wedi'i ysgogi'n wleidyddol. Os ydych chi am i bleidleisiau pawb fod yn gyfwerth, yna mae angen i chi ddiwygio'r system, diddymu'r drefn 'y cyntaf i'r felin' a rhoi rhyw fath o gynrychiolaeth gyfrannol ar waith. Mae llais Cymru eisoes yn cael ei orlethu gan lais llawer uwch Lloegr, a bydd cael llai o seddi ond yn gwneud hyn yn waeth. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â chyfuno seddi presennol y Blaid Lafur i gael llai o ASau. Daw beth fyddai'n 4 sedd ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Merthyr, a Dwyrain Casnewydd (sydd i gyd yn seddi Llafur) yn 3.

Ar hyn o bryd, rwy'n pleidleisio mewn ardal Lafur yn bennaf, ac ni fyddai'n gwneud gwahaniaeth pe byddwn yn penderfynu pleidleisio dros unrhyw un arall, oherwydd bydd lle rwy'n byw yn pleidleisio dros Lafur bob tro. Felly, mae fy mhleidlais yn golygu dim. Mae'r un peth yn wir ar draws y DU; oni bai eich bod yn byw mewn etholaeth lle gallai'r bleidlais gael ei throï, mae eich pleidlais yn golygu dim os yw'n mynd yn groes i'r mwyafrif yn eich ardal. Mae cynrychiolaeth gyfrannol neu gynrychiolaeth amgen yn golygu y caiff fy mhleidlais ei hystyried, o leiaf, ac mae pleidlais pawb o'r un gwerth, ni waeth lle maent yn byw. Ymarfer mewn cynnal y sefyllfa bresennol i'r rhai sydd mewn grym yw hwn, a'i gwneud yn anoddach i unrhyw un arall gael gwared â nhw o'r llywodraeth.

Mae'r cynnig ar gyfer Blaenau Gwent a Rhymni yn arbennig o hurt. Mae'r etholaeth bron â chael ei rhannu'n 2 gan Islwyn. Nid yw'r hyn sy'n effeithio ar Flaenau Gwent yn effeithio ar Rymni. Mae'n gwm hollol wahanol. Nid wyf yn ymweld â Rhymni na Thredegar Newydd ar unrhyw adeg, ac rwy'n amau'n fawr bod pobl sy'n byw yno'n ymweld ag Abertyleri neu Flaenau. Y cwbl rydych chi wedi'i wneud yw cymryd yr ardaloedd tlotaf o etholaeth bresennol Caerffili, a'u cyfuno â'r ardal dlotaf yng Nghymru ym Mlaenau Gwent.

BCW-8901 / [REDACTED] / Trefaldwyn

I bwy bynnag y mae'n berthnasol,

Fel rhywun a gafodd ei fagu yn yr ardal leol, ac a aeth i'r ysgol uwchradd yn Rhuthun a Dinbych, rwy'n gweld y syniad y byddant mewn etholaethau gwahanol yn amheus ac yn gynrychiolaeth wael o fywyd yn yr ardal o ddydd i ddydd.

Mae nifer sylweddol o bobl yn teithio rhwng y ddwy dref bob dydd oherwydd eu hagosrwydd at ei gilydd, ac mae'r ardaloedd lleol yn rhannu llawer o amwynderau â'i gilydd (mae Tesco yn Rhuthun ond mae Morrisons yn Ninbych). Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o'r ffyrdd yn yr ardal yn mynd tua'r gogledd/de, felly mae pethau sy'n digwydd naill ai yn Rhuthun, Dinbych neu ymhellach i'r gogledd yn Llanelwy, yn dueddol o effeithio ar y trefi eraill (maent yn rhannu'r un ffordd, afon ac roeddent yn rhannu rheilffordd amser maith yn ôl), felly mae'r un llifogydd neu dagfeydd traffig yn effeithio arnynt yn aml.

Hyd yn oed wrth anwybyddu'r dadleuon economaidd, mae Dyffryn Clwyd ei hun yn ffinio'n ddaearyddol â'r bryniau sy'n rhedeg rhwng y gogledd a'r de i'r dwyrain a'r gorllewin ohono. Oherwydd hyn, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yn y dyffryn yn byw'r mwyafrif o'u bywydau o ddydd i ddydd yn y dyffryn ei hun, gan ei fod yn osgoi gorfod croesi'r bryniau mewn lleoedd fel Clwyd Gate.

Felly, mae'n gwneud synnwyr daearyddol i beidio â rhoi'r Wyddgrug, sydd mewn dyffryn gwahanol, yn yr un etholaeth â Rhuthun ac, yn lle hynny, byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr i weld Rhuthun yn yr un etholaeth â Dinbych a Llanelwy.

Fodd bynnag, dylwn nodi nad yw'r ymraniad hwn ar hyd y gogledd/gorllewin yn dal dŵr ar yr arfordir. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr A55 a hen ffordd yr arfordir, sydd wedi arwain at gysylltiadau llawer gwell rhwng y trefi arfordirol yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint rhwng y dwyrain/gorllewin (er bod hyn yn amlygu'r ffaith bod Prestatyn mewn etholaeth wahanol i'r Rhyl a Rhuddlan hefyd, sydd braidd yn od).

Rwy'n deall bod gwahanu'r ardaloedd gwledig hyn yn lled gyfartal yn ôl poblogaeth yn dasg anodd iawn, ond i rywun sy'n byw ym mhen uchaf Dyffryn Clwyd, byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr siarad ag un AS am swyddi a chwynion, yn hytrach na rhannu dyffryn sydd â chysylltiadau mor dda yn ei hanner.

Yn hytrach, os caf i fod mor hyf, efallai y byddai'n gwneud mwy o synnwyr i gynnwys Rhuthun a rhan uchaf Dyffryn Clwyd i gyd yn etholaeth newydd Clwyd (lleoedd fel Bodfari, Gellifor a Llandyrnog), a'u cyfnewid â Delyn am leoedd i'r gogledd o'r A55 (fel Y Rhyl a Rhuddlan). Fel hyn, byddai'r ffin newydd rhwng Clwyd a Delyn yn dilyn y ddaearyddiaeth leol yn sylweddol well, ac mae'n debygol y byddai'n fwy greddfod o lawer o'r rhai sy'n byw yn Nyffryn Clwyd mewn gwirionedd, na fyddant yn cael eu cynnwys yn etholaeth Clwyd dan y cynigion cyfredol.

Diolch yn fawr,

BCW-8902 / [REDACTED] / Porthcawl

Syniad ardderchog. Bydd yn braf cael bod mewn etholaeth sydd â chysylltiad helaeth â lan y môr, yn hytrach na bod ynghlwm wrth y cymoedd. Efallai y bydd Porthcawl yn cael y sylw mae'n ei haeddu fel tref glan môr.

BCW-8903 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'r pentref hwn wedi'i wasanaethu'n dda iawn gan RhCT yn y gorffennol, ac nid wyf yn credu y bydd rheolaeth dan Orllewin Caerdydd yn dod ag unrhyw fanteision.

Un enghraifft: mae casgliadau gwastraff RhCT yn well o lawer na Chaerdydd.

BCW-8904 / [REDACTED] / Caerdydd

Rwy'n byw yn ardal Maendy yng Nghaerdydd, sef y rhan fwyaf deheuol o Ogledd Caerdydd, yn ôl y ffiniau cyfredol a'r ffiniau newydd.

Rwy'n ei gweld braidd yn od nad ydym yn rhan o Ganol Caerdydd, oherwydd mae llawer o bobl o'm cwrpas sydd naill ai'n fyfyrwyr neu'n cerdded i ganol y ddinas. Fy ngorsaf drenau agosaf yw Cathays, ac rwy'n rhannu llawer mwy o fuddiannau â phobl ar draws y ffin yn Cathays nag yng ngogledd yr etholaeth, o ystyried yr angen am deithio llesol, ffyniant y brifysgol a chanol y ddinas, ac ati.

Byddwn yn awgrymu cael mwy o etholaethau llai sy'n gyfwerth â Chanol Caerdydd, yn hytrach na'm rhoi mewn etholaeth sydd hefyd yn cynnwys rhan ddwyreiniol Ffynnon Taf, sydd dros dair awr i ffwrdd ar droed, sydd braidd yn od ar gyfer sedd drefol.

BCW-8905 / [REDACTED] / Castell-nedd

Rwy'n credu bod hwn yn newid call iawn i ffin etholaeth Castell-nedd.

BCW-8906 / [REDACTED] / Cwmbrân

Rwy'n falch iawn y bydd ein hetholaeth yn rhan o Dorfaen am ddau reswm. Mae gan Sir Fynwy lawer mwy o bleidleiswyr na Thorfaen, ac mae bod â rhan o Gwmbrân y tu allan i Dorfaen yn anomaledd.

BCW-8907 / [REDACTED] / Bangor

Newidiadau ofnadwy sy'n chwalu cymunedau Bangor.

BCW-8908 / [REDACTED] / Bangor

Mae symud Dyffryn Ogwen i etholaeth a fydd yn cael ei gweinyddu o Landudno neu Fae Colwyn, yn ôl pob tebyg, yn hurt bost. Mae'r ad-drefniant diwethaf, lle y symudom i Arfon, yn gweithio'n dda ac yn rhesymegol yn ddaearyddol.

BCW-8909 / [REDACTED] / Bangor

Rwy'n gwrthwynebu'r ffin hon, gan ei bod yn gwahanu ardal Penrhosgarnedd oddi wrth weddill Bangor. Er bod y cymunedau hyn yn cael eu gweinyddu ar wahân ar lefel llywodraeth leol, mae'r cysylltiadau diwylliannol rhyngddynt, a'u haliniad agos ar faterion o bryder gwleidyddol, yn golygu bod y newid arfaethedig i'r ffin yn llinell derfyn amlwg rhwng dwy gymuned y dylid eu cadw gyda'i gilydd.

BCW-8910 / [REDACTED] / Caerdydd

Un o brif nodau'r arolwg hwn oedd sicrhau gostyngiad cymesur i nifer yr ASau yn San Steffan, gan leihau'r costau cysylltiedig. Dan y cynigion hyn, mae cyfanswm net yr ASau yn aros fel y mae, ac mae nifer yr ASau yn cael ei hailddosbarthu ar draws y cenhedloedd. Mae Cymru a'r Alban yn gweld gostyngiad yn nifer yr ASau sy'n eu cynrychioli, tra mae Lloegr yn gweld cynnydd. Mae hyn yn gwanhau lleisiau'r cenhedloedd yn San Steffan, gan gynyddu'r diffyg democrataidd ymhellach. Mae Tŷ'r Cyffredin eisoes yn denu beirniadaeth am ganolbwyntio ar Loegr a pheidio â mynd i'r afael ag anghenion y cenhedloedd (a'r tu allan i'r M25, i raddau tebyg). Mae'r cynnig hwn yn cynyddu'r feirniadaeth honno ymhellach. Mae angen ailstrwythuro cyfannol ar fodel Senedd San Steffan, yn hytrach nag ymarfer ailddosbarthu syml i sicrhau cynrychiolaeth ddilys i bob un o'r cenhedloedd (a rhanbarthau Lloegr, yn yr un modd), a sicrhau y gall y llywodraeth (pa un bynnag ydyw – rwy'n dweud hyn o safbwynt anwleidyddol) gael ei dwyn i gyfrif o ddifrif. Mae diffyg democrataidd sylfaenol yn y cynnig hwn sy'n mynnu ystyriaeth bellach.

BCW-8911 / [REDACTED] / Abertawe

Gwastraff amser ac arian. Beth fydd hyn yn ei gyflawni? Yn bwysicaf oll, faint fydd yn ei gostio i mi mewn cynnydd yn y dreth gyngor?!?!

BCW-8912 / [REDACTED] / PRESTATYN

Hoffwn longyfarch pawb a ddatblygodd y cynnig hwn. Fues i'n chwarae â'r rhifau fy hun, ac rwy'n gwybod pa mor anodd yw dod o hyd i rywbeth ymarferol o fewn y paramedrau penodedig.

Wrth gwrs, nid yw'n ddelfrydol, ond nid oes unrhyw opsiwn delfrydol, ac mae pob opsiwn arall rwyf wedi clywed amdano, neu wedi'i lunio fy hun, yn waeth.

BCW-8913 / [REDACTED] / Ffos y Gerddinen

Mae'r newid arfaethedig i'r etholaethau yn fy ardal i yn anwybyddu perthnasoedd a hanes pobl a sefydliadau lleol â'r ardaloedd cyfagos, ac yn anwybyddu'n llwyr pa ysgolion y mae pobl leol yn eu mynychu a'r wahanol bobl maent yn rhyngweithio â nhw o'r ysgolion hyn, sy'n cryfhau'r cysylltiadau rhwng trefi a phentrefi.

BCW-8914 / [REDACTED] / Hengoed

Mae hyn yn gywilyddus. Ffordd i leihau nifer yr ASau Llafur yn y Senedd. Rwy'n anghytuno'n llwyr â'r cynnig hwn.

BCW-8915 / [REDACTED] / Wreccsam

Mae'r cynnig ar gyfer sedd newydd Glyndŵr a Maldwyn yn ddiffygiol iawn, yn fy marn i.

I ddechrau, mae'r ardal ddaearyddol yn rhy fawr. Ni fydd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n effeithiol gan un unigolyn sy'n ceisio ymdrin ag ardal mor fawr. Gan fod y Senedd yn eistedd bedwar diwrnod yr wythnos, ychydig iawn o amser sy'n weddill i un unigolyn deithio o gwmpas ardal fawr heb gysylltiadau trafnidiaeth da.

Rwyf hefyd yn teimlo nad yw'r sylwadau bod yr ardaloedd hyn yn rhannu'r un nodweddion gwledig yn hollol wir. Mae aneddiadau fel Pen-y-cae, Rhiwabon, Cefn Mawr, Acrefair a'r Waun yn fwy trefol nag yn wledig eu natur, ac maent yn aml yn ymuno â'i gilydd i greu aneddiadau o faint tref. Rwy'n credu bod y cymunedau hyn wedi'u hychwanegu i greu'r niferoedd er mwyn i'r sedd newydd hon weithio ar bapur. Mae'r pentrefi hyn yn rhan o ardal Wreccsam, a dylent gael eu cynnwys yn yr etholaeth honno.

Mae canran y pleidleiswyr eisoes yn dirywio yn y wlad hon, a bydd ail-lunio'r ffiniau mewn ymarfer mor annealladwy, sydd wedi'i lywio gan fathemateg, ond yn difreinio ac yn drysu pobl.

BCW-8916 / [REDACTED] / Caerffili

Nid wyf am i Faesycwmer ddychwelyd i etholaeth Islwyn. Rydym wedyn gwneud yn well o lawer, gydag adnoddau a chynrychiolaeth well, fel rhan o Gaerffili. Cawsom ein hanwybyddu'n rhan o Islwyn, i raddau helaeth. Mae ailfapio'r ffiniau hyn yn ymddangos yn annatblygedig, ar y gorau, ac mae'n ystyried nifer y pleidleiswyr yn unig, yn hytrach na'r ardal ac amrywiaeth pobl ac ati. Mae hefyd i'w weld fel petai wedi'i lunio i greu mwy o duedd o ran pleidleisio er mwyn atal newid.

BCW-8917 / [REDACTED] / Porthcawl

Rwy'n cefnogi'r symudiad hwn yn llwyr – mae'n cynrychioli llawer o'r pryderon a fu gan bobl ynghylch y gwahaniaethau rhwng y ddwy sir, a'r ffafriaeth i fod mewn un ohonynt yn hytrach na'r llall.

BCW-8918 / [REDACTED] / Abertawe

Mae cynnig cyfuno Cwm Tawe ag Aberhonddu a Maesyfed yn hollol hurt – maen nhw'n ardaloedd hollol wahanol, ac nid yw'n gwneud synnwyr i rannau o Gastell-nedd Port Talbot ymuno ag etholaeth ym Mhowys.

BCW-8919 / [REDACTED] / Aberpennar

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynigion i wahanu rhan isaf Cwm Cynon oddi wrth y rhan uchaf a'i chyfuno â Phontypridd, sef etholaeth nad oes ganddi fawr yn gyffredin â hi, ac rwy'n gwrthwynebu colli Cwm Cynon fel cymuned (sydd, yn ôl ei diffiniad, yn dechrau yn Abercynon ger cydlifiad afon Cynon ac afon Taf, ac yn ymestyn i Hirwaun). Mae gan Gwm Cynon hunaniaeth yr un mor gryf â'r Rhondda; fodd bynnag, nid oes cynnig i rannu'r Rhondda. Gallaf ddeall ailddosbarthu ardaloedd Taf Elái yn Rhondda Cynon Taf, gan nad oes gan y rhain hunaniaeth mor gryf â Chwm Cynon neu Gwm Rhondda, ond os yw'r Rhondda am aros fel y mae, dylai Cwm Cynon hefyd.

Wedi dweud hynny, rwy'n cytuno ag ailgynnwys Glyn-coch a Chilfynydd yn etholaeth Pontypridd, gan fod gan y rhain gysylltiad cryf â thref Pontypridd ei hun. Yn yr un modd, mae'n gwneud synnwyr ailgynnwys Ynys-y-bwl a Choed-y-cwm, o ystyried eu daearyddiaeth, sydd wedi'i gwahanu oddi wrth Gwm Cynon. Fodd bynnag, ni welaf unrhyw synergedd rhwng Abercynon, Aberpennar neu Aberaman a Phontypridd, a byddwn yn poeni, o ystyried bod y cymunedau hyn ymhlith rhai o'r tlotaf yn ne Cymru, y byddai'n lleisiau'n cael eu colli ymhlith y cymunedau mwy cefnog i'r de, yn enwedig Pentre'r Eglwys, Llantrisant, Llanilltud Faerdref, Ton-teg, Tonysguboriau ac ati. Byddwn yn gweld mwy o synergedd drwy gynnwys cymunedau isaf y Rhondda, fel Cymer, Trehafod a Threbanog ac ati ym Mhontypridd, yn hytrach na rhannu Cwm Cynon, gan fod Y Porth yn cael ei hystyried yn eang yn borth Y Rhondda, felly byddai'n deg cynnwys unrhyw beth i'r de ohoni ym Mhontypridd.

Mae rhan isaf Cwm Cynon ymhell o Bontypridd, yn ddaearyddol ac yn wleidyddol. Os oes rhaid rhannu Cwm Cynon, byddai'n gwneud mwy o synnwyr rhannu Merthyr a chyfuno Aberdâr â thref Merthyr Tudful a'r wardiau i'r gogledd hefyd, a chyfuno rhan isaf Cwm Cynon â rhan isaf Merthyr (Ynysowen, Bedlinog, Treharris, Ffos y Gerddinen ac ati), gan nad oes gan yr ardal hon gysylltiadau agos iawn â thref Merthyr ei hun, ac maent yn gymharol agos at ran isaf Cwm Cynon o ran daearyddiaeth a chymeriad, gyda theithio sylweddol rhwng y ddwy ardal.

BCW-8920 / [REDACTED] / Abertawe

Mae ward Trowbridge i gyd yn Ne Caerdydd a Phenarth wedi'i gwahanu'n ddaearyddol oddi wrth weddill yr etholaeth gan ward Tredelerch yng Nghanol Caerdydd. Mae hyn yn amlwg yn difreinio preswylwyr ward Trowbridge.

BCW-8921 / [REDACTED] / Bangor

Sut ar y ddaear allwch chi gyfiawnhau rhannu Bangor yn ei hanner? Rydym yn un ddinas, ac yn un fach at hynny! Sut allwn ni gael ffin yn ein rhannu'n hanner? Mae anghenion dinasyddion Bangor yn cael eu hanwybyddu'n rheolaidd, ac anaml iawn yr eir i'r afael â'r problemau sydd gennym ni yma. Rhowch Fangor i gyd mewn un etholaeth neu'r llall, os gwelwch yn dda. Synnwyr cyffredin yw hynny!

BCW-8922 / [REDACTED] / Abertawe

Yn bersonol, rwy'n credu bod yr enw Dwyfor Meirionnydd braidd yn gamarweiniol, ac efallai y dylid rhoi'r enw Gwynedd i'r etholaeth hon yn syml, gan ei bod yn cynnwys bron i sir Gwynedd i gyd.

BCW-8923 / [REDACTED] / Abertawe

Mae'r enw Aberhonddu a Maesyfed yn gamarweiniol, yn enwedig gan nad Aberhonddu a Maesyfed yw'r trefi mwyaf yn yr etholaeth hon. Byddai Sir Frycheiniog, Sir Faesyfed a Chwm Tawe yn enw gwell, gan ei fod yn cynnwys yr etholaeth gyfan yn yr enw am y tro cyntaf.

BCW-8924 / [REDACTED] / Llangollen

Mae'r etholaeth arfaethedig yn rhy fawr o lawer i'w chynrychioli gan un AS. Byddai'n cymryd mwy nag 1 awr 30 i deithio o'r gornel uchaf, lle rwyf i'n byw, i'r gwaelod oherwydd y seilwaith gwael yng Nghymru. Yn yr achos hwn, sut byddai'r AS yn hygyrch i'w etholwyr?

BCW-8925 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'n HOLLLOL HURT cynnwys Porthcawl, Y Pîl, Mynydd Cynffig ac ati gydag Aberafan. Nid oes unrhyw gysylltiadau hanesyddol na chymdeithasol, dylai'r ffiniau aros ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan mai dyna lle mae'r cysylltiadau.

BCW-8926 / [REDACTED] / Pontypridd

Mae etholaeth Pontypridd i'w gweld yn ymestyn yr holl ffordd o ymyl ogleddol Caerdydd, hanner ffordd i fyny Cwm Cynon, sy'n golygu bod rhan isaf Cwm Cynon wedi'i gwahanu oddi wrth y rhan uchaf, er mai un cwm ydyw ac, yn rhesymegol, un etholaeth. Ymddengys mai'r nod yng Nghymru yw lleihau nifer y seddau sy'n cael eu dal gan y Blaid Lafur, yn draddodiadol, gan helpu'r Llywodraeth Geidwadol i aros mewn grym. Nid oes fawr o ddiben dweud mwy, gan fod pob un ohonom yn gwybod y bydd yn digwydd, ni waeth beth yw barn pobl. Democratiaeth ar waith! (Eironi yw hyn, gyda llaw).

BCW-8927 / [REDACTED] Wrecsam

Ni allaf gredu y gall unrhyw un ddweud yr awgrymwyd adlinio'r Mwynglawdd a Brymbo (Bwlchgwyn) ag Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae'r Comisiwn wedi dweud bod ganddynt gysylltiadau da o ran cysylltiadau trafndiaeth, a'u bod yn debyg o ran cymeriad. Mae'n amlwg nad yw pwy bynnag a ddywedodd hyn wedi ymweld â'r ardal. Nid oes unrhyw gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus ag unrhyw un o'r etholaethau eraill yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy. Yn sicr, nid oes unrhyw drafndiaeth gyhoeddus, a dim ond ffyrdd B sydd i gyrraedd yr ardal honno. Nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol o ran eglwysi neu ysgolion, cynradd nac uwchradd. Maent mewn sir wahanol, ac nid yw'r prif drefi, sef Saltney a Chei Connah, yn debyg o gwbl i'r cymunedau gwledig mwy cefnog, gan mwyaf, yn y Mwynglawdd a Brymbo. Ni fydd gan AS sy'n cynrychioli prif dref Cei Connah amser i gynrychioli anghenion cymunedau Y Mwynglawdd a Brymbo. Mae pentref Brymbo yn wahanol iawn ac ni ddylid ei ddrysu â gweddill etholaeth Brymbo.

BCW-8928 / [REDACTED] / Abertawe

Rwyf wedi synnu a'm drysu gan y newid i'r ffin ar gyfer fy ardal leol. Mae'r sylw hwn yn cael ei wneud yn gyflym, ac efallai y byddaf yn gwneud sylwadau pellach wedi i mi gael mwy o amser i feddwl. O ran ein cysylltiadau cymunedol, buom yn byw yn ninas Abertawe erioed; mae ein plant yn mynychu ysgol gynradd ac ysgol uwchradd, ac mae'r ysgolion bwydo yn Abertawe, felly byddai hyn yn effeithio ar eu dewis o ran ysgolion wedi i'r ffin newid. Hefyd, mae ein mab wedi chwarae pêl-droed ers iddo fod yn 5 oed, ac mae'n chwarae i dîm pêl-droed a fyddai'r tu allan i'r ffin, a fydd yn golygu na fydd yn gallu chwarae i'r tîm hwnnw mwyach oherwydd y bydd y tu allan i ardal Abertawe. Mae ein mab yn dioddef gorbryder, ac mae unrhyw newid yn cael effaith niweidiol fawr arno, ac rwy'n gwybod 100% na fyddai'n chwarae pêl-droed mwyach gan y byddai'n ei chael yn rhy anodd addasu i dîm newydd. Mae gennym wasanaethau gofal cymdeithasol hefyd a fyddai'n newid o Abertawe i Gastell-nedd Port Talbot, a fyddai eto'n cael effaith fawr ar wasanaethau. Rydym wedi ein hen sefydlu yn hanes lleol ardal Abertawe, a bydd symud y ffin yn cael effaith negyddol ar gymaint o breswylwyr. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi ailystyried y cynnig hwn?

BCW-8929 / [REDACTED] / Llandysul

Mae llawer o drigolion tref Caerfyrddin na fyddant yn rhan o etholaeth newydd Sir Gaerfyrddin.

Nid yw hyn yn gwneud synnwyr.

BCW-8930/ [REDACTED] Casnewydd

Mae'r cynnig newydd i leihau a chyfuno etholaethau yng Nghymru yn drychinebus. Mae lleihau'r llais sydd gennym yn San Steffan o 40 i 32 yn annheg i bobl Cymru. Teimlaf y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn San Steffan a all effeithio ar Gymru. Mae Cymru'n haeddu gwell!

BCW-8931/ [REDACTED] Bangor

Nid wyf yn fodlon â'r newid hwn.

Rwy'n credu'n gryf y dylai dinas Bangor yn ei chyfanrwydd barhau'n rhan o Arfon, ac nid Aberconwy. Yn bendant, ni ddylai gael ei rhannu gan siroedd etholaethol. Mae Bangor yn rhan o Wynedd a Chyngor Sir Gwynedd, a dylai barhau felly ym mhob rhinwedd.

Dylai'r ffin ddechrau fel y mae ar hyn o bryd, yn Llanfairfechan.

BCW-8932/ [REDACTED] Abertawe

Bydd cynnwys Eastside, gan gynnwys St Thomas, yng Nghastell-nedd yn pardduo hanes yr ardal, sy'n rhan o ddiwydiant copr Abertawe. Mae'r hanes hwn yn ffurfio rhan gynhenid o ailddatblygiad mawr Abertawe, sef 'Bae Copr', ac mae ein hardal yn rhan o ardal SA1. Bydd hyn yn effeithio ar addysg, prisiau tai a hunaniaeth. Cefais fy ngeni a'm magu yn Abertawe, nid Castell-nedd, ac rwy'n anfodlon i'm cartref gael ei ddadleoli i etholaeth Castell-nedd, gan y bydd hyn yn cael effaith fawr ar ddiwylliant ein hardal. Bydd hefyd yn cynyddu prisiau'r Dreth Gyngor. Rwy'n gwrthwynebu hyn yn llwyr.

BCW-8933/ [REDACTED] Bangor

Mae'r newidiadau arfaethedig yn enghraifft haerllug o gyffindwylo.

BCW-8934/ [REDACTED] Wrecsam

Mae hyn yn dangos diffyg ymwybyddiaeth llwyr o hunaniaeth gymunedol gan y Comisiwn Ffiniau. Dylai Ponciau, Pen-y-cae, Acrefair, Rhosllannerchrugog a Rhiwabon i gyd fod yn yr un etholaeth.

BCW-8935/ [REDACTED] Abertawe

Mae hyn yn hurt ac yn gymaint o wastraff arian.

Hefyd, fel mam fabwysiadol, mae'n peri gofid i mi fy mod wrthi'n mabwysiadu ail blentyn na fydd yn gallu cael ei mabwysiadu yn [REDACTED] os bydd fy ALL yn newid. NI fyddaf yn gallu mabwysiadu fy merch newydd, felly mae angen i chi feddwl am yr effaith mae hyn yn ei chael!

Mae'n hollol warthus ac wedi'i lunio gan griw o bobl nad oes ganddynt unrhyw syniad o'r effaith y bydd hyn yn ei hachosi!!!

BCW-8936/ [REDACTED] Aberpennar

Rwy'n poeni am wahanu Aberdâr oddi wrth weddill Cwm Cynon. Nid oes unrhyw wasanaethau, er enghraifft hamdden, rhwng Abercynon ac Aberdâr, ac Aberdâr yw'r dref fwyaf yn yr ardal.

Mae mwyafrif helaeth y bobl sy'n byw yn Aberpennar yn defnyddio Aberdâr fel eu prif dref. Mae'r un peth yn wir ar gyfer unrhyw un sy'n byw i'r gogledd o Aberpennar.

Pe byddai problemau, er enghraifft â chyfleusterau hamdden yn Aberdâr, yna byddai proses gymhleth dros ben ar gyfer codi'r rhain, gan na fyddai gennym AS yn yr ardal a fyddai'n atebol i ni am y rhain.

Rwyf hefyd yn poeni'n arw am effaith y gwahaniad hwn a'r ffaith y bydd yn croesi ffiniau cynghorau lleol. Mae'r ddau gyngor yn gweithredu mewn ffyrdd hollol wahanol, ac mae ganddynt ddiwylliannau hollol wahanol. Byddai'r gwaith hwn yn anodd iawn i bob AS. Fel rhywun sy'n byw yn Aberpennar ond yn gweithio ym Merthyr, mae'r gwahaniaethau hyn yn amlwg iawn.

I gloi, os caiff y cynigion eu cytuno, rwy'n teimlo'n gryf bod angen asesu'r enwau. Nid Pontypridd yw Aberpennar, ac rwy'n gweld hyn yn eithaf sarhaus. Dylai enwau fod yn niwtral ac ni ddylent fod yn gysylltiedig ag unrhyw ward etholiadol neu dref benodol.

BCW-8937/ [REDACTED] Bangor

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Penrhosgarnedd wedi dod yn fwyfwy maestrefol ei natur. Mae'n edrych ac yn teimlo fel rhan o ledaeniad ehangach Bangor. Rwy'n deall bod y cynigion cyfredol ar gyfer ad-drefnu ffiniau llywodraeth leol yn awgrymu cynnwys Penrhosgarnedd mewn ward Bangor sydd wedi'i hadlinio. Byddai'n ymddangos yn gall i'r ffin Seneddol adlewyrchu'r newid hwn. Byddwn yn awgrymu y dylai ymyl yr etholaeth newydd arfaethedig ddilyn llinell yr A55, i'r gorllewin o Benrhosgarnedd, er mwyn ei chynnwys – ynghyd â gweddill Bangor – yn Aberconwy, os bydd y newidiadau arfaethedig yn mynd rhagddynt.

BCW-8938/ [REDACTED] / Abertawe

Nid yw'r cynnig i gynnwys Dwyrain Abertawe â Chastell-nedd yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl. Rwy'n deall yr angen i gydbwyso nifer yr etholwyr, ond mae gan Ddwyrain Abertawe gysylltiad mawr â Chanol Abertawe, a byddai hanes cyfoethog yr ardal sy'n cynnwys y dociau, Mynydd Cilfái a'r ardaloedd cyfagos yn cael eu gwasanaethu'n well o lawer yng Nghanol Abertawe, sydd â pherthynas lawer mwy uniongyrchol â ni. Mae defnyddio'r afon yn unig fel ffin yn wael iawn wrth edrych arni, ac mae'n teimlo fel petawn yn ychwanegiad bach at etholaeth Castell-nedd, pan rydym mor wahanol iddi. Byddem yn dod yn berthynas dlawd ac yn ôl-ystyriaeth yn yr etholaeth. Nid yw'n edrych yn iawn. Nid yw'n teimlo'n iawn. Nid yw'n ymddangos y rhoddwyd unrhyw ystyriaeth iddi y tu hwnt i ffordd hawdd i rannu'r ardal i gydbwyso'r niferoedd.

BCW- 8939/ [REDACTED] Pen-y-bont ar Ogwr

Rwy'n ysgrifennu atoch i wrthwynebu'n gryf y cynnig i dynnu ward Bryntirion, Broadlands a Threlales o etholaeth Pen-y-bont.

Rydym yn rhan o dref Pen-y-bont ar Ogwr ac mae gennym gysylltiadau cryf ag etholaeth Pen-y-bont. Er ein bod yn ward ar wahân, mae gennym gysylltiad cynhenid drwy ysgolion, gwaith a hamdden.

Mae'n hollol hurt bod un o faestrefi Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei symud i etholaeth seneddol arall, tra mae trefi ar wahân sydd â mwy o gysylltiadau hanesyddol a chymunedol ag Aberafan yn parhau yn etholaeth Pen-y-bont.

Byddwn yn erfyn yn gryf arnoch i ailystyried a fyddai'n fwy priodol ystyried symud Maesteg i Aberafan, a gadael tref Pen-y-bont ar Ogwr fel un endid cyflawn yn etholaeth newydd Pen-y-bont.

BCW-8940/ [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Ai Llywodraeth Cymru yw hyn? Cadwch Ben-y-bont ar wahân.

BCW-8941/ [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Sut allwch chi rannu'r ardal sy'n cynnwys Broadlands a Threlales? Nid wyf yn cytuno â rhannu sir o gwbl!

BCW-8942/ [REDACTED] Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Broadlands, Porthcawl a Threlales i gyd yn rhan o Ben-y-bont ar Ogwr. Caiff gwasanaethau eu darparu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'n wirion eu symud i ardal arall. Dylai bob un o ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr aros gyda'i gilydd.

BCW-8943/ [REDACTED] / Corwen

Mae'r etholaeth sy'n cael ei chynnig yn hollol hurt o safbynt wardiau Corwen a Llandrillo. Does gen yr ardaloedd yma ddim cysylltiad daearyddol na hanesyddol hefo trefi Maldwyn neu bentrefi diwydiannol Wrecsam.

Mae plant yr ardal yn mynd i'r ysgol uwchradd yn Y Bala (a rhai i Langollen) ac yn cystadlu yn erbyn a chymdeithasu hefo plant o ysgolion Meirionnydd. Rydym yn mynd i hamddena i ardaloedd Penllyn, Ardudwy neu Benrhyn Llyn. Yn hanesyddol mae'r ardal yn ran o'r hen Sir Feirionnydd.

Byddai Dwyfor Meirionnydd yn gartref llawer mwy naturiol i ardal Cynwyd, Llandrillo a Chorwen. Dyna ein hardal hanesyddol. Dyna lle mae llawer o'n plant yn cael eu haddysg. Dyna lle mae'r ffyrdd a'r drafnidiaeth gyhoeddus yn mynd. Mae bws Traws Cymru T3 yn teithio drwy'r Bala i Ddolgellau a'r Bermo. Nid oes yr un cysylltiadau hefo Maldwyn!

BCW-8944/ [REDACTED] / Hengoed

Mae'n ymddangos fel petai San Steffan, unwaith eto, yn ceisio lleihau llais Cymru cymaint ag y bo modd. Ni allwn ddychmygu peidio â bod â Chaerffili fel fy etholaeth. A oes unrhyw fudd i ni? Nid yw byth yn ymddangos felly i Gymru.

BCW-8945/ [REDACTED] / Pontardawe

Rwy'n byw hanner milltir o ffin sir Abertawe, ar ymyl Castell-nedd Port Talbot dan etholaeth Castell-nedd.

Dan y cynnig hwn, fy AS i fydd yr union un sy'n gwasanaethu canolbarth Cymru i gyd, mor bell â Rhaeadr Gwy!

Nid yw'r bobl yn fy ardal i'n rhannu'r un pryderon â chymunedau gwledig y canolbarth. Nid yw'r boblogaeth wedi'i gwasgaru'n gyfartal, ac mae anghenion economaidd y naill ben a'r llall o'r etholaeth arfaethedig yn hollol wahanol i'w gilydd. Maent yn wahanol yn ddiwylliannol – mae'r ardal hon yn un Gymreig, draddodiadol, ond ni ellir dweud hynny am weddill yr etholaeth arfaethedig.

Hoffwn wybod beth yw'r cyfiawnhad dros lunio'r ffin benodol hon. Mae'n rhyfedd ofnadwy.

Hefyd, mae de Cymru'n ardal lle mae cefnogaeth gref i'r Blaid Lafur. Dan y cynigion hyn, byddai'r blaid yn colli seddau yn y Senedd. Cyfleus iawn i'r blaid sydd mewn grym ar hyn o bryd...

Mae'n siŵr mai'r newidiadau mwyaf amlwg fyddai cyfuno Dwyrain a Gorllewin Abertawe, a chyfuno'r seddau niferus yn y cymoedd, fel Cynon, Islwyn ac ati? Rwy'n deall bod hyn yn ymwneud â'r niferoedd, ond rhaid ystyried ffactorau eraill.

Rwy'n byw 8 milltir o Abertawe ond byddaf â'r AS ar gyfer Aberhonddu, Maesyfed a Maldwyn?? Dim diolch.

BCW-8946/ [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Rwyf o'r farn y bydd rhannu Pen-y-bont ar Ogwr yn ei hanner fel hyn ond yn dadrithio mwy o bobl oddi wrth wleidyddiaeth leol. Bu'n ganmoladwy erioed bod gan Ben-y-bont ar Ogwr yr un ffiniau ar gyfer y Senedd a'r etholaeth seneddol. Trwy newid enw'r sedd, bydd pleidleiswyr sydd newydd gofrestru wedi'u drysu gan yr enwgwahanol, a bydd rhannu cymuned mor glos yn ei hanner ond yn arwain at fwy o ddifaterwch ymhlith pobl ifanc, yn enwedig mewn ardaloedd fel Broadlands, Cefn Glas a Threlales, nad oes gan eu cymunedau unrhyw gysylltiad â Phorthcawl neu Aberafan. Rwyf o'r farn bod hwn yn symudiad negyddol, ac y byddai trefniant nad yw'n rhannu Pen-y-bont ar Ogwr yn ei hanner yn ateb llawer gwell o ran sicrhau bodcanran y bobl sy'n pleidleisio yn parhau o gwmpas 65-70%.

Diolch i chi am ddarllen hwn, [REDACTED]

BCW-8947/ [REDACTED] / Wrecsam

Pa bryd a wnewch chi roi'r gorau i chwarae â hunaniaeth pobl o ran lleoliad? Wrth fyw yn ein hardal leol, bûm yn rhan Sir Ddinbych a De Clwyd. Sawl newid arall fydd? STOIWCH WASTRAFFU EIN HARIAN Y GELLIR EI WARIO'N WELL AR BETHAU

ERAILL! Onid ydych chi wedi clywed am yr argyfwng mewn ieuchyd a gofalcymdeithasol, heb fod unman at agos at fod â digon o feddygon, nyrsys, ambiwlansiau ac ati? Deffrwch cyn y bydd yn rhy hwyr, yr ynyfydion!

BCW-8948/ [REDACTED] / Bangor

Ar y lleiaf, dylai etholaethau fod wedi'u seilio ar faint y boblogaeth ac NID nifer y pleidleiswyr cofrestredig (neu'r etholwyr, fel y'i gelwir yn gryptig yn eich disgrifiad). Cyffindwylllo'n unig yw hyn.

BCW-8949/ [REDACTED] / Anhysbys

Os oes rhaid cyfuno Arfon a Dwyfor Meirionnydd, mae hynny'n ddigon teg, ond maetynnu Bangor/Bethesda yn sgandal llwyr.

Mae'r cynnig hwn yn groes i bob pwynt rydych chi'n honni eich bod wedi'i ystyried. Yn ddaearyddol, yn hanesyddol ac yn economaidd, mae gan Fangor gysylltiad â hendrefi'r chwareli llechi yn Arfon; llawer mwy nag â de-ddwyrain Meirionnydd, sydd â chysylltiadau llawer agosach â Sir Ddinbych.

Ni allaf ddeall sut daeth y pwyllgor hwn i'r canlyniad y byddai'n dderbyniol cyfuno dwy etholaeth wledig sydd eisoes yn enfawr yn ddaearyddol, a rhoi eu dau gyflogwr mwyaf (Prifysgol Bangor ac Ysbyty Gwynedd) mewn etholaeth gyfagos.

BCW-8950/ [REDACTED] / Caerdydd

Cefais fy nychryn pan gefais wybod am y cynnig i leihau nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru i 32. Mae angen mwy o ASau ac Aelodau'r Senedd arnom, nid llai. Os oes 32 AS yn unig, bydd pobl yn teimlo hyd yn oed ymhellach oddi wrth eu ASau nag mae llawer ohonynt yn teimlo ar hyn o bryd. Byddaf hefyd yn cydymdeimlo ag unrhyw AS sy'n cwyno y bydd etholaeth fwy yn rhoi baich gwaith annerbyniol arno ef (neu hi).

Nid yw fel petai etholaethau aml-aelod sy'n cael eu hethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol. Bydd gennym yr un hen system 'y cyntaf i'r felin', annemocrataidd ag un AS i bob etholaeth.

Yn Sweden, sydd â phoblogaeth o tua 10,400,000, mae 349 aelod o'r Riksdag, h.y. un aelod i tua bob 29,800 o ddinasyddion. Yn Y Ffindir, sydd â phoblogaeth o tua 5,500,000, mae 200 aelod o'r Eduskunta, h.y. un aelodau i tua phob 27,500 o ddinasyddion. Yn Nenmarc, sydd â phoblogaeth o tua 5,800,000, mae 179 aelod o'r Folketing, h.y. un aelod i tua phob 32,400 o ddinasyddion. Gallwn ddal i fynd. Yn Nhŷ'r Cyffredin, mae un aelod i tua phob 102,000 o ddinasyddion. Dan eich cynigion, bydd un AS i tua phob 98,000 o ddinasyddion yng Nghymru. (Yn Yr Almaen, sydd â phoblogaeth o tua 83,000,000, mae 709 aelod o'r Bundestag, h.y. un aelod i tua phobl 117,000 o ddinasyddion. Fodd bynnag, yn Yr Almaen, mae llywodraeth ranbarthol gref, sy'n cael ei chynrychioli'n genedlaethol yn y Bundesrat.) Rhaid cyfaddef, rwyf wedi cyfrif pob dinesydd yn y ffigurau hyn, gan gynnwys plant a phobl eraill nad ydynt yn etholwyr. Ac mae'r systemau etholiadol yn newid o un wlad i'r llall, â systemau pleidleisio gwahanol, etholaethau aml-aelod ac ati. Ac nid oes gan unrhyw un o'r gwledydd tramor rwyf wedi sôn amdanynt Dŷ'r Arglwyddi anetholedig yn faich arni, sy'n fwy o lawer o ran niferoedd na Thŷ'r Cyffredin. Ond gallaf weld bod eich dwylo ynghlwm, oherwydd ni allwch gynnig etholaeth sydd â llai na 69,724 o etholwyr, felly mae'n debyg bod fy sylwadau'n wastraff amser beth bynnag.

O ran fy etholaeth fy hun, sef Gorllewin Caerdydd, ni allaf weld sut y gellir ystyried bod Pont-y-clun yn rhan o Orllewin Caerdydd.

Mae eich cynigion yn rhan o ymgais gan y Ceidwadwyr (dangos cardiau adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio, gwanhau'r Comisiwn Etholiadol, system y cyntaf i'r felin i ethol meiri a Chomisiynwyr yr Heddlu, cyfyngiadau ar yr hawl i brotestio) i fachu grym. Byddant yn gwneud Cymru a'r Deyrnas Unedig yn llai democrataidd, yn hytrach nag yn fwy democrataidd. Dywed eich gwefan bod 'rhaid' lleihau nifer yr etholaethau i 32. Nid oes 'rhaid' amdani o gwbl. Nid rhyw fath o ddeddf ffiseg yw hyn. Mae gwahodd sylwadau ar rywbeth a fydd yn digwydd beth bynnag yn rhagrithiol ac yn annemocrataidd.

Rwyf wedi anfon copi o destun y llythyr hwn at fy AS, Mr Kevin Brennan.

BCW-8951 / [REDACTED] / Penarth

Mae etholaeth newydd arfaethedig De Caerdydd a Phenarth yn cynnwys llawer gormod o ganolfannau poblogaeth Bro Morgannwg.

Yn benodol, Penarth, Dinas Powys a Sili.

Mae Bro Morgannwg yn ardal Cyngor ar wahân i Gaerdydd, ac nid yw'n rhannu codau post na chodau deialu hyd yn oed.

Nid oes gan Benarth, Dinas Powys a Sili unrhyw beth yn gyffredin ag ardaloedd de Caerdydd, heblaw'r morlin.

Mae siâp yr etholaeth newydd arfaethedig yn gymhleth dros ben, ac mae'r ffin ddwyreiniol bron â bod yng Nghasnewydd.

Rwy'n byw ym Mro Morgannwg ac rwy'n falch o'r ffaith hwnnw. Mae eisiau AS ar gyfer Bro Morgannwg arnaf, yn hytrach nag AS ar gyfer Caerdydd.

BCW-8952 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r ffin hon yn anymarferol a bydd yn rhannu strydoedd cyfagos i'r rhai sy'n gallu manteisio ar wasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr, a'r rhai na allant wneud hynny o lathenni. Mae Bryntirion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddaearyddol, ac nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr ei dynodi fel arall.

BCW-8953/ [REDACTED] / Anhysbys

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 09 Medi 2021 09:57

At: Ymholiadau <enquiries@boundaries.wales>

Cc: [REDACTED]

Pwnc: Gwrthwynebiad

Gwrthwynebiad

A all rhywun atgoffa'r Comisiynydd Ffiniau fod ffin amlwg rhwng Bro Morgannwg a Chaerdydd.

Mae Penarth, Llandochau Fach, Dinas a Sili i gyd o fewn ffin y Fro. Hoffwn eu cadwtelly.

[REDACTED]

COFION

[REDACTED]

BCW-8954 / [REDACTED] / Aberteifi

Rwy'n credu bod etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli yn rhy fawr o lawer yn ddaearyddol. Byddai'n well cynnwys cymunedau ar hyd dyffryn Teifi sydd yn Sir Gaerfyrddin, fel Castellnewydd Emlyn, Llanybydder ac ati, gyda'u cymdogion dros yr afon yng Ngheredigion. Ni fyddwn yn gwrthwynebu cynnwys ardal lai neu ogledd-ddwyrain Sir Benfro yn yr etholaeth Ceredigion++ hon.

BCW-8955/ – / Penarth

Rwy'n cefnogi cadw Penarth yn rhan o etholaeth De Caerdydd.

Mae gan y dref lawer mwy yn gyffredin a Chaerdydd nag a rhannau mawr o Fro Morgannwg. Mae llawer o'r sir yn wledig ac yn brin ei phoblogaeth, tra mae Penarth yn un o faestrefi'r brifddinas, i bob pwrpas.

BCW-8956 / [REDACTED] / Anhysbys

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 09 Medi 2021 12:31

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Enwau etholaethau

Gan y bydd etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn cynnwys rhan fawr o Arfon, bydd angen dod o hyd i enw newydd iddi.

[REDACTED]

BCW-8957 / [REDACTED] / Caernarfon

Rwyf o blaid lleihau nifer yr ASau (a thalu mwy iddynt, gyda llaw), ond rwy'n anghyfforddus iawn â'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau am nifer o resymau:

- 1) Maent yn cael effaith sylweddol ar genhedloedd datganoledig y DU, gan leihau eu cynrychiolaeth yn Nhŷ'r Cyffredin. Ceir effaith sylweddol iawn ar Gymru.
- 2) Mae'r cynnig wedi'i ysgogi gan gysyniad gwallus, yn y bôn, sef i fod yn decach yn ddemocrataidd, dylai etholaethau fod â thua'r un nifer o etholwyr. Mewn gwirionedd, mae hyn yn ystumio democratiaeth ac mae perygl o'i niweidio, gan ei fod yn gwasgu ystod eang o bobl o ddemograffeg economaidd-gymdeithasol wahanol, sydd â blaenoriaethau gwahanol iawn, mewn etholaethau unigol yn artiffisial. Yr enghraifft fwyaf amlwg yw y caiff y 'llais gwledig' ei wanhau, tra caiff lleisiau trefol eu gwneud yn uwch.
- 3) Byddai wedi bod yn well seilio etholaethau ar 'gymunedau buddiant', fel y gallai eu cynrychiolwyr yn Nhŷ'r Cyffredin fod yn llais cryf a chlir ar gyfer y materion amlwg a phenodol sy'n gyffredin ar draws eu 'llecyn' nhw. Yn y sefyllfa hon, mae'n bosibl y byddai gan ddinasoedd lai o ASau, gan fod y materion yn fwy tebygol o fod o fath cyson / cyffredin, hyd yn oed pe na fyddai hynny ar lefel fanwl.
- 4) Mae'r cydadwaith rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol (pwy sy'n berchen ar ba weithgareddau, pwy sy'n ariannu ac ati) yn rhywbeth y mae angen cael trefn arno. Byddwn yn dadlau bod hynny'n bwysicach na newid ffiniau. Dan fantell llywodraeth leol ar draws y DU, ceir gormodedd o gyrff, ac rwy'n meddwl tybed faint o ddyblygu / sathru ar draed sy'n digwydd.
- 5) Rwy'n credu bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i beth mae ASau yno i'w wneud, mewn gwirionedd, a beth mae gennym ni, yr etholwyr, hawl i'w ddisgwyl ganddynt. Nid oes swydd ddisgrifiad penodedig, gofyniad penodol i berfformio ar lefel benodol, ac â'r prosesau 'y cyntaf i'r felin' a dethol ymgeiswyr, nid oes fawr o ddiben dadlau y gall etholwyr 'bleidleisio â'u traed' mewn etholiadau.
- 6) Yn bersonol, byddai'n well gennyf pe byddai'r ffocws ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi a'n system etholiadol hynafol... ond mae honno'n drafodaeth ar gyfer diwrnod arall a Llywodraeth arall.

BCW-8958 / [REDACTED] / Pen-coed

Dim ond y ffordd ddeuol sy'n gwahanu lle rwy'n byw oddi wrth Fro Morgannwg. Mae fy eiddo bron â'i leoli yn afon Ewenni, dyna pa mor agos ydw i. Rwy'n credu y byddwn yn well fy myd dan Gyngor Bro Morgannwg, yn hytrach na pharhau i fod dan Ben-y-bont ar Ogwr.

BCW-8959 / [REDACTED] / Aberystwyth

Mae'n amlwg bod y cynigion yn ceisio cyfuno Preseli – sef sedd Geidwadol draddodiadol – â Cheredigion – sef un o gadarnleoedd Plaid Cymru.

Wrth edrych ar ganlyniadau'r etholiad diweddaraf, mae'n amlwg y byddai pleidleiswyr yng Ngheredigion yn cael eu gor-rifo'n sylweddol gan y rhai ym Mhreseli, a fydd yn arwain at golli sedd Plaid Cymru. Mae hynny nid yn unig yn ymddangos yn dacteg wleidyddol, sinigaidd, ond bydd hefyd yn golygu na fydd etholaeth sy'n dyddio'n ôl i gyn 1600 (â bwlch byr) yn cael ei chynrychioli'n briodol.

Rhodddwyd cynnig ar gyfuno'r etholaeth hon o'r blaen ym 1983, dim ond iddi gael ei hadfer ym 1997. Roedd yn amlwg nad oedd yn gweithio bryd hynny – ni fydd yn gweithio nawr.

Mae Ceredigion yn brin ei phoblogaeth, ond nid yw hynny'n golygu nad ydyn ni'n cyfrif. Rydyn ni'n sir unigryw – mae gennym 2 sedd addysg uwch a llyfrgell enwog, a phoblogaeth o raddedigion sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd. Rydym hefyd yng nghanol Cymru, sy'n cael ei adlewyrchu yn y diwylliant bywiog a'r ymroddiad i'r Gymraeg.

Mae angen i ni gael ein cynrychioli, ac rydym wedi dewis cael ein cynrychioli gan Ben Lake – sy'n rhoi ein hanghenion ni (sy'n wahanol i rai mewn ardaloedd trefol a maestrefol, ac anghenion y Saeson) yn gyntaf. Mae'n siarad ar ein rhan ni – fel y mae AS i fod i'w wneud.

Byddai dymchwel ein hetholaeth a'i chyfuno â Phreseli yn dadryddfreinio pleidleiswyr Ceredigion, yn y bôn, ac yn mynd â'n sefyllfa'n ôl i'r dyddiau cyn diwygio seneddol.

BCW-8960 / [REDACTED] / Bangor

Rwy'n teimlo ei fod yn hollol hurt i ddinas Bangor gael ei rhannu'n ddwy etholaeth â dau AS gwahanol. Ar adeg pan mae Bangor yn ceisio aildyfu ar ôl y cyfnod clo oherwydd y sefyllfa Covid, NID oes angen iddi gael ei rhannu mewn unrhyw ffordd. Trawiad arall i Fangor yw hyn gan y grŵp gwleidyddol unochrog yng Nghaernarfon, sy'n ceisio gwanhau ein dinas unwaith eto. PEIDIWCH Â CHANIATAU/DERBYN y cynnig hwn.

[REDACTED]

BCW-8961 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Nid wyf yn cytuno â symud Broadlands a Threlales i etholaeth Aberafan, yn hytrach na Phen-y-bont.

Mae'r syniad hwn yn chwerthinllyd o ystyried bod cyfeiriadau trigolion Broadlands yn cynnwys y gair "Pen-y-bont", ac felly dylent barhau ym Mhen-y-bont.

Byddai hanner ystad Broadlands ym Mhen-y-bont, a'r hanner arall yn Aberafan. Am hurt!

BCW-8963 / [REDACTED] / Bangor

Symudais o Ynys Môn i Fangor ddwy flynedd yn ôl, a bu gennyf ddim ond canmoliaeth i'm AS. Felly, llwyddais i osgoi cael fy nghynrychioli gan AS heb unrhyw gysylltiadau â'r ardal ar Ynys Môn, sydd ond yn adleisio'r llywodraeth yn San Steffan.

Oherwydd y ddemograffeg wahanol iawn, mae perygl i gyfuno Bangor â Chonwy, Llandudno a Betws-y-coed newid yr arlliw gwleidyddol tuag at y Torïaid yn y fath ffordd fel na fydd buddiannau Bangor yn cael eu cynrychioli mwyach. Rwyf hefyd yn ofni y gwnaed y penderfyniad heb ystyried y sefyllfa benodol ym Mangor, sef nad yw nifer y pleidleiswyr cofrestredig yn cynrychioli nifer y preswylwyr, sy'n cynnwys nifer fawr o fyfyrwyr nad ydynt yn cofrestru'n lleol, neu'n gwneud hynny'n hwyr iawn.

Mae'n anodd derbyn bod y penderfyniad hwn wedi'i wneud heb unrhyw duedd wleidyddol er mwyn atgyfnerthu cais y Torïaid yn San Steffan i fachu grym, a hynny'n ogystal â Bil Etholiadol a fydd yn dadryddfreinio llawer o bleidleiswyr tlotach. Mae'r rhain yn fwy tebygol o fyw ym Mangor ac Arfon nag yn ardaloedd Conwy a Llandudno.

BCW-8964 / [REDACTED] / Bangor

Hoffwn wrthwynebu'r newid arfaethedig i ffiniau etholaethol Arfon. Mae dileu'r etholaeth hon yn hollol annerbyniol gan ei bod yn rhannu dinas Gymreiciaf Cymru yn ddwy, gyda Phenrhosgarnedd ynymuno a Chaernarfon gan adael gweddill y ddinas yn rhan o Aberconwy.

Mae gan Fangor lawer mwy yn gyffredin o ran diwylliant, poblogaeth a defnydd o'r Gymraeg nag ardaloedd arfordirol Aberconwy ee. Llandudno, a chredaf y bydd Bangor yn cael ei hanghofio mewnetholaeth sydd eisoes yn delio gydag ystod helaeth o ardaloedd, o Lanrwst wledig i Landudno a'i phoblogaeth hyn a mwy Seisnig.

Nid wyf yn credu ei bod yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl i rannu dinas mor fach a Bangor yn eihanner - bydd hyn yn creu anhawsterau dybryd o ran mynd i'r afael a phroblemau'r ddinas gan gynnwys datblygu'r Gymraeg, adfywiad trefol, materion cynllunio a datblygiadau masnachol.

Bydd y newid arfaethedig yn golygu bod un o ysgolion y ddinas mewn etholaeth wahanol i'r ysgolioneraill - does dim posib fod gan Ysgol y Faenol, Bangor, fwy yn gyffredin gydag ysgolion Tywyn, Meirionnydd, 75 milltir i ffwrdd, na gydag Ysgol y Garnedd, lai na hanner milltir i lawr y ffordd ond mewn etholaeth arall.

Yn ogystal, sut yn y byd y mae disgwyl i un Aelod Seneddol roi sylw a chynrychiolaeth deg i drigolion Bangor ac Aberdyfi, sydd 75 milltir a thaith o dros ddwyawr oddi wrth ei gilydd? Mae hyn hefyd yn wir am etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli - 80 milltir o un pen yr etholaeth i'r llall, a hynny, fel yng Ngwynedd, ar lonydd gwledig, anhylaw.

Credaf fod cymunedau gwledig Cymru yn haeddu mwy o ystyriaeth nag sydd yn cael ei roi iddynt drwy'r system newydd arfaethedig hon, a dylid diystyru newidiadau i ffiniau ar sail nifer poblogaeth. Dylid ystyried cymunedau a thirwedd yn hytrach na chyfrif etholwyr wrth ystyried y newid hwn.

BCW-8965 / [REDACTED] / Penarth

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 09 Medi 2021 14:50

At: Ymholiadau <enquiries@boundaries.wales>

Pwnc: Ffin Gorllewin Caerdydd a Phenarth

Rwy'n falch o weld y ffiniau'n cael eu newid a'n bod yn cael gwared â rhai ASau, a hynny heb fod eiliad yn rhy fuan.

A allwn newid ffin Caerdydd/Bro Morgannwg mewn perthynas â Phenarth?

Mae preswylwyr Penarth yn talu'r Dreth Gyngor i Gyngor y Fro, ond maent yn rhan o Gaerdydd.

Rydym yn talu'r Dreth Gyngor i'r Fro, ond nid oes gennym unrhyw gynrychiolaeth.

Mae'n rhaid mai ni yw'r unig ardal ym Mhrydain lle mae hyn yn berthnasol.

O ran cynllunio datblygiad adeiladu dieisiau yn Cosmeston, Penarth Isaf, gwnaed filoedd o wrthwynebiadau i'n AS Gethin, ond nid oeddent o unrhyw werth gan ei fod yn cynrychioli Caerdydd.

Pe byddai gennym AS sy'n cynrychioli Bro Morgannwg, byddai gennym lais yn hyn o beth.

Ni ddylai fod trethu heb gynrychiolaeth.

Rwy'n gobeithio y gallwch roi Penarth yn ôl yn y Fro, lle mae'n perthyn, ac adfer ffin naturiol afon Elái fel y ffin swyddogol rhwng y Fro a Chaerdydd.

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

[REDACTED]

BCW-8966 / [REDACTED] / Porthcawl

Ni fydd hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth i fap gwleidyddol Cymru, er rwy'n cytunoy dylid lleihau nifer yr ASau yn sylweddol yn y DU. Byddai 400 yn fwy na digon.

Fy ail bwynt yw bod datganoli, ynghyd â Brexit, wedi difetha'r DU drwy gyflwyno mwyo haenau o lywodraeth (ddiwerth). Roedd awdurdodau lleol, yn yr hen arddull, yn ffordd hollol dderbyniol i reoli'r DU.

Potsian yn unig yw ad-drefnu'r ffiniau Seneddol. Dilynwch esiampl Ffrainc, sydd â phwerau maerol ar lefel leol, a'u hariannu'n briodol.

Rhaid i ni symud yn ôl at Ddeyrnas Unedig. Yn ôl i Edward y 1af, os gwelwch yn dda.

BCW-8967 / [REDACTED] / Aberystwyth

Nid yw'r cynnig i gyfuno Ceredigion â rhan ogleddol Sir Benfro yn cydlynu â'ch noddatganedig i barchu cysylltiadau lleol.

Oherwydd daearyddiaeth Ceredigion, trwy ganoli gofal iechyd, addysg a masnach yn Aberystwyth, mae'r dref yn ganolfan ar gyfer dalgylch eang iawn. Roedd gennyf lawer o gyd-ddisgyblion o mor bell â Thywyn yn y gogledd, ac Aberteifi i'r de.

Fodd bynnag, nid yw gogledd Sir Benfro yn disgyn i'r dalgylch hwn. Rwy'n teimlo bod gan Cardis gysylltiad llawer gwell â Machynlleth ac aber Dyfi na gogledd Sir Benfro. Yn ddiwylliannol, mae Sir Benfro'n lle holl wahanol, sy'n gwyo oddi wrth Geredigion o ran ei diwylliant gwleidyddol hefyd. Nid oes gennyf unrhyw ddrwgdeimlad tuag at bobl Sir Benfro; dim ond fy mod yn teimlo y byddai'n niweidioli'r naill a'r llall ohonom pe byddem yn rhannu etholaeth seneddol sy'n hurt o orestynedig, lle y byddai'n amhosibl i unrhyw blaid ymgyrchu, ac sy'n ymestyn mor bell y tu hwnt i'r maint daearyddol rhesymol lle a gallai rhywun teimlo eu bod yn caeleu cynrychioli.

Rwy'n deall bod dwylo'r Comisiwn ynghlwm oherwydd yr amodau sydd wedi'u pennuyn y gyfraith. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau nifer yr etholwyr sydd eu hangen, fy awgrym difrifol yw y dylai Ceredigion – os oes rhaid newid ei ffiniau – gael ei chyfunoag aneddiadau Machynlleth, Aberdyfi a Thywyn. Mae hyn am y rhesymau a grybwyllwyd eisoes.

BCW-8968 / [REDACTED] / Altrincham

Mae etholaeth arfaethedig Llanelli yn cynnwys wardiau Llangynnwr, Llangyndeyrn a Llanismel, sydd yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr ar hyn o bryd. Mae gan y wardiauhyn, yn enwedig Llangynnwr, gysylltiadau agosach o lawer â thref Caerfyrddin na thref Llanelli. Felly, rwy'n cynnig y cânt eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Caerfyrddin. I wneud iawn am hyn, rwy'n cynnig y dylid cynnwys wardiau Penygroesa Safon yn Llanelli, yn hytrach na Chaerfyrddin.

BCW-8969 / [REDACTED] / Bangor

Rwy'n byw ym Mangor ac yn teimlo, gan fod Bangor yn ddinas prifysgol, gosmopolitan, byddai'n fwy priodol i'r newid arfaethedig fynd rhagddo er mwyn alinio Bangor â Chonwy a Llandudno. Mae Arfon yn rhy fach i sefyll fel ei hetholaeth ei hun. Nid oes llawer yn gyffredin rhwng Caernarfon a Bangor, felly byddai'n hawdd eu gwahanu. Mae Caernarfon yn dibynnu ar y diwydiant twristiaeth. Mae Bangor yn ddinas academiaidd flaenllaw sydd â chysylltiadau â gweddill y DU a'r byd, ac mae wedi'i lleoli ar yr A55 â chysylltiadau rhagorol â gogledd-ddwyrain Cymru.

BCW-8971 / [REDACTED] / Altrincham

Rwy'n cynnig y dylai ward Sgeti gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe, yn hytrach na Gorllewin Abertawe a Gŵyr. Mae hyn yn darparuffin naturiol rhwng y ddwy etholaeth ar hyd afon Clun a thrwy goetir. I wneud iawn am hyn, rwy'n cynnig y dylai wardiau gogleddol Llangyfelach, Mawr, Penlle'r-gaer a Phontarddulais gael eu cynnwys yng Ngorllewin Abertawe a Gŵyr. O ganlyniad, gellir newid enw Canol a Gogledd Abertawe i Canol Abertawe. Mae'r cyfluniad hwn yn arwain at lai o aflonyddwch i'r etholwyr presennol ac yn gwella cyfansoddiad y ddwy etholaeth.

BCW-8972 / [REDACTED] / Altrincham

Yn ychwanegol at y mater o drosglwyddo wardiau Llanrhymni a Thredelerch i Ganol Caerdydd, mae ward Trowbridge ar wahân i bob pwrpas oddi wrth weddill etholaeth arfaethedig De Caerdydd a Phenarth, gan fod y ffin â ward gyfagos y Sblot yn gorwedd ar hyd y blaendraeth. Heb wneud newidiadau sylweddol i weddill etholaethau Caerdydd, yr unig ateb i hyn yw cynnwys Trowbridge yng Nghanol Caerdydd a symud ward Cathays i Dde Caerdydd a Phenarth. Mae hyn yn golygu newid enwau'r ddwy etholaeth i Ddwyrain Caerdydd, a Chanol Caerdydd a Phenarth, yn y drefn honno.

BCW-8973 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Rwyf o'r farn y dylid cynnwys Broadlands a Threlales o fewn ffin Pen-y-bont ar Ogwr gan fod y gwasanaethau, yr ysgol ac ati oll yn rhan o etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr abydd gan AS sy'n cwmpasu'r ardal hon fwy o ddiddordeb mewn darparu gwasanaethda i bobl Pen-y-bont ar Ogwr. Nid yw Aberafan yn gysylltydd naturiol â Broadlands

BCW-8974 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae hyn yn hollol chwerthinllyd ac ni ddylid gosod y ffiniau arfaethedig. Mae Broadlands wedi'i leoli llai na milltir o ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae rhai trefio fewn bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr sydd hyd at 9 milltir o ganol y dref! Peidiwch â gadael i hyn ddigwydd.

BCW-8975 / [REDACTED] / Llanelli

Mae ardal yr etholaeth newydd arfaethedig yn cynnwys ardaloedd sydd dros 20 milltir o Lanelli, gan gynnwys ardaloedd na allent yn rhesymol feddwl amdanynt euhunain fel rhan o Lanelli, felly nid yw enw'r etholaeth yn briodol mwyach. Enw mwypriodol fyddai De Sir Gaerfyrddin gan fod yr holl ardal o fewn Sir Gaerfyrddin, ac o fewn rhan ddeheuol y sir.

BCW-8976 / [REDACTED] / Llanelli

Nodwyd "Caerfyrddin" fel enw etholaeth ar gyfer yr ardal arfaethedig ond mae'r etholaeth yn cynnwys ardaloedd sydd 35 milltir o Gaerfyrddin, ac eto mae'n hepgor ardaloedd a ystyrir yn gyffredinol fel rhan o Gaerfyrddin gan gynnwys gorsaf reilffordd y dref, a phopeth i'r de a'r dwyrain ohoni. O ganlyniad, mae rhoi'r enw "Caerfyrddin" ar yr etholaeth yn ymddangos yn rhyfedd.

Byddai Gogledd Ddwyrain a Gorllewin Sir Gaerfyrddin yn fwy priodol.

Os ydych chi eisiau cadw enw Cymraeg i hyrwyddo cylch gwaith y Cenedlaetholwyr Cymreig, efallai yr hoffech ystyried Sir Gâr, a ddefnyddir gan y cyngor a cholegau i ddisgrifio'r ardal.



BCW-8977 / [REDACTED] / Penarth

Mae Penarth yn rhan o Fro Morgannwg. Mae'r preswylwyr a'u safbwyntiau wedi'u halinio'n agosach at bobl eraill yn y sir honno yn hytrach na Chaerdydd.

Mae AS a etholir ar gyfer y Fro yn fwy tebygol o gynrychioli fy marn yn senedd y DU yn fwy effeithiol nag AS De Caerdydd.

Byddai AS a etholir ar gyfer y Fro yn wynebu pwysau a materion gwahanol i'r rhai a geir yn Ne Caerdydd.

Yr effaith net yw gwanhau pleidlais yr holl bobl sy'n byw yn y rhan hon o'r Fro gan bleidlais pobl De Caerdydd, gan eu difreinio o'r broses wleidyddol.

BCW-8978 / [REDACTED] / Llanelli

Mae'r cynigion yn gosod ward Llangynnwr (2,077 o etholwyr Seneddol) yn etholaeth Llanelli, ac nid yn etholaeth Caerfyrddin.

Disgrifir Llangynnwr ar-lein fel "un o faestrefi deheuol tref Caerfyrddin" ac mae'n cynnwys unig orsaf reilffordd Caerfyrddin, yn ogystal â nifer fawr o adeiladau manwerthu, masnachol a diwydiannol y dref, ac yn bwysicach fyth, dros 2,000 o etholwyr sy'n gweld eu hunain fel rhan o Gaerfyrddin, ac nid Llanelli.

Mae'r cynigion presennol yn gwahanu Caerfyrddin yn ddwy etholaeth, gydag un yn defnyddio enw'r dref er nad yw'n cynnwys y dref gyfan! Rwy'n cynnig bod Llangynnwr yn cael ei symud o etholaeth Llanelli i etholaeth Caerfyrddin. Wrth wneud hyn, bydd nifer yr etholwyr yn etholaeth Llanelli yn gostwng 2,077 i 69,895 a bydd nifer yr etholwyr yn etholaeth Caerfyrddin yn cynyddu 2,077 i 72,683. Mae'r ddau rif diwygiedig hyn yn bodloni'r gofyniad i gael dim llai na 69,724 o etholwyr Seneddol a dim mwy na 77,062 o etholwyr Seneddol.

BCW-8979 / [REDACTED] / Wrecsam

Wrth gynnwys Owrtyn, Llannerch Banna a'r ardal gyfagos mewn ward fawr yn Wrecsam, rwy'n teimlo eich bod yn erydu ein hunaniaeth wledig.

BCW-8980 / [REDACTED] / Caerdydd

Mae'r map ymgynghori yn enwi'r etholaeth fel "Ynys Mon", heb y to bach ar y llythyren 'o'. Dylid sicrhau bod enw'r etholaeth yn cael ei sillafu'n gywir - "Ynys Môn"

BCW-8981 / [REDACTED] / Llandrillo-yn-Rhos

Nid yw gwahanu Llandrillo-yn-Rhos oddi wrth Fae Colwyn yn gwneud unrhyw synnwyr. Bydd materion yn y ddwy ardal yn debyg, a bellach byddant angen sylw 2 AS (nid y byddai ganddynt ddiddordeb). Hefyd, pam mae Bangor wedi'i chynnwys yn Aberconwy? Mae'n rhyfeddol. A pham mae gan Ynys Môn statws arbennig? Mae'n dir diffaith diffrwyth. Dylid ei chyfuno ag etholaeth bresennol Arfon.

BCW-8982 / [REDACTED] / Y Felinheli

Mae'r ffiniau y ogledd orllewin Cymru i'w weld fel achos o gerrymandering!

Does fawr o gyswilt cymdeithasol/diwylliannol rhwng trefi diwydiannol gogledd orllewin Gwynedd (Blaenau Ffestiniog, Porthmadog, Pwllheli, Bangor, Caernarfon, Bethesda) a threfi amaethyddol gwledig de Meirionnydd (Bala, Dolgellau)

Yr un modd, mae trefi amaethyddol de yr hen sir Clwyd (Rhuthun, Dinbych, Corwen, Llangollen, Llanrwst) yn debyg iawn yn gymdeithasol ond yn cael eu rhannu rhwng amryw o seddi sy'n cael eu dominyddu gan drefi mawr yr arfordir.

Awgrym: symud Bethesda a Bangor i sedd gogledd Gwynedd. Symud de Meirionnydd i sedd amaethyddol wledig i gynnwys Rhuthun, Dinbych, Corwen, Llangollen, Llanrwst a chreu seddi sy'n fwy arfordirol - Llandudno, Conwy a Bae Colwyn, Rhyl a Phrestatyn, Fflint, Cei Connah a Threffynnon

Bydda hyn yn adlewyrchu patrymau cymdeithasol a diwylliannol yn llawer gwell.

BCW-8983 / [REDACTED] / Treharris

Dwi ddim yn hapus o gwbl o gael fy nhrosglwyddo i gyngor bwrdeistref Merthyr, dwi bron yn 62 oed, â phroblemau iechyd, ar hyn o bryd mae fy swyddfeydd cyngor lleol dim ond i lawr y ffordd oddi wrthyf, felly mae newidiadau mawr fel hyn yn fy ngwneud mor bryderus, gan fy mod yn dioddef o orbryder ac iselder cronig fel y mae, ac rwy'n aros i gael fy ailgartrefu mewn llety mwy addas ym mwrdeistref Caerffili er mwyn bod yn agosach at fy nheulu sydd hefyd yn byw ym mwrdeistref Caerffili, dwi wedi aros tair blynedd a dwi'n poeni beth fydd yn digwydd nawr, mae clywed hyn wedi gwaethgu fy ngorbryder yn ddifrifol heddiw.

DWI DDIM YN HAPUS AM HYN O GWBL, gadewch Nelson ym mwrdeistref Caerffili

BCW-8984 / [REDACTED] / Pontypridd

Helo, dim ond meddwl y byddwn i'n rhannu sylwadau am enwi etholaethau. Credaf y gallai fod problem lle mae'r un enw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer etholaeth senedd y DU ag a ddefnyddir ar gyfer etholaeth y Senedd neu awdurdod lleol *os* mae'r ôl troed yn wahanol.

Er enghraifft, os yw Torfaen yn bodoli gyda'r un ffiniau yn union â'r awdurdod lleol ac etholaeth y DU, ni ddylai fod problem.

Ond ym Mhontypridd, fe allech gael etholaeth Pontypridd yn y Senedd ac fel etholaeth yn senedd y DU sydd ag olion traed gwahanol ond yr un enw. Gallai hyn, wrth gwrs, achosi dryswch i'r cyhoedd.

Heblaw am gadw enwau ar wahân ar gyfer etholaethau, gallech edrych ar ragddodiad (DU – Pontypridd) neu efallai, ac arhoswch gyda mi, beth am ddefnyddio system rifo fel Tŷ Cynrychiolwyr yr UD (Cymru – 30, Cymru – 22). Dyna ddatrysiad niwtral iawn a manwl gywir.

BCW-8985 / [REDACTED] / Caerffili

Yn ddiweddar, prynais fy nhŷ cyntaf, yn Nelson, OHERWYDD mae y tu allan i fwrdeistref Merthyr, felly byddwn yn anhapus iawn pe bai fy nghod post yn dod o dan fwrdeistref Merthyr. Rwyf wedi byw ym Merthyr ar hyd fy oes ac yn fy mhrofiad i mae gwasanaethau'r cyngor yn anhrefnus ac yn anghynorthwyol, ac yn ogystal, byddai fy nhreth gyngor yn cynyddu'n sylweddol pe bai'r newid hwn yn digwydd. Mae etholaeth Caerffili wedi bod yn wych ers i ni symud. Nid oes gennym unrhyw broblemau gyda chasglu sbwriel neu gysylltu â'r cyngor am unrhyw reswm arall ac mae'n ymddangos bod y cyngor yn fwy rhagweithiol, yn wahanol i Gyngor Merthyr.

BCW-8986 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r cynnig hwn yn hollol chwerthinllyd. Os bydd y ffiniau'n newid, byddai ysgol fy mab mewn etholaeth wahanol i'n cartref, er mai hon yw ei ysgol gynradd leol. Felly, ni fyddai ein AS yn cynrychioli'r un etholaeth â'r darparwr addysg lleol. Bydd fy meddygfa mewn etholaeth wahanol. Ein canolfan hamdden leol – yn wir, byddai'r ganolfan hamdden ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr gyfan wedi'i lleoli yn Aberafan. Ym mha fyd y mae'n gwneud synnwyr i Fro Ogwr (20 munud i ffwrdd o ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr) uno â thref Pen-y-bont ar Ogwr, ond i Broadlands (pum munud) beidio. Mae fy rhieni yn byw yn Broadlands ac yn gweld eu hunain 100% yn drigolion Pen-y-bont ar Ogwr, heb unrhyw gysylltiad â Phorthcawl, a llai fyth ag Aberafan. Maen nhw'n siopa ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn cynnal eu bywydau beunyddiol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad â materion sy'n ymwneud â Chastell-nedd / Port Talbot / Aberafan. Mae angen i'r AS dro Ben-y-bont ar Ogwr gynrychioli pawb sy'n talu'r dreth gyngor ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

BCW-8987 / [REDACTED] / Bangor

Mae'n hollol chwerthinllyd ein symud ni i Aberconwy. Nid yw ein hunaniaeth, ein diwylliant a'n hiaith yn ddim byd tebyg i etholaeth Aberconwy. Heb sôn am bethau fel ysgolion – mae'n rhaid mai'r llinell rhwng Gwynedd a Chonwy ddylai fod y ffin

BCW-8988 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Broadlands i raddau helaeth iawn yn rhan o Ben-y-bont ar Ogwr a chymuned Pen-y-bont ar Ogwr, fel y mae Porthcawl. Ni fydd ein taflu i mewn gydag Aberafan yn gwneud unrhyw beth i helpu i sicrhau cynrychiolaeth yr etholwyr. Maen nhw'n ddwy gymuned wahanol iawn ag anghenion gwahanol iawn (ac o ganlyniad byddent yn pleidleisio o blaid ymgeiswyr gwahanol iawn i'w cynrychioli). Byddai un neu fwy o'r cymunedau yn yr etholaeth newydd hon bob amser yn anhapus â'r dewis o gynrychiolaeth. Peidiwch â rhannu Pen-y-bont ar Ogwr!

BCW-8989 / [REDACTED] / Bridgend

Yn y cynigion, byddwn i'n dod yn rhan o etholaeth Porthcawl ac Aberafan. Mae fy nghyfeiriad yn filltir yn llythrennol o ganol canol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ond dros 5 milltir o Borthcawl (ac ymhellach o Aberafan). Nid oes gan Gefn Glas (fy ardal i) unrhyw beth yn gyffredin â Phorthcawl nac Aberafan. Sut bydd AS yn deall ein hanghenion, neu'n gwybod unrhyw beth amdanom ni? Rydym ni yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr, nid Aberafan ac ati. Mae perygl yn hyn o beth i gymuned Pen-y-bont ar Ogwr gael ei rhwygo, heb lais i'n cynrychioli.

BCW-8990 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'n hollol chwerthinllyd gosod Broadlands a Threlales yn etholaeth Aberafan. Mae Broadlands ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac felly y dylai aros. A ydych yn mynd i ostwng ein treth gyngor os byddwch yn ein symud ni i'r etholaeth honno? Na, doeddwn i ddim yn meddwl y byddai hynny'n digwydd. Cynllun chwerthinllyd unwaith eto.

BCW-8991 / [REDACTED] / Aberdâr

Mae siŵr bod pwy bynnag a luniodd y cynlluniau hyn wedi methu ag ymweld â'r ardal..sut gellir uno pentrefi Cwmaman ac Aberaman â Phontypridd?? Mae'n cymryd dwywaith mor hir i yrru i Bontypridd nag i Ferthyr, i ddechrau..neu 2 fws yn hytrach nag 1 bws. Mae'r cynnig hwn yn dinistrio Cwm Cynon yn llwyr.

Mae'n un peth i rannu ardaloedd wrth edrych ar fap gwastad..peth arall yw ymweld ac ystyried y nodweddion daearyddol. O dan y cynigion newydd hyn, bydd cymunedau Cwm Cynon yn cael eu gwahanu..gwallgofrwydd llwyr.

Bydd cost logos newydd..swyddfeydd newydd ac ati, ac ati, hefyd yn ychwanegu at y baich ariannol.. yn union fel y gwnaeth pan rannwyd Morgannwg yn 3 awdurdod ac eto pan ffurfiwyd R.C.T...

Rhowch y gorau i'r cynllun chwerthinllyd hwn a meddylwch am y cymunedau dan sylw, yn hytrach na thicio'r blwch rhifau!

BCW-8992 / [REDACTED] / Trelales

Rwy'n methu â deall o ba fudd y mae symud y ffin trwy ganol Pen-y-bont ar Ogwr.

Heb esboniad o'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnig hwn, ni fyddaf yn ei gefnogi.

A oes adnodd ar gael i esbonio'r rhesymau dros symud y ffin, os gwelwch yn dda?

BCW-8993 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae wir yn hollol hurt y bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei rhannu rhwng dau AS.

Pam na fyddai unrhyw ardal yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr yn eistedd o fewn y ffin etholiadol ar gyfer AS Pen-y-bont???

Mae'n bosibl mai dyma'r cynllun mwyaf chwerthinllyd a di-sail i mi glywed amdano ers tro.

Rhaid i Ben-y-bont ar Ogwr I GYD gael ei chynrychioli gan yr AS ar gyfer Pen-y-bont. Rhaid i Broadlands a Threlales fod o fewn ffin arfaethedig AS "Pen-y-bont".

Rhaid i'r ffiniau hyn gael eu hailystyried a'u hail-lunio.

BCW-8994 / [REDACTED] / Wrecsam

Mae'r cynnig i symud ward Y Mwynglawdd a Bwlchgwyn o Dde Clwyd i Alun a Glannau Dyfrdwy yn hurt bost. Mae ardal Bwlchgwyn a'r Mwynglawdd bum milltir o Wrecsam ac wedi'i chysylltu gan briffordd yr A525. Dyma'r prif lwybr bysiau sy'n cysylltu Bwlchgwyn a'r Mwynglawdd â Wrecsam. Mae Alun a Glannau Dyfrdwy yn anghysbell o ran trafnidiaeth gyhoeddus, a gweithgarwch economaidd a gwleidyddol. Mae materion sy'n bwysig i drigolion Bwlchgwyn a Wrecsam yn digwydd yn Wrecsam, yn hytrach nag yn Alun a Glannau Dyfrdwy. Ar y cyfan, mae trigolion Bwlchgwyn a'r Mwynglawdd yn gweithio, siopa, yn anfon eu plant i'r ysgol ac yn treulio eu hamser hamdden yn Wrecsam. Nid ydym yn rhyngweithio llawer ag Alun a Glannau Dyfrdwy, os o gwbl.

BCW-8995 / [REDACTED] / Bangor

Nid wyf yn cytuno â'r newid arfaethedig i gael gwared ag Arfon a chyfuno fy ardal i ag Aberconwy – mae hwn yn rhanbarth hollol ar wahân sydd fel arfer yn pleidleisio'n wahanol iawn i Aberconwy, a bydd y cyfle hwn i gael canlyniad drwy fynegi pleidleisiau lleol yn cael ei golli.

BCW-8996 / [REDACTED] / Bangor

Pam ydych chi'n lleihau nifer ein seddau? Dyfais yn unig yw hyn i leihau gallu Cymru i bleidleisio. Mae'r ffordd rydych chi'n newid y ffiniau'n gyfleus iawn i gael mwy o bleidleisiau i bleidiau penodol yn ychwanegu at hyn, ac mae'n gywilyddus. A ydyn ni'n byw yn America bellach? Gadewch nhw fel y maent a rhowch y gorau i geisio newid pethau i hyrwyddo agenda pobl. Nid yw Bangor a'r cyffiniau'n rhan o Aberconwy ac ni fyddant byth yn rhan ohoni. Nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol, ac mae pleidleisiau blynyddoedd blaenorol yn dangos nad oes unrhyw beth yn debyg rhwng y ddau le. Y cwbl rydych chi'n ei wneud yw gwneud eich gorau glas i ymestyn cyrraedd y Torïaid, ac mae ein hardal ni wedi'i gwneud yn glir mai Plaid neu Lafur ydym ni – NID CEIDWADWYR. Felly i'w gwneud yn glir, nid oes unrhyw gysylltiadau cymunedol, gadewch y ffiniau fel y maent. Mae diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg yn gryfach o lawer yr ochr hon gan i chi leihau nifer yr ysgolion Cymraeg yng Nghonwy, sydd wedi gwneud gwahaniaeth anferth, ac rydych chi'n gwybod hynny. Felly, nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i symud y ffin a lleihau nifer ein seddau. Felly peidiwch.

BCW-8997 / [REDACTED] / Bangor

Nid wyf yn cytuno y dylai etholaethau bontio ffiniau awdurdodau lleol.

BCW-8998 / Cyng Nathan Adams / Pen-y-Bont ar Ogwr

Rydw i'n gynghorydd cymuned ar Gyngor Cymuned Trelales, ac mae'r bobl rwyf wedi siarad â nhw yn fy ward yn erbyn y cynnig hwn. Mae symud cymunedau Trelales, Bryntirion a Broadlands i etholaeth Aberafan yn hurt. Gallaf gerdded o'm cartref yn y ward i ganol Pen-y-bont ar Ogwr mewn 10 munud. Prin iawn rwyf wedi bod ym Mhort Talbot yn fy mywyd.

Mae'r gymuned rydym yn rhan ohoni yn rhan annatod o gymuned ehangach Pen-y-bont, ac rydym yn rhannu cymaint â'n gilydd.

Rydym mewn perygl gwirioneddol o gael ein hanghofio gan AS a fydd yn brysur yn ymdrin â'i gefnogwyr traddodiadol a hirsefydlog. Bydd trigolion Broadlands, Trelales a Bryntirion wedi'u hynysu. Mae'r adolygiad arfaethedig hwn yn llawn gwallau a bydd yn gwahanu cymunedau ledled Cymru.

BCW-8999 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Rwy'n anghytuno â rhannu Pen-y-bont ar Ogwr neu ei chysylltu â threfi neu bentrefi eraill. Dylai Pen-y-bont ar Ogwr aros fel y mae, a pheidio â chael ei rhannu rhwng y gogledd a'r de neu beth bynnag sy'n cael ei gynnig; mae'n amherthnasol ac nid yw'n fuddiol i unrhyw un sy'n byw yn yr ardal. Nid oes gennym ni fel tref a chymuned lawer o lais fel y mae, felly mae tynnu hynny oddi wrth bobl yn anghywir. Mae gennym ni statws ac nid ydym ni eisiau cael ein rhannu. Un dref yw Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cwmpasu llawer o ardaloedd, ond byddai'r cynnig yn golygu bod Pen-y-bont yn anarwyddocaol ac yn dod yn ddibwys mewn ardal lawer mwy sy'n ymestyn ymhellach, ac ni fyddai barn pobl yn cael ei gwerthfawrogi na'i pharchu mwyach.

BCW-9000 / Cyng Jonathan Bishop/ Nantgarw

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 09 Medi 2021 15:40

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ymateb i'rYmgynghoriad Ffiniau

Annwyl Syriaid,

Fi yw'r cynghorydd cymuned ar gyfer Nantgarw, ger Pontypridd.

Rwy'n croesawu dod a Chilfynydd a Glyncoch yn 61 i'r etholaeth.

Rwyf hefyd o'r *tarn* y dylid dod a Thonyrefail, Gilfach Gocha Phentyrch yn 61 i'r etholaeth.

Dylai Ffynnon Taf a Nantgarw barhau yn yr etholaeth.

Gellir rhoi De Aberaman, Gogledd Aberaman a Phenrhiwceibr mewn etholaethau cyfagos.

Yna, byddai'r ffin yn cyfateb i ffin Clwstwr Gofal Sylfaenol *Tat* Elai, a fyddai'n caniatáu integreiddio'r GIG yn well a'r etholaeth newydd. Byddai hefyd yn agos at ran Taf Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, er y byddai rhannau pwysig fel Llanhari, Pont-y-clun a Llanharan ar goll. Efallai y gellid ychwanegu'r rhain yn lie wardiau Aberpennar?

Yr eiddoch yn gywir,

Y Cynghorydd Jonathan Bishop

BCW-9001 / [REDACTED] / Machynlleth

Os oes rhaid i hyn ddigwydd, byddai'r ardal yn cael ei chynrychioli'n well drwy fod yn rhan o etholaeth Ceredigion. Nid oes unrhyw gysylltiad â Glyndŵr. Mae pobl yma'n gweithio, yn siopa ac mae ganddynt gysylltiad gwell â Cheredigion; ardal canolbarth, gorllewin Cymru ydyw. Mae'r llif naturiol tua'r de, yn hytrach na thuag at ardal nad oes gennym lawer a wnelo â hi. Gwrandewch ar beth mae'r bobl yn ei ddweud.

BCW-9002 / [REDACTED] / Altrincham

Mae etholaeth arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr yn ddiffygiol, gan nad oes unrhyw gysylltiadau trafniadaeth uniongyrchol rhwng y rhan ym Mhowys (etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn) a'r rhan yng nghyngor Wrecsam (rhan o etholaeth bresennol De Clwyd). I unioni hyn, rwy'n cynnig y dylid cyfuno Sir Drefaldwyn â Meirionnydd (rhan o etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd), ac y dylid ychwanegu "Glyndŵr" at etholaeth Wrecsam. Mae hyn yn arwain at newidiadau sylweddol i'r etholaethau arfaethedig eraill yng ngogledd Cymru.

I ddisodli etholaethau arfaethedig y Comisiwn, sef Aberconwy, Alun a Glannau Dyfrdwy, Clwyd, Delyn, Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr, a Wrecsam, rwy'n cynnig y canlynol:

1. Aberconwy – yn cynnwys Bwrdeistref Sirol Conwy i gyd, ac eithrio wardiau Bryn, Capelulo, Pandy a Phant-yr-afon/Penmaenan yng ngogledd-orllewin y fwrdeistref, a wardiau Bae Cinmel, Llansannan a Thywyn yn nwyrain y fwrdeistref.

Mae'r etholaeth estynedig yn parhau'n gyfan gwbl ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

2. Alun – yn cynnwys:

(i) y wardiau canlynol yn Sir y Fflint sydd yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy ar hyn o bryd: Brychdyn (2 ward), Bwcle (4 ward), Pentrobin, Caergwrle, Kinnerton Uchaf, Yr Hôb, Llanfynydd, Penyffordd a Threuddyn;

(ii) y wardiau canlynol yn Sir y Fflint sydd yn etholaeth Delyn ar hyn o bryd: Argoed, Gwernaffield, Gwernymynydd, Coed-llai, Yr Wyddgrug (4 ward) a New Brighton;

(iii) y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sydd yn etholaeth Wrecsam ar hyn o bryd: Gwersyllt (3 ward), Llai ac Yr Orsedd; a'r

(iv) wardiau canlynol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sydd yn etholaeth De Clwyd ar hyn o bryd: Brymbo, Bryn Cefn, Coedpoeth, Gwenfro, Y Mwynglawdd a New Broughton.

Mae'r etholaeth hon yn cynnwys rhan lawer mwy o afon Alun nag etholaethau presennol ac arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy.

3. Delyn a Glannau Dyfrdwy – yn cynnwys y wardiau hynny yn Sir y Fflint nad ydynt wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Alun.

Mae hyn yn rhoi “Glannau Dyfrdwy” i gyd mewn un etholaeth.

4. Dwyfor Arfon – yn cynnwys:

(i) y wardiau canlynol yn sir Gwynedd sydd yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd ar hyn o bryd: Aberdaron, Abererch, Abersoch, Botwnnog, Clynog, Criccieth, Dolbenmaen, Efail-newydd/Buan, Llanaelhaearn, Llanbedrog, Llanengan, Llanystumdwy, Morfa Nefyn, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Porthmadog (3 ward), Pwllheli (2 ward) a Thudweiliog;

(ii) y wardiau hynny yn sir Gwynedd sy'n cynnwys etholaeth bresennol Arfon yn ei chyfanrwydd; a

(iii) wardiau Bryn, Capelulo, Pandy a Phant-yr-afon/Penmaenan ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r etholaeth newydd hon yn cynnwys yr ardaloedd sy'n rhan o hen ardaloedd awdurdodau lleol Dwyfor ac Arfon, yn bennaf.

5. Maldwyn a Meirionnydd – yn cynnwys:

(i) y wardiau hynny yn sir Powys sy'n cynnwys etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd; a'r

(ii) wardiau yn sir Gwynedd nad ydynt wedi'u cynnwys yn etholaethau arfaethedig Dwyfor, Arfon a Chonwy.

Mae'r etholaeth hon yn cynnwys siroedd hanesyddol Sir Drefaldwyn a Sir Feirionnydd, ac mae cysylltiadau ffordd da rhwng y ddwy ran ohoni.

6. Dyffryn Clwyd – yn cynnwys:

(i) Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd, ac eithrio wardiau Corwen, Llandrillo a Llangollen; a

(ii) wardiau Bae Cinmel, Llansannan a Thywyn ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Mae hyn yn estyniad o etholaeth bresennol Dyffryn Clwyd.

7. Wrecsam a Glyndŵr – yn cynnwys:

(i) y wardiau hynny ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam nad ydynt wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Alun; a

(ii) wardiau Corwen, Llandrillo a Llangollen yn Sir Ddinbych.

Mae hyn yn cysylltu tref Wrecsam ag ardal “Glyndŵr”, y mae'r Comisiwn yn cynnig ei chynnwys â Maldwyn. Mae fy nghynnig i'n darparu cysylltiadau trafnidiaeth llawer gwell rhwng y ddwy brif dref, sef Wrecsam a Llangollen.

Rwyf o'r farn bod fy nghynigion i'n darparu cyfluniad gwell o'r etholaethau yng ngogledd Cymru, o gymharu â chynigion y Comisiwn.

Atodaf daenlen yn dangos fy nghynigion ar gyfer etholaethau yng ngogledd Cymru, gan gynnwys y wardiau a nifer yr etholwyr.

<u>Etholaeth</u>	<u>Ward</u>	<u>Awdurdod Lleol</u>	<u>Etholwyr</u>
Aberconwy CC			76,277
	Abergele Pensarn	Conwy	1,959
	Betws yn Rhos	Conwy	1,623
	Betws-y-Coed	Conwy	967
	Caerhun	Conwy	1,677
	Colwyn	Conwy	3,373
	Conwy	Conwy	3,295
	Craig-y-Don	Conwy	2,685
	Crwst	Conwy	1,581
	Deganwy	Conwy	3,289
	Eglwysbach	Conwy	1,257
	Eirias	Conwy	2,800
	Gele	Conwy	3,997
	Glyn	Conwy	3,088
	Gogarth	Conwy	2,795
	Gower	Conwy	850
	Llanddulas	Conwy	1,353
	Llandrillo yn Rhos	Conwy	6,110
	Llangernyw	Conwy	1,104
	Llansanffraid	Conwy	1,814
	Llysfaen	Conwy	1,906
	Marl	Conwy	3,539
	Mochdre	Conwy	1,425
	Mostyn	Conwy	2,758
	Penrhyn	Conwy	3,874
	Pensarn	Conwy	2,274
	Pentre Mawr	Conwy	2,861
	Rhiw	Conwy	4,991
	Trefriw	Conwy	1,026
	Tudno	Conwy	3,591
	Uwch Conwy	Conwy	1,276
	Uwchaled	Conwy	1,139
Alyn CC			73,721
	Argoed	Sir y Fflint	2,167
	Broughton North East	Sir y Fflint	1,723
	Broughton South	Sir y Fflint	3,325
	Buckley Bistre East	Sir y Fflint	2,653
	Buckley Bistre West	Sir y Fflint	3,182
	Buckley Mountain	Sir y Fflint	2,555
	Buckley Pentrobin	Sir y Fflint	4,181
	Caergwrle	Sir y Fflint	1,225
	Gwernaffield	Sir y Fflint	1,646
	Gwernymynydd	Sir y Fflint	1,399
	Higher Kinnerton	Sir y Fflint	1,373
	Hope	Sir y Fflint	2,042
	Leeswood	Sir y Fflint	1,627
	Llanfynydd	Sir y Fflint	1,483
	Mold Broncoed	Sir y Fflint	2,134
	Mold East	Sir y Fflint	1,556
	Mold South	Sir y Fflint	2,201
	Mold West	Sir y Fflint	1,956
	New Brighton	Sir y Fflint	2,414
	Penyffordd	Sir y Fflint	3,543
	Treuddyn	Sir y Fflint	1,346
	Brymbo	Wrecsam	3,021
	Bryn Cefn	Wrecsam	1,543
	Coedpoeth	Wrecsam	3,482
	Gwenfro	Wrecsam	1,217
	Gwersyllt East and South	Wrecsam	3,601
	Gwersyllt North	Wrecsam	1,995
	Gwersyllt West	Wrecsam	2,263
	Llay	Wrecsam	3,513
	Minera	Wrecsam	1,870
	New Broughton	Wrecsam	2,842
	Rossett	Wrecsam	2,643

Delyn a Glannau Dyfrdwy CC		72,032
Aston	Sir y Fflint	2,508
Bagillt East	Sir y Fflint	1,413
Bagillt West	Sir y Fflint	1,625
Brynford	Sir y Fflint	1,789
Caerwys	Sir y Fflint	2,050
Cilcaen	Sir y Fflint	1,519
Connah's Quay Central	Sir y Fflint	2,213
Connah's Quay Goflytyn	Sir y Fflint	3,688
Connah's Quay South	Sir y Fflint	4,494
Connah's Quay Wepre	Sir y Fflint	1,647
Ewloe	Sir y Fflint	4,327
Ffynnongroyw	Sir y Fflint	1,474
Flint Castle	Sir y Fflint	1,426
Flint Coleshill	Sir y Fflint	2,938
Flint Oakenholt	Sir y Fflint	2,538
Flint Trelawny	Sir y Fflint	2,710
Greenfield	Sir y Fflint	1,983
Gronant	Sir y Fflint	1,257
Halkyn	Sir y Fflint	1,427
Hawarden	Sir y Fflint	1,623
Holywell Central	Sir y Fflint	1,465
Holywell East	Sir y Fflint	1,383
Holywell West	Sir y Fflint	1,762
Mancot	Sir y Fflint	2,516
Mostyn	Sir y Fflint	1,458
Northop	Sir y Fflint	2,596
Northop Hall	Sir y Fflint	1,398
Queensferry	Sir y Fflint	1,248
Saltney Mold Junction	Sir y Fflint	1,100
Saltney Stonebridge	Sir y Fflint	2,672
Sealand	Sir y Fflint	2,026
Shotton East	Sir y Fflint	1,219
Shotton Higher	Sir y Fflint	1,669
Shotton West	Sir y Fflint	1,464
Trelawnyd and Gwaenysgor	Sir y Fflint	1,496
Whitford	Sir y Fflint	1,911
Dwyfor Arfon CC		70,850
Bryn	Conwy	1,390
Capelulo	Conwy	1,284
Pandy	Conwy	1,463
Pant-yr-afon/Penmaenan	Conwy	2,167
Aberdaron	Gwynedd	698
Abererch	Gwynedd	986
Abersoch	Gwynedd	519
Arllechwedd	Gwynedd	1,091
Bethel	Gwynedd	1,025
Bontnewydd	Gwynedd	865
Botwnnog	Gwynedd	734
Cadnant	Gwynedd	1,514
Clynnog	Gwynedd	736
Criccieth	Gwynedd	1,280
Cwm-y-Glo	Gwynedd	753
Deiniol	Gwynedd	920
Deiniolen	Gwynedd	1,463
Dewi	Gwynedd	1,301
Dolbenmaen	Gwynedd	900
Efail-newydd/Buan	Gwynedd	1,026
Garth	Gwynedd	556
Gerlan	Gwynedd	1,696
Glyder	Gwynedd	1,257
Groeslon	Gwynedd	1,374
Hendre	Gwynedd	940
Hirael	Gwynedd	1,066
Llanaelhaearn	Gwynedd	1,187
Llanbedrog	Gwynedd	709
Llanberis	Gwynedd	1,613
Llanengan	Gwynedd	847
Llanllyfni	Gwynedd	915
Llanrug	Gwynedd	1,396
Llanwnda	Gwynedd	1,507
Llanystumdwy	Gwynedd	1,547
Marchog	Gwynedd	1,579
Menai (Bangor)	Gwynedd	1,548
Menai (Caernarfon)	Gwynedd	1,724
Morfa Nefyn	Gwynedd	945
Nefyn	Gwynedd	1,003
Ogwen	Gwynedd	1,697
Pebblig (Caernarfon)	Gwynedd	1,603
Penisarwaun	Gwynedd	1,365
Pentir	Gwynedd	2,159
Penygroes	Gwynedd	1,369
Penrhyndeudraeth	Gwynedd	1,826
Porthmadog East	Gwynedd	1,178
Porthmadog West	Gwynedd	1,329
Porthmadog-Tremadog	Gwynedd	933
Pwllheli North	Gwynedd	1,528
Pwllheli South	Gwynedd	1,310
Seiont	Gwynedd	2,233
Talysarn	Gwynedd	1,399
Tregarth & Mynydd Llandygai	Gwynedd	1,628
Tudweiliog	Gwynedd	668
Waunfawr	Gwynedd	1,298
Y Felinheli	Gwynedd	1,803

Maldwyn a Meirionnydd CC			71,795
Aberdovey	Gwynedd		907
Abermaw	Gwynedd		1,591
Bala	Gwynedd		1,413
Bowydd & Rhiw	Gwynedd		1,235
Brithdir & Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd	Gwynedd		1,132
Bryn-crug/Llanfihangel	Gwynedd		772
Corris/Mawddwy	Gwynedd		1,023
Diffwys & Maenofferen	Gwynedd		779
Dolgellau North	Gwynedd		953
Dolgellau South	Gwynedd		1,072
Dyffryn Ardudwy	Gwynedd		1,169
Harlech	Gwynedd		1,516
Llanbedr	Gwynedd		768
Llandderfel	Gwynedd		1,135
Llangelynin	Gwynedd		1,625
Llanuwchllyn	Gwynedd		686
Teigl	Gwynedd		1,355
Trawsfynydd	Gwynedd		1,088
Tywyn	Gwynedd		2,476
Banwy	Powys		847
Berriew	Powys		1,102
Blaen Hafren	Powys		1,876
Caersws	Powys		1,831
Churchstoke	Powys		1,292
Dolforwyn	Powys		1,652
Fordeu	Powys		1,215
Glanwymyn	Powys		1,701
Gulfield	Powys		1,827
Kerry	Powys		1,607
Llanbrynmair	Powys		798
Llandinam	Powys		1,155
Llandrinio	Powys		1,763
Llandysilio	Powys		1,441
Llanfair Caereinion	Powys		1,301
Llanfihangel	Powys		895
Llanfyllin	Powys		1,217
Llanidloes	Powys		2,149
Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin	Powys		1,815
Llansantffraid	Powys		1,563
Llanwddyn	Powys		846
Machynlleth	Powys		1,701
Meifod	Powys		1,069
Montgomery	Powys		1,107
Newtown Central	Powys		2,122
Newtown East	Powys		1,401
Newtown Llanllwchaearn North	Powys		1,796
Newtown Llanllwchaearn West	Powys		1,447
Newtown South	Powys		1,215
Rhiwcyonon	Powys		1,724
Trewern	Powys		1,066
Welshpool Castle	Powys		962
Welshpool Gungrog	Powys		1,995
Welshpool Llanerchydol	Powys		1,602
Dyffryn Clwyd CC			75,993
Kinmel Bay	Conwy		4,607
Llansannan	Conwy		1,495
Towyn	Conwy		1,845
Bodelwyddan	Sir Ddinbych		1,612
Denbigh Central	Sir Ddinbych		1,462
Denbigh Lower	Sir Ddinbych		3,483
Denbigh Upper/Henllan	Sir Ddinbych		2,265
Dyserth	Sir Ddinbych		1,882
Efenechtyd	Sir Ddinbych		1,321
Llanarmon-yn-Ial/Llandegla	Sir Ddinbych		2,033
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Sir Ddinbych		1,170
Llandyrnog	Sir Ddinbych		1,765
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	Sir Ddinbych		1,830
Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch	Sir Ddinbych		1,496
Prestatyn Central	Sir Ddinbych		2,829
Prestatyn East	Sir Ddinbych		3,162
Prestatyn Meliden	Sir Ddinbych		1,529
Prestatyn North	Sir Ddinbych		4,729
Prestatyn South West	Sir Ddinbych		2,861
Rhuddlan	Sir Ddinbych		2,913
Rhyl East	Sir Ddinbych		3,693
Rhyl South	Sir Ddinbych		2,874
Rhyl South East	Sir Ddinbych		6,253
Rhyl South West	Sir Ddinbych		3,732
Rhyl West	Sir Ddinbych		3,283
Ruthin	Sir Ddinbych		4,260
St.Asaph East	Sir Ddinbych		1,472
St.Asaph West	Sir Ddinbych		1,290
Trefnant	Sir Ddinbych		1,503
Tremeirchion	Sir Ddinbych		1,344

Wrecsam a Glyndŵr CC		75,760
Corwen	Sir Ddinbych	1,799
Llandrillo	Sir Ddinbych	931
Llangollen	Sir Ddinbych	3,302
Acton	Wrecsam	2,177
Borras Park	Wrecsam	1,968
Bronington	Wrecsam	2,620
Brynyffynnon	Wrecsam	2,477
Cartrefle	Wrecsam	1,545
Cefn	Wrecsam	3,768
Chirk North	Wrecsam	1,846
Chirk South	Wrecsam	1,503
Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley	Wrecsam	1,685
Erddig	Wrecsam	1,444
Esclusham	Wrecsam	2,013
Garden Village	Wrecsam	1,656
Gresford East and West	Wrecsam	2,337
Grosvenor	Wrecsam	1,698
Hermitage	Wrecsam	1,544
Holt	Wrecsam	2,479
Johnstown	Wrecsam	2,461
Little Acton	Wrecsam	1,843
Llangollen Rural	Wrecsam	1,631
Maesydre	Wrecsam	1,420
Marchiel	Wrecsam	1,830
Marford and Hoseley	Wrecsam	1,824
Offa	Wrecsam	1,428
Overton	Wrecsam	2,710
Pant	Wrecsam	1,528
Penycae	Wrecsam	1,525
Penycae and Ruabon South	Wrecsam	2,026
Plas Madoc	Wrecsam	1,169
Ponciau	Wrecsam	3,521
Queensway	Wrecsam	1,377
Rhosnesni	Wrecsam	2,827
Ruabon	Wrecsam	2,078
Smithfield	Wrecsam	1,376
Stansty	Wrecsam	1,641
Whitegate	Wrecsam	1,594
Wynnstay	Wrecsam	1,159
Ynys Môn CC		52,415
Aethwy	Ynys Môn	5,175
Bro Aberffraw	Ynys Môn	3,023
Bro Rhosyr	Ynys Môn	3,919
Caergybi	Ynys Môn	5,504
Canolbarth Môn	Ynys Môn	6,537
Lliffon	Ynys Môn	4,104
Lligwy	Ynys Môn	4,810
Seiriol	Ynys Môn	4,650
Talybolion	Ynys Môn	4,762
Twrcelyn	Ynys Môn	5,497
Ynys Gybi	Ynys Môn	4,434

BCW-9003 / [REDACTED] / Caernarfon

Mae'r tri strided fertigol cyfochrog dwfn yn y gogledd ddwyrain yn atal y berfeddwlad Gymraeg ei hiaith rhag cael ei chynrychioli'n deg o ran ei chyfansoddiad hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol. Pam na ellir cael etholaethau arfordirol llorweddol er mwyn cynrychioli pawb yn deg? Yn ôl adroddiad y Guardian ar eich cynigion, dywedwyd y byddai cysylltiadau diwylliannol, hanesyddol ac ati, yn cael eu hystyried. Ni allaf weld sut mae'r cynigion ar gyfer y gogledd ddwyrain yn adlewyrchu'r addewid hwn mewn gwirionedd. Pam na ellir caniatáu rhywfaint o obaith i Aled Uchaf, Hiraethog ac ati, gael eu cynrychioli gan aelodau etholedig mwy cyfarwydd a'u cefndiroedd?

Diolch yn fawr,

[REDACTED]

BCW-9004 / [REDACTED] / Casnewydd

Nid yw etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn synhwyrol o gwbl. Ychydig iawn o gysylltiadau cymdeithasol ac economaidd sydd rhwng y ddwy ardal hyn.

Yn lle hynny, awgrymaf y dylid ymestyn ffin Islwyn tua'r de i gynnwys Tŷ-du, Basaleg ac ati. Byddai hyn yn cydnabod y cysylltiadau cryf sy'n bodoli rhwng y gogledd a'r de.

Er mwyn cydbwysu niferoedd ar gyfer etholaeth Caerffili, dylid trosglwyddo ardaloedd Llanbradach, Ystrad Mynach, Gelligaer, Hengoed ac ati o Islwyn.

BCW-9005/ [REDACTED] Bangor

Cynllun Ydi hyn gan y Toriaid I gael gwarad o Blaid Cymru

BCW-9006 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Dwi'n byw yn Broadlands a dwi ddim eisiau cael fy symud i etholaeth Aberafan.

Byddai'n gwneud mwy o synnwyr i osod Maesteg yn etholaeth seneddol Aberafan yn hytrach na Broadlands a Bryntirion – sydd ond ychydig bellter ar droed o'r dref!

BCW-9007 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Dwi'n cefnogi'r newid a dwi'n byw yn Abercynffig ac fe'm cynrychiolir gan etholaeth Ogwr. Nid yw hyn yn ymddangos yn gywir oherwydd nid oes gennym unrhyw beth i'w wneud â'r Cwm hwnnw, a phopeth i'w wneud â Phen-y-bont ar Ogwr.

Fodd bynnag, ni welaf unrhyw reswm pam y byddai Porthcawl yn newid i Borthcawl ac Aberafan.

BCW-9008/ [REDACTED] / Mynydd Llandegai

Mae'r cynnig i ddod â Bethesda a Dyffryn Ogwen i mewn i etholaeth Aberconwy yn anghredadwy. Dyma ddwy ran wahanol IAWN o Ogledd Orllewin Cymru, gyda diwylliannau gwahanol iawn.

Mae Bethesda, Mynydd Llandegai, a'r pentrefi cyfagos yn uniaethu'n gryf tua'r gorllewin: tuag at Gaernarfon.

Mae etholaeth bresennol Arfon yn atseinio. Mae'n gwneud synnwyr, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol.

Bydd y newid arfaethedig yn gwasanaethu'r unoliaethwyr yn dda, wrth deneuo pleidlais y Cenedlaetholwyr yn ddifrifol.

BCW-9009 / [REDACTED] / Abertawe

Yn fy marn i, enw gwell ar gyfer yr etholaeth hon fyddai Maldwyn a Glyndwr, gan y bod Maldwyn yn enw cyffredin ar yr ardal, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae Montgomeryshire yn enw hir.

BCW-9010 / [REDACTED] / Dinbych

Y mae Llansannan wedi ei leoli mewn ardal Gymraeg sydd yn hynod falch o'i gwreiddiau. Yma ganed Tudur Aled un o feirdd gorau 16g a William Salesbury cyfieithydd y Testament Newydd i'r Gymraeg i enwi dim ond dau.

Y mae yna gysylltiad oes rhwng Uwchaled (Llangwm), Bro Aled (Llansannan) a Bro Cernyw (Llangernyw). Y mae yn gysylltiad hanesyddol, amaethyddol, daearyddol, ieithyddol a diwylliannol. Y mae y tair ardal yn rhan o wead cymdeithasol ers cyn i ffiniau modern gael eu ffurfio.

Y tair ardal yma yw 'asgwrn cefn' Sir Conwy.

Yn anffodus y mae eich argymhellion cychwynnol yn tarfu ar y traddodiad hanesyddol yma trwy roi Llansannan yn etholaeth Clwyd a Llangernyw ac Uwchaled yn etholaeth Aberconwy.

Y mae yn gwbl rhesymol i Llansannan fod o fewn yr un etholaeth a Llangernyw sydd â llai na 4 milltir rhyngom.

Y mae llawer mwy yn gyffredin rhwng ardal Gymraeg Bro Aled (Llansannan) ac ardaloedd sydd o fewn yr Aberconwy newydd i gymharu a sawl ardal ogleddol yn etholaeth Clwyd.

Byddai ychwanegu 1485 o etholwyr Llansannan at etholaeth Aberconwy yn gymorth i unioni y cyfartaledd etholwyr rhwng Aberconwy a Clwyd.

Mawr obeithiaf y byddwch yn rhoi sylw teilwng i'r sylwadau hyn. Y mae yn frwydr cynnal ein traddodiadau a'n hetifeddiaeth yn y Gymru wledig a gallai eich argymhellion, fel y maent ar hyn o bryd, danseilio endid sydd wedi bodoli ers canrifoedd.

Y mae cymuned yn llawer pwysicach na llinell ar fap.

BCW-9011/ [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Pam mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei rhannu'n ddwy os mai'r diben yw lleihau nifer yr ardaloedd?

Pa effaith fydd gwahanu Pen-y-bont ar Ogwr oddi wrth yr arfordir yn ei chael ar yr economi – mae twristiaeth yn rhan enfawr o iechyd economaidd y fwrdeistref.

BCW-9012/ [REDACTED] / Aberdâr

Dyma fap ffiniau arall a luniwyd gan gymdeithas y ddaear wastad. Nid oes unrhyw rinwedd i'r newidiadau arfaethedig i etholaeth bresennol Cwm Cynon. Rydych chi'n ceisio cysylltu cymunedau sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol gan nodweddion daearyddol. Mae'r ffiniau sirol presennol yn cael eu hanwybyddu neu eu diystyru ac mae'r cynigion yn dangos diffyg parch llwyr tuag at y poblogaethau lleol. Dyma gynnig a ddaw o Lundain, heb unrhyw rinwedd iddo.

Rwy'n gwrthwynebu eich cynigion a dylid eu gollwng hyd nes y byddant yn adlewyrchu realiti'r amgylchiadau lleol yn briodol.

[REDACTED]

BCW-9014 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Dyma'r peth mwyaf chwerthinllyd i mi ei weld erioed. Mae hanner Cefn Glas mewn un ardal a'r hanner arall mewn ardal arall. Rydym ar gyrion tref Pen-y-bont ar Ogwr, rydym yn perthyn i Ben-y-bont ar Ogwr ac nid Aberafan, sy'n sir hollol wahanol. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl!

BCW- 9015 [REDACTED] / Abertawe

Dylai unrhyw beth i'r gorllewin o'r Tawe yn ardal Clydach yn Abertawesymud i mewn i Abertawe o Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe. Mae'r afon yn ffurfio rhwystr naturiol.

Mae ward yr awdurdod lleol bellach yn cynnwys Craig Cefn Parc ar ôli newidiadau ddod i rym eleni.

Hefyd, mae Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn syniad ofnadwy gannad oes cysylltiad lleol rhwng y ddwy ardal, yn hanesyddol bu'r ddwy yn endidau ar wahân.

Mae mwy o gysylltiad rhwng ardaloedd yng Nghwm Tawe a Chwm Aman nag sydd rhwng yr ardaloedd hynny a Chastell-nedd, ond maegan Lansawel a Baglan fwy o gysylltiadau â Chastell-nedd nag Aberafan a Phorthcawl.

BCW-9016/ [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Rydym 10 munud o bellter cerdded o ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr ac yn defnyddio'r holl gyfleusterau lleol yn weithredol. Rwy'n gweithio yn Ysbyty Tywysoges Cymru sef yr ysbyty lleol. Rydym yn perthyn i gymuned Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r plant yn mynd i'r ysgolion lleol. Rydym wedi gweld newid ffiniau'r bwrdd iechyd yn ddiweddar a buom yn gweithio'n galed iawn ar integreiddio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r ALI. Bydd y newid hwn yn negyddu'r holl waith caled dros y 2 flynedd diwethaf. Mae Broadlands yn rhan o Ben-y-bont ar Ogwr ac NI ddylai symud i'r etholaeth arfaethedig.

BCW-9017/ [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

O ddarllen manylion llawn y broses adolygu ffiniau, gallaf weld mai'r egwyddor sylfaenol yw gwneud pob etholaeth rhwng 69,724 a 77,062.


Nid yw'r newidiadau arfaethedig i uno etholaethau Ogwr/Aberafan a Phen-y-bont ar Ogwr yn 2, yn fy marn i, yn ystyried y ffaith bod ward Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr yn cynnwys 2 o faestrefi mwyaf Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal sydd wedi'u lleoli ar ochr dde ffin y ward, ac er bod y ward yn fawr o ran maint, mae'r boblogaeth wedi'i chysylltu yn y bôn ag etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o'r dref.

Yn fy marn i, ceir cyfle i symud ward Caerau i Aberafan Porthcawl, lle mae'n ddaearyddol ar ffin etholaeth bresennol Aberafan ac sy'n gwasanaethu cysylltiadau'r boblogaeth â chymuned gyfagos Croeserw a phentrefi gerllaw gan gynnwys Blaengwynfi ar ochr ogledd orllewinol yr etholaeth bresennol.

Wrth newid Caerau (7,709) a Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (9,334) byddai Pen-y-bont ar Ogwr ac Aberafan/Porthcawl yn dod yn agosach at y canolrif.

Mae'r atodiadau canlynol yn dangos pam y byddai Caerau yn cael ei wasanaethu'n well. Byddwn yn awgrymu hefyd y dylai'r comisiwn ffiniau edrych ar fapiau ffisegol y ward yn hytrach na ffin Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr i ddeall yn well y dewis afresymegol o symud y ward hon o etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

Edrychwch ar ffin etholaeth bresennol Aberafan ac ystyriwch ba gymuned y byddai'n well ei rhoi yn y ffin newydd?



Poblogaeth amcangyfrifedig fesul Ward

Yn hytrach na thynnu maestrefi Pen-y-bont ar Ogwr o Ben-y-bont, byddai rhoi Caerau yn yr etholaeth yn cydbwysu'r ddwy etholaeth yn well o fewn y cyfartaledd, mewn gwirionedd.


Aberafan/Porthcawl – 74,537 (o 76,792)
Pen-y-bont – 76,643 (o 74,388)

CURRENT BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL WARDS (AS OF JAN. 2019)

* Each box is 1 councillor



BC - Bryncoch
BK - Brackla
CG - Cefn Glas
L - Litchard
LB - Llangewydd & Brynhyfryd
M - Morfa
N - Newcastle
P - Pendre
PYF - Penyfai
S - Sarn
YN - Ynysawdre



BCW-9018 / [REDACTED] / Aberdâr

Mae cynnwys cymunedau Glynhafod, Cwmaman, Godreaman ac Aberaman yn etholaeth Pontypridd yn ddwli llwyr.

Mae'r cymunedau hyn wedi bod yn rhannau annatod o Aberdâr ers degawdau ac nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad penodol â Phontypridd.

Byddai pobl yno'n teimlo eu bod wedi'u dieithrio'n llwyr oddi wrth AS sy'n cynrychioli Pontypridd.

Fy marn i yw y dylid uno Cwm Cynon, o Aberpennar i lawr i'r de, â Phontypridd, gyda phopeth i'r gogledd o Aberpennar yn uno â Merthyr.

Bydd yn ddrwg gan bobl weld enw Cwm Cynon yn diflannu mewn termau seneddol, ond rwy'n teimlo y byddai pobl yn gyffredinol yn gweld fy awgrym yn opsiwn mwy derbyniol.

BCW-9019 / [REDACTED] / Dinas Powys

Fel un o drigolion Dinas Powys, Bro Morgannwg, rwy'n bryderus iawn y bydd y ffin newydd yn gosod yr ardal hon yng Nghaerdydd. Mae Dinas Powys, Sili ac, i raddau, Penarth, yn ardaloedd gwledig. Pe bai'r swyddfa ddinesig weinyddol yng Nghaerdydd, bydd yn fwy anhygyrch ac yn anghysbell yn seicolegol. Rwy'n poeni y bydd penderfyniadau cynllunio a wneir yng Nghaerdydd yn y dyfodol yn arwain at ein mannau gwyrdd gwledig yn diflannu a'n hunaniaethau cymunedol yn diflannu gyda nhw. Mae Caerdydd yn ddinas fawr, mae Bro Morgannwg yn ardal wledig. Gadewch i ni eu cadw fel y maent.

BCW-9020 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Rwy'n byw yn [REDACTED] etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai symud ein hystad fawr i Aberafan Porthcawl yn rhannu ein cymuned mewn ffordd annerbyniol ac annealladwy. Byddai canol fy nhref leol, fy nghyngor lleol, [REDACTED]

[REDACTED] a'r Aelod o'r Senedd i gyd mewn etholaeth wahanol. Hoffwn gael fy nghynrychioli mewn ffordd sy'n fy nghysylltu â'm cymuned fy hun.

Cadwch ffin bresennol yr etholaeth. Peidiwch â'n rhannu ni yn y modd afresymegol hwn.

BCW-9021 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Dwi ddim eisiau cael fy symud i Aberafan. Gadewch ni ym Mhen-y-bont ar Ogwr

BCW-9022 / [REDACTED] / Rhuthun

Dylai Rhuthun fod yng Nghlwyd

BCW-9023 / [REDACTED] / Cefn Mawr

Pam?

BCW-9024 / [REDACTED] / Casnewydd

A fydd hyn yn golygu y gadewir Islwyn ar ôl gan na fydd Cyngor Caerffili yn gwneud unrhyw waith yn ein hardal nawr os ydynt mewn etholaeth wahanol? Ni allaf ond gweld hyn yn gwaethygu, neu a fydd Islwyn yn cael ei gyngor ei hun?

BCW-9025 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae angen i Broadlands aros yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr... rydym yn byw ac yn gweithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr a dymunwn gael ein llywodraethu gan AS Pen-y-bont ar Ogwr.

BCW-9026 / [REDACTED] / Cwmbrân

Rwy'n credu ei fod yn syniad da dod â Chroesyceiliog, lle'r rwy'n byw, i mewn i Dorfaen yn hytrach na Mynwy. Mae popeth rwyf i'n ymdrin ag ef o ran cyngor lleol yn ymwneud â Chyngor Torfaen eisoes

BCW-9027 / [REDACTED] / Porthcawl

Nid yw'r etholaeth arfaethedig yn ystyried Porthcawl fel cyrchfan bwysig i dwristiaid, ond fel y cyfryw, mae gan y lleoliad twristiaeth arfordirol hwn lawer mwy yn gyffredin â Bro Morgannwg nag Aberafan. Os derbynnir y cynlluniau presennol, ni wasanaethir orau'r angen i Borthcawl gryfhau a datblygu.

BCW-9028 / [REDACTED] / Cwm Ogwr

Dwi ddim yn meddwl bod symud Porthcawl allan o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn syniad da.

Yn lle hynny, beth am rannu Aberafan a rhoi hanner i Ben-y-bont ar Ogwr a hanner i Bort Talbot?

BCW-9029 / [REDACTED] / Aberystwyth

Gwrthwynebaf yn gryf i golli 8 sedd. Mae hyn yn rhoi llai o lais i Gymru fel cenedl a llai o gynrychiolaeth ynghylch y pethau sy'n digwydd. Rwy'n gwrthwynebu lwmpio Ceredigion i mewn â Phreseli. Rydym yn wynebu materion gwahanol iawn o ran economi a ffordd o fyw. Cyffindwylo gwarthus yw hyn. Mae'n annemocrataidd.

BCW-9030 / [REDACTED] / Abertawe

Cyffindwylo digywilydd, symud cyfran o'r ardaloedd â mwyafrif Llafur allan o Gŵyr Geidwadol er mwyn ennill sedd. Yn ogystal, mae Cymru heb gynrychiolaeth ddigonol ac fe'i hanwybyddir yn San Steffan fel y mae, bydd cael gwared ar draean o'r ASau yn gwaethgu hynny ac yn cryfhau'r galwadau am Annibyniaeth.

BCW-9031/ [REDACTED] / Pontypool

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 12 Medi 2021 16:29

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newid Ffiniau

Cytunaf yn llawn â'r newidiadau arfaethedig i ffiniau etholaethau Seneddol.

Mae Cymru eisoes yn dioddef biwrocratiaeth ormodol oherwydd haenau o gynrychiolaeth.

Aelodau Seneddol, Aelodau o'r Senedd a Chynghorwyr Bwrdeistrefi Sirol.

Bydd etholaethau o faint tebyg yn gwneud rhywfaint i gyfartalu cynrychiolaeth.

[REDACTED]

[REDACTED]

BCW- 9032 / [REDACTED] / Aberystwyth

Credaf fod Ceredigion-Preseli yn rhy fawr ac yn rhy hir. Mae gen i ofnau y bydd yn ei gwneud yn anoddach i'm AS fy nghynrychioli yn Senedd y Deyrnas Unedig.

Roeddwn i'n meddwl tybed a oes modd cynyddu nifer yr etholwyr trwy wthio i fyny i'r gogledd neu i'r dwyrain i mewn i Aberhonddu a Maesyfed neu/a Maldwyn a Glyndwr. Fodd bynnag, rwy'n hapus gyda'r enwi.

BCW-9033 / [REDACTED] / Castell-nedd

Bydd cynnwys ardal ddwyreiniol Abertawe yn etholaeth Castell-nedd yn cyflwyno newid amlwg i gymeriad yr etholaeth.

Bydd yr Aelod Seneddol yn wynebu llwyth achosion ychwanegol sylweddol o ardaloedd newydd amrywiol megis campws y glannau prifysgol Abertawe, ac ardaloedd fel Port Tennant a Bôn-y-maen, a fydd yn mynnu llawer o sylw, ac mae'n anochel y bydd hynny'n tynnu oddi wrth y ffocws y bydd yr AS yn gallu'i roi i gymuned graidd Castell-nedd a fu'n draddodiadol wrth wraidd eu gwaith. Fel un o etholwyr Cwm Nedd, nid wyf yn rhyngweithio llawer o ddydd i ddydd â Dwyrain Abertawe, ond yn hytrach llawer mwy â chyrion gorllewinol Port Talbot a Chwm Afan. Mae hyd yn oed dalgylchoedd ysgolion yn tueddu i fod rhwng Castell-nedd a Chwm Afan yn hytrach na Chastell-nedd a Chwm Tawe. Os yw'r ffin i newid, byddai'n well gen i weld aliniad Nedd/Afan yn hytrach nag un Nedd/Tawe.

BCW-9034 / [REDACTED] / Bangor

Rwy'n ei chael hi'n syfrdanol y gallai Bangor, sydd yng Ngwynedd, fel y gwyddom, gael ei gosod yn etholaeth Aberconwy. Neu ai'r nod yn y pen draw yw symud Bangor a'r rhan fach arfaethedig o Wynedd i Sir Conwy?

BCW-9035 / [REDACTED] / Caernarfon

Tra nad wyf yn gwrthwynebu symud tref Caernarfon i mewn i etholaeth Dwyfor Meirionnydd, rwf yn gwrthwynebu'r enw.

Mae'r enw Dwyfor Meirionnydd yn anwybyddu statws o bwys hanesyddol Caernarfon, ac hefyd yn anwybyddu'r ffaith bod etholaeth Caernarfon/Arfon wedi bodoli am ddegawdau lawer. Mae hefyd yn anwybyddu'r ffaith bod rhan helaeth o'r etholaeth yn yr hen Sir Gaernarfon. Dim ond ardal Pen Llŷn a gynrychioli gan Dwyfor.

Opsiynau gwell yn fy marn i fyddai:

Caernarfon Meirionnydd

Arfon, Dwyfor a Meirionnydd

Gwynedd

BCW-9036 / [REDACTED] / Casnewydd

Peth gwael fyddai cysylltu Gorllewin Casnewydd a Chaerffili, Gorllewin Casnewydd a Rhisga, os gwelwch yn dda.

Mae gan Orllewin Casnewydd a Chaerffili ddwy hunaniaeth wahanol a gwleidyddiaeth lywodraethol wahanol. Byddai uno Caerffili a Chasnewydd yn anhydrin i un aelod etholedig.

BCW-9037/ [REDACTED] / Caldicot

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 14 Medi 2021 11:08

At: Ymholiadau <enquiries@boundaries.wales>

Pwnc: Sylwadau ar Adolygiad Ffiniau Seneddol Cymru.

Annwyl Foneddigion,

Ni allwn ddod o hyd i unrhyw ffordd i ymateb ar-lein i'r cynigion ar gyfer etholaethau Cymru, felly rwy'n defnyddio'r llwybr hwn.

Darllenais â diddordeb y newidiadau arfaethedig i etholaeth seneddol DWYRAIN CASNEWYDD. Hoffwn ddweud yn gyntaf fy mod i'n byw yng Nghil-y-coed sydd i'r dwyrain o ddinas Casnewydd ac yn ne Sir Fynwy. O ran lle'r wyf yn byw, â Chasnewydd y mae fy nghysylltiadau (ac i raddau llai, Caerdydd) a phrin y byddaf yn teithio i'r gogledd o Gas-gwent, felly mae fy nghysylltiadau yn bendant â Chasnewydd. Pe bai Cil-y-coed yn dod yn rhan o etholaeth newydd Sir Fynwy, byddwn i'n teimlo'n bell ohoni. Rwy'n gwerthfawrogi bod Sir Fynwy yn ffin gyfleus i'w defnyddio, ond does gennym ni yn y de fawr ddim cysylltiad â rhan helaeth y sir.

Dymuniadau gorau,

[REDACTED]

BCW-9038 / [REDACTED] / Caerdydd

Rwy'n methu â gweld sut y gellir ystyried Tredelerch, sydd 4 milltir i'r dwyrain o ganol Caerdydd, yn rhan o ganol Caerdydd. Dim ond ward Trowbridge sydd i'r dwyrain ohoni ac nid oes unrhyw beth i'r de ohoni, felly byddai'n fwy priodol i'w chyfrif fel rhan o Dde Caerdydd a Phenarth. Yn ffurfiol, nid oedd hyd yn oed yng Nghaerdydd, ac mae Afon Rhymni yn ffurfio rhaniad synhwyrol rhwng Canol Caerdydd a De Caerdydd.

BCW-9039 / [REDACTED] / Dinas Powys

Hoffwn gofnodi fy anfonlonrwydd â symud Dinas Powys o etholaeth Bro Morgannwg ac i mewn i Dde Caerdydd a Phenarth. Rwy'n meddwl y bydd hyn yn golled wirioneddol i'r gymuned gan fod y cynghorwyr Ceidwadol yn cael effaith enfawr yn y gymuned.

BCW-9040 / [REDACTED] / Bangor

Fel preswlydd ac un sydd ar y Rhestr Etholiadol ar gyfer Etholaeth ARFON, ni wn sut i ddisgrifio'r cynnig i rannu'r Etholaeth, ac ar drawiad beiro, dileu ARFON oddi ar fap Gwleidyddol Cymru.

* Mae hanes enw ac ardal ARFON yn mynd yn ôl dros 1,000 o flynyddoedd, ei hanes fel Cantref Cymreig canoloesol Arfon oedd craidd Teyrnas Gwynedd. Yn ddiweddarach, cafodd ei chynnwys yn y Sir Gaernarfon newydd o dan delerau Statud Rhuddlan ym 1284.

* Fel mae'r enw'n ei awgrymu, mae Arfon yn wynebu Ynys Môn ar draws y Fenai.

* Mae ARFON yn rhan o hanes Cymru, mae ganddi draddodiad, cyfeirir ati mewn mytholeg, ac mae parch tuag ati.

Wrth gydnabod y bydd etholaeth newydd yn cael ei chreu; byddwn i'n cynnig bod yr etholaeth newydd, wrth gynnwys 14 ward o ABERCONWY a phob un o'r 31 ward yn ARFON, yn cael ei henwi fel a ganlyn -

“ARFON a CHONWY”, neu fel arall, “ARFON ac ABERCONWY”

Etholaeth Arfaethedig 'ARFON gyda CONWY'

CYFANSWM ETHOLWYR YN SEILIEDIG AR 46 WARD

69,532

WARDIAU ETHOLIADOL YN ARFON & CONWY ETHOLWYR

Cyfanswm Wardiau 31 (yn seiliedig ar etholaeth Arfon)

GROESION	1,374
PENYGROES	1,369
LLANLLYFNI	915
TALYSARN	1,399
LLANWENDA	1,507
BONTNEWYDD	865
SEIONT	2,233
PEBLIG	1,603
CADNANT	1,514
MENAI (CAERNAFON)	1,724
WAUNFAWR	1,298
CWM - Y - GLO	753
LLANBERIS	1,613
Y FELINHELI	1,803
BETHEL	1,025
LLANRUG	1,396
DENIOLEN	1,463
PENISARWAUN	1,365
PENTIR	2,159
TREGARTH & MYNYDD LLANDYGAI	1,628
OGWEN	1,697
GERLAN	1,696
ARLLECHWEDD	1,091

WARDIAU ETHOLIADOL YN ARFON & CONWY	ETHOLWYR
DEWI	1,301
HENDRE	940
GLYDER	1,257
MARCHOG	1,579
DENIOLEN	920
MENAI (BANGOR)	1,548
GARTH	556
HIRAEI	1,066
CYFANSWM	42,657

Nodyn: Comisiwn Ffiniau I Gymru;

Manylion ar yr ETHOLWYR ar gyfer ARFON fel 43,125

ychydig yn llai na chynnydd o 10% ar gyfanswm ETHOLAETH y ward

Cyfanswm Wardiau 15 (yn seiliedig ar etholaeth Conwy)

BRYN	1390
PANDY	1463
PANT- YR-AFON (PENMAENAN)	2167
CAPELULO	1284
CONWY	3295
DEGANWY	3289
MARL	3539
CEARHUN	1677
LLANSANFFRAID	1814
EGLWYSBACH	1257
TREFRIW	1026
BETWS-YCOED	967
GOWER	850
CRWST	1581
LLWCH CONWY	1276

WARDIAU ETHOLIADOL YN ARFON & CONWY ETHOLWYR**Cyfanswm****26875**

BCW-9041/ [REDACTED] / Boncath

Dwi yn croesawu'r newidiadau yma gan fod ein hardal yn ogledd Penfro yn agosach i Geredigion yn ddiwylliannol ac ieithyddol. OND ...dwi yn pryderu am ward Maenclochog gan fod wedi eu lwmpio mewn gyda de'r sir sydd ymhell o fod yn agos yn ieithyddol/diwylliannol. Efallai bod yn well i gynnwys Maenclochog yn etholaeth ceredigion-penfro a chynnwys ward o ardal Tyddewi yn y de. Os mae'r ffin yn aros fel hyn mae gyda'r potensial i creu rhaniadau cymunedol mawr.

BCW-9042/ [REDACTED] / Llanelwy

Rwyf o'r farn bod eich cynigion ar gyfer gogledd Cymru yn llawer mwy synhwyrol na rhai'r comisiwn ffiniau diwethaf ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae parch tuag at ba gymunedau sydd ag agweddau tebyg, a chysylltu cymunedau gwledig â threfi mwy o faint, yn hytrach na chreu ardaloedd gwledig eang.

BCW-9043/ [REDACTED] / Aberpennar

Nid yw Aberpennar a Phontypridd yr un fath, maent yn ardaloedd ar wahân sy'n hollol wahanol. Dylid uno Cwm Cynon a Merthyr.

BCW-9044 / [REDACTED] / Castell-nedd

Ni fydd yr ardaloedd etholedig newydd yn cydcurfio gydag ardaloedd etholedig cyngor lleol.

Mae hwn yn debyg o godi dryswch i lawer preswlydd yn yr adrodd newydd ac amharu ar y gwasanaeth leol y mae rhay Aelodau Seneddol yn darparu iddynt.

BCW-9045/ [REDACTED] / Bangor

Bu rhywfaint o ddatblygu ym Mhenrhosgarnedd yn y 1970au, ond mae Bangor wedi ehangu i'r ardal ers adeiladu'r ysbyty a'r ffordd osgoi yn yr '80au. O'r data pleidleisio, amcangyfrifaf fod rhwng 1,500 a 1,700 o bobl bellach yn byw yn ardal Penrhosgarnedd rhwng ffin Bangor a'r ffordd osgoi. Mae hynny'n fwy na 10% o etholwyr Bangor, a byddai'n ymddangos yn rhesymegol cynnwys yr ardal hon o fewn y ddinas a'r etholaeth. Rhywbeth y mae'r newidiadau arfaethedig i ffiniau wardiau sirol wedi methu â'i gydnabod. Byddai hyn yn ychwanegu hyd at 1,700 o etholwyr i etholaeth Aberconwy, sy'n agos iawn at yr isafswm a ganiateir, ac sy'n 2,053 yn llai nag etholaeth Dwyfor Meirionnydd. Wedyn, byddai gan Ddwyfor Meirionnydd ychydig dros 70,000 o etholwyr, ond ardal lawer mwy o faint. Yn ogystal, byddai'r ffordd osgoi yn gwneud ffin fwy amlwg na'r ffin bresennol sy'n aneglur.

BCW-9046/ [REDACTED] / Llanelli

Enw'r ward yw Llanelli, ond mae'n ymestyn dros rannau o Gaerfyrddin! Sy'n golygu bod Caerfyrddin ei hun wedi'i rhannu rhwng 2 AS! Oni ddylai AS Caerfyrddin ofalu am Gaerfyrddin? Efallai y dylid cynnwys Llandeilo yn lle wardiau Caerfyrddin? Byddai hyn yn well yn ddaearyddol, ac mae'r cysylltiadau ffyrdd sydd rhyngddynt yn rhai uniongyrchol.

BCW-9047/ [REDACTED] / Pontypridd

Mae ehangu ardal Pontypridd i ganol Cwm Cynon yn chwerthinllyd. Mae hyn yn gwneud y gynrychiolaeth wleidyddol yn anoddach gan fod ganddynt ardal rhy fawr i'w chwmpasu. Ni fyddant yn deall anghenion Cwm Cynon yn llawn gan ei fod y tu allan i'w hardal, ac mae hyn yn ddim mwy na gêm wleidyddol fel bod Llafur yn cael mwy o bleidleisiau gan fod Plaid Cymru bellach yn cael mwy o gefnogaeth ym mherfeddwlad draddodiadol Llafur oherwydd eu hanallu, felly yn hytrach na rhoi trefn ar eu [REDACTED], maen nhw'n addasu'r ffiniau er mwyn cynnal seddau, a ni'r trethdalwr fydd yn talu'r gost gan y bydd angen deunydd ysgrifennu a brandio newydd ac ati.

Ymddygiad digywilydd a chywilyddus!

BCW-9048/ [REDACTED] / Caerffili

Mae etholaeth arfaethedig Caerffili/Gorllewin Casnewydd yn awgrym chwerthinllyd. Ni chysylltwyd yr ardaloedd hyn erioed mewn siroedd neu ranbarthau blaenorol ac nid oes ganddynt unrhyw beth yn gyffredin o ran poblogaeth, daearyddiaeth na phwrpas. Mae angen i etholaethau fod yn ystyrlon i'r boblogaeth neu bydd y niferoedd sy'n pleidleisio yn plymio. Mae Cymru yn cael ei difreinio yng ngwleidyddiaeth y DU a bydd ein sir yn dioddef o ganlyniad. Rwy'n un o drigolion Basn Caerffili ac nid oes gennym unrhyw beth yn gyffredin â Chasnewydd. Byddai'n well ein cysylltu â Gogledd Caerdydd.

Byddai'n well anwybyddu'r niferoedd a threfnu etholaethau yn ôl ffiniau sirol. Pam mae Caerffili yn cael ei rhannu, ond nid felly Torfaen?

BCW-9049/ [REDACTED] / Llandysul

Nid yw'n gwneud synnwyr i Gymru gael Aelodau Seneddol yn San Steffan bellach.

Dylid diddymu etholaethau San Steffan yng Nghymru ac ethol uwch siambr yn lle Ty'r Arglwyddi yn hytrach i benderfyniadau ar faterion ar lefel Brydeinig megis trethi, amddiffyn, a materion rhyngwladol.

BCW-9050 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Rwy'n byw mewn ystad yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr [REDACTED], sy'n rhan o ward Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr y bwriedir iddi fod yn etholaeth newydd Aberafan a Phorthcawl. Ynghyd â wardiau Cefn Glas a Llangewydd/Brynhyfryd, mae'r 3 ward hyn wedi'u gwahanu oddi wrth dref Pen-y-bont ar Ogwr, ond mae'n ymddangos yn wahaniad lletchwith iawn.

Hoffwn awgrymu bod angen cynnwys y 3 ward hyn yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont ar Ogwr gan eu bod yn rhan hirsefydlog a hanfodol o'r dref a byddent yn teimlo eu bod wedi'u dieithrio mewn etholiadau.

I addasu ar gyfer hyn, hoffwn awgrymu y dylid gosod ardal Maesteg yn etholaeth arfaethedig Aberafan/Porthcawl gan fod tref Maesteg 9 milltir o Ben-y-bont ar Ogwr, ac er bod llawer o gysylltiadau â thref Pen-y-bont ar Ogwr, nid yw'r rhain yn ddim o gymharu â rhannau gwirioneddol o dref Pen-y-bont ar Ogwr ei hun.

Efallai y gellid cynnwys wardiau Caerau, dwyrain Maesteg, gorllewin Maesteg a Llangynwyd? Mae'r rhain eisoes yn gyfagos i wardiau tebyg yn Aberafan/Porthcawl, megis Gwynfi a Chymer.

Hwyl,

BCW-9051/ [REDACTED] / Beddau

Rwy'n credu ei bod yn chwerthinllyd bod Pont-y-clun yn dod yn rhan o Gaerdydd pan mae'n agosach at Lantrisant/Pen-y-bont ar Ogwr, felly ble mae'r synnwyr yn y penderfyniad hwn. Dylid gadael Pont-y-clun fel y mae. Mae Caerdydd yn ardal ddigon mawr heb ychwanegu rhagor ati.

Yr unig reswm dros rannu Cymru yw er mwyn cael rhagor o seddau i'r blaid Geidwadol

Gadewch Cymru i fod, gorau po gyntaf y byddwn yn annibynnol ar Loegr

BCW-9052/ [REDACTED] / Wrecsam

Er fy mod yn cytuno â'r nod o greu etholaethau â phoblogaethau unfaint yn fras, nid wyf yn cytuno â'r newidiadau am y rheswm canlynol

Lleihad yng nghynrychiolaeth seneddol Cymru yn San Steffan

BCW-9053 / [REDACTED] / Y Felinheli

Nid i'w yr enw arfaethedig yn Un sydd yn addas oherwydd nid yw rhan sylweddol or etholaeth wedi'w lleoli yn Dwyfor nag Meirionydd.

O rhan cysylltiadau trafnidiaeth, manachol a cyflogaeth mae'r ardal sydd ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth Arfon yn tueddu tua'r dywrain ac gogledd, ar hyd y a55 a rheilffordd Arfordir gogledd Cymru.

BCW-9054 / [REDACTED] / Gaerwen

Mae Ynys Mon yn cael ei thrin yn berffaith deg yn fy marn i. Mae 'r ynys yn uned hanesyddol unigryw ac mae'r comisiwn/ llywodraeth yn cydnabod hynny. Da iawn, cytuno'n llwyr.

BCW-9055 / [REDACTED] / Llanelli

Pam mae'n rhaid i Lanelli gael AS pan nad oes ganddynt ysbyty?

BCW-9056 / [REDACTED] / Cil-y-coed

Mae dileu 8 etholaeth seneddol yng Nghymru a 2 yn yr Alban, ac ychwanegu 10 yn Lloegr, yn ymddangos yn debyg iawn i gyffindwylo. Bydd llais pobl Cymru a'r Alban yn cael ei leihau ymhellach, yn yr hyn sydd eisoes yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar Loegr.

Mae symud fy nhref fy hun, Cil-y-coed, o Ddwyrain Casnewydd i Sir Fynwy yn ymddangos yn ymarfer dibwrpas, heb unrhyw deilyngdod amlwg.

BCW-9057 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Dylai map Pen-y-bont ar Ogwr fod yn Ben-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl gydag Ogwr. Ni ddylem gael ein rhannu. Nid oes gan ddwyrain Sir Pen-y-bont ar Ogwr unrhyw beth i'w wneud â Chastell-nedd Port Talbot ac ni ddylid cymysgu Tref Pen-y-bont ar Ogwr â mannau eraill yn Rhondda Cynon Taf. Pe bae chi'n uno'r ddwy etholaeth yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr, byddai hynny'n fwy priodol. Byddech chi'n dal i golli un AS.

BCW-9058 / [REDACTED] / Bangor

Rwyf yn byw ym Mangor ers 6 mlynedd ac yn teimlo cysylltiad gryf i Arfon ac i weddill Gwynedd. Felly mae rhoi canol dinas Bangor yn yr un etholaeth a Llandudno, Llanrwst a Betws - y - Coed yn gwneud dim synnwyr gan fod y demograffeg yn hollol wahanol ac yn draddodiadol wleidyddol wahanol. Fydd yr awgrymiad yma yn gwneud yr etholaeth yn hynod o anodd i'w gynrychioli gan un blaid.

Hefyd nid wyf yn teimlo fod creu rhaniad trwy ddinas a chymuned Bangor yn ddefnyddiol i ar gyfer 'cohesion' trwy'r gymuned, gyda rhaniadau clir yn y gymuned yn barod fydd rhannu'r wardiau yma mewn i 2 etholaedd gwahanol ond yn amlygu'r rhaniadau yma.

Hefyd mae'n gwneud llawer mwy o synwyr creu etholaeth newydd mewn un awdurdod lleol yn hytrach na creu un etholaeth efo 95% y sir a rhoi'r 5% arall i fewn gydag etholaeth mewn sir gwahanol.

Rwy'n awgrymu felly fod Gwynedd yn aros yn un etholaedd gyflawn gan gynnwys cymunedau Bangor a Bethesda. Ac fod etholaeth Aberconwy yn dechrau ar y ffin o awdurdod lleol Gwynedd/Conwy

BCW-9059 / [REDACTED] / Caernarfon

Dwi ddim yn credu bod gwneud etholaethau mawr yn fwy fyth yn mynd i helpu.

Mae llawer o bobl yn credu bod gwleidyddion wedi colli cysylltiad â'u hetholaethau, felly mae eu gwneud yn fwy yn mynd i waethygu'r broblem.

Yn hytrach, dylid lleihau'r etholaeth hon rhywfaint, gan gynyddu'n gymesur mewn man arall er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau o ran meintiau.

Byddai ardaloedd o'r un maint yn darparu cyfle gwell i gael gwleidyddiaeth o ansawdd gwell ar lawr gwlad.

BCW-9060 / [REDACTED] / Wrecsam

Sut y gall fod yn ddilys i gynnig unrhyw newidiadau neu'n wir i ofyn am sylwadau pan ni allaf, mewn unrhyw le sydd ynghlwm wrth y mapiau rhyfeddol hyn, ddod o hyd i'r cyfiawnhad neu'r rhesymeg dros unrhyw un o'r newidiadau. Os mai'r nod yw lleihau cynrychiolaeth Cymru yn San Steffan, dylai'r newidiadau sicrhau nad ydynt yn newid y cyfrannau pleidleisio ar gyfer pob plaid ym mhob ardal. Os na wnânt hyn ac os ydynt yn debygol o ffafrio unrhyw un blaid neu y canfyddir eu bod yn rhoi mantais i unrhyw un blaid, yna mae'r newidiadau, er nad yn anghyfreithlon, yn dangos system hollol annemocrataidd neu annheg. Os yw hynny'n wir, yna mae'n amlwg mai dim ond pyped llywodraeth San Steffan yw'r comisiwn ffiniau i Gymru a dylid ymchwilio iddo'n llawn a dylid gwahardd ei aelodau rhag dal unrhyw swydd gyhoeddus hyd nes bod materion o'r fath wedi'u datrys. Os nad yw hynny'n wir, gobeithiaf y gellir cyhoeddi'r ddemograffeg bleidleisio hanesyddol a rhagamcanol i bawb ei gweld cyn i unrhyw newidiadau gael eu hystyried ymhellach. Rydym ni, y cyhoedd, yr ydych chi'n wasanaethgar iddynt, yn haeddu a dylem gael gwybodaeth gwbl dryloyw ynghylch unrhyw beth sy'n effeithio ar yr union ddemocratiaeth y bu cenedlaethau blaenorol yn ymladd drosti.

BCW-9061 / [REDACTED] / Pontardawe

Mae gan Pontardawe gysylltiadau llawer agosach, yn economaidd, yn addysgol ac yn gymdeithasol, ag Abertawe, Castell-nedd a Chlydach, nag sydd gan y dref ag Aberhonddu.

BCW-9062 / [REDACTED] / Abertawe

Mae'n syniad hollol ofnadwy, rhannu cymunedau hirsefydlog. Mae'r ardal yn llawer rhy fawr i gael cynrychiolaeth ddigonol. Rhaid i hyn beidio â bwrw ymlaen. Teimlaf yn hollol ddifreintiedig gan y newid hwn mewn ffiniau etholaeth. Echydus.

BCW-9063 / [REDACTED] / Abertawe

Ni allaf ddeall sut y gellir symud Alltwen a Phontardawe i etholaeth Aberhonddu. Mae'n hollol wahanol o ran cysylltiadau lleol a daearyddiaeth, fel y nodwyd yn eich achos fel rhesymau dros symud yr ardal. Mae gennym dreftadaeth ddiwydiannol ac rydym yn wahanol i Aberhonddu a Maesyfed yn ddaearyddol ac yn economaidd. Nid yw symud Alltwen a Phontardawe i'r ardal honno er lles pennaf unrhyw un, ac mae angen ailedrych ar y rhesymau a roddwyd (sydd wedi'u dyfynnu isod) mewn modd logistaidd a synhwyrol. Hoffwn gael ymateb i'r gwrthwynebiad hwn â rhesymau ategol. Diolch.

"Cyhyd ag y bo modd, rydym wedi ceisio ystyried cysylltiadau lleol, ffactorau daearyddol, ffiniau llywodraeth leol (fel yr oeddent ar 1 Rhagfyr 2020), etholaethau presennol, a lleihau'r aflonyddwch a achosir gan y newidiadau arfaethedig".

BCW-9064 / [REDACTED] / Bangor

Mae rhannu Bangor rhwng dwy etholaeth yn chwerthinllyd a deud y lleiaf. Creu rhwyg a dryswch heb fod angen.

Dim angen newid yr etholaeth a dylid ei chadw fel y mae.

BCW-9065 / [REDACTED] / Abertawe

Mae'n swnio'n dda i mi, ond mae unrhyw beth yn swnio'n well na bod yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n cymryd swm afresymol o'r Dreth Gyngor ac yn rhoi dim yn ôl. Dylai Pontardawe fod wedi aros dan Abertawe yn y newid diwethaf – nid heb reswm y mae'n cael ei alw'n Gwm Tawe.

BCW-9066 / [REDACTED] / Pontardawe

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr symud Pontardawe a'r pentrefi cyfagos i Aberhonddu a Maesyfed, ac nid yw'n dangos llawer o barch tuag at gysylltiadau lleol â Chastell-nedd a'r cwm cyfagos. Hen dref ddiwydiannol yw Pontardawe, ac mae ganddi gysylltiadau diwydiannol cryf â rhan isaf Cwm Tawe a Chastell-nedd. Mae grwpio Pontardawe ag ardal ffermio, wledig yn bennaf yn ddisynnwyr. Yn ddaearyddol ac yn hanesyddol, nid oes unrhyw gyffelybiaethau na chysylltiadau â phentrefi yn Aberhonddu, ac nid oes unrhyw beth yn debyg ychwaith o ran barnau pleidleisio traddodiadol. Bu Pontardawe yn un o gadarnleoedd Llafur erioed, ynghyd â nifer o'r pentrefi cyfagos – oherwydd y ddemograffeg ddiwydiannol, dosbarth gweithiol, gan mwyaf. Nid yw hyn yn alinio â thraddodiad y ffiniau newydd arfaethedig.

BCW-9067 / [REDACTED] / Bala

Mae'r ymgais ddiweddaraf hon i newid y ddemograffeg bleidleisio ac ymyleiddio pleidlais y cenedlaetholwyr dinesig yng Ngorllewin Cymru yn dryloyw ac yn ffiائد.

Byddwn yn gwrthsefyll hyn, ym mhob dull heddychlon posibl. Ac ymhellach, gall yr Albanwyr edrych â diddordeb mawr ar yr hyn y bydd 'undeb gwleidyddol' yn ei olygu ar eu cyfer mewn gwirionedd, ymhen 30 mlynedd.

BCW-9068 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'n hollol chwerthinllyd cael Pont-y-clun a'r pentrefi cyfagos wedi'u 'bwndelu' i Orllewin Caerdydd. Nid wyf yn deall y rhesymeg yn hyn o gwbl a theimlaf yn ddig na fyddwn yn cael unrhyw ofal ac y byddwn bob amser yn dod yn ail i brifddinas Caerdydd.

Yr eiddoch yn siomedig

[REDACTED]

BCW-9069 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Ni ddylai Pont-y-clun a Meisgyn ddod o dan Orllewin Caerdydd. Mae'n sarhad i'r gymuned leol, i fod yn onest.

BCW-9070 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'r ffin hon yn hollol chwerthinllyd. Nid yw Llanhari unman yn agos at y Rhondda. Mae ein hanghenion a'n pryderon yn wahanol iawn ac felly ni fyddwn yn cael ein cynrychioli'n briodol gan y newid hwn i ffiniau etholaethau.

BCW-9071 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mor hollol chwerthinllyd gosod ein heiddo, sydd yn Rhondda Cynon Taf, yng Ngorllewin CAERDYDD. Nid wyf yn teimlo y byddwn yn cael ein cynrychioli'n briodol ar faterion sy'n effeithio arnom, gyda diffyg dealltwriaeth lwyr o fywyd yn y cymoedd a thu allan i'r ddinas. Mae angen ailystyried hyn

BCW-9072 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Yn fy marn i, dylid grwpio Tonysguboriau â Phont-y-clun.

Rydym yn gymdogion sydd wedi'u cysylltu gan ysgol a rennir. Gallaf gerdded i orsaf reilffordd Pont-y-clun o fewn deng munud. Fodd bynnag, mae Pontypridd yn daith 25 munud.

Credaf eich bod chi'n mynd i darfu ar ddeinameg a rennir, a byddai ysbryd cymunedol sydd wedi cymryd blynyddoedd i'w greu yn cael ei ddileu gan y newid hwn. Deallaf fod angen newid pethau. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn i chi edrych ar yr hyn sy'n gwneud synnwyr a gweithredu'n unol â hynny.

Byddai Meisgyn, Pont-y-clun, Tonysguboriau a Llantrisant yn cael eu gwasanaethu'n well o'u cadw gyda'i gilydd wrth eu symud. Yn fy marn i, mae'n gwneud synnwyr i'r ardal o Feddau ymlaen fynd o dan Bontypridd. Mewn ystyr daearyddol, mae hynny'n gwneud synnwyr, ac ni fyddai'n tarfu ar gymuned glos.

BCW-9073 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Ni all Meisgyn / Pont-y-clun ddod o dan Orllewin Caerdydd, nid ydynt yn agos o gwbl.

BCW-9074 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Ni allwn gael ein grwpio ar wahân i'n hysgol uwchradd leol, sef Y Pant. Rhaid i ni aros gyda'r ysgol hon. Nid yw'n rhesymegol bod ardaloedd nad ydynt yn ddalgylchoedd i'r ysgol sy'n aros gyda'r ysgol ar sail y map newydd, ond rydym ni'n ei cholli. Ailystyriwch hyn. Nid ydym yn ddigon agos i Gaerdydd i gael ein galw'n Gaerdydd.

BCW-9075 / [REDACTED] / Tonysguboriau

Mae Llantrisant, Tonysguboriau, Pont-y-clun a'r ardaloedd cyfagos yn gymuned glos. Roeddem eisoes wedi'n rhannu rhwng dwy etholaeth, ac mae'r cynlluniau arfaethedig yn gweld ein hardal yn cael ein rhannu'n dair. Mae hyn yn achosi rhwyg ac yn golygu bod y gynrychiolaeth wleidyddol yn ein hardal yn anodd, a bydd yn gwaethygu. E.e. [REDACTED], sydd 10 munud i ffwrdd ar droed, ac mae mewn etholaeth wahanol. Rwy'n gwirfoddoli â grŵp cyfagos ac rydym wedi troi at yr AS ar gyfer yr etholaeth honno, ond nid dyma fy AS i, gan fy mod yn etholaeth Ogwr. Bwriedir i ASau gefnogi pobl o fewn eu hetholaeth yn unig -

Ni fydd safbwyntiau pobl sy'n byw ym Mhont-y-clun yn cael eu blaenoriaethu gan AS Gorllewin Caerdydd – nid yw Pont-y-clun yng Nghaerdydd.

Mae'n ymddangos yn anghredadwy y bydd ein hardal yn cael ei gwahanu fel hyn. Ailystyriwch yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ein hardal a'n cynrychiolaeth.

BCW-9076 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Rwy'n byw ym Mhont-y-clun, a chynigir symud y pentref i etholaeth Gorllewin Caerdydd. Mae Pont-y-clun o fewn RhCT ac nid Caerdydd – felly dylech alinio ffin Gorllewin Caerdydd â'r ffin sirol, oherwydd fel arall, ni fydd unrhyw AS sy'n cynrychioli Caerdydd yn arwain nac yn gofalu am Bont-y-clun

BCW-9077 / [REDACTED] / Dinbych

Bydd newid y ffiniau yn atgyfnerthu pŵer yn nwylo'r sawl sydd mewn grym eisoes. Yr unig ffordd o gael newid effeithiol yw wrth wneud i bob pleidlais unigol gyfrif, a chyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol cyn gynted â phosibl.

BCW-9078 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Dylai Pont-y-clun fod yn rhan o Bontypridd neu Rondda. Nid ydym yng Nghaerdydd ac mae gennym broblemau sy'n wahanol i rai Caerdydd. Rydym wedi'n gwahanu'n ffisegol oddi wrth Gaerdydd. Mae ein cyfleusterau lleol wedi'u gwahanu oddi wrth Gaerdydd. Nid ydym eisiau talu mwy o dreth gyngor a derbyn llai o ddarpariaeth. Nid ydym eisiau dod yn ôl-ystyriaeth arall o gymharu â Chaerdydd, fel sydd wedi digwydd i Bentyrch, sy'n wynebu problemau yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus a meddygon teulu lleol.

BCW-9079 / [REDACTED] / Aberteifi

Hoffwn fynegi fy siom ynghylch eich cynnig i newid ffiniau. Ni allaf weld sut y bydd hyn yn gwella gwasanaethau sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd.

Yn bwysicach fyth, bydd y gost yn enfawr gyda'r holl ail-frandio sy'n ofynnol, nid yw hyn yn flaenoriaeth ar hyn o bryd, yn enwedig gan ein bod yn parhau i ddioddef effeithiau'r pandemig. MAE'N WASTRAFF ARIAN LLWYR!!!

Ar ben hynny, rwy'n credu y bydd yn achosi dryswch mawr wrth newid ardaloedd a fu'n rhan o Sir Benfro yn hanesyddol, a'u gosod yng Ngheredigion!!!

BCW-9080 / [REDACTED] / Sir Benfro

Mae Sir Benfro yn unigryw ac yn enwog ledled y byd fel cyrchfan gwyliau, a byddai newid hyn yn ffolineb ac yn costio swm enfawr o arian heb unrhyw ganlyniad clir.

BCW-9081 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'n ymddangos yn rhyfedd iawn mai AS Gorllewin Caerdydd fydd ein AS ni, ac eto mae gennym Gynghorwyr RhCT... oni fydd hynny'n golygu y bydd llai o wrando ar ein lleisiau ...? Yn aml, mae ardaloedd ar y ffiniau yn cael llai o ymweliadau, llai o sylw, llai o ganfasio, ac o'r herwydd, ni chlywir eu poblogaeth ac fe'i hanwybyddir....

BCW-9082 / [REDACTED] / Bangor

Rwyf yn hynod o bryderus bod y nifer o MPs sy'n cynrychioli Cymru yn cael ei leihau o 20% , nid yw yn yn teimlo'n deg i gymharu efo rhanau eraill o'r DU.

O edrych ar y darpar newidiadau ma'n edrych fel bod Bangor, yn cael ei ranu'n ddwy etholaeth. Ydi hyn yn rhywbeth arferol i ddigwydd? Ydi trefi megis Conwy, Wrecsam, Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth yn cael ei rhoi mewn yn etholaeth neu wedi ei rannu'n ddau neu 3?

BCW-9083 / [REDACTED] / Tredegar

Gan fod y newidiadau hyn yn cael eu gorchymyn gan Lundain, a allai hyn fod yn gyfle i ni yng Nghymru adolygu nifer y cynghorau sydd gennym, rwy'n byw ym Mlaenau Gwent yn un o rannau tlotaf y DU ac eto mae'n rhaid i ni dalu treth gyngor sydd ymhlith yr uchaf yn y DU, os nad yr uchaf, ac os yw hynny'n cyfateb i degwch, ni wn sut y gellir ei esbonio. Felly, cyn i'r ffiniau newydd gael eu gosod, a allech chi ystyried cael gwared ar Flaenau Gwent fel ardal cyngor, gan gyfuno'r ardal â'r cynghorau cyfagos ac arbed ffortiwn i bawb, ac mae hynny'n cynnwys Cynulliad Cymru.

BCW-9084 / [REDACTED] / Dyfed

Hoffwn wybod i ba Fwrdd lechyd y GIG y byddem yn perthyn. A fyddai Tai Cyngor, y Dreth Gyngor a holl Wasanaethau'r Cyngor yn dod o dan Geredigion yn hytrach na Sir Benfro.

BCW-9085 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Sut bydd hyn yn effeithio ar ddalgylch ysgol uwchradd Y Pant? Mae rhannu'r ardal leol hon rhwng 3 etholaeth yn achosi pryder.

BCW-9086 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'n ddrwg gen i, dwi'n meddwl bod hyn yn hollol anghywir a dylid hysbysu pobl drwy'r post er mwyn iddynt gael cyfle i bleidleisio yn erbyn neu o blaid hyn. Dwi ddim yn credu mai gosod pentref Tonysguboriau yng Ngorllewin Caerdydd yw'r peth gorau i'w wneud. Gadewch i'r bobl y mae hyn yn effeithio arnynt gael pleidlais arno

BCW-9087 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Dwi ddim yn deall sut y gellir uno Pont-y-clun a Sain Ffagan â Threlái, fel Gorllewin Caerdydd. Rydym o dan awdurdod lleol ar wahân, ac felly, mae gennym fandiau treth gyngor ar wahân ac mae hynny'n briodol. Mae'r holl ardaloedd eraill o dan y cynnig hwn wedi'u lleoli o fewn awdurdod lleol Caerdydd ac felly mae eu cyfraddau'n uwch oherwydd hyn. Pe cyfrifir cyfraddau ar sail yr ardaloedd newydd hyn, yna rwy'n ddig y byddwn ni ym Mhont-y-clun / Meisgyn yn wynebu'r un cyfraddau ond heb yr un buddion, oherwydd bod awdurdodau lleol yn rheoli eu cyllidebau eu hunain a'r hyn maen nhw'n ei gynnig i drigolion.

Hefyd, roeddwn i'n arfer byw yn ardal Gorllewin Caerdydd, h.y. Trelái, cyn symud allan i Feisgyn. Symudais oherwydd roeddwn eisiau gadael yr ardal a'i chysylltiadau, ond bellach rwy'n cael fy ngorfodi, o dan y cynnig newydd hwn, i ddychwelyd yno. Mae hyn yn warthus!

BCW-9088 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Cymeradwyaf ailddyrannu ardal Pont-y-clun a Meisgyn o Bontypridd i Orllewin Caerdydd. Teimlaf fod hyn yn cynrychioli'n well y cysylltiadau lleol sydd gan y gymuned. Er y golyga hyn fod yr etholaeth wedi'i chamlinellu â ffiniau awdurdodau lleol. Teimlaf fod ardal Meisgyn a Phont-y-clun mewn sefyllfa goll ar gyron ynysig RhCT, ac fel y cyfryw, mae llawer o drigolion yn teimlo y dylid eu symud i ardal awdurdod lleol Caerdydd neu Fro Morgannwg beth bynnag, er mwyn cynrychioli eu cysylltiadau a gweithgarwch lleol yn well.

BCW-9089 / [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n aneglur ynghylch pam mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud – pam y codwyd y trothwy ar gyfer nifer yr etholwyr – a bod hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr, lle mae maint cyffredinol y boblogaeth yn dra gwahanol.

Mae'n ymddangos fel gweithred fwriadol i leihau nifer yr ASau yng Nghymru ac i dawelu ein llais yn San Steffan. Ni allaf weld unrhyw reswm arall pam mae hyn wedi'i orchymyn.

BCW-9090 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae fy meddygfa leol yn Llanharan. Yn ogystal, mae ganddi chwaer-feddygfa yng nghanolfan feddygol Pen-coed.

Os aiff y cynnig hwn yn ei flaen, beth fydd yn digwydd i'r meddygfeydd? Mae'r chwaer-feddygfa ym Mhen-coed yn gwneud pethau nad ydynt ar gael yn Llanharan oherwydd gwasanaethau meddygol arbenigol a hefyd oherwydd Covid rydych chi'n mynd i feddygfa benodol ar hyn o bryd.

Rwy'n anabl ac mae gen i salwch cronig. Rwy'n gweld meddygon o leiaf ddwywaith y mis ac yn siarad â hwy ar y ffôn yn wythnosol. Bydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar ysbytai ac adrannau damweiniau ac achosion brys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg os aiff y cynnig hwn yn ei flaen. Mae'r rhain ar dorbwynt fel y mae.

Yr wythnos hon, bu'n rhaid i mi deithio i Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr oherwydd argyfwng y tu allan i oriau, gan nad oedd gwasanaeth arbenigol ar gael yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant. Maen nhw ar dorbwynt hefyd. Ceir amseroedd aros hyd at 10 awr ar gyfer argyfyngau. Ac nid yw'r feddygfa leol wedi'i chyfarparu o ran capsiti ar gyfer ymdrin â niferoedd mawr.

BCW-9091 / [REDACTED] / Llanhari

Diolch am ganiatáu cyfle i wneud sylwadau. Fel preswilydd yn Llanhari, nid wyf yn teimlo ein bod yn rhannu'r un buddiannau â Rhondda, sef yr etholaeth y byddwn yn symud iddi, yn yr un ffordd ag y gwnawn â'r Fro, neu Orllewin Caerdydd, neu Bontypridd. Rydym ar ffin rhwng pedair etholaeth, ac fel pentref sy'n uniongyrchol ar draffordd yr M4, byddai gennym flaenoriaethau a phroblemau gwahanol i'r rhai sydd gan Riondda. Er enghraifft, rydym yn debygol o ofyn i'n AS am gymorth yn ymwneud â gorddatblygiad a thraffig, a gallwn gael mynediad hawdd i ysbytai yng Nghaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr, ond mae pobl sy'n byw ychydig ymhellach i'r gogledd yn debygol o bryderu mwy ynghylch diffyg mynediad i Gaerdydd a'r cyfleusterau sydd gennym eisoes, ynghyd â mwy o bryder ynghylch tanddatblygu. Rwy'n credu y byddai unrhyw AS yn gweld ein materion wedi'u halinio'n agosach â'r rhai ar draws eu hardal pe byddem yn symud i etholaeth gyfagos wahanol.

BCW-9092 / [REDACTED] / Aberteifi

Rwy'n anghytuno â'r cynnig hwn. Mae etholaeth newydd Ceredigion Preseli yn llawer rhy fawr ac amrywiol. Ofnaf y bydd yr holl gyllid yn cael ei lyncu gan Aberystwyth. Sef tref fawr ymhell i ffwrdd o ble rwy'n byw.

Ni allaf weld unrhyw fudd, dim ond llawer o anafanteision.

Gadewch Sir Benfro fel y mae.

BCW-9093 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Rwy'n meddwl mai peth chwerthinllyd yw dosbarthu fy ardal i o fewn etholaeth Gorllewin Caerdydd a chael AS gwahanol yn ei gwasanaethu, a minnau'n byw [REDACTED] a fydd yn aros yn etholaeth Pontypridd.

Os defnyddir y ffiniau hyn yn y dyfodol ar gyfer dalgylchoedd ysgolion, byddai'r plant sy'n byw ym Mhant y Dderwen ym Mhont-y-clun y tu allan i ddalgylch Y Pant er mai dyma'r plant sy'n byw agosaf!

O ystyried y bydd y gymuned o'm cwmpas yn cael ei gwasanaethu gan AS gwahanol, gallai hyn olygu na fydd fy mhleidlais yn cyfrif yn fy ardal leol oherwydd gall yr AS a etholir yn fy etholaeth fod yn wahanol iawn i bleidlais yr ardal o'm cwmpas.

Yr ardal siopa rwy'n ei defnyddio fwyaf ac yn cerdded iddi yw Tonysguboriau, a fyddai hefyd mewn etholaeth wahanol. Teimlaf y bydd fy mhleidlais bellach yn cael llai o effaith ar yr ardal o'm cwmpas a chredaf y gallai'r newid etholaethol arfaethedig atal pobl rhag pleidleisio. Mae ceisio cynyddu'r niferoedd sy'n pleidleisio yn rhywbeth a fu'n flaenllaw dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig wrth leihau'r oedran ar gyfer pleidleisio er mwyn annog hyn, a theimlaf y byddai'r newid arfaethedig hwn yn cael effaith niweidiol ar y nifer sy'n pleidleisio yn yr ardal hon.

Yn ogystal, mae'r newidiadau arfaethedig hyn yn golygu y bydd gennym Aelod o'r Senedd ar gyfer etholaeth Pontypridd, felly ar gyfer fy ardal leol, bydd gennym RhCT, Aelod o'r Senedd ar gyfer Pontypridd, ac AS Gorllewin Caerdydd, a chredaf y bydd y gymysgedd hon yn cael effaith niweidiol ar ein cynrychiolaeth a'n gwasanaethau cymedrig.

Rwy'n meddwl y bydd y newidiadau arfaethedig yn golygu y bydd fy ardal yn disgyn trwy fylchau, fel ardal nad yw mewn unrhyw fan penodol o gwbl.

Byddai defnyddio ffordd yr A4119 fel y ffin wirioneddol yn fwy priodol, gan adael Meisgyn, Pont-y-clun a Brynsadler o fewn etholaeth Pontypridd.

BCW-9094 / [REDACTED] / Pont-y-clun

NA! Am jôc, sut yn y byd mae Pont-y-clun yn rhan o Gaerdydd?

Dyma ormes gan Loegr ar ei gorau, yn tawelu ein llais! Mae hyn y ddim llai na

[REDACTED] Seisnig yr oes fodern yn erbyn y Cymry!

BCW-9095 / [REDACTED] / Castell-nedd

Mae hyn yn hollol chwerthinllyd, roeddem yng Nghastell-nedd yn wreiddiol, wedyn newidiwyd hyn i Aberafan, bellach cawn ein gosod ym Mhorthcawl. Nid wyf eisiau bod yn rhan o Aberafan/Porthcawl a hoffwn fod o fewn y ffiniau ar gyfer Castell-nedd ei hun.

BCW-9096 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Ni allaf eich credu chi. Nid yw Pont-y-clun erioed wedi cysylltu ei hun â Chaerdydd neu Orllewin Caerdydd! Rydych chi'n dinistrio Cymru, cymunedau Cymru a'i phobl – rhag eich cywilydd!

BCW-9097/ [REDACTED] / Dinbych-y-pysgod

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 16 Medi 2021 10:45

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newidiadau arfaethedig i ffiniau etholiadol: Sir Benfro

Hoffwn ychwanegu fy nghefnogaeth i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau etholiadol a fydd yn effeithio ar Sir Benfro. Teimlaf fod creu etholaeth newydd arfaethedig Canol a De Sir Benfro yn gwneud synnwyr. Byddai cael gwared ar Orllewin Caerfyrddin yn gam da. Byddai'n galluogi'r AS i ganolbwyntio ar ardal fwy cryno a bod, o bosibl, yn fwy effeithiol yn gyffredinol.

[REDACTED]
Dinbych-y-pysgod

BCW-9098 / [REDACTED] / Bethesda

Dwi'n dod o Fethesda, dwi'n gweithio yng Nghaernarfon, gwnaf y rhan fwyaf o fy siopa ym Mangor (lle cefais fy ngeni), ac mae pob un o'r rhain yn etholaeth bresennol Arfon. Er y teimlaf gysylltiad â'r ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith i'r de a'r dwyrain (yn nyffrynnoedd Conwy a Lledr, y byddai fy nghymuned yn ymuno â nhw yn etholaeth newydd Aberconwy) teimlaf lawer mwy o gysylltiad â'r hen ardaloedd mwynloddio llechi i'r Gorllewin (dyma fy mhobl i, dwi'n dod o Arfon nid Aberconwy).

Nid oes gennyf unrhyw gysylltiad gwirioneddol â'r gytref arfordirol yng ngogledd ddwyrain yr etholaeth newydd, sef Llandudno, Cyffordd Llandudno ac ati. Mae'r lleoedd hyn, er nad ydynt yn ddieithr i mi, yn gwneud i mi deimlo'n ddieithr wrth ymweld â nhw. Yno, rwy'n ei chael hi'n anodd clywed a siarad fy mamiaith ar y strydoedd ac yn y siopau. Nid yw'r sgysiau a glywaf yno yn ymwneud â'm profiadau a'r materion sy'n effeithio arnaf. Teimlaf nad oes diben i'r lleoedd hyn er fy mudd i, ond yn hytrach er budd twristiaid o Loegr, a phobl sydd wedi ymddeol, a'r sawl sy'n eu gwasanaethu. Ac eto, bydd trwch y boblogaeth yng nghornel ogledd-ddwyreiniol "Aberconwy" yn sicrhau mai barn y bobl HYN a'r materion sy'n effeithio ar yr ardal HON fydd yn rheoli canlyniadau etholiadau.

Mae'r materion a nodaf yn berthnasol iawn hefyd i bobl ledled cefnwlod wledig llain arfordirol Gogledd Cymru. Mae'r ffordd y mae'r etholaethau wedi'u trefnu gyda'r gogledd Eingl-ganolog poblog yn dominyddu'r ardaloedd gwledig mwy prin eu poblogaeth a Chymraeg eu hiaith i'r de, yn gyfle a gollwyd i etholfreinio a chynrychioli'r cymunedau gwahanol sy'n bodoli.

Gellir yn hawdd fod wedi dyfeisio ad-drefnu tecach a mwy creadigol pe bai echel y cymunedau'n rhedeg o'r gorllewin i'r dwyrain (yn llorweddol) yn hytrach nag o'r gogledd i'r de (yn fertigol). Felly, byddai cymunedau'r llain arfordirol o Landudno hyd at Brestatyn, sydd â llawer yn gyffredin rhyngddynt, yn cael eu cynrychioli'n deg. Hefyd, byddai'r mewndir gwledig â'i drefi marchnad fel Conwy, Llanrwst, Rhuddlan, Dinbych, Rhuthun, Corwen ac ati, a'u pentrefi cyfagos a'u cymunedau ffermio cysylltiedig, yn cael eu hetholfreinio mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu natur yn fwy priodol.

Mae'r ffordd y mae'r newidiadau arfaethedig hyn i'r ffiniau wedi'u llunio, yn fy marn i, yn ddiog ac yn ddiddychmyg, gan barhau i ddifreinio rhan helaeth o ardal wledig gogledd Cymru er budd elfen sy'n ceisio ei hymyleiddio, a lleihau arbenigrwydd diwylliannol ei phobl, mewn ffordd sy'n warthus.

Os gwelwch yn dda, er budd democratiaeth, ailystyriwch.

BCW-9099 / [REDACTED] / Wreccsam

Gadewch yr etholaethau fel y maen nhw. Nid fu llawer o amser ers i'r ardal hon newid o Glwyd i Wreccsam, ac mae rhai pobl/cwmnïau yn parhau i gyfeirio ati felly. Pam ddylai Cymru weld lleihad yn nifer yr ASau, pan fydd cynnydd yn y nifer yn Lloegr, gan ei gwneud yn anoddach fyth i Gymru gael llais yn San Steffan, a chymysgu ardaloedd sy'n cefnogi'r Torïaid gydag ardaloedd Llafur. Fel pe na bai'n amlwg beth sy'n digwydd!!! Rhowch y gorau i ddrysu a chymylu'r llinellau, os bydd pethau'n parhau fel hyn, bydd San Steffan yn lleihau llais Cymru i'r fath raddau fel y byddwn yn mynd yn ôl i'r canol oesoedd!!!

BCW-9100 / [REDACTED] / Dyffryn Ardudwy

Rwy'n ystyried y byddai Dwyfor Meirionydd, sydd eisoes yn etholaeth fawr yn ffisegol, yn cael ei niweidio'n ddifrifol wrth fod yn fwy fyth. Mae maint ffisegol a natur yr etholaeth – gan nad yw Eryri yn nodedig am fynediad hawdd neu grynodiadau o ran poblogaeth – eisoes yn gwneud bywyd yn anodd. Byddai cynyddu ei maint yn gwneud dim ond chwyddo'r problemau.

Prin y mae ein AS presennol, Liz Saville-Roberts, yn llwyddo i gynnal cymorthfeydd a bod â'i thraed ar y ddaear yn ddigonol fel y mae. Mae'n bosibl y gallai'r newidiadau penodol hyn (sydd, yn fy marn i, yn ymylu ar fod yn gyfystyr â chyffindwylo, o ystyried eu bod yn debygol o leihau nifer ASau gwrthblaid Plaid Cymru gan un yn San Steffan) weithio mewn ardal o ddwysedd poblogaeth uchel, ond yma... na.

BCW-9101 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Peidiwch â lympio Pont-y-clun â Chaerdydd. Rydym yn Rhondda Cynon Taf a dylem gael ein cynrychioli gan AS un o etholaethau Rhondda Cynon Taf.

A yw hwn yn ymgais wirion i ddechrau'r broses o ehangu ffiniau Caerdydd i Rhondda Cynon Taf?

Peidiwch â gwneud hyn!

BCW-9102/ [REDACTED] / Sir Benfro

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 16 Medi 2021 13:40

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Sir Benfro

Rwy'n protestio am y newidiadau i'r ffiniau yng Nghymru. Dwi wir ddim yn gweld yr angen. Symudais yn ôl i Sir Benfro o Aberteifi oherwydd mai'r sir hon yw fy nghartref, ac mae gwir angen i ni gadw'r ffiniau fel y maen nhw, meddylwch am y miliynau y bydd hyn yn ei gostio, gellid gwario'r arian ar gartrefi, addysg, yr henoed, unrhyw beth yn hytrach nag ail-frandio.

Cadwch nhw fel y maen nhw, nid yw'n werth yr arian.

Yr eiddoch yn gywir

[REDACTED]

Deiliad Tŷ yn Sir Benfro

BCW-9103 / [REDACTED] / Llanbrynmair

Mae creu etholaeth o Fachynlleth i ochrau Wrecsam yn hollol anaddas. Does dim yn gyffredin rhyngddynt ac mae'n rhaid mynd drwy Loegr i fynd o un rhan o'r etholaeth i'r llall.

LLawer rheitiach byddai edrych ar greu etholaeth Powys ac yna rhoi ardaloedd fel DYffryn DYfi efo Ceredigion rhai cymunedau ardal Crughywel efo Mynwy ac ardal Ystradgynlais efo Cwm Tawe er mwyn cyraedd y trothwy poblogaeth perthnasol. O leia byddai hynny'n addas i'r Sir ac yn galluogi cymunedau ar y cyrion i fynd efo etholaethau tebyg cyfagos

BCW-9104 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Pe baech chi'n uno Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl gydag Ogwr, byddai hynny'n gwneud mwy o synnwyr gan fod yr holl ardal o fewn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r rhaniad a ddangosir yma yn torri ardaloedd i fwrdd o'r fwrdeistref a bydd yn ddryslyd iawn

BCW-9105 / [REDACTED] / Wrecsam

Chwerthinllyd. Rydym filltiroedd o Drefaldwyn a gallwn gerdded i Wrecsam. Dyma rhagor o [REDACTED] gan y Senedd sy'n gynyddol ddiddiben!

BCW-9106 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'r ffiniau hyn yn chwerthinllyd. Fel rhywun sy'n byw yn Nhyla Garw (sef rhan o Bont-y-clun) mae'n wirion iawn y bydd Tyla Garw yn rhan o etholaeth Rhondda. Canol y dref i drigolion Tyla Garw yw Pont-y-clun, gyda Thonysguboriau yn dilyn yn agos, ac yn bendant nid Tonyrefail neu Donypandy sydd gryn dipyn ymhellach i ffwrdd. Teimlaf fod y newidiadau arfaethedig yn golygu na fydd trigolion Tyla Garw yn cael dweud eu barn am faterion lleol gan y bydd Pont-y-clun mewn etholaeth wahanol, er ei fod lai na 500 metr i ffwrdd. Gellir dweud yr un peth am y ffin newydd sy'n gwahanu Pont-y-clun a Thonysguboriau.

BCW-9107 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Teimlaf y gallai'r gwahaniaethau o ran trethiant cyngor ar gyfer busnesau lleol niweidio llawer o fusnesau a sefydlwyd yn yr ardal leol. Tybir bod tref yn rhan is y cymoedd yn rhan o'r brifddinas, er bod yr ardal hon 12 milltir allan ac mewn lleoliad lled wledig, ac mae hyn yn anghyson.

BCW-9108 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae gan Bont-y-clun gysylltiadau agosach â RhCT a Phontypridd na Chaerdydd. Cam yw ein gwahanu oddi wrth ein hardaloedd lleol.

BCW-9109 / [REDACTED] / Clunderwen

Mae cael Tyddewi a gweddill Gogledd Sir Benfro yn rhan o'r un ardal ag Aberystwyth yn chwerthinllyd. Rwy'n byw ym Maenclochog ac mae gennym lawer mwy yn gyffredin â gogledd Sir Benfro na'r de ac mae'n ymddangos yn amlwg y dylem fod yn rhan o'r un ardal.

BCW-9110 / [REDACTED] / Hwlfordd

Dyma gyffindwylo ar ei orau. Nid wyf yn cytuno â'r newid hwn. Mae Cymru heb gynrychiolaeth ddigonol eisoes, a bydd hyn yn gwaethygu'r sefyllfa.

BCW-9111 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae Tal-y-garn, Llanhari, Brynsadler, Pont-y-clun, Meisgyn, Tonysguboriau a Llantrisant yn un gymuned i raddau helaeth. Mae hyn i'w deimlo ledled yr holl bentrefi/trefi hyn, ac mae'r bobl sy'n byw yno yn gymuned glos. Nid yw'n gwneud synnwyr i'w rhannu rhwng etholaethau gwahanol; gellir eu galw'n enwau gwahanol ond, fel y soniwyd, maent yn un gymuned gyda'i gilydd ac mewn gwirionedd gallent rannu'r un enw.

BCW-9112 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Dwi yn deall fod yr ardaloedd wedi ei clystyru nol ardaloedd etholiadau cynghorwyr lleol, ac yn meddwl fod hyn yn gwneud synnwyr.

Ond mae un peth i weld yn hynod i fi. Mae Llangynnwr Nantycaws ac ati yn cyfrif ei hunain yn bobol Caerfyrddin. Er hynny mae nhw yn ardal Llanelli yn nhrefn yr etholiad? Oes modd naill ai

1. Symud ardaloedd er mwyn i bobol ardal uniaethu gyda eraill (smo galw rhannau o'r Gaerfyrddin wledig sydd yn gweld y dref trwy ei ffenestri yn Llanelli yn gwneud synnwyr cyffredin). Yn fy marn i dylai ardal o rhai milltiroedd o amgylch tref Caerfyrddin fod yn rhan o etholiad y dref.

2. Opsiwn arall fyddai ail enwi y 2 ardal yn 'Gogledd Sir Gaerfyrddin' a 'De Sir Gaerfyrddin'

Fel un sydd yn byw i'r gorllewin o'r dref ac yn etholaeth Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro ar hyn o bryd, mae llawenydd mawr ein bod nawr yn perthyn i Sir Gar unwaith eto!

BCW-9113 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Rwy'n credu y dylai etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr ddilyn ffyrdd a nodweddion daearyddol yn agos, a chynnwys tref Pen-y-bont ar Ogwr yn ei chyfanrwydd, gyda'r terfyn wrth y gylchfan sy'n mynd tuag at Borthcawl a'r Pîl.

BCW-9114/ [REDACTED] / Port Talbot

Gan geisio anwybyddu'r ffaith mai ymgais amlwg i grafangu pŵer yw hyn, gan leihau nifer y lleisiau Cymreig yn y senedd ac felly lleihau nifer yr ASau nad ydynt yn Geidwadwyr.

Mae'n hollol wallgof i mi mai 'Castell-nedd Port Talbot' y fy nghyfeiriad post, Bae Abertawe yw fy Ymddiriedolaeth ysbytai, ac eto byddai'r ffin bleidleisio newydd yn gwahanu Port Talbot oddi wrth Gastell-nedd yn ogystal ag Abertawe.

BCW-9115 / [REDACTED] / Aberdâr

Mae'n amlwg nad yw pwy bynnag a amlinellodd y ffiniau hyn yn gwybod am ddemograffeg ein cwm. Sut allwch chi roi Cwmaman, Aberaman yn yr un ardal â Beddau a Rhondda? Mae pen uchaf ein cwm bellach wedi dod yn rhan o Ferthyr!

Mae rhywun wedi gwneud job da iawn o ddileu Cwm Cynon oddi ar y map yn llwyr. Yn gyntaf, aethom o Forgannwg Ganol i RhCT, a nawr bydd yn RhT yn unig. UNWAITH ETO, MAE CWM CYNON WEDI COLLI ALLAN I RONDDA, PONTY A MERTHYR

DIOLCH AM HYN!

BCW-9116 / [REDACTED] / Abertawe

Deallaf fod ffiniau etholaethau yn cael eu hadolygu i sicrhau nad yw llwyth gwaith unrhyw AS penodol yn rhy feichus, fodd bynnag, ar yr wyneb, mae'r ffiniau hyn yn edrych fel achos o gyffindwylo sydd gystal ag y gwneir yn aml mewn Ardaloedd Gweriniaethol yn America.

Pa sicrwydd allwch chi ei roi bod yr etholaethau nid yn unig yn debyg yn rhifiadol ond eu bod hefyd yn parhau i gynrychioli patrymau pleidleisio'r etholwyr ym mhob un ohonynt?

BCW-9117 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Nid wyf yn meddwl ei bod yn briodol rhannu Pen-y-bont ar Ogwr, gan roi rhan o'r Fwrdeistref Sirol yn Aberafan. Dylai Pen-y-bont ar Ogwr â'i wardiau cyfansoddol gael eu cynrychioli gan un AS.

BCW-9118 / [REDACTED] / Llandudno

Rwy'n etholwr yn Aberconwy ac yn bryderus iawn am effaith tymor hir y newidiadau hyn i ffiniau. Mae'r penderfyniad yn gibddall ac yn ddigroeso yma yng Nghymru. Rydym eisoes yn brin o gynrychiolaeth o fewn yr Undeb – mae hanes wedi dangos mai ffolineb yw defnyddio'r boblogaeth ar ei phen ei hun fel yr unig faen prawf ar gyfer cynrychiolaeth. Os yw llywodraeth y Deyrnas Unedig am ennyn ymddiriedaeth y Cymry, gellid cyfiawnhau dileu 8 Aelod Seneddol dim ond trwy ddatganoli mwy o rymoedd i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys plismona a darlledu, fel yr argymhellwyd flynyddoedd yn ôl gan Gomisiwn Silk a phob un astudiaeth annibynnol ar Ddatganoli ers iddo ddechrau. Mae'r ffaith bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i anwybyddu'r argymhellion hyn yn fwriadol ac yn gyson gamddehongli'r amgylchedd gwleidyddol yma yng Nghymru yn tanseilio ei safbwynt o hyd. Ystyrir yn gyffredin bod y newidiadau presennol yn wrthddemocrataidd, yn llithro'n ôl ac yn tanseilio cyfanrwydd yr undeb. Bydd hyn ond yn cryfhau'r mudiad annibyniaeth sydd eisoes yn sylweddol ac yn gosod mwy o straen fyth ar y berthynas sydd eisoes yn fregus rhwng San Steffan a Llywodraeth Cymru.

BCW-9119 / [REDACTED] / Abertawe

Hoffwn gofrestru fy ngwrthwynebiad i'r cynnig i gyfuno Alltwn ag etholaeth Aberhonddu a Maesfed.

Hygyrchedd i Swyddfa'r Etholaeth

Mae etholaeth Aberhonddu a Maesfed eisoes yn etholaeth wledig fawr ac mae fy Ward yn ôl-ddiwydiannol ei chymeriad yn hytrach na gwledig. Mae Alltwn tua phedair milltir o ganol tref Castell-nedd ac rwyf bob amser wedi ystyried Castell-nedd fel canolbwynt fy nghymuned. Mae gwasanaeth bws rheolaidd a llwybr beicio i Gastell-nedd lle mae swyddfa etholaeth fy Aelod Seneddol (AS) presennol wedi'i lleoli. Mae swyddfeydd fy holl ASau blaenorol wedi bod yng Nghastell-nedd. Byddai angen gyrru am awr o leiaf ar draws y Bannau i gyrraedd y swyddfa etholaeth AS arfaethedig yn Aberhonddu, sy'n gallu bod yn frawychus yn y gaeaf o ganlyniad i uchder y Bannau a thywydd gwael. Mae'n cymryd o leiaf 1 awr ac 20 munud i deithio o Gastell-nedd i Aberhonddu ar y bws. Mae'n bosibl na fydd car gan deuluoedd tlotach, oedolion ifanc neu'r henoed, ac felly byddai mynediad at AS a democratiaeth wedi'i leihau'n sylweddol.

Cynhesu byd-eang

O ystyried cynhesu byd-eang, bydd y pellteroedd sy'n gysylltiedig â theithio ar draws ardal enfawr o Gymru – etholaeth Aberhonddu a Maesfed – ar gyfer cyfarfodydd â'r AS os bydd angen, yn arwain at fwy o gynnydd mewn allyriadau carbon.

Digwyddiadau'r etholaeth

Byddai'n anodd mynd i ddigwyddiadau yn yr etholaeth newydd arfaethedig oherwydd byddai angen teithio mewn car am 2.5 awr i un cyfeiriad i fynd i ddigwyddiad yn rhan fwyaf gogleddol yr etholaeth. Yng Nghastell-nedd, gellir cyrraedd holl ddigwyddiadau'r etholaeth trwy deithio am ½ awr ar y mwyaf. Anogir pleidleiswyr iau i gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn, ac eto byddai teithio ymhellach i ddigwyddiadau yn annog pobl iau i beidio â'u mynychu. Nid oes gan lawer o bleidleiswyr ifanc geir neu ni allant fforddio'r tanwydd i deithio ymhell ynddynt.

Ffiniau afonydd

Honnir bod afonydd wedi dylanwadu ar y ffiniau. Mae Afon Tawe'n llifo trwy Bontardawe, ac mae ward Alltwn ar ochr (Castell-nedd) ddwyreiniol yr afon. Ychydig iawn o dai sydd ar ochr (Castell-nedd) ddwyreiniol yr afon yng Nghwm Tawe heblaw am bentref cymdogol Rhos yn yr etholaeth arfaethedig newydd.

Bywyd eglwysig ac ysbrydol

Rwy'n weithgar ym mywyd yr eglwys yn Alltwn, sydd ym mhlwyf Cilybebyll. Mae fy mhlwyf yn rhan bellaf Esgobaeth Llandaf a'r ffin yw Afon Tawe. Mae Pontardawe o fewn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu.

Yn sgil cyflwyno Ardaloedd Gweinidogaethol ym mis Ionawr 2022, bydd arweinydd tîm fy Ardal Weinidogaethol wedi'i leoli yn Eglwys Sant Catwg, Llangatwg, Castell-

nedd, a bydd fy Neon Gwledig wedi'i leoli yn Eglwys Sant Ioan, Sgiwen, Castell-nedd.

Yn sgil cyflwyno'r ffiniau newydd arfaethedig, os bydd ymholiadau ynglŷn â'm heglwys, bydd angen i mi ymweld â'm AS yn Aberhonddu, y tu allan i'n Hesgobaeth. Mae fy AS presennol yn dod i wasanaethau'r eglwys bob wythnos yng Nghastell-nedd; o ystyried y pellteroedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethu'r etholaeth newydd arfaethedig, bydd angen i'r AS yn Aberhonddu deithio pellteroedd eang ac ni fydd byth yn mynychu gwasanaeth neu ddigwyddiad eglwysig yn fy mhentref bach i, fwy na thebyg. Bydd yn amhosibl iddi gael syniad o fywyd ysbrydol fy nghymuned fach. Yn y gorffennol, mae ein ASau wedi dod i Ffeiriau Nadolig a digwyddiadau eraill ein heglwys. Rhoddodd hyn gyfle da i'r AS ac etholwyr Castell-nedd gyfarfod.

Ysbryd cymunedol

Ni fydd ysbryd cymunedol yn gysylltiedig â'n AS mwyach gan y bydd yn byw ac yn gweithio milltiroedd i ffwrdd. Ni ddewisais fyw mewn etholaeth wledig pan brynon ni ein tŷ.

Mae diwylliant Cymreig trefol ôl-ddiwydiannol cynhenid ym mhentref Alltwen a fydd yn cael ei golli o'i gyfuno ag etholaeth wledig eang Aberhonddu a Maesyfed sydd wedi'i dominyddu gan ffermio.

Soroptimyddion Rhyngwladol

Rwyf wedi bod yn aelod o Soroptimyddion Rhyngwladol Castell-nedd ers dros bum mlynedd ar hugain ac rydym yn cyfarfod, fel Clwb, bob yn ail nos Lun yng Nghastell-nedd. Gofynnir i ni lobïo ein AS yn rheolaidd ar faterion yn ymwneud â menywod. Gan fod sawl un o'r deugain o aelodau'n byw y tu allan i etholaeth newydd arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, bydd y cysylltiad a'r berthynas agos â'n AS yn lleihau.

Ymddiriedolwr Cyfeillion Cwmni Haearn Mynachlog Nedd

Rwyf yn un o Ymddiriedolwyr Cyfeillion Cwmni Haearn Mynachlog Nedd ac yn gwirfoddoli yn safle Gwaith Haearn Mynachlog Nedd bob prynhawn dydd Sul. Wrth wneud cais am grantiau yn y gorffennol, rydym wedi cysylltu â'r AS ac mae hi wedi cefnogi ein ceisiadau am grantiau. Mae hi wedi ymweld â'r safle'n rheolaidd i'n cefnogi. Bydd hyn yn fwy anodd gan y bydd safle Gwaith Haearn Mynachlog Nedd yn Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd a byddaf i, fel ymddiriedolwr, yn byw yn etholaeth Aberhonddu a Maesyfed.

Cynrychioli etholwyr

Eglurwyd ar Facebook yn ddiweddar, o dan faterion lleol Castell-nedd, y bydd ein AS yn cynrychioli'r etholwyr sy'n byw yn ei hetholaeth yn unig, felly yn hytrach na theithio pedair milltir i Gastell-nedd, bydd rhaid i ni deithio i swyddfa'r etholaeth yn Aberhonddu neu, yn dibynnu ar ba mor frys yw'r mater, i gymhorthfa nesaf yr etholaeth y gallai fod angen teithio hyd at ddwy awr a hanner mewn car i'w chynraedd.

Gobeithiaf y byddwch yn ystyried fy safbwyntiau.

BCW-9120 / [REDACTED] / Abertawe

Cynigion ar gyfer newid ffiniau yng Nghymru

Hoffwn gofrestru fy ngwrthwynebiad i'r cynnig i ychwanegu Alltwn at etholaeth Aberhonddu a Maesymfed.

Hygyrchedd i swyddfa'r etholaeth:

Mae etholaeth Aberhonddu a Maesymfed yn etholaeth wledig fawr ac mae fy Ward yn 61-ddiwydiannol ei chymeriad yn hytrach na gwledig. Mae Alltwn tua phedair milltir o ganol tref Castell-nedd ac rwyf bob amser wedi ystyried Castell-nedd fel canolbwynt fy nghymuned. Mae gwasanaeth bws rheolaidd a llwybr beicio i Gastell-nedd lie maeswyddfa etholaeth fy Aelod Seneddol (AS) presennol wedi'i lleoli. Mae swyddfeydd fyddol ASau blaenorol wedi bod yng Nghastell-nedd. Byddai angen gyrru am awr o leiaf draws y Bannau i gyrraedd y swyddfa etholaeth AS arfaethedig yn Aberhonddu, sy'n gallu bod yn frwydus yn y gaeaf o ganlyniad i uchder y Bannau a thywydd gwael. Mae'n cymryd o leiaf 1 awr ac 20 munud i deithio o Gastell-nedd i Aberhonddu ar y bws. Mae'n bosibl na fydd car gan deuluoedd tlotach, oedolion ifanc neu'r henoed, ac telly byddai mynediad at AS a democratiaeth wedi'i leihau'n sylweddol.

Bydd y cynigion yn arwain at gynnydd mewn allyriadau CO₂:

O ystyried cynhesu byd-eang, bydd y pellteroedd sy'n gysylltiedig a theithio ar drawsardal enfawr o Gymru yn arwain at fwy o allyriadau carbon os bydd angen ymgynghori a chyfarfod a'r AS.

Digwyddiadau'r etholaeth:

Byddai'n anodd mynd i ddigwyddiadau yn yr etholaeth newydd arfaethedig oherwyddbyddai angen teithio mewn car am 2.5 awr i un cyfeiriad i fynd i ddigwyddiad yn rhanfwyaf gogleddol yr etholaeth. Yng Nghastell-nedd, gellir cyrraedd holl ddigwyddiadau'r etholaeth trwy deithio am ½ awr ar y mwyaf. Anogir pleidleiswyr iau i gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn, ac eto byddai teithio ymhellach i ddigwyddiadau yn annog pobl iau i beidio a'u mynychu. Nid oes gan lawer o bleidleiswyr ifanc geir neu ni allant fforddio'r tanwydd i deithio ymhell ynddynt.

Ffiniau afonydd:

Honnir bod afonydd wedi dylanwadu ar y ffiniau. Mae Afon Tawe'n llifo trwy Bontardawe, ac mae ward Alltwn ar ochr (Castell-nedd) ddwyreiniol yr afon.

Ychydig iawn o dai sydd ar ochr (Castell-nedd) ddwyreiniol yr afon yng Nghwm Tawe heblaw am bentref cymdogol Rhos yn yr etholaeth arfaethedig newydd.

Bywyd eglwysig ac ysbrydol:

Rwy'n weithgar ym mywyd yr eglwys yn Alltwen, sydd ym mhlwyf Cilybebyll. Mae fy mhlwyf yn rhan bellaf Esgobaeth Llandaf a'r ffin yw Afon Tawe. Mae Pontardawe o fewn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu.

Yn sgil cyflwyno Ardaloedd Gweinidogaethol ym mis Ionawr 2022, bydd arweinydd tîm fy Ardal Weinidogaethol wedi'i leoli yn Eglwys Sant Catwg, Llangatwg, Castell-nedd, a bydd fy Neon Gwledig wedi'i leoli yn Eglwys Sant Ioan, Sgiwen, Castell-nedd.

Yn sgil cyflwyno'r ffiniau newydd arfaethedig, os bydd ymholiadau ynglŷn â'm heglwys, bydd angen i mi ymweld â'm AS yn Aberhonddu, y tu allan i'n Heskobaeth. Mae fy AS presennol yn dod i wasanaethau'r eglwys bob wythnos yng Nghastell-nedd; o ystyried y pellteroedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethu'r etholaeth newydd arfaethedig, bydd angen i'r AS yn Aberhonddu deithio pellteroedd eang ac ni fydd byth yn mynychu gwasanaeth neu ddigwyddiad eglwysig yn fy mhentref bach i, fwy na thebyg. Bydd yn amhosibl iddi gael syniad o fywyd ysbrydol fy nghymuned fach. Yn y gorffennol, mae ein ASau wedi dod i Ffeiriau Nadolig a digwyddiadau eraill ein heglwys. Rhoddodd hyn gyfle da i'r AS ac etholwyr Castell-nedd gyfarfod.

Ysbryd cymunedol:

Ni fydd ysbryd cymunedol yn gysylltiedig â'n AS mwyach gan y bydd yn byw ac yn gweithio milltiroedd i ffwrdd. Ni ddewisais fyw mewn etholaeth wledig pan brynon ni ein tŷ.

Mae diwylliant Cymreig trefol ôl-ddiwydiannol cynhenid ym mhentref Alltwen a fydd yn cael ei golli o'i gyfuno ag etholaeth wledig eang Aberhonddu a Maesyfed sydd wedi'i dominyddu gan ffermio.

Ymddiriedolwr Cyfeillion Cwmni Haearn Mynachlog Nedd

Rwyf yn un o Ymddiriedolwyr Cyfeillion Cwmni Haearn Mynachlog Nedd ac yn gwirfoddoli yn safle Gwaith Haearn Mynachlog Nedd bob prynhawn dydd Sul. Wrth wneud cais am grantiau yn y gorffennol, rydym wedi cysylltu â'r AS ac mae hi wedi cefnogi ein ceisiadau am grantiau. Mae hi wedi ymweld â'r safle'n rheolaidd i'n cefnogi. Bydd hyn yn fwy anodd gan y bydd safle Gwaith Haearn Mynachlog Nedd yn Nwyrain Abertawe a Chastell-nedd a byddaf i, fel ymddiriedolwr, yn byw yn etholaeth Aberhonddu a Maesyfed.

Cynrychioli etholwyr:

Eglurwyd ar Facebook yn ddiweddar, o dan faterion lleol Castell-nedd, y bydd fy AS yn cynrychioli'r etholwyr sy'n byw yn ei hetholaeth yn unig, felly yn hytrach na theithio pedair milltir i Gastell-nedd, bydd rhaid i mi deithio i swyddfa'r etholaeth yn Aberhonddu neu, yn dibynnu ar ba mor frys yw'r mater, i gymhorthfa nesaf yr

etholaeth y gallai fod angen teithio hyd at ddwy awr a hanner mewn car i'w chyrraedd.

Gobeithiaf y byddwch yn ystyried fy safbwyntiau.

BCW-9121 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Rwyf wedi darllen y newidiadau arfaethedig i ffiniau ar gyfere [REDACTED] an Steffan yr wyf yn cael fy nghynrychioli ynddi.

yn yr

Rwyf wedi byw yn fy nhŷ ers 1981 ac wedi bod yn rhan o'r gymuned ers cyfnod hirach fyth. Drwy gydol yr amser hwn, mae Brynsadler wedi bod ar y cyrion. Weithiau, rwyf mewn un man ac weithiau yn rhywle arall, ond nid wyf wedi symud. Byddai'r newidiadau arfaethedig i ffiniau'n golygu fy mod yn awdurdod unedol Rhondda Cynon Taf, yn etholaeth Seneddol Pontypridd, ac o dan y cynnig byddwn ar gyrion Gorllewin Caerdydd.

Mae'r cynnig hwn yn sicrhau y bydd fy ardal ar y cyrion. Mae Gorllewin Caerdydd yn ymestyn i Drelái a mannau eraill, sydd â'u problemau eu hunain a mwy o bobl, ac mae'n ymddangos yn debygol na fyddai fy ardal yn cael yr un llais ag eraill gan ein bod wedi ein rhannu i gyfeiriadau gwahanol.

Mae gennym gysylltiad agos â Thonysguboriau a Llantrisant, yn fwy na Threlái. Deallaf yr angen am newid, ond nid ar bob cyfrif. Gall fy ardal i, sef Brynsadler, a Phont-y-clun aros gyda'i gilydd o fewn y terfynau newydd o dan etholaeth Pontypridd. Byddai'n golygu ein bod yn cael ein cynrychioli yn y Senedd a San Steffan yn yr un ardal. Mae mwy o ffiniau'n golygu ei bod yn anodd gwybod pwy sy'n gwneud beth ar ran fy ardal. Mae'n gwneud mwy o synnwyr, ac o fewn y briff, i hyn ddigwydd mewn ffordd bendant.

Prin yw'r cysylltiad sydd gennyf â Gorllewin Caerdydd, os o gwbl. Rwy'n mynd i'r dref i siopa weithiau, ond dyna i gyd. Mae'n amheus gennyf y byddai AS Gorllewin Caerdydd yn poeni am fy ardal i gan ein bod ar y cyrion ac nid oes gennym lawer yn gyffredin â gweddill Gorllewin Caerdydd. Dydyn ni ddim yng Nghaerdydd. Efallai nad yw Pontypridd ar fy nhrothwy, ond mae ganddi faterion tebyg ac mae'n agosach o lawer. Byddai'n gwneud mwy o synnwyr i aros yn etholaeth Pontypridd.

Rwy'n pryderu ei bod yn gwneud pleidleisio'n rhy gymhleth ac y bydd felly'n golygu y bydd llai o bobl yn pleidleisio, sy'n broblem. Mae angen i leisiau pobl gael eu clywed ac mae'n ymddangos y bydd hyn yn gwneud hynny'n llai tebygol.

Fe'ch anogaf i ailfeddwl oherwydd mae'n gwneud synnwyr i mi, a phetaech chi'n siarad ag eraill yn y gymuned, maen nhw'n debygol o roi ateb tebyg, sef y dylai Pont-y-clun a Brynsadler aros yn etholaeth Pontypridd a pheidio â bod yn rhan o ryw arbrawf gan bobl ymhell i ffwrdd. Mae ein pleidleisiau'n bwysig ac mae'r cynnig hwn yn gwanhau ein llais.

BCW-9122 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Rwy'n falch o fyw yn Rhondda Cynon Taf nad yw, ac na fydd byth, yn rhan o Gaerdydd. Gallaf gerdded i Donysguboriau a Llantrisant, ond ni allaf gerdded i Gaerdydd – nid wyf erioed wedi clywed am syniad mor wirion.

BCW-9123 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Nid yw'n gwneud synnwyr i roi Pont-y-clun yn etholaeth Gorllewin Caerdydd. Nid yw'n cyd-fynd â'r ffin llywodraeth leol mewn unrhyw ffordd na daearyddiaeth y Sir. Byddai'n anodd iawn i un cynrychiolydd gael effaith ar draws ardal mor gymysg a gwneud synnwyr o drefniadau cyswllt ag awdurdodau eraill yn yr ardal.

BCW-9124 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'n hollol wirion bod Pont-y-clun yn mynd i Gaerdydd. Gadewch ni fel yr ydym.

BCW-9125 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Argymhelliad hollol wirion.

BCW-9126 / [REDACTED] / Penarth

Ie!...Byddwn yn dymuno tegwch gyda nifer fwy tebyg o etholwyr ym mhob etholaeth...hy. canolbwynt o 69,000 a 77,000 gyda goddefiant llai...efallai gyda'r niferoedd llai mewn dinasoedd a chanolfannau poblogaeth, a'r nifer fwy o etholwyr yn etholwyr gwledig....a'r un peth ar gyfer Lloegr.

Mae'r ffaith bod gan Gymru glymblaid wedi'i seilio ar eu halgorithm eu hunain yn golygu y bydd llywodraeth glymblaid bob amser....byddai'n dda gen i gael hynny yn Lloegr hefyd....

A dweud y gwir, nid wyf yn poeni sut rydych yn newid y ffiniau tan i glymblaid beidio â chael ei ffurfio....yna beth nesaf?

BCW-9127 / [REDACTED] / Wdig

Rwy'n llwyr yn erbyn y newid hwn i ffiniau'r etholaeth. Byddai'n ardal rhy fawr i un Aelod Seneddol ei gwasanaethu ac mae eisoes yn anodd i Sir Benfro gael ei chlywed, heb sôn am petai'n cynnwys Ceredigion hefyd.

BCW-9128 / [REDACTED] / Hwlffordd

Mae'r ardal arfaethedig yn rhy fawr i gael ei chynrychioli'n effeithiol. Petai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn, dylai nifer yr ASau (aelodau cynulliad Cymru) gael ei hadlewyrchu trwy gynyddu'r niferoedd i gynrychioli'r cyhoedd yn effeithiol.

BCW-9129 / [REDACTED] / Treffynnon

Pam ydym ni'n gwastraffu arian ar ail-lunio ffiniau? Mae pethau pwysicach i wario arian arnynt. Byddai achub y byd yn ddechrau da. Cadw'r taliad chwyddo Credyd Cynhwysol fel nad yw pobl yn suddo i dlodi. Gwneud ffyrdd yn fwy diogel. Byddai rhoi trefn ar gyflwr ofnadwy'r GIG a gofal cymdeithasol yn syniad da arall. Yn fy mhrofiad personol i, credaf mai pobl oedrannus, cleifion a phobl anabl sy'n dioddef bob amser. Yn ein cymdeithas ni, mae pobl sydd wedi cyflawni troseddau neu sydd wedi ymgartrefu'n anghyfreithlon yn y wlad hon yn cael eu trin yn well o lawer na'r henoed a'r anabl. Petai pawb yn cael ei drin yn gyfartal, byddech chi'n cael mwy o bleidleisiau. Os oes unrhyw arian ar ôl, dylid annog busnesau i ddefnyddio'r stryd fawr. Mae Treffynnon wedi mynd o dref farchnad ffyniannus i dref farw mewn llai na 30 mlynedd, a does neb yn malio. Yr Wyddgrug, y Flint a Chei Connah yw popeth.

BCW-9130 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Nonsens llwyr! Does dim angen i'r ffiniau newid. Am wastraff amser ac arian, a'r cyfan i roi llai o lais i Gymru yn San Steffan. Mae hyn yn gwneud ein hetholaeth yn anferth. Mae'r ardal ddaearyddol yn enfawr. Sut gallai cynrychiolydd wir adnabod yr ardal mewn etholaeth mor fawr?

BCW-9131 / [REDACTED] / Llandysul

Hollol annerbyniol i gael un AS dros ardal mor eang. Does dim llais gan Cymru yn San Steffan yn barod, mae hwn yn rhoi llai.

BCW-9132 / [REDACTED] / Bwlch-gwyn

Helô, pam mae fy nghartref mewn ardal wledig iawn yn cael ei gysylltu ag amgylchedd tebyg i Shotwick?

Nid oes unrhyw gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus i etholwyr ymweld â'u swyddfa ardal arfaethedig. Faint o fysiau sy'n mynd o Fwlch-gwyn i Wrecsam ac yna o Wrecsam i Queensferry? A allech chi hyd yn oed wneud y daith honno mewn diwrnod, heb sôn am ddychwelyd?

BCW-9133/ [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'r newid hwn yn rhannu ardal ehangach Llantrisant/Pont-y-clun, sy'n un gymuned, yn 4. Nid yw Meisgyn yn rhan o Gaerdydd, ac nid yw erioed wedi cael ei ystyried yn rhan ohoni. Byddai ei gynnwys yng Ngorllewin Caerdydd yn niweidiol i bobl yn y gymuned hon a fydd yn cael eu cynrychioli gan AS sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ardal ddinesig.

BCW-9134 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Tonysguboriau = Pontypridd
 Pont-y-clun = Gorllewin Caerdydd
 Llanharan Rhondda..

Mae'r ffiniau hyn yn ymddangos yn ddwl iawn, ac i rywun sydd wedi byw ym Mrynsadler ar hyd ei hoes, mae'n siomedig gweld ein bod yn cael ein hystyried yn rhan o Orllewin Caerdydd.

Mae hyn yn dileu'r hanes a'r cysylltiad â Rhondda Cynon Taf, y Rhondda. A fydd yn cynyddu costau os caiff ei chynnwys yng Nghaerdydd?

BCW-9135 / [REDACTED] / Casnewydd

Mae'n ymddangos fel syniad da i wneud maint pob ardal yn fwy cyfartal.

BCW-9136 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'n ymddangos yn anymarferol i Feisgyn fod yn rhan o Orllewin Caerdydd. Rydyn ni'n rhan o Bont-y-clun ac eto byddwn mewn etholaeth gwbl wahanol. Sut ar y ddaear y bydd hyn yn gweithio pan fyddwn eisiau cysylltu â'n AS ynglŷn â materion cymunedol ehangach? A fydd rhaid i ni gwyno wrth ddau? Neu wrth AS nad yw'n ein cynrychioli ni? Cadwch Donysguboriau, Pont-y-clun, Meisgyn a Llantrisant fel yr un etholaeth. Mae eu gwahanu nhw'n anymarferol ac yn ddryslyd.

BCW-9137 / [REDACTED] / Castell-nedd

Gwastraff llwyr o amser, arian ac adnoddau; yn enwedig tra ein bod yn dal i fod yng ngafael y pandemig mwyaf mewn hanes modern. Dim ond fel bod y Torïaid yn gallu bwnglera'r ffiniau, crintachu cyllidebau cynghorau a phwyso etholiadau cyffredinol y dyfodol o'u plaid. Ac a ydym ni'n mynd i eistedd yn dawel a derbyn y peth? Mae angen i ni gael ymgynghoriadau ynglŷn ag annibyniaeth Cymru ar unwaith. Nid yw 20% yn llai o gynrychiolaeth ar gyfer Cymru yn neuaddau San Steffan yn argoeli'n dda am ymreolaeth Cymru yn y dyfodol yn Nheyrnas hynafol Lloegr a'r Tiriogaethau Meddianedig Cymdogol.

Heb sôn ei bod yn wirion y cynigir y bydd y dref yr wyf yn byw yn un o'i maestrefi bellach mewn etholaeth gwbl ar wahân i'r faestref yr wyf yn byw ynddi. Mae'n amlwg nad oes gan y sawl a feddyliodd am hyn unrhyw ddiddordeb yn nyfodol Cymru.

BCW-9138 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Rwy'n gwrthwynebu'r newid arfaethedig i gynnwys Broadlands yn rhan o etholaeth Abrabon. Mae gennyf god post [REDACTED] ac felly rwy'n ystyried fy mod yn byw yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr.

Nid yw'r rhaniad hwn yn gwneud synnwyr i mi'n ddaearyddol.

Mae'r sinig ynof yn credu mai dichell fwriadol gan y Ceidwadwyr yw hyn i geisio troi Aberafan, sy'n gadarnle Llafur, at y Ceidwadwyr trwy gynnwys Broadlands.

BCW-9139 / [REDACTED] / Meisgyn

Gwlad leiafrifol yw Cymru ac mae angen parhau â'r gynrychiolaeth gan 40 AS ac nid 32. Byddai gwneud unrhyw beth i leihau'r gynrychiolaeth o fewn Cymru yn annemocrataidd a gwahaniaethol.

BCW-9140 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Symudais allan o Gaerdydd pan gefais blant, roedd yn benderfyniad ymwybodol. Gwyddwn, fel athrawes, ei bod yn anodd dod o hyd i leoedd mewn ysgolion, ac roeddwn eisiau cymuned lai a oedd yn cynnig cyfleusterau, er enghraifft bysiau ar gyfer ysgol Gymraeg. Mae hanes yr ardal yn gysylltiedig i raddau helaeth â'r Rhondda ac mae'r ysbyty yn Llantrisant yn gwasanaethu'r gymuned hon, felly a ydym o bosibl yn mynd i lenwi lleoedd yn ysbytai gorlawn y Mynydd Bychan neu Gaerdydd? Mae Llantrisant yn gysylltiedig iawn â Phont-y-clun o ran diwylliant, addysg a chwaraeon. Beth fyddai'n digwydd â'r ysgol Gymraeg yn Llanhari, er enghraifft, a'r ysgol gynradd ym Meisgyn? Mae'r system sbwriel yn llawer gwell yn RhCT ac yn cael ei rheoli'n dda, beth fyddai'n digwydd ar ddiwrnodau biniau ailgylchu a'r domen leol yn Llantrisant, ni fyddai hyn ar gael, heb sôn am y llanastr o ran addysg a gwasanaethau cymdeithasol yma, â system Caerdydd? Beth fyddai'n digwydd i'n meddygfeydd, nid yw ein trafnidiaeth, fel y mae, wedi'i gynllunio ar gyfer cysylltiadau â Chaerdydd, rhaid ystyried yr ardal ddaearyddol. Mae'r hanes, y cysylltiadau, a'r ardal yn rhy bell o ysbytai yng Nghaerdydd sydd eisoes yn orlawn, a byddai ysbyty Llantrisant yn wag. Rwy'n defnyddio'r ganolfan hamdden a chwaraeon a Lido Ponty, ni allaf fynd i nofio yng Nghaerdydd? Nid yw hyn yn syniad da o gwbl, mae'r diwylliannau mor wahanol, nid wyf i na fy mhlant yn uniaethu â dod o Gaerdydd. Mae Pant ym Mhont-y-clun hefyd, felly sut fyddai hynny'n gweithio, sut fyddai gwasanaethau fel gemau ysgolion yn rhannu cysylltiadau, sut fyddai bysiau'n gweithio? Sut fyddai'r llyfrgell yn gweithio, yn ogystal â chartrefi hen bobl ar gyfer pobl o RhCT? Sut fyddai hyn o fudd i'r ardal, beth bynnag? Nid yw'r seilwaith wedi'i gynllunio ar gyfer cysylltiadau â Chaerdydd. Ar ôl byw yng Nghaerdydd, mae'r ardal hon ar wahân mewn cymaint o ffyrdd, ac nid yw'n perthyn i'r ddinas.

BCW-9141 / [REDACTED] / Wrecsam

Mae'r cynnig i'n gosod yn yr un etholaeth ag Alyn a Glannau Dyfrdwy yn hollol chwerthinllyd. Mae hon yn ardal wledig ac nid oes ganddi unrhyw beth yn gyffredin ag Alyn a Glannau Dyfrdwy. Rydym yn cael ein hesgeuluso eisoes wrth fod ar gyrion Wrecsam a Sir Ddinbych, ond byddai ein gosod yn yr etholaeth newydd arfaethedig yn datgelu diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth lwyr am yr ardal. Dylem fod yn gysylltiedig â naill ai De Clwyd, fel rydym ar hyn o bryd, neu â Wrecsam.

BCW-9142 / [REDACTED] / Pembrokeshire

PEIDIWCH CHI Â BEIDDIO GOSOD CILGERRAN YNG NGHYNGOR CEREDIGION SY'N FARUS AC YN GWASTRAFFU ARDRETHI..... Nid ydym eisiau bod yn eu hardal sy'n talu'r gyfradd uchaf o ardrethi, dim ond oherwydd bod gennym y castell a'r parc bywyd gwyllt, y maent wedi ceisio'u dwyn oddi ar Sir Benfro ers blynnyddoedd. Rhag eich cywilydd, yn ceisio mynd trwy'r drws cefn, mae'n hollol atgas.

BCW-9143 / [REDACTED] / Hengoed

Hoffwn wrthwynebu'r etholaethau newydd arfaethedig. Rydych chi rywsut wedi llwyddo i rannu Cwm Rhymni – sef ardal sy'n ymestyn dros tua 15 milltir – rhwng pedair etholaeth ar wahân. Mae hynny'n syfrdanol. Mae ein cwm wedi bod yn falch o'i hunaniaeth ei hun ers blyneddau lawer. Fel y rhan fwyaf o gymoedd De Cymru, mae daearyddiaeth y cwm (afon Rhymni) a chysylltiadau trafnidiaeth (llinell reilffordd a ffordd yr A469) yn rhedeg o'r gogledd i'r de, nid i'r dwyrain a'r gorllewin. Ac eto, mae'r cynigion hyn yn ymestyn i ardaloedd sydd, i raddau helaeth, y tu allan i'n ffiniau hanesyddol.

Yn yr un modd â Rhondda Fach a Rhondda Fawr, i roi dwy enghraifft, rydym yn gwm yn ein rhinwedd ein hunain. Mae Islwyn hefyd yn gwm ar wahân, ar ei ben ei hun, Er ei bod yn ardal gyfagos, mae'n wahanol, gyda nodweddion cymdeithasol a daearyddol gwahanol. Mae eithafion eich cynigion mor wallus o ran ffactorau hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol, sy'n eglur iawn i bobl sydd wedi treulio ein bywydau yma, ond nid felly i'r bobl sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae Ystrad Mynach a Nelson i bob pwrpas yn ffinio â'i gilydd – trwy Barc Penallta – ac eto mae Ystrad Mynach yn yr un etholaeth â Rhisga, ac mae Nelson yn yr un etholaeth â'r Rhigos. Rwy'n eich annog i edrych eto ar y cynigion sy'n ymwneud â Chwm Rhymni.

Gallaf dderbyn cynigion a allai rannu'r dyffryn rhwng y gogledd a'r de (gyda Llanbradach fel y ffin) ond ni allaf weld unrhyw resymeg nac empathi lleol wrth rannu'r cwm yn bedair ardal ar wahân, heb yr un ohonynt yn cydnabod bodolaeth Cwm Rhymni.

BCW-9144 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae gwahanu Broadlands oddi wrth Ben-y-bont ar Ogwr a gosod yr ystad yn Aberafan yn chwerthinllyd. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr yn ddaearyddol gan fod ffin glir iawn ar derfyn yr ystad.

Rwy'n gwrthwynebu cael fy nghynrychioli gan wleidydd sy'n cynrychioli Aberafan, na fyddai ag unrhyw ddiddordeb yn ein hardal ni, ac a fyddai'n cynrychioli ardal â demograffeg hollol wahanol, lle nad wyf yn defnyddio unrhyw wasanaethau yn yr ardal honno. Darperir fy nhrafnidiaeth, gofal iechyd a gwasanaethau hamdden i gyd yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr, rwy'n talu treth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a gallaf gerdded i ganol yr etholaeth hon mewn 10 munud.

Rwyf o'r farn bod llaw pwy bynnag a dynnodd y llinellau hyn wedi llithro, gan na allaf ddeall, oni bai eich bod heb ymweld â'r ardal hon erioed, pam y byddech chi'n meddwl y dylai Broadlands fod yn unrhyw etholaeth heblaw Pen-y-bont ar Ogwr.

BCW-9145/ [REDACTED] / Sir Benfro

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 17 Medi 2021 14:53

At: CFfG <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ffiniau

Rydym ni yn Sir Benfro wedi bod trwy hyn lawer gwaith, yr un peth, mae'r ardal i'r gogledd o Dreletert yn mynd i Geredigion, i'r de, mae siaradwyr Saesneg yn bennaf yn mynd i Dde Penfro! Nid i mi, diolch, rwy'n hapus iawn â'r *status quo*!

BCW-9146/ [REDACTED] / Meisgyn

Sut gellir gosod Pont-y-clun mewn etholaeth â gorllewin Caerdydd? Yr un gymuned yw Pont-y-clun, Port Talbot a Llantrisant, ac mae'r ffin yn gwahanu Pont-y-clun oddi wrth y mannau hynny, ynghyd â'r ysgol uwchradd, sydd ychydig y tu allan i'r pentref. Nid yw hyn yn gwneud unrhyw synnwyr.

BCW-9147 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Rwy'n byw yn Llantrisant a chredaf y dylai Llantrisant a Thonysguboriau aros yn yr un etholaeth â Phont-y-clun a Meisgyn.

Maent yn defnyddio'r un parciau manwerthu, yr un ysgol tan yn ddiweddar (ac unwaith eto, nid wyf yn cytuno â hyn) a'r un orsaf drenau (Pont-y-clun) sydd o fewn pellter cerdded

Ar y llaw arall, o Feddau ymlaen, mae pobl yn defnyddio gorsaf drenau Trefforest, parc manwerthu Trefforest, ac felly mae'n gwneud synnwyr i roi'r ardal o Feddau ymlaen ym Mhontypridd, a chadw Llantrisant a Thonysguboriau gyda Phont-y-clun a Meisgyn.

Credaf mai dyma sy'n gwneud synnwyr yn ddaearyddol. Mae'n rhaid i chi fynd trwy Donysguboriau i gyrraedd rhai rhannau o Bont-y-clun, sydd ychydig bellter o gyffordd 34, ac mae'n gwneud synnwyr i'r pentref fod yn rhan o orllewin Caerdydd.

Mewn gwirionedd, mae'n haws cyrraedd Caerdydd o Donysguboriau nag o Bontypridd, felly gofynnaf i chi wneud yr hyn sy'n gwneud synnwyr.

BCW-9148 / [REDACTED] / Porthcawl

Mae'r ffiniau'n rhy estynedig, ar hyd yr arfordir ac i fyny Cwm Afan. Nid oes gennym unrhyw gysylltiadau â'r etholaethau hyn.

Rwy'n ofni y byddwn, fel yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn cael ein defnyddio i roi cymhorthdal i etholaeth y cwm. Ni allaf weld y bydd cynghorwyr Castell-nedd a Port Talbot yn ymddwyn yn wahanol i gynghorwyr Pen-y-bont ar Ogwr.

Gallai ein tref fod yn ddeniadol i dwristiaid pe gwneir buddsoddiadau priodol mewn seilwaith a chyfleusterau.

Mae gennym fwy o gysylltiadau â Bro Morgannwg a'r weledigaeth ar gyfer datblygu'r dref arfordirol fel cyrchfan.

BCW-9149 / [REDACTED] / Wrecsam

Rwy'n credu y byddai'n anffodus iawn ac yn ddi-fudd i "bentrefi" cyn-ddiwydiannol, lled drefol eu hanfod, Rhos/Rhiwabon/Cefn gael eu gwahanu'n wleidyddol oddi wrth ardal Wrecsam y maent yn rhan ffisegol a diwylliannol ohoni, a dod yn rhan o etholaeth wledig wasgarog a fydd yn anochel yn etholaeth Geidwadol amaethyddol am byth heb unrhyw obaith am newid cynrychiolaeth drwy'r blwch pleidleisio. Mae'n gyfystyr â difreinio. Mae gan etholaeth bresennol De Clwyd gydbwysedd teg o ganlyniadau etholiadol posibl tebygol. Ni fyddai'r etholaeth newydd arfaethedig yn gytbwys o gwbl. Mae hynny'n fath o chwarae'r ffiniau ac mae'n gwbl annemocrataidd. Nid yw creu "seddi diogel" cwbl amlwg yn ganlyniad moesol dderbyniol i'r arolwg amheus (heb sôn am ddichellgar) hwn yn wleidyddol beth bynnag.

BCW-9150 / [REDACTED] / Rhyl

Rwy'n credu bod rhannu Prestatyn a'r Rhyl yn syniad gwael. Mae Delyn i weld yn ardal anferthol. Rwy'n credu bod cymhellion gwleidyddol gan lywodraeth Llafur i hyn i gyd, ac wrth gwrs mae Alun a Glannau Dyfrdwy wedi aros yn ardal gymharol fach wedi'i rheoli gan Lafur, ac maen nhw'n bwriadu cadw pethau felly. Mae'r newidiadau ardal arfaethedig hyn wedi fy nrysu i'n lân. Mae Dyserth wedi bod gyda Chlwyd erioed; yna Sir Ddinbych, eto, mae hyn yn wleidyddol yn hytrach na'n deg. Felly rwy'n credu y bydd yn ffars.

BCW-9151 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Nid ydym yn dymuno bod o dan ddosbarthiad Gorllewin Caerdydd ar unrhyw gyfrif. Fe symudom allan o Gaerdydd am lawer o resymau, ac rydym wedi bod yn RhCT am 21 o flynyddoedd. Rydym yn ardal led wledig, a chredwn fod ein hanghenion yn gwbl wahanol i anghenion y rheiny sy'n byw mewn dinas. Mae ein plentyn yn mynychu [REDACTED] a fydd o dan AS gwahanol, a gall fod yn achos o wrthdaro buddiannau.

Nid ydym yn dymuno cael unrhyw gynnydd yn ein Tâl Cymunedol, a byddwn yn gwrthwynebu hyn yn chwyrn.

Byddwn yn ystyried unrhyw newid wrth bleidleisio, ac ni fydd unrhyw blaid sydd wedi cefnogi'r newid hwn yn cael ein cefnogaeth.

BCW-9152 / [REDACTED] / Llantrisant

Peidiwch wir â gwahanu Pont-y-clun oddi wrth Tonysguboriau a Llantrisant - un ardal ydyn nhw. Mae Tonysguboriau yn agosach at Gaerdydd na Phont-y-clun, felly dylent i gyd gael eu cynnwys yn etholaeth Gorllewin Caerdydd gyda llinell y ffin ar gyrion Llantrisant (Brynteg), rhwng Llantrisant a Beddau. Mae Pont-y-clun, Tonysguboriau a Llantrisant yn un gymuned ac ni ddylid eu darnio.

BCW-9153 / [REDACTED] / Crymych

Yn gyntaf, nid oes unrhyw opsiwn i ymateb fel unigolyn, nid wyf yn gynghorydd lleol ond nid oedd unrhyw opsiwn a oedd yn dweud preswlydd yn yr etholaeth newydd arfaethedig.

Yn ail, mae fy nghartref wedi symud o Sir Benfro, sydd yn Gyngor Sir i mi o hyd, a Cheidwadol yn bennaf, i Geredigion, lle ceir Plaid Cymru yn bennaf. Ai ymgais yw'r newid hwn i lwytho'r gofrestr etholiadol tuag at etholaeth Geidwadol yn y dyfodol? Fel arall, rwy'n credu ei fod yn newid rhesymegol a fydd yn cynrychioli anghenion ein cymuned wledig yn well.

BCW-9154 / [REDACTED] / Wrecsam

Mae'n siom aruthrol fod y newid hwn hyd yn oed wedi'i awgrymu, heb sôn wedi cyrraedd y sefyllfa hon. Mae pobl Cymru'n haeddu i'w lleisiau gael eu clywed lawn gymaint ag unrhyw un arall yn y Deyrnas Unedig, ac mae'r symudiad hwn yn ein rhoi ni dan anfantais waeth nag ydym yn barod. Mae angen i'r rhaniad ASau fod yn deg a chyfartal heb ymylu cymunedau. Bydd lleihau nifer yr ASau Cymreig yn cryfhau cefnogaeth dros annibyniaeth i Gymru.

BCW-9155 / [REDACTED] / Powys

Mae llawer gormod o Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad gennym. Hoffwn eu gweld nhw'n cael eu lleihau ymhellach na'r hynny a awgrymwyd.

BCW-9156 / [REDACTED] / Bangor

Rwy'n anghytuno'n gryf gyda rhannu Bangor rhwng dwy etholaeth, y mae un ohonynt yn cwmpasu ardal ddaearyddol eang.

BCW-9157 / [REDACTED] / Caerdydd

Mae hwn yn syniad gwael, mae'n lleihau cynrychiolaeth Cymru a materion sy'n bwysig i bobl Cymru yn senedd y (DU). Mae unrhyw leihad yn ein gallu i ddweud ein dweud ynghylch sut mae polisiau'n effeithio ar Gymru yn beth gwael.

BCW-9158 / [REDACTED] / Aberdâr

Comisiwn Ffiniau i Gymru – nid yw hyn ddim mwy na chwarae'r ffiniau ac ymosodiad ar Gymru a'n llais democrataidd. Mae'r Torïaid yn rigio'r gêm o'u plaid nhw'u hunain ac rydych chi'n eu cynorthwyo i wneud hynny.

BCW-9159 / [REDACTED] / Llanbedr Pont Steffan

Nid yw un AS sy'n ymdrin â sir linol, hir a Sir Benfro yn mynd i allu cysylltu ag etholwyr. Nid oes llinell reilffordd hyd yn oed, a byddai'n cymryd 3 awr i yrru o un pen i'r llall, o Borth i Dyddewi, heb sôn am deithio'n fewndirol.

BCW-9160 / [REDACTED] / Aberystwyth

Nid wyf yn credu y bydd etholaeth Ceredigion – Preseli yn gynrychiolaeth deg o gymunedau Ceredigion na'r cymunedau hynny y cynigir eu cyfuno â hi. Mae demograffeg yr ardaloedd yn sylweddol wahanol, wedi i chi edrych y tu hwnt i'r nodweddion gwledig a gweledol arwynebol. Mae cymunedau'n wynebu heriau gwahanol, fel tai, tlodi, cyfleoedd addysg. Mae'r gwahaniaeth o ran cymunedau Cymraeg rhwng y ddwy ardal hyn yn bwysig, ac ni ellir pwysleisio hynny ddigon.

Nid yn unig fyddai daearyddiaeth yr etholaeth newydd arfaethedig yn ei gwneud yn anodd i gynrychiolydd etholedig; ond byddai'r heriau cystadleuol yn y gymuned ehangach yn heriol dros ben hefyd.

BCW-9161 / [REDACTED] / Abertawe

Mae'n ymddangos yn ffordd ryfedd i rannu Abertawe, yn enwedig i mi sy'n byw yn St Thomas. Byddwn i mewn etholaeth â Chastell-nedd, sydd mewn awdurdod lleol gwahanol. I mi, byddai'n gwneud mwy o synnwyr cadw etholaethau o fewn ffiniau awdurdodau lleol, cyhyd ag y bo hynny'n bosibl, er enghraifft drwy gyfuno Castell-nedd ag ardaloedd i gyfeiriad Port Talbot, a chadw etholaethau Abertawe yn cwrmpasu Abertawe ei hun yn bennaf.

BCW-9162 / [REDACTED] / Aberystwyth

Nid wyf yn fodlon â'r cynnig i ymuno â Sir Benfro i greu etholaeth fwy. Rwy'n cofio'r tro diwethaf i ni ymuno â gogledd Sir Benfro, ac ni wnaeth hynny fawr o les i ni!

Os oes rhaid i Geredigion ymuno â rhan o Sir Benfro, byddai'n well gennyf pe byddai'n cael ei galw'n 'Ceredigion a Phreseli' yn hytrach na 'Ceredigion Preseli', yn unol â'r cynnig. Byddai hyn yn gwahaniaethu rhwng y ddwy sir ac yn cadw eu hunaniaethau.

BCW-9163 / [REDACTED] / Castell-nedd

Rwy'n anghytuno'n llwyr â'r cynnig i newid ffiniau. Dyma ffordd y llywodraeth Geidwadol o newid canlyniadau'r broses bleidleisio. Bydd dod o dan Abertawe hefyd yn cynyddu ein trethi yng Nghastell-nedd i dalu am Gyngor a fydd yn gwneud dim i Gastell-nedd.

BCW-9164 / [REDACTED] / Glan-y-fferi

Bûm yn byw ym mhentref Glan-y-fferi am y mwyafrif helaeth o'm bywyd. Mae fy mab hynaf hefyd yn byw yn y pentref yn ein tŷ ni. Cefais fy ngeni yng Nghaerfyrddin. Cafodd tri o'm pedwar o feibion eu geni yng Nghaerfyrddin pan roeddem yn byw yng Nglan-y-fferi. Cwblheais fy addysg yn Ysgol Uwchradd Caerfyrddin, ynghyd â'm mam, ei chwaer, fy mherthnasoedd a'm cyfoedion. Rwyf wedi siopa yng Nghaerfyrddin erioed. Mae'n syndod i mi y bydd pentref sydd â chysylltiadau hirsefydlog â thref farchnad Caerfyrddin, fel ein tref agosaf, ac sydd wedi bod yn rhan o etholaeth Caerfyrddin, yn cael ei rhoi yn Llanelli. Mae'n alinio llawer mwy â gwerthoedd gwleidyddol Caerfyrddin. Felly, dylai aros yn etholaeth Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, y bu'n rhan ohoni ers amser maith.

BCW-9165/ [REDACTED] Pont-y-Clun

Byddwn yn fwy na hapus a'r newid arfaethedig i Orllewin Caerdydd

BCW-9166 / [REDACTED] / Bangor

Nid yw Bangor yng “Ngorllewin Clwyd”, mae wedi'i lleoli yn Arfon. Cyffindwylllo yw hyn. Mae'n hurt bost ac yn ymgais haerllug gan y llywodraeth Geidwadol i rigio pethau er eu budd nhw. Rwy'n gwrthwynebu'r newidiadau hyn i'r ffiniau'n gryf.

BCW-9167 / [REDACTED] / Dinbych

Mae tref fawr a chyfran fawr o Ddyffryn Clwyd ar goll o etholaeth Clwyd. Yn gyffredinol, nid yw'r etholaethau ar hyd arfordir gogledd Cymru yn unffurf, gan gyfuno ardaloedd nad oes ganddynt lawer yn gyffredin yn ddiwylliannol, yn economaidd nac yn gymdeithasol. Mae mynnu ar etholaethau sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de yn amhriodol, ac ymddengys bod hyn wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar ragfarn hanesyddol.

BCW-9169 / [REDACTED] / Penfro

Mae unrhyw beth sy'n canolbwyntio ymdrechion yn hytrach nag ychwanegu gwleidyddion i lenwi seddau a chasglu siec yn gam i'r cyfeiriad cywir.

Dylai hyn gael ei gymhwyso i'r Senedd hefyd, neu'n well fyth cael gwared â'r gwastraff arian hwnnw, diwygio cynghorau sir a meithrin cysylltiadau agosach â San Steffan a Thŷ'r Arglwyddi diwygiedig.

BCW-9170 / [REDACTED] / Prestatyn

Nid oes angen gwneud hyn o gwbl. Cynllwyn gan y Torïaid ydyw i roi mwy o ASau iddynt yn yr etholiad nesaf, ac mae angen ei atal.

BCW-9171 / [REDACTED] / Meisgyn

Mae Meisgyn a Phont-y-clun yn rhan o gymoedd de Cymru, ac nid ydynt yn faestrefi Caerdydd. Mae'r ddemograffeg a dealltwriaeth leol yn wahanol iawn. Mae'r cynnig yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth llwyr o hanes a chymunedau lleol. Byddai Pont-y-clun a Meisgyn yn cael eu cynrychioli'n well gan AS o Gwm Rhondda nag o Gaerdydd.

BCW-9172 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Gadewch i'r ffiniau fod. Rydym am barhau'n rhan o Sir Gaerfyrddin. Mae grŵp Facebook ar gyfer y pentref. Mae cefnogaeth aruthrol o blaid aros. Ein hanes ni yw hyn, peidiwch â'i newid.

BCW-9173 / [REDACTED] / Porthcawl

Nid yw cydleoli Porthcawl â Phort Talbot/Aberafan/Baglan yn gwneud synnwyr yn ddiwylliannol. Mae'r cysylltiadau lleol i gyfeiriad y dwyrain – er enghraifft Pen-y-bont ar Ogwr. Caiff gwasanaethau i Borthcawl eu darparu gan Gyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae amwynderau lleol, fel siopa, yn cael eu ceisio o ardal Pen-y-bont. Mae ein hysbyty lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, felly mae cysylltiad â chynrychiolaeth seneddol yn gwneud mwy o synnwyr â'r ardal sy'n darparu gwasanaethau lleol.

Nid yw'r etholaeth arfaethedig newydd yn gwneud unrhyw synnwyr i'r rhai sy'n byw ym Mhorthcawl.

BCW-9174 / [REDACTED] / Aberpennar

Nid wyf yn credu mai rhoi Penrhiwceibr yn ardal Pontypridd yw'r ateb rhesymegol i leihau nifer yr ASau yng Nghymru. Bydd gennym Aelod Seneddol mewn un etholaeth ac Aelod o'r Senedd yn y llall. Bydd hyn ond yn ychwanegu at y dryswch o ran pwy i geisio cymorth ganddynt, yn ôl yr angen.

BCW-9175 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Nid wyf yn cytuno â symud ffin Meisgyn i Orllewin Caerdydd o Bontypridd, a'i ynysu oddi wrth yr ardal leol.

BCW-9176 / [REDACTED] / Castell-nedd

Dylid cyfuno etholaeth Castell-nedd i gyd ag Aberhonddu a Maesyfed, ac nid Cwm Tawe uchaf yn unig. Byddai'n gywilydd ac yn drychineb i Gastell-nedd gael ei chyfuno ag ardaloedd mwy difreintiedig Abertawe. O leiaf pe byddem yn cael ein cyfuno ag etholaeth ddymunol fel Aberhonddu a Maesyfed, byddai gennym siawns o wneud newidiadau cadarnhaol yn ardaloedd Castell-nedd, ond byddai cael ein lympio â hyd yn oed mwy o ardaloedd Llafur yn llawn troseddu a dirywiad yn arwain at ddim ond distryw i'n cymunedau.

Byddai ymuno ag Aberhonddu a Maesyfed yn gyfle i wneud newidiadau cadarnhaol, ynghyd â newidiadau gwleidyddol y mae eu hangen yn fawr. Os nad yw Castell-nedd am sefyll ar ei phen ei hun yn San Steffan, dylid o leiaf bod â'r cwrteisi i'w cyfuno ag etholaeth barchus, ac Aberhonddu a Maesyfed yw'r etholaeth honno.

Dylid cyfuno etholaethau Abertawe ag ardaloedd eraill yn Abertawe, a dylid cadw Castell-nedd oddi wrthynt.

BCW-9178 / [REDACTED] / Caerffili

Bu etholaeth Caerffili yn sedd Lafur ers iddi gael ei chreu. Mae'r ymgais hon i'w chyfuno ag un o ardaloedd Casnewydd yn enghraifft haerllug o gyffindwylo gan y Torïaid.

Ar hyn o bryd, mae 650 sedd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac mae 533 ohonynt yn etholaethau yn Lloegr. Mae hyn yn gymhareb o 41 sedd i ASau Lloegr i 9 o'r holl wledydd eraill yn y DU. Lloegr yw llywodraethwr y DU, yn ôl y ffaith. Mae gan y 533 o ASau hynny ddiddordeb mewn gwasanaethu buddiannau eu hetholwyr yn Lloegr yn unig (a hynny'n deg).

Mae lleihau seddau Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin yn lleihau llais Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin a safle Cymru yn yr 'Undeb'.

BCW-9179 / [REDACTED] / Pwllheli

Rwy'n deall bod poblogaeth yn ystyriaeth, ond mae'r ardal ddaearyddol hon yn ANFERTH!

BCW-9180 / [REDACTED] / Port Talbot

Mae gan Borthcawl a Phort Talbot anghenion cymunedol gwahanol. Mae'r cymysgedd economaidd-gymdeithasol yn wahanol hefyd a'r galw'n wahanol. Felly, ni allant fod yn un etholaeth gan y bydd gan AS fwy o waith i'w wneud i gydbwysu'r gwahaniaethau hyn.

BCW-9181 / [REDACTED] / Castell-nedd

Nid yw cynnwys Pontardawe ac Ystalyfera yn Aberhonddu a Maesyfed yn gwneud unrhyw synnwyr hanesyddol na logistaidd. Yn hanesyddol, roedd Sir Frycheiniog yn cynnwys Merthyr. Mae o leiaf rhywfaint o deilyngdod hanesyddol amheus i hynny. Mae gostyngiad i 32 AS yn golygu bod dylanwad Cymru ar yr ychydig bach o ddemocratiaeth sy'n bodoli mor ffiniol fel y byddai llawn cystal i ni beidio â bod ag unrhyw ASau o Gymru o gwbl. Byddai'n well rhoi rheolaeth ddemocratiaidd llawn i Lywodraeth Cymru â chynrychiolaeth gyfrannol a bwrw San Steffan a Thŷ'r Arglwyddi i hanes.

BCW-9182 / [REDACTED] / Hwlffordd

Annwyl Stephen Crabb,

Mae'r Comisiwn Ffiniau, drwy gydgyllwynio â Llywodraeth San Steffan, yn ceisio tanseilio democratiaeth a lles Cymru yn y Senedd yn fwriadol.

Mae pob un ohonom yn gwybod yn iawn y bydd Cymru'n talu'r bil, fel y mae eisoes, ar gyfer prosiectau Lloegr-ganolog na fydd pobl Cymru yn elwa arnynt o gwbl. Gyda hynny, bydd lleihau'r nifer sy'n cynrychioli Cymru yn sicrhau y byddai ei llais democrataidd yn cael ei lesteirio am byth.

Er nad wyf yn pleidleisio i'r Ceidwadwyr, ac ni fyddaf erioed, rydych chi'n cynrychioli fy sir o hyd, ynghyd â'ch cydweithiwr, Simon Hart.

Os ydych am atal y DU rhag cael ei chwalu, y gellir dadlau y byddai hynny'n well i'r gwledydd cyfansoddol, yna mae angen i Gymru, ynghyd â'r Alban a Gogledd Iwerddon, fod â llais a phartneriaeth gyfartal.

Mae Llywodraeth San Steffan eisoes yn ceisio tanseilio datganoli, sef rhywbeth rydym ni – bobl Cymru – wedi pleidleisio o'i blaid ac yn parhau i wneud hynny, a dyna pam rwy'n gofyn i chi siarad ar ran eich etholwyr bod lleihau'r nifer sy'n cynrychioli Cymru nid yn unig yn gamwedd, ond yn sarhad ar bleidleiswyr.

BCW-9183 / [REDACTED] / Caerdydd

Os oes gan Gymru lai o ASau, sy'n cyfateb i lai o gynrychiolaeth yn San Steffan, yna mae'n siŵr y dylid datganoli mwy o bwerau i Lywodraeth Cymru.

BCW-9184 / [REDACTED] / Yr Wyddgrug

Syniad ofnadwy i leihau llais Cymru yn y senedd a rhoi mwy o lais i'r Torïaid. Ofnadwy.

BCW-9185 / [REDACTED] / Yr Wyddgrug

Mae hyn yn ostyngiad aruthrol i hawliau democrataidd fy ardal. Pam ydw i wedi cael gwybod am hyn drwy gyfaill ar Facebook? Gyda Brexit, gwariodd y Torïaid filiynau ar anfon manylion i bob cartref i AROS, ond roedd yr ymgyrch honno'n llanastr llwyr. A oes arnoch chi ofn wneud yr un peth â'r ffars hon hefyd?

BCW-9186 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr grwpio Pont-y-clun â Gorllewin Caerdydd. Nid oes gennym lawer yn gyffredin â'r cytrefi eraill yn yr etholaeth honno. Byddai'n well o lawer pe byddem yn ymuno ag unrhyw un o'r etholaethau cyfagos eraill, y mae gennym lawer mwy yn gyffredin â nhw ar lefel leol. Mae ymestyn Gorllewin Caerdydd mor bell â hynny'n edrych yn annaturiol ac yn artiffisial.

BCW-9187 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Rwy'n gwrthwynebu'r cynnig, ac nid yw cynnwys Broadlands, Trelales a Phorthcawl â Phort Talbot/Castell-nedd yn cyd-fynd â'n ffiniau daearyddol a chymunedol. Dylai Broadlands, Trelales a Phorthcawl aros yn ardal Pen-y-bont. Mae'n ymddangos bod rhywun wedi llunio'r ffiniau arfaethedig heb ddeall nad oes gan breswlydd yn ardal gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr unrhyw gysylltiad o gwbl â gorllewin Morgannwg, ac nid yw'r cynigion yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl.

BCW-9188 / [REDACTED] / Y Rhyl

Ymgais noeth i gipio grym gan lywodraeth Geidwadol gywilyddus yw hyn. Mae sedd Lafur ymylol wedi'i rhannu, ac mae grym Cymru yn senedd San Steffan wedi'i erydu fel y gellir erydu datganoli hefyd, siŵr o fod. Nid yw'r ffin newydd yn gwneud unrhyw synnwyr gan ei bod yn torri ar draws Sir Ddinbych, gan ei gwneud yn anoddach o lawer ymgyrchu ar faterion lleol. Mae'r Rhyl yn gymuned ddifreintiedig sy'n brwydro i gael ei chefn ati mewn amgylchedd economaidd gwrthwynebus, ac mae'n gywilyddus ei bod yn cael ei defnyddio'n bêl-droed gwleidyddol fel hyn, drwy gael ei chysylltu â chymunedau eraill nad oes ganddi unrhyw gysylltiadau hanesyddol â nhw.

BCW-9189 / [REDACTED] / Y Bont-faen

Mae'n hurt bod Y Barri yn y fro. Dylai'r Barri fod â Chaerdydd.

BCW-9190 / [REDACTED] / Aberdâr

Rwy'n 55 oed a bûm yn byw yng Nghwm Cynon erioed. Roedd yn ddigon gwael y cafodd cyngor lleol Cwm Cynon ei gysylltu â chynghorau'r Rhondda a Thaf, gan fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ond yn poeni am Bontypridd, ac nid yw'n gwneud digon i weddill y fwrdeistref. I glywed nawr eich bod yn mynd i rannu Cwm Cynon yn ddwy etholaeth ar gyfer y Senedd, nid yw hynny'n dderbyniol. Nid yn unig y bydd popeth yn ymwneud â Merthyr Tudful neu Bontypridd, yn ôl eu trefn, gan ddileu Cwm Cynon yn gyfan gwbl, ond rydych chi'n ddigon digywilydd i rannu cymuned yn ei hanner, sef pentref Aberaman. Beth mae pobl Cwm Cynon wedi'i wneud erioed i gyfiawnhau colli eu sedd eu hunain? Nid yw'n dderbyniol. Yr unig beth y mae angen ei wneud yng Nghymru yw cael gwared â Senedd Cymru ynfyd, sy'n wastraff arian trethdalwyr, gan nad ydynt yn poeni am les pennaf pobl Cymru, dim ond nhw'u hunain.

BCW-9191 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Nid yw hyn yn edrych fel democratiaeth i mi. Sut gall llai o ASau gynnig gwasanaeth da i'r bobl maent yn eu cynrychioli?

BCW-9192 / [REDACTED] / Porth Tywyn

Mae'r ffin hon yn torri'r dref sirol yn ei hanner. Does bosib bod hynny'n syniad da?

BCW-9193/ [REDACTED] / Casnewydd

Cynnig cywilyddus ar gipio grym yw hyn. Mae cyffindwylllo i fod wedi'i wahardd yn y DU, yn hytrach na'i annog drwy symudiadau fel hyn.

BCW-9194 / [REDACTED] / Casnewydd

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf cyfuno tref Caerffili â Gorllewin Casnewydd. Mae tref Caerffili, a'r wardiau sy'n uniongyrchol gyfagos ati, yn gymuned hollol wahanol i Gasnewydd; nid oes unrhyw gysylltiadau trafndiaeth da rhwng Casnewydd a thref Caerffili, ac nid yw Caerffili'n rhan o sir hanesyddol Gwent. Nid yw Caerffili'n ardal y mae cymudwyr, siopwyr neu fasnachwyr o Gasnewydd yn ymweld â hi'n aml, ac i'r gwrthwyneb. Mae gan Gaerffili gysylltiad llawer mwy naturiol ag ardaloedd i'r gorllewin, de a'r gogledd o dref Caerffili yng Nghwm Rhymni. O ystyried aliniad echelinol bras cymoedd Cymru o'r gogledd i'r de, mae cysylltiad tua'r dwyrain yn rhyfedd iawn, yn ddigynsail yn hanesyddol, ac wedi'i llunio'n artiffisial gan anwybyddu pob ymdeimlad o le a chysylltiadau lleol.

Ar y llaw arall, mae achos da o blaid ychwanegu'r wardiau sy'n cynnwys Rhisga, Pontycymer, Cwmcarn ac Abercarn, gan ymestyn mor bell â Threcelyn, at Orllewin Casnewydd. Mae rhannau isaf Cwm Sirhywi a Chwm Ebwy, a'r cysylltiadau trafndiaeth, yn arwain yn naturiol at Gasnewydd.

Mae'r Comisiwn yn ymddangos yn anwybodus ynghylch topograffeg de Cymru. Byddwn yn gofyn i'r Comisiwn ystyried y ffordd y mae cymoedd penodol yn dod i ben yn y tair dinas porthladd fawr yn eu trefn, ac alinio'r ffiniau'n unol â hynny.

BCW-9195/ [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Rwy'n gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau.

BCW-9196/ [REDACTED] / Cymru

A: Stopiwch geisio cyfyngu ar yr effaith y gall dinasyddion Cymru ei chael ar ein Teyrnas UNEDIG! Mae ein llais a'n safbwyntiau eisoes yn cael eu bychanu neu eu hanwybyddu'n llwyr, ac nawr rydych chi'n ceisio lleihau ein cynrychiolaeth yn y senedd hefyd heb fod yn gynnil!

P: Imperialaeth wrth-ddemocrataidd eto gan y Saeson. Mae'n hollol warthus. [REDACTED] Sawdl y Sacsoniaid yn ceisio rhoi taw arnom unwaith eto. Gall Llundain [REDACTED] a gall [REDACTED] ei fam. Cymru am byth.

BCW-9197 / [REDACTED] / Abertyleri

Rwy'n gweithio ar lefel reolaeth yn y sector cyhoeddus yng Ngwent ac rwy'n rhan o gomisiynu ar draws Gwent. Mae bod â 5 bwrdeistref eisoes yn ei gwneud yn anodd iawn dod i gydsyniad ar draws y sir, felly mae cynyddu hyn i 6 yn ymddangos yn hurt. Yn benodol, mae hollti dinas Casnewydd yn ymddangos yn hollol anymarferol. Rwy'n cytuno bod cyfuno ardaloedd presennol Blaenau Gwent a Gogledd Caerffili yn gwneud synnwyr, ond mae'n debyg y bydd gweddill y cynllun ar gyfer Gwent yn gwneud pethau'n waeth yn hytrach na'u gwella.

BCW-9198 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Pam fyddai ardaloedd Broadlands [REDACTED] a Threlales [REDACTED] yn cael eu grwpio â dwy dref lan y môr ymhell i'r gorllewin ohonom? Mae'r mwyafrif o drigolion Broadlands yn gweithio, yn cymdeithasu ac yn siopa ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a bydd yr hyn sy'n digwydd yno'n effeithio arnynt yn fawr, ond ni fyddant yn cael eu cynrychioli gan rywun sydd â buddiant yn yr ardal honno. Mae gan Aberafan a Phorthcawl flaenoriaethau gwahanol iawn i Ben-y-bont ar Ogwr, a byddai'r ardal hon wedi'i gwasgaru'n fawr yn ddaearyddol. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr.

BCW-9199 / [REDACTED] / Casnewydd

Yn gyntaf oll, hoffwn ddweud bod yn rhaid bod y penderfyniad hwn yn un anodd ei wneud, a phob parch i'r rhai sy'n gorfod ei wneud.

Rwy'n credu y byddai'n gwneud mwy o synnwyr i Swffryd fod yn rhan o Islwyn er mwyn gwneud y ffin yn fwy eglur.

Ar hyn o bryd, mae dadl yn ymwneud â chynnal a chadw llwybr troed hanfodol rhwng Swffryd a Chrymlyn. Mae anghydfod rhwng Blaenau Gwent a Chaerffili ynghylch pwy sy'n ymgymryd â gwaith ar y llwybr troed. Oherwydd y dadleuon cyfredol, lle mae'r ddau gyngor yn dweud mai'r llall sy'n gyfrifol, mae'r llwybr mewn cyflwr gwael o hyd ac yn peri risg i'r cyhoedd. Mae angen enbyd i'r llwybr gael ei drwsio.

Yn dechnegol, mae Swffryd yn rhan o Grymlyn, a Chrymlyn yn rhan o fwrdeistref Caerffili. Weithiau, bydd preswylwyr yn cael cylchlythyrau gan fwrdeistref Caerffili, ond nid gan Flaenau Gwent.

Achosodd y pwynt technegol hwn ddryswch y llynedd o ran cyfyngiadau symud lleol Covid-19, pan ddywedwyd wrth breswylwyr Caerffili i aros gartref. Rhestrodd y *South Wales Argus* yr ardaloedd a oedd yn rhan o Gaerffili, a chrybwyll bod angen i breswylwyr yng Nghrymlyn aros gartref. Er bod Swffryd yn rhan o Grymlyn, dilynom yr arweiniad ar gyfer bwrdeistref Blaenau Gwent.

Deuaf i'r casgliad y byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr i Swffryd gael ei chynnwys yn Islwyn.

BCW-9200 / [REDACTED] / Y Rhyl

Bu'r Rhyl yn gysylltiedig â Phrestatyn yn ddaearyddol erioed, a bu ganddi berthynas waith â Chyngor Sir Ddinbych. Mae'n hurt bod Y Rhyl yn cael ei chysylltu â Chonwy, nad ydym wedi ymwneud â hi erioed. Y bont las (afon Elwy) fu'r ffin erioed. Mae cadw perthynas waith â Chyngor Sir Ddinbych yn ymddangos yn opsiwn llawer callach! Dylai'r Rhyl gael ei chynnwys yn NELYN!

BCW-9201 / [REDACTED] / Abertawe

Gadewch nhw i fod.

BCW-9202 / [REDACTED] / Wrecsam

Byddai'n ymddangos i mi fod y newidiadau arfaethedig i'r etholaethau yn fy ardal i'n hurt bost ac yn anwybyddu anghenion boblogaeth leol yr ardal yn llwyr. Rwy'n byw ym Mhonciau, ger Wrecsam, ac mae'n wir iawn bod cymunedau Johnstown, Ponciau, Rhos a Phen-y-cae yn gweithredu fel un gymuned, gan eu bod yn rhannu cymaint o gyfleusterau lleol fel ysgol uwchradd, meddygon, cwmni tacsis a'r brif stryd fanwerthu yn y Rhos, i enwi ond rhai. Er gwaethaf yr integreiddiad hwn, mae'r newidiadau hyn yn cynnig gwahanu Pen-y-cae oddi wrth y cymunedau eraill y mae'n rhan ohonynt drwy gael ei chynrychioli gan AS gwahanol. Byddwn yn erfyn arnoch i newid y cynigion hyn fel bod y cymunedau cysylltiedig hyn yn cael eu cynrychioli gan un AS.

BCW-9203/ [REDACTED] / Doc Penfro

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 17 Medi 2021 19:59

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newidiadau i ffiniau Sir Benfro

Helo

Rwy'n credu bod y newidiadau hyn yn syniad gwych. Am lawer o resymau, dylai Doc Penfro a Chaerfyrddin fyth fod yn yr un etholaeth.

Rwy'n gobeithio y caiff y newidiadau newydd hyn i'r ffiniau eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

Cofion

[REDACTED]

Doc Penfro

BCW-9204 / [REDACTED] / Caerllion

Mae gan Gaerllion lawer mwy yn gyffredinol â threfi bach yn Sir Fynwy. Mae'r ffin ychydig lathenni yn unig i lawr y ffordd o'r fan hyn. Nid wyf yn teimlo bod ein grwpio â Chasnewydd yn cynrychioli cymeriad cyfredol na hanesyddol Caerllion. Mae'n ddigon drwg gael ein lympio â Chyngor Casnewydd at ddibenion llywodraeth leol.

BCW-9205 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'r cynnig i gynnwys Brynsadler a Phont-y-clun yng Ngorllewin Caerdydd yn chwerthinllyd, gan nad oes unrhyw gysylltiad rhwng ein cymunedau a 'Gorllewin Caerdydd'. Mae'r cynnig yn fwy afresymegol fyth gan na fyddai ein hysgol uwchradd, sef Y Pant, yn rhan o Orllewin Caerdydd.

BCW-9206 / [REDACTED] / Merthyr Tudful

Dylai Aberpennar gael ei chynnwys ym Merthyr ac Aberdâr.

BCW-9208 / [REDACTED] / Aberpennar

Mae gwahanu Aberpennar ac Aberdâr yn syniad annysgedig a luniwyd gan San Steffan heb unrhyw glem am ddaearyddiaeth leol. Mae'n gwneud mwy o synnwyr i etholaeth Pontypridd gynnwys Abercynon, ond dylai Penrhiwceibr ac Aberpennar aros yn yr un etholaeth ag Aberdâr. Hefyd, mae Merthyr yn gwm a chyingor lleol ar wahân, felly nid yw'n perthyn yn yr un etholaeth ag Aberdâr a'r trefi a phentrefi eraill yng Nghwm Cynon. Mae cynllunio gwael gan San Steffan wedi arwain at chwalu cysylltiadau lleol hirsefydlog sy'n perthyn am reswm. Stopiwch adael i Loegr benderfynu beth sy'n digwydd yng Nghymru!

BCW-9209 / [REDACTED] / Wrecsam

Mae'n ymddangos yn od y bydd pentref Coedpoeth wedi'i rannu rhwng dwy etholaeth, gan fod rhan o'r pentref yn sefyll yn ward Y Mwynglawdd. Mae gan Goedpoeth a'r Mwynglawdd gysylltiadau cryf iawn, ac mae'r naill bentref yn dibynnu ar y llall am wasanaethau. Byddai'n well gweld y ddau ohonynt, ynghyd â Bwlchgwyn sydd yr un mor gyd-ddibynnol ar Goedpoeth a'r Mwynglawdd o ran gwasanaethau, yn yr un etholaeth er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddryswch o ran pwy sy'n cynrychioli pa ardal ar lefel y llywodraeth.

BCW-9210 / [REDACTED] / Glan-y-fferi

Fel cymuned, rydym yn agosach o lawer at Gaerfyrddin na Llanelli. Caerfyrddin yw "EIN TREF" (pan ddywedwn ein bod yn mynd i'r dref). Pam gwastraffu MWY o arian yn gwneud newid a fydd, ymhen amser, yn cael ei wrthdroi eto yn ôl pob tebyg? A fyddai hyn yn cynnwys newid etholaethau Senedd Cymru hefyd? Mae angen i ni fod â mwy o lais yn ein bywydau a'r llywodraeth, nid llai. Os caiff hyn ei basio, bydd gennym lai o lais yn ein bywydau. STOPIWCH DDINISTRIO EIN CYMUNEDAU, EIN TRADDODIADAU, EIN DIWYLLIANT A'N HIAITH.

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 06 Hydref 2021 07:00

At: Shereen Williams <shereen.williams@boundaries.wales>

Pwnc: RE: BCW-9210-Etholaeth seneddol

Mae hyn mor ddibwrpas, bydd yn achosi cymaint o ddryswch wrth bleidleisio mewn un etholaeth ar gyfer etholiadau'r Senedd ac un arall ar gyfer etholiadau San Steffan. Beth am adfer Dyfed ac ethol hyd at 5 AS drwy gynrychiolaeth gyfrannol? Yna, ni fyddwn yn colli llais cynrychioliadol LLAWN yn ein bywydau NI.

Diolch yn fawr. [REDACTED]

BCW-9211 / [REDACTED] / Y Drenewydd

Rwy'n deall y ddadl ynglŷn â maint y boblogaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cynigion hyn yn ystyried yr ardal ddaearyddol y bydd angen i AS ei gwasanaethu. Mewn dinas, efallai y bydd yr ardal honno ond ychydig filltiroedd sgwâr, ac nid yw gallu'r AS i ymweliad ag amrywiol rannau o'r etholaeth, ar y dyddiau pan nad yw yn y senedd, yn peri unrhyw broblem mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mewn etholaeth wledig, mae hyn yn peri pryder mawr. Yn fy etholaeth arfaethedig, sy'n cynnwys mynyddoedd, afonydd ac ychydig iawn o briffyrdd, byddai gan ein AS newydd ardal y mae'n cymryd o leiaf dwy awr i deithio ar ei thraws. O ystyried prinder trafnidiaeth gyhoeddus hefyd, bydd ein AS newydd bron â bod yn anhygyrch i lawer o'i etholwyr gwledig. Mae'r llywodraeth hefyd yn cynnig lleihau cynrychiolaeth ein gwlad yn y senedd 20%. Rydym wedi ein tangynrychioli fel y mae, o ystyried bod llawer o'n hetholaethau'n rhai gwledig yn hytrach na rhai trefol. Mae gennym ddemocratiaeth gynrychioliadol, ac mae'r cynigion hyn yn lleihau cynrychiolaeth yn ymarferol yn hytrach na'i gwella.

BCW-9212 / [REDACTED] / Llanelli

Nid yw'r cyhoedd wedi gofyn am y newid hwn; mae'n cael ei wneud er budd i'w llywodraeth Doriaidd ofnadwy!!!

Mae'n gywilyddus ac ni ddylai gael ei gymeradwyo fyth!!!!

BCW-9213 / [REDACTED] / Y Fflint

Nid yw newidiadau i'r etholaeth o unrhyw fudd i ddemocratiaeth heb gynrychiolaeth gyfrannol.

Mae seddau diogel, fel y'i gelwir, yn sarhad ar y system ddemocrataidd gyfan.

BCW-9214 / [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig. Mae'r gymuned yn alinio mwy â Chastell-nedd ac Abertawe nag Aberhonddu. Mae ganddynt faterion cymdeithasol a chyflogaeth tebyg. Mae llinell derfyn yn Ystradgynlais hefyd lle mae ffiniau'r heddluoedd cyfagos yn cyfuno. Pe byddai trigolion Trebannws, Pontardawe yn dod yn etholwyr Aberhonddu ac yn talu'r Dreth Gyngor i Aberhonddu, byddem yn talu praesept yr heddlu i Aberhonddu hefyd. A fyddem yn cael ein plismona gan Heddlu Dyfed Powys felly

BCW-9215 / [REDACTED] / Bangor

Nid wyf yn cytuno gyda y ffiniau yn ardal Penrhosgarnedd/Bangor. Mae Penrhosgarnedd yn rhan o Fangor gan bod y rhan fwyaf o drigolion Penrhosgarnedd yn siopa a chael eu cyfleusterau yn gyfan ym Mangor. Mae poblogaeth barhaol Bangor yn isel gyda llawer o fyfyrwyr sydd a braidd dim barn ar beth sydd yn digwydd yn y tymor hir i'r Ddinas. Mae poblogaeth Penrhosgarnedd yn lawer mwy sefydlog ac mae yn bwysig bod y bobl yma yn cael barn a dylanwad ar beth sydd ynmynd ymlaen yn eu Dinas fel nad yw yn cael ei gadael i ddirywio ymhellach gan gyngor sydd yn poeni dim am y lle.

Mae y syniad o gael ffin etholaeth seneddol a ffin Cyngor Lleol Gwynedd/Conwy yn wahanol hefyd yn nonsens llwyr.

BCW-9216 / [REDACTED] / Abercarn

Gadewch bethau fel y maent. Bydd gwneud newidiadau yn costio arian i etholwyr na all unrhyw un ei fforddio ar hyn o bryd. Yn amlwg, mae gan rywun yn un o adrannau'r llywodraeth ormod o amser hamdden i'w hun, felly mae'n brawf o swydd arall nad oes ei hangen. Byddai'n arbed cost ymgymryd â hyn a chyflog rhywun sydd â digon o amser hamdden.

BCW-9217 / [REDACTED] / Cil-y-coed

Byddwn i'n ychwanegu'r Redwig at etholaeth Sir Fynwy – fel pentref, mae'n uniaethu'n fwy o lawer â Magwyr/Gwndy nag â Chasnewydd. Mae Sir Fynwy'n ardalwledig yn bennaf, ac mae'r Redwig yn uniaethu â hynny llawer mwy nag â dinas Casnewydd. Roeddwn i'n gweithio i'r ddau gyngor am flynyddoedd lawer – mae ganddynt anghenion a blaenoriaethau hollol wahanol.

BCW-9218 / [REDACTED] / Aberystwyth

Sut gall 1 unigolyn gynrychioli ardal mor fawr? Nid yw'r ffaith nad oes ganddi boblogaeth mor ddwys yn golygu nad oes gennym broblemau amrywiol, enfawr sy'n unigryw i gefn gwlad ac ardaloedd trefol. Rydym yn teimlo ein bod yn cael ein tangynrychioli a'n hanghofio fel y mae.

BCW-9219 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Mae'r ffordd y mae cymuned Pont-y-clun wedi'i rhannu rhwng tair etholaeth yn ddisynnwyr. Nid oes gan y pentref fawr o gysylltiad â Gorllewin Caerdydd, a dylai barhau'n rhan o Bontypridd. Mae gan Bont-y-clun gysylltiadau gwell â chymunedau Llanharan, Llanhari, Llantrisant, Tonysguboriau ac, yn ddelfrydol, dylai'r ffiniau newydd adlewyrchu hynny.

BCW-9220 / [REDACTED] / Bangor

Er y buom yn rhan o hen etholaeth Conwy yn y gorffennol, rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod gennym fwy o gysylltiadau â Chaernarfon, ein cymydog agosaf, nag â Llandudno pell. Nid oes gennym unrhyw gysylltiadau diwylliannol ag ardal Llandudno o gwbl. Os oes rhaid i ni golli hen sedd Arfon, mae'n gwneud mwy o synnwyr i Fangor a Bethesda gael eu rhoi ag Ynys Môn.

BCW-9221 / [REDACTED] / Porthcawl

Nid yw'r newidiadau i'r ffiniau'n ystyried perthnasoedd gwaith a phartneriaethau rhwng awdurdodau lleol ac awdurdodau ieuchyd. Byth a beunydd, mae polisi'r Llywodraeth yn datgan pwysigrwydd y ddau awdurdod yn cydweithio â'i gilydd i fodloni anghenion plant, pobl sy'n agored i niwed, a'r rhai sydd ag anableddau ac anghenion arbennig.

Bydd y newidiadau i'r ffiniau'n ei gwneud yn anoddach i weithwyr proffesiynol gydweithio â'i gilydd, yn enwedig pan allai fod angen iddynt gysylltu â sawl cydweithiwr sy'n gweithio mewn ardaloedd gwahanol â pholisïau gwahanol. Mae'n gwneud bywyd yn anoddach wrth ryddhau pobl o'r ysbyty er mwyn arbed blocio gwelyau. Beth ddigwyddodd i alinio awdurdodau ieuchyd ac awdurdodau lleol i alluogi pontio gofal yn rhwydd o'r ysbyty i'r gymuned?

Mae'n ymwneud yn fwy ag arbed arian na gofalu am bobl. Byddai llai o wleidyddion yn ceisio hawlio treuliau yn helpu.

BCW-9222 / [REDACTED] / Abermaw

Rwy'n credu y dylid lleihau nifer yr etholaethau. Dylai fod nifer deg o bleidleiswyr ym mhob etholaeth. Mae hyn yn fwy democrataidd. A dyma sut dylai'r wlad fod yn pleidleisio. Mae 40 yn ormod o lawer. Bydd gostwng i 32 yn arbed costau. Gall yr arbedion hyn fynd tuag at ar argyfwng tai ym mhob ardal yn hytrach na chosbi busnesau llety gwyliau hunanarlwyo. Mae 2023 yn rhy bell i ffwrdd, yn fy marn i.

Yn fy marn i, mae'n gywilyddus y bydd gan bobl Cymru 8 yn llai o gynrychiolwyr.

Rwy'n anghytuno â'r egwyddor y tu ôl i'r newid. Rwyf o'r farn y bydd y newid hwn yn annog mudiad Yes a datganoliad Cymru yn wlad annibynnol yn y dyfodol.

Gwarthus!!

BCW-9224 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Bydd y broses hon i ddarparu tegwch drwy greu ffiniau newydd â nifer y pleidleiswyr o fewn paramedrau penodedig yn mantoli'r anghydbwysedd presennol, lle mae pleidleiswyr Cymru wedi'u gorgynrychioli yn y Senedd. Rwy'n derbyn y bydd angen newidiadau, ac mae'r newid arfaethedig i'r ffin i greu etholaeth newydd Caerfyrddin yn edrych fel cynnig rhesymol. Ar hyn o bryd, mae Caerfyrddin wedi'i rhannu rhwng dwy etholaeth a bydd y ffin newydd yn rhoi'r dref mewn un etholaeth yn unig.

BCW-9225 / [REDACTED] / Port Talbot

Sylwaf bod ardaloedd a chysylltiadau cymunedol, tebyg i Donmawr ac Efail Isaf wedi'i hepgor o'r etholaeth. Mae tref Maesteg yn fwy tebyg ei chefnidir a phoblogaeth at Bort Talbot, nag yw Porthcawl.

BCW-9226 / [REDACTED] / Glan-y-fferi

Mae'n hen bryd, newyddion da!!

BCW-9227 / [REDACTED] / Bangor

Diolch am ofyn barn. Rwy'n teimlo bod y cynlluniau arfaethedig i roi Bangor a Bethesda yn etholaeth Aberconwy yn lletchwith ac nid yw hyn yn adlewyrchu symudiadau cymdeithasol a daearyddol y boblogaeth.

Nid wyf yn aelod o unrhyw blaid gwleidyddol, na chwaith yn tueddu i gefnogi un plaid yn benodol. Mae'n well gen i bwysu a mesur fel bod angen. Ond, teimlaf dristwch mawr o feddwl bod siawns go lew y byswyn, yn sgil y newid arfaethedig hwn, yn byw mewn etholaeth Geidwadol. Rwy'n teimlo fel y gallai'r newid danseilio fy hunaniaeth a dweud y gwir - nid wyf yn teimlo perthynas ag Aberconwy, ac yn sicr nid wyf yn cytuno yn wleidyddol gyda'r mwyafrif o drigolion Aberconwy fel ag y mae ar hyn o bryd.

Mae Pont-hir yn gamenwad. Oherwydd ei agosrwydd at Gaerllion, mae wedi teimlo'n rhan o gymuned Caerllion/Casnewydd erioed, yn hytrach na Chwmbwrân. A dweud y gwir, mae rhan o Bont-hir yn ardal Casnewydd ar hyn o bryd. Mae hyn yn achosi problemau sylweddol i breswylwyr, gan fod plant yn mynd i'r ysgol yng Nghaerllion, ond mae'r newidiadau diweddar i'r ffiniau ar gyfer dalgylchoedd ysgolion wedi gwneud hyn yn anodd erbyn hyn. Mae'n dod yn gymuned hollt, a dylai preswylwyr Pont-hir fyw yng Nghasnewydd. Yn hanesyddol, mae wedi dod dan Gyngor Torfaen, maent yn pleidleisio am AS Sir Fynwy, ond mae'r plant yn mynd i'r ysgol yng Nghasnewydd. A wnewch chi ddatrys hyn i breswylwyr, os gwelwch yn dda, fel y bydd Pont-hir yn aros yn rhan o gymuned Caerllion.

BCW-9229 / [REDACTED] / Machynlleth

Mae arnom angen i'n cynrychiolwyr aros fel y maent neu bydd ein lleisiau'n cael eu colli. Rydym yr un mor bwysig â phawb arall yn San Steffan, ac mae angen i'n lleisiau gael eu clywed beth bynnag fo'n poblogaeth.

Yn well fyth, dylai Cymru lywodraethu ei hun yn gyfan gwbl. Nid yw Lloegr yn berthnasol i ni o gwbl.

BCW-9230 / [REDACTED] / Abertawe

Mae'r ymraniad yn Abertawe yn ymddangos yn fympwyol ac nid yw'n ymddangos fel petai'n adlewyrchu'r ardaloedd y mae'n eu diffinio. Mae'r ffaith nad yw Canol a Gogledd Abertawe i'w gweld yn cynnwys llawer o'r ardal ganolog... mae'n ymddangos bod mwy o ganol y ddinas yn ardal Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd.

BCW-9231 / [REDACTED] / Abergele

Mae gan Brestatyn gysylltiadau agosach â'r trefi a phentrefi yn etholaeth arfaethedig Clwyd e.e. Y Rhyl, Dyserth, Meliden, Rhuddlan ac ati. Mae llawer o gydweithio yn yr ardaloedd hynny mewn ysgolion a busnesau. Mae llawer o'r ysgolion cynradd yn etholaeth arfaethedig Clwyd yn disgyn i ddalgylch Ysgol Uwchradd Prestatyn. Nid yw'n gwneud synnwyr gwahanu Prestatyn oddi wrth y trefi a'r pentrefi sydd â chysylltiadau agos â hi, i'w lympio â Delyn a threfi nad oes a wnelont fawr ddim â Phrestatyn.

BCW-9232 / [REDACTED] / Machynlleth

Mae'r cynnig hwn yn chwerthinllyd. Nid wyf yn gweld diben gorfodi maint cyfartalog ar etholaethau fel hyn pan mae'n gwneud cymaint o lanast o'r ddaearyddiaeth. Nid oes gan fy nghartref ger Machynlleth unrhyw gysylltiad â Wrecsam o gwbl, telly sut yn y byd y gallem gael ein cynrychioli'n effeithiol gan un AS?

Os cynrychiolaeth gyfrannol yw nod yr ymarfer, yna diwygio etholiadol yw'r ffordd ymlaen, nid newid hunanlesol i'r ffiniau sy'n rhoi Lloegr yn gyntaf.

BCW-9233/ [REDACTED] / Sir Benfro

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: e 1 2021 18:51

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ffiniau newydd arfaethedig.

Annwyl Syriaid,
Rwy'n cefnogi'r newidiadau hyn.



BCW-9234 / [REDACTED] / Glan-y-fferi

A wnewch chi gynghori sut bydd y newidiadau hyn yn cyd-fynd â data ar Ardaloedd Cynnyrch Ehangach ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is o'r gorffennol ac yn y dyfodol?

Wrth leihau nifer y wardiau seneddol, a fydd gan yr etholaeth lai o gynrychiolaeth?

BCW-9235 / [REDACTED] / Penrhyndeudraeth

Mae cael un etholaeth seneddol o Gaernarfon lawr i Aberdyfi yn wallgofrwydd llwyr. Byddai'r Blaid yn colli aelid seneddol - a fyddai wrth fodd y Toriaid yn Westminster. Mae hwn yn blot i wneud hynny yn enw democratiaeth. Nid democratiaeth yw tynnu 8 aelid seneddol oddi ar Gymru pan fo Lloegr yn cael cynydd yn eu niferoedd nhw. Mae Cymru mewn deficit democrataidd, a ddylai'r ffasiwn beth ddim bodoli.

BCW-9236 / [REDACTED] / Cwmparc

Yn bersonol, rwy'n ei gweld yn hurt bod y cynlluniau'n cynnwys torri Cwm Cynon yn ei hanner, gan roi hanner ohono i Bontypridd a hanner i Ferthyr. Gan anwybyddu'r ffaith bod hyn bellach yn golygu bod etholaeth arfaethedig newydd Aberdâr a Merthyr yn pontio dau awdurdod lleol. Roedd y cynigion cynharach o arolwg 2018 i ymadael â Phontypridd a'i rhannu rhwng y Rhondda a Chynon yn symlach, gan eu bod o leiaf yn ein gadael ag etholaethau a oedd yn dilyn ffiniau'r fwrdeistref sirol.

Mae problemau ychwanegol ag etholaeth ddiwygiedig newydd Pontypridd, sef ei bod yn tynnu Ffynnon Taf a Phont-y-clun ac yn eu huno ag etholaethau Caerdydd. Unwaith eto, mae hyn yn anwybyddu cynllun y fwrdeistref sirol yn yr un modd ag â Chwm Cynon.

Fy marn i yw mai ateb gwell fyddai rhannu etholaeth Pontypridd a rhoi'r rhannau ohoni sydd yng Nghwm Elái i'r Rhondda, a'r rhannau ohoni sydd yng Nghwm Taf i Gwm Cynon – gan ostwng nifer yr ASau yn RhCT i ddau, wrth barchu ffiniau'r fwrdeistref sirol o hyd.

BCW-9237 / [REDACTED] / Caerffili

Rwy'n credu'n gryf mewn democratiaeth ond yn gwrthod derbyn fod angen ASau Cymreig pan fod haen arall o lywodraeth ym Mae Caerdydd.

Naill ai gostyngwch nifer yr ASau Cymreig i i ddau neu dri neu wneud i ffwrdd â'r Senedd.

BCW-9238 / [REDACTED] / Pontyclun

Rwy'n byw ym Mrynsadler, a dwyf i ddim yn teimlo bod yr ardal hon â chysylltiad â Chaerdydd, rwy'n teimlo mwy o ymlyniad yma at Lantrisant. Yn hanesyddol, buasem wedi bod ym Morgannwg Ganol - beth am edrych ar y siroedd hanesyddol? Gwn fod llawer o reolau cymhleth iawn i'w dilyn er mwyn cael hyn yn iawn, ond camgymeriad fyddai ein cysylltu â Chaerdydd. Mae angen i chi edrych ar hanes yr ardal, nid am ein bod eisiau aros yr un fath, ond oherwydd bod gan y wlad hyfryd hon gysylltiadau hanesyddol pendant. Mae angen rhoi trefn ar yr ardaloedd, a gobeithio y byddwch yn llwyddo i gyrraedd man lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn hapus gyda'r newidiadau - pob lwc!

BCW-9239 / [REDACTED] / Machynlleth

Rhy fawr, mae yr hyn sydd gennym yn awr yn ddigon. Mae anghenion yr ardaloeddfel ag y maent yn wahanol yn barod.

BCW-9240/ J.D Williams/ Pont-y-clun

Bore da,

Diolch am anfon ymlaen at fy nghyfeiriad cartref y cynigion a awgrymir am Gymru. Yn anffodus, byddwn yn colli 8 Aelod Seneddol. Ond yr wyf yn croesawu'r newid arfaethedig i'm hardal i. Ar hyn o bryd, nid yw'r ardal lle'r wyf i'n byw mewn sefyllfa wleidyddol addas. Mae ein Haelod Seneddol presennol yn gwasanaethu ardal cyngor sy'n wahanol, sef Pen-y-bont. Dan y cynigion newydd, byddwn yn ardal cyngor Rhondda Cynon Taf. Yn bersonol, rwyf yn croesawu'r ateb hwnnw sydd yn yr adroddiad.

Gobeithio, wrth i'r adroddiad ddod yn fwy hysbys i'r etholwyr, y bydd mwy o bobl yn mynegi eu barn i chi fel aelodau'r Comisiwn.

Diolch,

Cyng. J.D Williams

Cynghorydd Cymuned Ward Llanharan

BCW-9241/ [REDACTED] Aberbargoed

Rwy'n ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau ond yn bersonol, rwy'n teimlo fod ardal newydd Rhymni Blaenau yn cywasgu ardaloedd mwyaf difreintiedig y cymoedd uchaf at ei gilydd, a all arwain at fwy fyth o amddifadedd mewn poblogaeth sydd eisoes yn heneiddio ac sydd â chyrhaeddiad addysgol is.

Yr unig ffordd y gallai hyn weithio fyddai petai buddsoddiad sylweddol yn syth mewn seilwaith ac addysg

BCW-9242/ [REDACTED] / Aberystwyth

Rwyf o blaid newid y ffin i Geredigion Preseli, yn enwedig gan ei fod yn adleisio cysylltiadau hanesyddol â thiroedd y Deheubarth, gan ddod â Thyddewi a Gogledd Ceredigion yn ôl ynghyd. A hefyd ddwyn i mewn holl arfordir Ceredigion.

BCW-9243/ [REDACTED] / Caerffili

Deng munud mae'n gymryd i yrru o Gaerffili i Gaerdydd. Mae cysylltiad agosach o lawer â Chaerdydd nag â Chasnewydd, sydd hanner awr o daith i ffwrdd. Rwy'n meddwl y byddai'n well i Gaerffili fod yn rhan o Ogledd Caerdydd neu Islwyn na rhan o Orllewin Casnewydd. Dylai etholaethau'r cymoedd fynd i fyny, nid ar draws. Mae gan Gwmbrân lawer mwy o gysylltiad â Chasnewydd na Chaerffili.

Byddai Caerffili ac Islwyn a Gorllewin Casnewydd a Thorfaen yn gyfuniadau gwell o lawer.

BCW-9244 / [REDACTED] / Pontypŵl

Roeddwn yn gobeithio y byddai ffiniau'r etholaethau newydd yn gwneud i ffwrdd â Thorfaen. Arferwn fod yng Ngwent, ac yr wyf am ddychwelyd at yr enw hwnnw. Does gan bobl y tu allan i Gymru ddim syniad sut i'w ynganu. Dewch â Gwent yn ôl neu'n well fyth, Sir Fynwy, fel yr oedd ym mhellach yn ôl.

BCW-9245 / [REDACTED] / Rhydaman

Rwy'n llwyr gytuno â'r cynnig i ostwng y niferoedd.
Nid yw'n gwneud synnwyr i gael cymaint o gynrychiolwyr i ardal mor fach.

Rwyf wedi byw yn y dref trwy f'oes ac erioed wedi gweld yr un cynrychiolydd yn dodo gwmpas i ofyn am farn yn lleol, ac nid ydym ni'n cael unrhyw gynrychiolaeth ganddynt hwy.

Y cyfan a welir yw llun yn y papur.

Gyda chynnydd mewn costau byw a biliau treth cyngor yn codi, mae'n gwneud synnwyr i wneud arbedion eraill fel y rhain.

BCW-9246 / [REDACTED] / Caerdydd

Alla'i ddim deall pam nad yw Canol Caerdydd yn ffinio i'r gogledd a'r A48 ger Maendy – mae'n ymddangos yn fwy naturiol peidio â chael newid rhwng strydoedd yma sydd bron yn nesaf at ei gilydd.

BCW-9247 / [REDACTED] / Llandudno

Mae uno Aberconwy a Gorrlewin Clwyd fel y maent ar hyn o bryd yn gwneud mwy o synnwyr na llusgo rhannau o Wynedd i ardal Aberconwy: mae pleidleisiau'r ddwy etholaeth yn cael eu cyfrif gyda'i gilydd beth bynnag. Nid yw'r bwriad i ymestyn etholaeth Aberconwy yn gwneud unrhyw synnwyr i mi. O safbwynt cyfrif pleidleisiau yn unig, mae'n edrych fel petai wedi ei daflu at ei gilydd heb fawr o feddwl.

BCW-9248 / [REDACTED] / Llanhari

Symudwch Llanhari yn ôl i'r fro.

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf gostwng nifer yr etholaethau yng Nghymru. Dylid addasu meintiau'r boblogaeth yn ôl y wlad ac ystyried amrywiadau economaidd, diwylliannola dwysedd y boblogaeth, yn hytrach na'u cymhwyso'n gyfartal ar draws y DU. Os unrhyw beth, dylai cynrychiolaeth Cymru yn senedd y DU gynyddu yn hytrach na chael ei lleihau.

BCW-9250 / [REDACTED] / Y Clas ar Wy

Mae'r etholaeth hon wedi'i rhoi at ei gilydd i gael nifer briodol yr etholwyr, beth bynnag fo'r dirwedd a ffyrdd o fyw y bobl o fewn y ffiniau.

Mae Bannau Brycheiniog yn creu ffin rhwng yr ardal i'r de o gronfa ddŵr Crai a'r ardal i'r gogledd.

Mae pobl sy'n byw i'r de o'r gronfa ddŵr yn edrych tuag Abertawe fel eu canolfan siopa. Nid yw'r tir cystal yn amaethyddol, y traddodiad yw codi glo ac mae lefel uchel o siaradwyr Cymraeg.

I'r gogledd o'r Crai, daw'r tir yn dir amaethyddol o ansawdd uchel a thir comin. Mae hen Sir Faesyfed bron yn gwbl amaethyddol ag amodau ffermio anodd.

Bydd anghenion y gymuned amaethyddol yn cael eu colli â'r newidiadau hyn i'r ffiniau.

BCW-9252 / [REDACTED] / Abertawe

Ni ddylai ail-lunio ffiniau roi mantais i unrhyw blaid wleidyddol mewn etholiadau.

BCW-9253 / [REDACTED] / Pontardawe

Nid oes gan y cymunedau yn ardal Pontardawe lawer o gysylltiadau cymunedol ag etholaeth arfaethedig Aberhonddu. Yn hytrach, mae'r cysylltiadau (o dde Ystradgynlais) ag ardaloedd ehangach Abertawe a Chwm Tawe, ac i'r cymoedd i'r dwyrain a'r gorllewin h.y. NID â'r gogledd.

Mae'r aneddiadau yn ne'r etholaeth arfaethedig yn wahanol i'r aneddiadau gwledig mwy gwasgaredig, ag anghenion economaidd-gymdeithasol gwahanol.

Bydd y boblogaeth yn cael ei gwasanaethu'n well drwy fod yn rhan o etholaeth sy'n cynnwys ardaloedd de'r cymoedd.

Ni fydd y newid hwn yn cael unrhyw effaith arnom mi yn Nyffryn Clwyd, nac yn ardaloedd Dyffryn Conwy. Unwaith eto, mae'r map wedi cael ei gynllunio fel mai ardaloedd poblog pobl ddwad yr arfordiroedd fydd yn dewis y gwleidyddion, nid pobl gynhenid Gymreig sy'n byw mewn ardaloedd llai poblog, n

Mae ein lleisiau ni'n cael eu boddi dan don anferthol yr arfordir. Dw i'n gwybod bod pob etholaeth yn gorfod cynnwys hyn a hyn o boblogaeth, ond rydym unwaith eto wedi cael dêl wael. Pam ar wyneb daear na fydddech chi'n creu etholaethau sy'n mynd ar draws gwlad, fel bod trefi ac ardaloedd sydd â'r un math o anghenion a phroblemau gyda'i gilydd e.e. Llanrwst, Betws y Coed, Dinbych, Rhuthun, Corwen ayb yn yr yn etholaeth, gan roi'r trefi arfordirol a'u problemau ac anghenion gwahanol i'r ardaloedd cynhenid efo'i gilydd. Er byddai hyn yn creu etholaeth fawr yn ddaearyddol, mae hyn yn cael ei dderbyn fel norm yng Ngwynedd a Phowys. Rwy'n credu bod gan Bae Colwyn, Y Rhyl a Phrestatyn fwy yn gyffredin na Rhyl a Pheniel, Prion a Saron. Meddylwch eto os gwelwch yn dda

BCW-9255 / [REDACTED] / Abergele

Lleihad arswydus i bwerau Cymru am fod â'r amarch i [testun ar goll]

BCW-9256 / [REDACTED] / Abertyleri

Wrth ystyried cyfuniad y bwrdeistrefi eraill, mae'n edrych fel petai uno Blaenau Gwent a Chwm Rhymni yn cyfuno rhai o'r ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd economaidd a chymdeithasol, a'u rhoi gyda'i gilydd. Mae bron fel petai'r goreuon o ardaloedd cyfagos Rhymni a Blaenau Gwent wedi'u hamsugno gan gynghorau mwy, a mwy 'llwyddiannus', a bod yr hyn sy'n weddill wedi'i hel at ei gilydd a'i labelu'n Flaenau Gwent a Rhymni.

Mae gan yr ardaloedd hyn rai o'r lefelau uchaf o ddiweithdra, salwch a thlodi cyffredinol. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (CBSBG) yn arbennig, ceir rhai o'r cyfraddau uchaf o'r dreth gyngor ledled y wlad, gan ddarparu'r gwasanaethau lleiaf (casgliadau sbwriel bob 3 wythnos, dim toiledau cyhoeddus, campfeydd dan reolaeth y Cyngor sy'n ddrytach na campfeydd o safon uchel yng nghanol y ddinas...). At ei gilydd, nid yw'r ffiniau'n gwneud llawer o synnwyr yn ddaearyddol mewn perthynas ag ardal Abertyleri, yn enwedig gan y bydd cymunedau fel Eglwys y Drindod uwchlaw Aber-big mewn cyngor gwahanol, er y byddant yn defnyddio meddygon ac ati yn Aber-big, sydd ond 1/3 milltir i ffwrdd. Pan ystyriwyd y ffiniau, byddai wedi gwneud synnwyr i uno dwyrain CBSBG ag Islwyn, a gorllewin CBSBG â chyngor i'r gorllewin ohono. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i gadw cyngor sydd wedi methu'n hanesyddol, ac sy'n parhau i fethu ei breswylwyr, a chyfuno ardal arall sy'n wynebu heriau economaidd i roi rhagor o straen ar gyllid y cyngor, sydd eisoes dan bwysau. Mae'n werth nodi nad oes gan CBSBG unrhyw stoc dai o gwbl, ac mae'n cydweithio â chymdeithasau tai. Ar hyn o bryd, gall fanteisio ar 1 hostel brys sydd ag 1 ystafell i deuluoedd â 2 ystafell wely, felly mae'n addas ar gyfer 1 teulu ag 1 plentyn, wedyn mae'n dod yn orlawn. Mae hyn yn gwbl annigonol, a phe byddai'r Cyngor yn ymestyn hyn, byddai ond yn cael ei waethygu gan gynnydd yn y galw. Mae gennyf brofiad personol o'r system hon a'r diffyg cefnogaeth i bobl anabl â theuluoedd sydd wedi dod yn ddigartref, ac awydd y Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau dan adran 73 y Ddeddf Tai. Ar y cyfan, drwy gyfuno Blaenau Gwent a Chwm Rhymni, rydych chi'n creu ardal sy'n ffocws ar gyfer amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, a diffyg symudedd cymdeithasol. Hefyd, mae diffyg cysylltiadau da a fforddiadwy i gyflogaeth enillfawr hirdymor. Mae'n ymddangos bod ardaloedd eraill wedi'u cymathu ag ardaloedd cynhyrchiol ac enillfawr eraill, ac mai Blaenau Gwent a Rhymni yw'r ardal nad oedd unrhyw gyngor arall ei heisiau, felly y gwnaethant sefydlu ar eu pennau eu hunain, ar draul i'r preswylwyr.

BCW-9257 / [REDACTED] / Llanfairfechan

Nid yw rhannu Bangor rhwng Gwynedd ac Aberconwy yn teimlo fel ymraniad naturiol. Mae cysylltiad mwy naturiol rhwng Aberconwy a Chlwyd a Delyn, er enghraifft. Mae sut mae pobl yn teimlo am ardal o bwys hefyd.

Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi nad ydych chi'n ystyried pleidleisio a sut bydd hyn yn effeithio ar etholiadau, ond mae hyn yn peri pryder i'r cyhoedd, hyd yn oed os nad yw'n bryder i'r adroddiad hwn. Mae gan rai ardaloedd ymdeimlad enfawr o hunaniaeth sydd wedi'i seilio ar ba blaid maent yn ei dewis i'w cynrychioli.

Felly, mae fy sylwadau yn ymwneud â sut mae pobl yn teimlo am eu hardal a'u hymdeimlad o hunaniaeth. A wnewch chi sicrhau eich bod yn ystyried hyn yn eich gwaith? Gallech wneud arolwg ar-lein i holi preswylwyr am eu hunaniaeth ranbarthol a sut maent yn teimlo am fod yn perthyn i dref neu etholaeth benodol, er enghraifft.

BCW-9258 / [REDACTED] / Llangynnwr

Hollol gwrthwynebu- mae gofynion pobl tref Caerfyrddin yn gwbwl gwbwl wahanol i ofynion ac anghenion pobl tref Llanelli. Mae'r ddwy ardal yn hollol wahanol a dylen nhw bendant ddim fod yn yr un etholaeth. Mae'r syniad yn hurt.

Rwyf yn gwrthwynebu'r awgrym hurt hwn yn llwyr – mae gan breswylwyr yr ardaloedd hyn anghenion cwbl wahanol ac mae'n gwbl anghyfrifol i ddisgwyl iddynt gael eu gwasanaethu gan un etholaeth.

Mae lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru'n ffars – mae'n ymosodiad ar Gymru a'i phobl.

BCW-9259 / [REDACTED] / Caernarfon

Mae enw'r etholaeth hon braidd yn broblematig imi. Tra bod Dwyfor a Meirionnydd yn cael eu cynrychioli yn yr enw, mae rhan (go helaeth!) o'r etholaeth yn cael ei heithrio o'r enw. Mi dybiwn i bod ardal Dwyfor yn cyrraedd at (tua) Abererch. Yn fy nhyb i, ni fyddai modd tadogi i'r ardal ymhellach i fyny, etholaeth Arfon AHOB, yr un enw ag ardal Abersoch/Aberdaron.

Rwy'n deall, efallai, nad yw 'Dwyfor, Arfon, Meirionnydd' yn enw bachog iawn. Ond gwn y byddai'n anodd i'r sawl sy'n ymgyrchu'n wleidyddol ddarbwylllo pleidleiswyr yn Rhiwlas neu Benrhosgarnedd eu bod nhw'n pleidleisio i ethol AS dros 'Ddwfor Meirionnydd!'

BCW-9260 / Cymdeithas Sir Fynwy / Casnewydd



Cymdeithas Sir Fynwy

Grŵp sirol o Gymdeithas Siroedd Prydain

<http://monmouthshire-association.org.uk>

AROLWG 2023 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMROU

YMATEB I'R CYNIGION CYCHWYNNOL

Medi 2021

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	2
Dadansoddiad o Gynigion Cychwynnol y Comisiwn	2
Sir Fynwy	2
Blaenau Gwent a Rhymni	2
Aberafan Porthcawl	2
Aberhonddu a Maesyfed	3
Caerfyrddin	3
Ceredigion Preseli	3

Cyflwyniad

Maes diddordeb y Gymdeithas yw sir hanesyddol Sir Fynwy, ond rydym hefyd yn cynnig mân newidiadau i enwau etholaethau arfaethedig eraill sydd wedi'u hawgrymu yng Nghynigion Cychwynnol y Comisiwn.

Cymerom ran yn yr ymgynghoriad ar gyfer cynigion 2013, ac rydym yn falch o weld bod cynigion 2023 yn llawer mwy addas na chynigion 2013 neu 2018.

Dadansoddiad o Gynigion Cychwynnol y Comisiwn

Sir Fynwy

Er ein bod yn cefnogi defnyddio enwau hanesyddol siroedd wrth enwi etholaethau, mae angen gwneud hynny'n briodol. Mae etholaeth arfaethedig 'Sir Fynwy' yn cynnwys 60% o'r sir hanesyddol yn unig, a byddai'n well ei galw'n 'Dwyrain Sir Fynwy'.

Mae'r etholaeth arfaethedig 95% yn debyg i etholaeth bresennol 'Mynwy'. Polisi'r Comisiwn o ran enwi etholaethau yw, os yw etholaethau'n parhau heb ei newid i raddau helaeth, dylid cadw enw presennol yr etholaeth fel arfer. Felly, rydym yn awgrymu y byddai naill ai 'Dwyrain Sir Fynwy' neu'r enw presennol 'Mynwy' yn fwy addas.

Blaenau Gwent a Rhymni

Mae'r etholaeth arfaethedig hon yn sylweddol wahanol i etholaeth bresennol 'Blaenau Gwent', gan gynnwys rhannau o bedair etholaeth bresennol. Rydym yn argymhell y dylid adfywio enw etholaeth hanesyddol Glynebwy ar gyfer y cynnig hwn, naill ai ar eiben ei hun neu fel 'Glynebwy a Rhymni'.

Aberafan Porthcawl

Mae'r etholaeth arfaethedig hon yn cynnwys y rhan fwyaf o Aberafan, gan ychwanegu Porthcawl o etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr. Felly, yr enw rhesymegol yw 'Aberafan a Phorthcawl'.

Aberhonddu a Maesyfed

Dylai'r etholaeth arfaethedig hon gadw'r enw presennol 'Aberhonddu a Sir Faesyfed'. Mae Sir Faesyfed i gyd wedi'i chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig, fel y mae yn yr etholaeth bresennol. Felly, nid oes unrhyw reswm cymhellol i'w dileu o'r enw.

Caerfyrddin

Nid yw'n glir o'r Cynigion cychwynnol ai 'Carmarthen' fydd enw'r etholaeth arfaethedig, fel sydd i'w weld yn nhaenlen yr etholwyr, neu 'Caerfyrddin', fel sydd i'w weld yn y mapiau (â'r enw 'amgen' 'Carmarthen'). Rydym yn argymhell Carmarthen er mwyn sicrhau cysondeb ag enwau Saesneg eraill.

Ceredigion Preseli

Byddai 'Ceredigion a Gogledd Sir Benfro' neu 'Aberteifi a Gogledd Sir Benfro' yn enw gwell ar yr etholaeth arfaethedig hon. Mae arolygon blaenorol sydd wedi awgrymu ychwanegu gogledd Sir Benfro at Geredigion (2013, 2018) wedi defnyddio'r enw 'Gogledd Sir Benfro' yn hytrach na Phreseli. O ystyried cwmpas daearyddol y cynnig hwn, enw llai lletchwith y byddem yn ei gefnogi fyddai 'Bae Ceredigion'.

BCW-9261/ [REDACTED] / Bae Colwyn

Mae'n hollol amhriodol i Fangor a'r ardaloedd cyfagos gael eu hychwanegu at etholaeth bresennol Aberconwy. Nid oes llawer yn debyg rhwng yr ardaloedd na'r poblogaethau. Clywais un arbenigwr honedig yn dweud mai'r prif reswm dros y cynnig oedd oherwydd y cysylltiad diwylliannol rhwng y poblogaethau. Yn amlwg, nid yw'r arbenigwr hwn yn gwybod unrhyw beth am boblogaeth Aberconwy, sef Saeson o ardal dwristiaeth/gwyliau yn bennaf, a Bangor, sef dinas prifysgol mewn ardal amaethyddol Gymraeg. Mae'r cynnig yn hollol hurt. Dylai Aberconwy, o afon Conwy tua'r dwyrain, gael ei halinio â Sir Ddinbych. Mae gan y ddwy ardal hyn gysylltiadau diwylliannol, gwleidyddol, busnes a chymunedol cryf eisoes.

BCW-9262/ [REDACTED] / Gerlan

Nid wyf yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig ac nid wyf yn teimlo eu bod yn cynrychioli diwylliant, ymlyniad gwleidyddol traddodiadol, na llais y bobl yn fy ardal leol. O ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig, bydd ein materion ni yn cael eu hanwybyddu ac ni fydd ein lleisiau ni yn cael eu clywed.

BCW-9263/ [REDACTED] / Bangor

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y newid hwn am mai'r bwriad yw cynnwys ardaloedd sydd yn hanesyddol a chymdeithasol yn hollol wahanol mewn un uned, ac y byddwn yn sicr yn cael ein llyncu gan fwyafrif Ceidwadol. Ardal Gymraeg ei hiaith yw hon yn bennaf, gyda chlymau diwydiannol traddodiadol cryf, sy'n wahanol iawn i'r ardaloedd mwy dwyreiniol.

Byddai ymgorffori'r ardal hon yn Aberconwy yn wiriondeb.

BCW-9264/ [REDACTED] / Bethesda

Rwy'n byw ym Methesda, ac wedi symud yn ddiweddar o dref arall gerllaw fydd mewn etholaeth arall.

Mae gan Bethesda gysylltiad hanesyddol agos â Bangor a chymunedau'r chwareli llechi sydd wedi para cannoedd o flynyddoedd.

Er ein bod yn agos at Gonwy ac ar ffin Gwynedd, rwy'n credu y byddai'r llinell yn fwy addas o lawer yn Abergwyngregyn trwodd at Ogwen.

BCW-9265/ [REDACTED] / Bethesda

Rwy'n hynod siomedig o ddeall y bydd Bethesda yn rhan o etholaeth Aberconwy.

Mae tref Bethesda yn hollol wahanol yn ddiwylliannol a chymdeithasol i'r rhan fwyaf o Aberconwy. Rwy'n pryderu na fydd Bethesda yn cael llais teg yn yr etholaeth.

Mewn ardal sydd wedi pleidleisio dros Blaid Cymru ers blynnyddoedd, mae'n dra thebygol y byddwn yn cael AS Toriaidd, na fydd yn cynrychioli'r ardal yn deg.

Rwyf yn wir yn gobeithio yr ail-ystyrir y penderfyniad i newid y ffiniau etholaethol.

BCW-9266/ [REDACTED] / Prestatyn

Fedra'i yn fy myw weld rhesymeg gwneud y newid hwn. Ar adeg pan fo'r economi mewn trafferthion, maent yn ystyried gwneud newidiadau diangen fydd yn costio ffortiwn: I mi, mae hyn yn anghyfrifol dros ben. Ar wahân i resymau ariannol, mae'n anodd cuddio'r ffaith y bydd y newidiadau hyn yn lleihau cynrychiolaeth Gymreig yn San Steffan ac yn cynyddu'r gynrychiolaeth o Loegr. Alla'i ddim meddwl am reswm gwell i bleidleisio dros annibyniaeth i Gymru.

BCW-9267/ [REDACTED] / Bethesda

Dydw i ddim yn hapus bod fy ardal i, Bethesda, yn cael ei chynnwys ag ardaloedd Seisnigaidd Aberconwy. Does gan Bethesda ddim yn gyffredin â'r ardaloedd hyn sy'n llawn coloneiddwyr dros glawdd offa. Pwy sydd am ofalu am siaradwyr Cymraeg yn fy ardal yn dilyn hyn? Mae Hywel Williams wedi bod yn aelod seneddol gwych sy'n cynrychioli fy ardal a'i phobl yn dda gan nabod yr etholaeth a deall yr hanes a diwylliant. Bydd hyn yn cael ei golli drwy wahanu ardal Bethesda oddi wrth gadarnleoedd eraill y Cymraeg. Mae gen i fwy yn gyffredin â phobl Caernarfon na Chonwy a Llandudno. Dydi'r rhaniad ddim yn gwneud synnwyr yn ieithyddol nac yn ddiwylliannol. Unwaith eto dyma enghraifft o ormesu ardal dosbarth gweithiol, difreintiedig a Chymraeg ei hiaith.

BCW-9268/ [REDACTED] / Clyro

Mae arnom angen llai o etholaethau yng nghymoedd de Cymru. Mae gormod o rym mewn ardal fechan iawn o'r wlad.

BCW-9269/ [REDACTED] Bethesda

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf iawn i'r cynnig i osod Bethesda a chymunedau eraill Cymraeg eu hiaith yn bennaf y tu mewn i ffin etholaeth Aberconwy. Mae'n ymgais hollol amlwg i dagu mwyafrif Plaid Cymru a barn y sawl sy'n pleidleisio. Tacteg Doriaidd nodweddiadol ddigywilydd a dan-dŵn. Gwarthus

BCW-9270/ [REDACTED] / Bethesda

Di-bwynt... Pam newid rhywbeth nad oes angen ei newid? Mae'n wastraff arian pryd y dylid ei wario ar bethau pwysicach nag ystumiau gwleidyddol. Nawr fod gan Bethesda statws treftadaeth y byd UNESCO, buasech yn amddiffyn ac yn hyrwyddo ei hanes. Trwy ei symud i Gonwy rydych yn dwyn diwylliant a ffordd o fyw o Wynedd ac yn ei roi i Gonwy. Syniad gwirion nad yw wedi ei ystyried yn llawn; rwy'n siomedig iawn, ond yr ydym wedi dod i ddisgwyl hyn gan wleidyddion. Hefyd, oni fyddai'r Blaid Geidwadol yn cael mwy o bleidleisiau petaent yn lleihau'r gystadleuaeth?!! Od iawn mai hwy, ac nid yw unrhyw blaid arall, sy'n cynnig y newid.

BCW-9271/ [REDACTED] / Bangor

Rwy'n anghytuno'n llwyr a'r newid arfaethedig hwn i'r ffin, yn bennaf oherwydd ei fod yn golygu bod Cymru'n colli 8 AS a thrwy hynny yn cael llai fyth o gynrychiolaeth yn San Steffan. Yn ogystal â hyn, byddai'n gweld fy ardal i, Bethesda yn Arfon, yn ymuno ag Aberconwy; mae'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng llawer cymuned yn Arfon a'r rhai mewn llefydd fel Llandudno a Bae Colwyn ac ati yn hollol amlwg. Hefyd, mae Arfon i raddau helaeth yn Gymraeg ei hiaith, lle nad yw hyn yn wir am drefi glan-môr mwy poblog Aberconwy.

Ymddengys hyn (syndod y byd!) yn symudiad i wanhau etholaeth Plaid Cymru sy'n bleidiol i Gymru trwy ei gosod yn sownd wrth fwyaf rif ceidwadol (pleidiol i Loegr a gwrth-Gymreig).

Er mai'r ateb yn y pen draw, yn fy marn i, yw annibyniaeth i Gymru fel unrhyw genedl normal arall, yn y cyfamser byddaf yn gwrthwynebu'r cynnig hwn yn gryf.

BCW-9272/ [REDACTED] / Aberdâr

Pam nad yw Aberaman, Cwmaman a godre Aman yn cael eu cynnwys yn Aberdâr? Rydym yn draddodiadol o'r ardal honno. Nid wyf yn cytuno y dylai'r ffin ein cau allan o'n tref draddodiadol. Yn Abercwmbol y bu'r ffin erioed, yn rhannu Aberdâr ac Aberpennar, ac yr wyf yn teimlo mai felly y dylai aros.

BCW-9273/ [REDACTED] / Port Talbot

Mae Porthcawl ac Aberafon yn ardaloedd tra gwahanol. Mae Porthcawl yn fwy ffyniannus o lawer. Mae Port Talbot eisoes yn cael llai o gyllid ac wedi ei chynrychioli'n wael.

BCW-9274/ [REDACTED] / Bethesda

Ni ddylid uno Bethesda ag Aberconwy. Rydym wedi cael ein cynrychioli gan Blaid Cymru ers blyneddau a hefyd mae ein treftadaeth Gymreig wedi ei warchod gan ein hyssgolion yma. Mae fy llys-blant yn byw yn Aberconwy sydd dan reolaeth Geidwadol ac y maent yn cael eu dysgu yn Saesneg, heb ddim sôn am dreftadaeth Gymreig.

Dylech wneud Bethesda yn rhan o dde Gwynedd, nid Conwy.

BCW-9275/ [REDACTED] / Hendy Gwyn ar Daf

Nid oes angen bellach am unrhyw ASau yng Nghymru gan fod gennym ein Cynulliad ein hunain.

Gwnewch Gymru yn annibynnol a dylai San Steffan fod i ASau o Loegr yn unig.

Dylai'r Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru oll fod yn annibynnol.

Nid oes angen ASau Cymreig.

Diolch

BCW-9276/ [REDACTED] / Bethesda

Rwyf yn arswydo fod Bethesda yn cael ei ystyried fel rhan o Aberconwy. Mae popeth yn wahanol, a byddwn ni yma fel cymuned fach Gymraeg yn cael ein boddi'n llwyr gan farn a dymuniadau ardal sy'n hollol wahanol i ni. Bethesda yw un o'r ychydig gymunedau diwydiannol Cymraeg eu hiaith sydd ar ôl, gydag ymdeimlad cryf o gymuned. Nid democratiaeth yw hyn!

BCW-9277/ [REDACTED] / Bethesda

Dwi yn erbyn y newid ffiniau yma, gan nadwyf yn teimlo fod pentref Cymraeg fel Bethesda yn cyd fynd a Conwy. Ymgais i wanhau llais y Cymru Cymraeg yw hyn. Gwarthus.

BCW-9278/ [REDACTED] / Dyffryn Ogwen

Rwy'n drist ac wedi dychryn fod cynnig i uno cymuned fy mhentref yn Nyffryn Ogwen gydag Aberconwy. Gan i fy mam fyw yno, a bod gen i lawer o gyfeillion yn byw yn Nyffryn Conwy, rwy'n ymwybodol iawn o'r gwahaniaethau diwylliannol enfawr rhwng ein hardaloedd. Rwy'n deall fod gan Gymru ormod o ASau o ran poblogaeth. Serch hynny, rwy'n credu y dylai ardal Dyffryn Ogwen aros yn rhan o ardal Arfon a Meirionnydd, gan ei bod yn rhannu llawer mwy o gysylltiadau diwylliannol a daearyddol.

BCW-9279/ [REDACTED] Caerffili

At: [REDACTED]

Annwyl gyteillion,

Ysgritennat i fynegi fy siom gyda'r adolygiad fydd yn awr yn gosod prit *dret* sirol Caerffili, sydd wedi ethol ei AS yn ei hawl ei hun ers dechrau'r 1900au gydag etholaeth arall.

Yn draddodiadol, mae wedi bod yn ardal yng Nghyngor Sir Morgannwg ac a gynhwyswyd wedyn dan Morgannwg Ganol yn dilyn ad-dretnu. Nawr rydym am gaelein hatodi i ddinas sydd a *tawr* ddim cysylltiad traddodiadol tel tret/dinas yn Sir Fynwy ac yna Gwent.

Ni fydd gan ddinas na phobl Casnewydd lawer yn gyffredin a'n tret ni.

Yn draddodiadol yn y cymoedd, rydym yn wastad wedi teithio o'r gogledd i'r de ac wedi'n gweinyddu telly, ac ERIOD o'r dwyrain i'r gorllewin.

Mae'r rhan *fwyat* o bobl yn dueddol o weithio yng Nghaerdydd, a bydd y rhan *fwyat* o bobl Caerffili yn siopa ac yn cymdeithasu yng Nghaerdydd.

Dim ond cymoedd Gwent sydd yn draddodiadol wedi cysylltu eu hunain a Chasnewydd.

Byddai wedi bod yn fwy synhwyrol ymgorffori hanes hen weinyddiaeth Cyngor Dosbarth Cwm Rhymni - byddai hyn wedi dod a'r ffigyrau'r etholaeth i 77,000 *gantod* pobl wedi arfer a hynny ers 1974. Yn wir, yr oedd hen etholaeth Caerffili yn cynnwys llawer iawn o'r ardal honno, tel bod traddodiad yn bodoli eisoes, a gaiff eigolli trwy'r cynnig hwn. Ni fydd pobl Casnewydd na Chaerffili yn hapus.

Alla'i ddim credu o dditrit y bydd pobl yn teimlo ein bod yn pleidleisio dros AS Casnewydd i gynrychioli'r *dret tawr* hon yn y Fwrdeistret Siriol sydd yn un o'r 4yddneu'r 5ed *fwyat*.

Mae Caerffili yn haeddu Aelod Seneddol yn ei hawl ei hun.

Yn draddodiadol, daeth ein cynrychiolwyr o getndiroedd glotaol amlwg: cynrychiolwyr glowyr; gwrthwynebwyr cydwybodol oedd a chetnogaeth lawn holl hen gyrinteydd yr NUM. Mae hyn oll wedi ei ddileu ar unwaith gan bob heb ddim parch na dealltwriaeth o'n traddodiadau a'n hanes.

Rwyf wedi ymladd y sedd hon yn y 9 etholiad cyffredinol diwethat, telly rwy'n gwybodam beth rwy'n son pan *ddywedat* y bydd pobl yn teimlo eu bod wedi colli eu llais - byddant yn protestio ac yn gwrthod pleidleisio. Ai dyma sydd ar ddemocratiaeth ei angen? Choelia'i *tawr*.

Yn ystod yr Etholiad Cyffredinol diwethaf, yr oedd canran y sawl a bleidleisiodd yn 66% , yr isaf yn ei hanes, ac ni fydd hyn yn gwneud dim i annog pleidleisio ymysg mwyafrif helaeth yr etholaeth newydd hon. Rwy'n erfyn arnoch, da chi, i ail-feddwlam hyn.

Buaswn yn fwy na pharod i gynnig fy ngwasanaeth fel cyn-aelod o GBCRh, CSMG, CC Penyrheol a CBSC yn ogystal a bod yn gyn-Aelod o'r Senedd. Rwyf wedi gwasanaethu am 45 fel cynghorydd; mae fy ngwasanaeth, wrth gwrs, am ddim.

[REDACTED]

BCW-9280/ [REDACTED] / Penarth

Dylai Penarth fod yn rhan o Fro Morgannwg, NID De Caerdydd!

BCW-9281/ [REDACTED] / Maesteg

Dyw hyn yn ddim byd llai nag ystumio ffiniau i siwtio llywodraeth y Blaid Geidwadol yn San Steffan. Mae llais Cymru eisoes yn cael ei foddi yn Lloegr. Sut mae modd cyfiawnhau yn ddemocrataidd dawelu mwy fyth ar ein llais trwy ddwyn 8 AS oddi arnom? Mae gennym AS lleol gwych yn Chris Elmore yn Ogwr. Ddylai'r ffiniau ddim cael eu newid o gwbl, oni bai am gynyddu nifer yr etholaethau yng Nghymru fel bod gennym lais teg a chyfartal yn y senedd, yn hytrach na chael ein boddi gan nifer llethol o ASau o Loegr. Mae hyn yn niweidiol i lais Cymru yn yr undeb ac i ddatganoli, lle mae'r llywodraeth bresennol yn San Steffan eisoes wedi ymdrechu i ddwyn pwerau yn ôl trwy'r drws cefn.

BCW-9282/ [REDACTED] / Dinbych

Dylai coridor yr A55 fod yn etholaeth ar wahân. Mae gan y trefi mawr hyn anghenion gwahanol. Mae'r holl arian yn llifo atynt eisoes, gan adael yr ardaloedd gwledig gyda llai o gyllid. Defnyddiwch y cyfle hwn i wneud gwahaniaeth go-iawn.

BCW-9283 / [REDACTED] / Penybont

Rwy'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig. Mae gan Gymru lawer o gormod o ASau'n poblogaeth.

BCW-9284 / [REDACTED] / Bangor

Dwi'n anghytuno bod Bethesda yn mynd i fod yn ran o aetholaeth Conwy. Mae Bethesda yn ardal wledig, gymreig, ac mae ei phobl ar ffordd o fyw yn perthyn mwy i Orllewin Cymru na'r dwyrain. Dwi fel ran or gymuned yn Methesda yn uniaethu llawer mwy hefo ardal Arfon nac un Conwy. Hefyd ma'r ffaith fod Cymru yn colli etholaethau yn sarhad i ni fel gwlad. Llais digon bychan sydd gennym yn San Steffanfel mae pethau rwan, heb son am leihau hynny fwy byth. Dwi'n anghytuno yn gryf hefo'r cynnig.

BCW-9285 / [REDACTED] / Cydweli

Rwy'n ei chael yn afresymol y gall rhan o ardal wledig - a Chymraeg ei hiaith yn bennaf - o'r hyn sydd ar hyn o bryd yn Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr ymuno ag ardal gymharol drefol Llanelli, lle mae'r boblogaeth fu unwaith yn sylweddol Gymraeg ei hiaith wedi ei gwanhau dipyn gan bobl o dras Pwyleg neu Romanaidd. Dylai fod yn glir i bawb fod dyheadau ac anghenion etholaeth Sir Gâr wledig gryn dipyn yn wahanol i rai'r etholwyr sy'n byw yn ardal drefol Llanelli fel y mae heddiw. Buaswn yn gwrthwynebu'r newid ffin yn gryf; bydd pwy bynnag fydd yn ennill y sedd 'newydd' yn hollol estron i un rhan o'i h/etholaeth neu'r llall.

BCW-9286 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Yn y Groes Faen y bûm i'n treulio pob Sadwrn a dyddiau eraill pan oedd fy mam yn gweithio. Lle bychan ydyw, ond gyda chysylltiad â Chreigiau a Phentyrch oherwydd ei gwreiddiau yn yr Eglwys yng Nghymru. Nid mater o grefydd yw hyn, ond o agosrwydd. Nid yw gwahaniaeth fel hyn yn gwneud synnwyr. Y llinell derfyn yw'r A4119. Rwy'n gobeithio y daw rhyw synnwyr o hyn, neu fel arall fe fyddwn yn gweld parhad o'r dirywiad yn y sawl sy'n pleidleisio i ethol Aelodau Seneddol wrth iddynt ddod yn fwyfwy amherthnasol. Rwy'n gobeithio y bydd y bobl sy'n darllen y sylwadau hyn yn cymryd y farn i ystyriaeth.

BCW-9287/ [REDACTED] / Pwllheli

Yn ddaearyddol mae'r etholaeth yma'n ANFERTHOL! Sut mae disgwyl chwarae teg i'r etholwyr duw yn unig a wŷr! Mae gen i gydymdeimlad mawr efo'r Aelod a gaiff ei ethol/ hethol hefyd! Does dim synnwyr yn hyn o gwbl.

BCW-9288/ [REDACTED] / Wreccsam

Ymddengys bod rhai ffiniau od iawn ac annaturiol:

Mae Penychae / Afon Eitha (un endid yn ei hanfod) yn annatod gysylltiedig â Rhosllannerchrugog a byddai cynnwys Penychae yn etholaeth Wreccsam yn gweddu'n fwy naturiol.

Tebyg yw'r sefyllfa o wahanu Brymbo / Tanyfron oddi wrth Moss /Brynteg.

Nid yw'r ffin sy'n gosod darn bychan o Goedpoeth mewn etholaeth ar wahân yn gwneud unrhyw synnwyr.

Mae Sydalit yn mynd yn naturiol gyda Chefn-y-bedd.

Byddai cynnwys Burton / Yr Orsedd yn Alun a Glannau Dyfrdwy yn fwy naturiol na'r uchod - gellid gwneud achos tebyg dros ymgorffori Eyton / Erbistock / Owrtyn gyda Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

BCW-9289/ [REDACTED] / Caerdydd

Dylid gosod Radur a Morganstown yng Ngogledd Caerdydd. Mae'n adlewyrchu'r ddemograffeg yn fwy cywir.

BCW-9290/ [REDACTED] Bangor

Gwarthus!!!! Mae diwylliant, tirwedd, pobl ac iaith Bethesda yn hollol wahanol i Gonwy, does ganddynt ddim yn debyg. Cynllun yw hwn i atal annibyniaeth a llenwi San Steffan gyda Thoriaid..

BCW-9291/ [REDACTED] / Llanelwy

Does dim angen newid y ffiniau hyn! Pam newid rhywbeth sydd wedi gweithio'n iawn ers blynnyddoedd? Y cyfan wnaiff y newidiadau hyn yw rhoi mantais annheg i'r Thoriaid llwgr ac anfoesol sydd â'u hunig nod o ddifetha Llywodraeth Cymru.

BCW-9292/ [REDACTED] / Bangor

Byddai hollti dinas mor fach â Bangor yn ei hanner a gosod yr haneri mewn gwahanol etholaethau yn gwadu ei hunaniaeth. Mae hyn yn annemocrataidd a rhaid ei ail-ystyried.

BCW-9293/ [REDACTED] / Llanllechid

Ddim yn cefnogi hyn o gwbl.

BCW-9294/ [REDACTED] / Tredegar Newydd

Syniad hollol wallgof, does gan y cwm hwn ddim cysylltiad â Blaenau Gwent. Mae fy nhreth cyngor yn cael ei thalu i Gaerffili, fy Aelod o'r Senedd yn seiliedig o gwmpas Merthyr. Does gan bwy bynnag a feddyliodd am gyplysu'r ddwy ardal hon ddim syniad am yr ardal ac wedi gwneud dim ond seilio'r newidiadau ar rifau.

BCW-9295/ [REDACTED] / Cwmbrân

Rwyf wrth fy modd gyda'r bwriad i symud Croesyceiliog i Dorfaen. Rwyf yn wastad wedi teimlo'n ddieithr ym Mynwy, ac wedi ei chael yn anodd denu diddordeb mewn materion lleol.

BCW-9296/ [REDACTED] / Port Talbot

Mae hwn yn benderfyniad absŵrd. Mae fy etholaeth 'arfaethedig' i fy hun, Aberafan a Phorthcawl, yn enghraifft wych.

Mae ffurfiant cymdeithasol-economaidd y ddwy ardal yn hollol wahanol. Mae Porthcawl yn ardal ffyniannus ar y cyfan sydd yn draddodiadol wedi pleidleisio yn Geidwadol.

Ar y llaw arall, mae gan Port Talbot ganran uwch o etholwyr dosbarth gweithio sydd fel arfer yn pleidleisio i Lafur.

Sut gall un AS gynrychioli buddiannau'r ddwy ardal hon? Maen ganddynt bryderon a phroblemau hollol wahanol.

Mae'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan bobl nad ydynt yn byw yng Nghymru ac sydd heb ddeall y ffurfiant cymdeithasol a gwleidyddol.

Yr unig reswm fod hyn yn digwydd yw fel y gall y Torïaid geisio cipio mwy o rannau o Gymru trwy chwalu seddi traddodiadol Lafur. Mae'n gywilyddus.

BCW-9297/ [REDACTED] / Casnewydd

Nid wyf yn deall pam eich bod wedi cyfuno Gorllewin Casnewydd gyda Chaerffili yn hytrach na chyda Dwyrain Casnewydd. Oni fyddai'n gwneud mwy o synnwyr cael dim ond Casnewydd?

Dinas yw Casnewydd, tra bod Caerffili yn bennaf yn nifer o bentrefi bach a rhai trefi. Fe all anghysondeb godi rhwng anghenion dau le hollol wahanol. Hefyd, o ystyried fel y mae llawer o bobl ym mhentrefi Caerffili yn edrych i lawr ar 'bobl y dref', nid wyf yn gweld buddiannau cymunedau Gorllewin Casnewydd a chymoedd Caerffili yn asio'n dda o gwbl.

Treuliais fisoedd lawer yn aros yng Nghaerffili yn ystod y pandemig, m ac y mae'n ymddangos yn fwy rhesymol cael Casnewydd yn unig. Rwy'n gweld mwy yn gyffredin rhwng Dwyrain a Gorllewin Casnewydd na rhwng Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

BCW-9298/ [REDACTED] / Caerdydd

Ni ddylai Cymru gael ei gorfodi i gael llai o gynrychiolwyr yn San Steffan. Mae'r wefan hon yn anodd ei defnyddio ar ddyfeisiadau symudol.

BCW-9299/ [REDACTED] / Bangor

Dylid gadael y ffiniau fel y maent.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ffordd lechwraidd o sicrhau fod gan Gymru lai o lais a chyfraniad yn y Senedd.

Mae'r ardaloedd arfaethedig yn ddaearyddol yn rhy fawr ac amrywiol.

Mae'r ffiniau presennol yn gweithio'n dda iawn. Felly, dylent aros fel y maent. Pam gwastrafu amser mewn cyfnod o ansicrwydd ariannol? Gallai'r arian a neilltuwyd ar gyfer hyn gael ei wario'n well yn rhywle arall, ar y GIG neu addysg.

Ymgais annemocrataidd i gipio tir yw hwn gan y Torïaid, a fwriadwyd i ddadfreinio pobl leol yng Ngwynedd, ac y mae'n mynd yn hollol groes i hanes a thraddodiadau. Ni fi yw'r unig un ym Methesda o bell ffordd sydd wedi dychryn o gael fy ngwthio yn erbyn f'ewyllys i sedd draddodiadol Doriäidd. Rhowch y gorau i'r gwallgofrwydd hwn. Nid wyf o dras Gymreig, ond byddaf yn pleidleisio dros annibyniaeth, o ystyried ystrywiau Torïaid San Steffan.

Dwi'n dod o Rachub, dwi'n gweithio ym Mangor, gwnaf y rhan fwyaf o fy siopa ym Mangor (lle cefais fy ngeni), ac mae pob un o'r rhain yn etholaeth bresennol Arfon. Er y teimlaf gysylltiad â'r ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith i'r de a'r dwyrain (yn nyffrynnoedd Conwy a Lledr, y byddai fy nghymuned yn ymuno ânhw yn etholaeth newydd Aberconwy) teimlaf lawer mwy o gysylltiad â'r hen ardaloedd mwyngloddio llechi i'r Gorllewin (dyma fy mhobl i, dwi'n dod o Arfon nid Aberconwy).

Nid oes gennyf unrhyw gysylltiad gwirioneddol â'r gytref arfordirol yng ngogledd ddwyrain yr etholaeth newydd, sef Llandudno, Cyffordd Llandudno ac ati. Mae'r lleoedd hyn, er nad ydynt yn ddieithr i mi, yn gwneud i mi deimlo'n ddieithr wrth ymweld â nhw. Yno, rwy'n ei chael hi'n anodd clywed a siarad fy mamiaith ar y strydoedd ac yn y siopau. Nid yw'r sgysiau a glywaf yno yn ymwneud â'm profiadau a'r materion sy'n effeithio arnaf. Teimlaf nad oes diben i'r lleoedd hyn er fy mudd i, ond yn hytrach er budd twristiaid o Loegr, a phobl sydd wedi ymddeol, a'r sawl sy'n eu gwasanaethu. Ac eto, bydd trwch y boblogaeth yng nghornel ogledd-ddwyreiniol "Aberconwy" yn sicrhau mai barn y bobl HYN a'r materion sy'n effeithio ar yr ardal HON fydd yn rheoli canlyniadau etholiadau.

Mae'r materion a nodaf yn berthnasol iawn hefyd i bobl ledled cefnwlad wledig llain arfordirol Gogledd Cymru. Mae'r ffordd y mae'r etholaethau wedi'u trefnu gyda'r gogledd Eingl-ganolog poblog yn dominyddu'r ardaloedd gwledig mwy prin eu poblogaeth a Chymraeg eu hiaith i'r de, yn gyfle a gollwyd i etholfreinio a chynrychioli'r cymunedau gwahanol sy'n bodoli.

Gellir yn hawdd fod wedi dyfeisio ad-drefnu tecach a mwy creadigol pe bai echel y cymunedau'n rhedeg o'r gorllewin i'r dwyrain (yn llorweddol) yn hytrach nag o'r gogledd i'r de (yn fertigol). Felly, byddai cymunedau'r llain arfordirol o Landudno hyd at Brestatyn, sydd â llawer yn gyffredin rhyngddynt, yn cael eu cynrychioli'n deg. Hefyd, byddai'r mewndir gwledig â'i drefi marchnad fel Conwy, Llanrwst, Rhuddlan, Dinbych, Rhuthun, Corwen ac ati, a'u pentrefi cyfagos a'u cymunedau ffermio cysylltiedig, yn cael eu hetholfreinio mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu natur yn fwy priodol.

Mae'r ffordd y mae'r newidiadau arfaethedig hyn i'r ffiniau wedi'u llunio, yn fy marn i, yn ddiog ac yn ddiddychmyg, gan barhau i ddifreinio rhan helaeth o ardal wledig gogledd Cymru er budd elfen sy'n ceisio ei hymyleiddio, a lleihau arbenigrwydd diwylliannol ei phobl, mewn ffordd sy'n warthus.

Os gwelwch yn dda, er budd democratiaeth, ailstyriwch.

BCW-9302/ [REDACTED] / Dinbych y Pysgod

Cynrychiolaeth gyfrannol yw'r unig wir ffordd ddemocrataidd. Rhowch y gorau i ddal ati gyda'r dull hen-ffasiwn erchyll hwn o wleidyddia ym Mhrydain, a rhowch wir ddewis i'r bobl. Mae gen i gywilydd bod yn Brydeinwraig!!!!

BCW-9303/ [REDACTED] / Castell Nedd

Pam eich bod yn rhoi Dwyrain Abertawe gyda Chastell Nedd, ac yn rhoi Port Talbot gyda Phorthcawl, pan fyddai modd i chi roi Castell Nedd a Phort Talbot gyda'i gilydd am eu bod yn rhannu'r un awdurdod lleol? Onid yw'n fwy synhwyrol gwneud Abertawe yn fwy trwy ychwanegu Dwyrain Abertawe at Ganol Abertawe ac uno Porthcawl gyda Phen-y-bont? Er, nid wyf yn siŵr sut y byddai'r niferoedd poblogaeth yn gweithio.

BCW-9304/ [REDACTED] / Bangor

Helo,

Dwyf i ddim yn meddwl ei bod yn iawn y bydd ein cod post yn symud i ardal "Aberconwy" i bleidleisio yn y dyfodol dan y newid arfaethedig.

Mae ein cod post yng Ngwynedd felly byddai'n fwy synhwyrol cael ein post wedi ei gynnwys yn ardal Gwynedd. Hefyd, mae'n ymddangos y bydd eich newid arfaethedig yn hollti dinas Bangor (rhan yng Ngwynedd a'r rhan arall yn Aberconwy). Byddai'n gallach cael yr ardal fesul ffiniau sirol, a phetai'r ardal honno yn rhy fawr, yna gellid rhannu yn y sir honno yn hytrach na'ch cynnig presennol. Diolch

BCW-9305/ [REDACTED] / Machynlleth

Mae Dyffryn Dyfi a Machynlleth mewn ardal ucheldir amaethyddol sy'n Gymraeg ei hiaith yn bennaf, ac nid yw'n debyg iawn i ardal iseldir amaethyddol llawer o Bowys. Mae pobl yn yr ardal yn teimlo eu bod wedi ymbellhau oddi wrth awdurdod lleol Powys, ac yn teimlo hefyd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda ganddi. Byddai Machynlleth yn cael gwell gwasanaeth trwy fod naill ai yng Ngheredigion neu Wynedd. Yn bersonol, rwy'n teimlo y dylem fod yn rhan o Geredigion gan mai Aberystwyth yw'r dref agosaf. Byddai CS Ceredigion yn rhoi llawer gwell gwasanaeth i ni am ein bod y tu mewn i'w cylch daearyddol, diwylliannol ac economaidd na CS Powys CC sydd â'i bencadlys yn Llandrindod.

BCW-9306/ [REDACTED] / Glyn Ebwy

O gymharu ag ardaloedd eraill y DU, mae'n edrych fel petai gennym siroedd bychain iawn, yn enwedig Blaenau Gwent. Oni fyddai'n fanteisiol rhannu'r sir hon a'i hychwanegu at y rhai cyffiniol er mwyn torri i lawr ar y niferoedd?

BCW-9307/ [REDACTED] / Castell-nedd

Faint mae hyn yn mynd i gostio?
A fyddwchystal â rhestru'r manteision mewn iaith addas i leygwyr.

BCW-9308/ [REDACTED] / Porthcawl

Yr wyf yn erbyn y cynnig hwn.
Nid yw cymysgu Porthcawl ac Aberafan yn addas.
Yr ydym yn gysylltiedig â siroedd y dwyrain o ran ein bwrdd iechyd ac ati, ac nid yw cael ein cyfuno â'r gorllewin yn dderbyniol.
Dylem gael ein symud i ymuno â siroedd y dwyrain lle'r ydym yn cael ein gwasanaethau lleol.
Byddai'n rhaid i'n AS ymladd ein hachosion gyda 2 awdurdod lleol gwahanol, ac nid yw hyn yn ymarferol.
Os mai Cwm Taf sy'n darparu ein gwasanaethau, yna dylai ein ffiniau aros yn ardal Cwm Taf.

BCW-9309 / [REDACTED] / Gilwern

Mae'n edrych fel petai'r peth wedi ei setlo, felly nid wyf yn siŵr pa werth sydd mewn gwneud sylwadau. Wrth gwrs, rwyf wedi gwylltio; mae gan Gymru yn awr lai, hyd yn oed, nag oedd ganddi gynt. Mae'n edrych fel bod Cymru yn cael ei thanseilio'n gyson gan San Steffan, sydd yn cryfhau'r achos dros annibyniaeth fwy fyth.

BCW-9310/ [REDACTED] / Treffynnon

Mae pobl yn symud o le i le yn eithaf aml, felly mae'n iawn newid ffiniau i gyd-fynd â hynny. Rwy'n meddwl bod gennym ddigon o wleidyddion etholedig eisoes, felly ni fydd ychydig llai yn effeithio ar ddemocratiaeth yn lleol. Rwy'n meddwl efallai y gellid cysylltu Môn â, dyweder, penrhyn Llŷn a hyd at Gaernarfon a Bangor.

BCW-9311/ [REDACTED] / Wrecsam

Mae symud y ffiniau ar sail poblogaeth yn dwyn oddi wrth yr ardaloedd y wybodaeth am yr ardal a'i diwylliant. Tric gan Lafur yw hyn. Mae rhoi rhannau o Wrecsam yn yr ardal arfaethedig newydd yn hollol chwerthinllyd ac yn dangos nad oes gan y sawl sy'n ail-ddosbarthu'r ffiniau fawr ddim gwybodaeth am Gymru.

BCW-9312/ [REDACTED] / Anhysbys

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 24 Medi 2021 16:47

At: Enquiries <enquiries@boundaries.wales>

Pwnc: cynigion 2021 am seddi newydd San Steffan yng Nghymru

Awgrymir yma y dylid cynnwys ardal Cyngor Cymuned Pentir (yn enwedig ardal Penrhosgarnedd o Fangor) yn etholaeth newydd Aberconwy (yn yr un modd â gweddill Bangor a Dyffryn Ogwen), yn hytrach na bod yn etholaeth newydd Meirionnydd- Dwyfor [REDACTED]

BCW-9313/ [REDACTED] / Caerffili

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y ffiniau newydd i Gaerffili; mae cael ein gosod i mewn gyda rhannau o Gasnewydd yn chwerthinllyd! Rhan o gwm yw Caerffili, ac y mae'r bysus a'r trenau yn rhedeg i fyny ac i lawr y cwm, nid ar draws i Gasnewydd. Gadewch bethau fel y maen nhw a rhoi'r gorau i wastraffu amser ac arian gyda'r ail-drefnu ffôl hwn ar y ffiniau. Mae cymaint o bethau sydd angen arian yn awr, ac y mae hyn yn wastraff. Gadewch y ffiniau fel y maen nhw, alla'i ddim dychmygu'r dryswch mae'n achosi i'r cyhoedd i wneud hyn! Chwerthinllyd! Gwastraff gwirion o amser ac o arian y trethdalwyr!

BCW-9314 / [REDACTED] / Aberdâr

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Tŷ Hastings,

Cwrt Fitzalan,

Caerdydd, CF24 0BL

23 Medi, 2021

Annwyl Syr,

Par: Newidiadau Arfaethedig i Ffiniau Seneddol

Etholaeth Seneddol Bresennol Cwm Cynon

Dymunaf wrthwynebu yn y modd cryfaf eich cynigion am Etholaeth bresennol Cwm Cynon sydd unwaith eto wedi ei dewis gennych i'w datgymalu a'i ddileu o'r map gwleidyddol.

Y bwriad yw i hanner gogleddol Cwm Cynon lle'r ydym yn byw gael ei dorri ymaith i ymuno ag etholaeth Merthyr Tudful.

I roi halen ar y briw, yr enw a roddir ar yr etholaeth arfaethedig newydd yw Merthyr Tudful ac Aberdâr, sy'n gwneud yr olaf hwn yn bartner iau, gyda'r holl anfanteision mae hyn yn olygu.

Daw A cyn M yn yr wyddor, felly pam fod Merthyr yn dod yn gyntaf yn yr enw newydd? Yr ateb yw eich rhagfarn arferol o blaid Merthyr ar draul pob ardal arall. Mae'r term "cyfeillion yn y llys" yn gymwys iawn yma.

A bod yn onest, nid dinasyddion eilradd ydym ni yn Aberdâr a Chwm Cynon, ac eto yr ydych fel petaech yn ein trin felly.

Pwynt arall o bwys nad ydych wedi ei sylweddoli yw bod mynydd rhwng Aberdâr a Merthyr sydd fwy neu lai yn rhannu'r ddwy ardal yn wleidyddol a daearyddol, sy'n eu gwneud yn anghydnaws fel un etholaeth.

Ffactor arall eto fyth yw, ar sail Awdurdod Lleol, fod Cwm Cynon yn rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Bydd eich newid ffiniau arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y cysylltiad rhwng Cwm Cynon ag R.C.T a gall Aberdâr yn hawdd yn y dyfodol gael ei gorfodi i uno gyda Merthyr fel Awdurdod Lleol.

Dyma'r peth olaf sydd arnom ei angen. Yr wyf yn hapus iawn gyda CBS RCT sydd yn Awdurdod Lleol effeithiol sy'n cael ei redeg yn dda. Ni ellir dweud yr un peth am Ferthyr, sydd yn ymddangos fel petai ganddo gryn dipyn o broblemau. Nid yw hyn yn syndod, oherwydd bod pawb yn credu, pan gafodd ei greu, ei fod yn rhy fach o lawer i weithio fel Awdurdod Lleol yn ei hawl ei hun. Dyma enghraifft arall o'r driniaeth ffafriol a roddir i Ferthyr.

I gloi, yr ydym oll wedi syrffedu gyda'ch agwedd at Gwm Cynon, yr ydych yn synied amdano fel ardal i'w thorri i fyny er mwyn cyd-fynd â'ch cynlluniau gwael.

Buaswn yn dra diolchgar petaech yn gallu cydnabod derbyn y gwrthwynebiad hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

[REDACTED]

[REDACTED]

BCW-9315 / [REDACTED] / Rhuthun

Nid yw cynnwys Rhuthun yn etholaeth arfaethedig Delyn yn gwneud unrhyw synnwyr. Nid oes gan y trigolion lawer i'w wneud â mannau yn yr ardal arfaethedig sydd â threfi/pentrefi yn bennaf yn Sir y Fflint.

Dylai Rhuthun yn bendant fod yn ardal etholaeth arfaethedig Clwyd - yn wir, mae'r Afon Clwyd yn rhedeg trwy'r dref ac wedi ei lleoli yn Nyffryn Clwyd. Tybed a yw unrhyw un sy'n rhan o'r cynigion yn ymwybodol mewn gwirionedd fod yr etholaeth wedi ei henwi ar ôl yr afon sy'n rhedeg ryw 35 milltir o'r de o Ruthun at y Rhyl.

Mae Bryniau Clwyd yn ffin ffisegol, felly dylid cynnwys y trefi a'r pentrefi i'r gorllewin o ben Bryniau Clwyd (y pwynt uchaf yw Moel Famau) yn etholaeth newydd Clwyd. Dylid parhau'r llinell derfyn o leiaf yn yr un cyfeiriad fel yr aiff o Lanelwy i Fodfari (yn fras y de-ddwyrain) yn lle symud i gau allan Llandyrnog, Gellifor, Llanbedr Dyffryn Clwyd a Rhuthun - sydd oll yn llefydd sydd yn bendant yng nghanol Dyffryn Clwyd. Yn rhyfedd iawn, mae llinell arfaethedig ffin Clwyd wedyn yn newid cyfeiriad i gynnwys Graigfechan.

Yr hyn sy'n gwneud mwyaf o synnwyr fyddai ymestyn etholaeth bresennol Dyffryn Clwyd i gynnwys trefi/pentrefi i'r de gan gynnwys Rhuthun.

Bydd y newidiadau i'm hetholaeth yn golygu bod mwy fyth ohoni yn rhan o gyngor gwahanol. Mae hefyd yn cynnwys rhan fwy o orllewin Caerdydd, sydd ar y cyfan yn gyfoethocach na Thremorfa lle'r wyf yn byw. Yr wyf yn meddwl felly y gallai newidiadau i ffiniau'r etholaeth gael effaith negyddol ar y gwasanaethau a gynigir i bobl Tremorfa.

BCW-9317 / [REDACTED] / Cyffordd Llandudno

Nid wyf yn cytuno â'r newidiadau i nifer yr ASau Cymreig yn llywodraeth San Steffan. Yr ydym ni yng Nghymru yn wastad yn cael tro gwael gan lywodraeth San Steffan am nad ydynt yn gwrandao ar ein pryderon ac yn awr maent am leihau ein llais yn y Senedd. Rwy'n teimlo fod y llywodraeth Doriaidd wedi penderfynu na ddylai Cymru gael llais go-iawn yn llywodraeth y DU.

BCW-9318 / [REDACTED] / Hwlfordd

Helo

Ni allaf yn fy myw ddeall pam y byddai'r ffiniau arfaethedig yn gwahanu'r etholaeth lle'r wyf yn byw oddi wrth fy nhref agosaf, sef y dref sirol ac felly hefyd oddi wrth f'ysbyty agosaf. Sut y byddai modd i mi apelio at fy AS am wasanaethau lleol pe na baent yn dod dan yr etholaeth?

Mae'n ymddangos hefyd yn gamgymeriad gwahanu dinas Tyddewi, calon ac enaid Sir Benfro, oddi wrth yr etholaeth sy'n dwyn enw'r sir a'i gwneud rywfodd yn atodiad i Aberystwyth.

Rwy'n gobeithio y cewch lawer o sylwadau ac awgrymiadau synhwyrol, neu mae arnaf ofn y gallai'r darlun mympwyol sydd wedi ei lunio ar hap basio mewn modd simplistig a diog, dim ond er mwyn cael y rhifau'n iawn.

[REDACTED]

BCW-9319 / [REDACTED] / Caerffili

Yn ddaearyddol, mae Llanbradach lawer yn agosach i Gaerffili na llawer iawn o ardaloedd etholaeth arfaethedig Caerffili. Byddai ein cysylltu ag Islwyn yn ein clymu wrth ardal y tu allan i'r cwm lle'r ydym yn byw ac ymhell oddi wrth y dref sylweddol agosaf sy'n cael effaith ar ein bywydau bob-dydd. Bydd hyn yn ei dro yn ein rhoi mewn perygl o gael ein pryderon wedi eu boddi gan faterion mwy perthnasol i'r etholaeth arfaethedig.

Rwy'n meddwl bod etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd yn chwerthinllyd, ac yr wyf yn anghytuno'n gryf. Nid oes gan Bont-y-clun a Gorllewin Caerdydd fawr ddim yn gyffredin, a rhaid i Bont-y-clun allu parhau yn gymuned wydn a chref, heb gael ei bodd gan gryfder ardaloedd fel Caerdydd!

BCW-9321 / [REDACTED] / Y Drenewydd

Rwy'n bryderus fod anghenion etholaeth wledig bresennol Maldwyn yn wahanol iawn i rai'r ardaloedd yn nes o lawer at Wrecsam y bwriedir eu huno gyda hwy. Rwyf yn ofni hefyd y bydd maint enfawr yr ardal yn ei gwneud yn anodd i AS fod yn llawn ymwybodol o'r ardal a medru ei chynrychioli yn ddigonol.

BCW-9322 / [REDACTED] / Caerffili

Gwych. Gadewch i ni eu lleihau nhw i gyd a bod yn Gymru annibynnol! Draw oddi wrth griw San Steffan a'r Llywodraeth lwgr! Strwythur llywodraethiant hynod annheg a hen-ffasiwn!

BCW-9323 / [REDACTED] / Port Talbot

Nid yw'r cynigion hyn yn gwneud dim i wella'r hyn sydd gennym eisoes. Dim ond mwy o arian i drwsio rhywbeth nad yw wedi torri. Mae'r hyn sydd gennym wedi ein gwasanaethu'n dda. Cynigiau eich bod yn dileu hyn er budd Cymru a'i phobl.

BCW-9324 / [REDACTED] / Pontardawe

Mae'n ffol dros ben gosod Pontardawe a'r cyffiniau gydag Aberhonddu a Phowys; does dim cysylltiadau â'r ardal a'r cyfan a wnaiff yw golygu y bydd nifer fawr o bleidleiswyr Llafur traddodiadol yn colli cynrychiolaeth i Dori. Nid ydynt hwy erioed wedi cynrychioli'r ardal, ac yr wyf yn amau na wnânt byth dan y ffiniau presennol.

Par: Gorllewin Caerdydd

Nid oes gan bentrefi lled-wledig Creigiau a Phentyrch ddim i'w cysylltu ag ardaloedd mwy poblog Caerdydd megis Canton a Threlái, ac y maent wedi bod dan anfantais dan y trefniant etholaeth presennol. Ac eto, bydd hyn yn parhau.

Yn awr mae ardaloedd yn RTC megis Pont-y-clun i gael eu cynrychioli gan A.S. dros Gaerdydd. Beth sydd gan ardal Pont-y-clun yn gyffredin â Gorllewin Caerdydd? Dim oll.

Bydd yr holl ardaloedd hyn - Pont-y-clun, Groes-faen, Creigiau, Pentyrch - yn cael eu llyncu gan Gaerdydd fwyaf sy'n dal i dyfu a thyfu.

BCW-9326/ [REDACTED] / Yr Wyddgrug

Nid yw Gwernymynydd yn cael ei ddangos ar y map hwn o'r etholaethau diwygiedig, er bod pentref bychan Cadole i'w weld yn glir. Pwy luniodd y mapiau hyn?

Rwy'n meddwl y dylid meddwl mwy am ardaloedd trefol a chefn gwlad. Nid yw'n ymarferol rhoi'r ddau at ei gilydd.

BCW-9327/ [REDACTED] / Castell Nedd

Nid yw'r etholaeth newydd hon yn gwneud unrhyw synnwyr. Bydd Cwm Tawe a rhan isaf Cwm Amman fu'n rhan o etholaeth Castell Nedd ers degawdau a Chastell Nedd Port Talbot ers 25 mlynedd yn awr yn cael eu gosod gyda Rhaeadr a Llanelwedd.

Rydych yn dweud fod eich comisiynwyr wedi cymryd ffactorau daearyddol i ystyriaeth: a yw'r mynyddoedd sy'n gwahanu Cwm Tawe oddi wrth y rhan fwyaf o Bowys yn golygu dim, neu ai'r cyfan a wnaethoch oedd tynnu ambell linell ar fap a meddwl "Fe wnaiff hynna'r tro!"? Ers blynyddoedd, nid yw'r ffin rhwng Trebannws a Chlydach wedi gwneud synnwyr, ond yn hytrach na chael gwared â ffin a chynnwys ardaloedd fel Clydach, Birchgrove a'r Glais gyda gweddill Dyffryn Tawe, rydych wedi penderfynu mai'r lle gorau iddynt fod yw mewn etholaeth gyda Glyn-nedd a Banwen. Mae llawer o gysylltiadau teithio a gwaith da rhwng Castell Nedd a Dyffryn Tawe a Chwm Amman, ond nid yn gymaint â Chwm Tawe ac Aberhonddu. Hefyd, nid yw'r ffaith fod Llansawel yn dal yn "Aberafan a Porthcawl" yn gwneud synnwyr chwaith. Yn amlwg, ni fu fawr o feddwl y tu ôl i'r cynigion hyn a dylid eu newid yng ngham nesaf yr adolygiad. Mynnwch gomisiynwyr sydd â dealltwriaeth sylfaenol o ddaearyddiaeth a chymunedau Cymru.

BCW-9328/ [REDACTED] / Wrecsam

Rwyf wedi byw yn Rhosllannerchrugog a Phenycæ ers 75 mlynedd. Maent yn eu hanfod yn gysylltiedig â'i gilydd ac nid wyf yn meddwl mai doeth o beth fyddai eu rhoi mewn etholaethau ar wahân. Maent yn rhan o'r un pentref.

BCW-9329/ [REDACTED] / Llanelli

Nid wyf yn gweld pam bod rhan o Gaerfyrddin yn cael ei gynnwys yn fy ardal. Mae'n gymuned hollol wahanol i'r un lle'r wy'n byw, mae'r bobl rwyf yn eu hadnabod yno yn byw bywydau gwahanol iawn, ac agwedd wahanol i fywyd beunyddiol a barn wleidyddol. Hefyd, byddent yn ymwneud yn bennaf ac yn cysylltu â Chaerfyrddin, nid Llanelli, ac ni fydd ganddynt wir ddealltwriaeth o'm cysylltiad â Llanelli. Sut y byddai cynghorydd o Lanelli yn gofalu am eu hanghenion gwleidyddol o gwbl? Mae'n ymddangos yn wirion i mi.

BCW-9330/ [REDACTED] / Prestatyn

Yn ôl y ffordd y tynnwyd ffiniau'r etholaethau newydd, mae'n edrych ac yn teimlo fel petai'n canolbwyntio ar ystumio etholaethau Abertawe a Chaerdydd na dim arall, ac fel arfer, mae gogledd y wlad yn ysgwyddo pen trymha'r baich pan ddaw'n fater o rannu etholaethau gyda chysylltiadau hanesyddol a chymunedol. Mae gwahanu etholaethau'r Rhyl a Rhuddlan o Brestatyn, Dyserth ac Allt Melyd yn ymddangos yn arbennig o drwsogl o ystyried eu cysylltiadau cymunedol sydd wedi bodoli ers amser.

BCW-9333/ [REDACTED] / Pen-y-bont

Mae'n ymddangos bod rhai ffiniau daearyddol yn eilbeth i nifer yr etholwyr mewn ardal; byddai rhai gwasanaethau yn well o gael eu cyflwyno ar sail ddaearyddol.

BCW-9334 / [REDACTED] / Larnog

Mae Penarth ym Mro Morgannwg a dylid ei ddychwelyd i Fro Morgannwg. Nid oes awydd i fod yn rhan o lanast Caerdydd.

Pan orfododd LIC awdurdodau lleol i uno er mwyn arbed arian, cynigiodd Bro Morgannwg a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont uno, a chafodd ei wrthod am nad dyna oedd Llafur eisiau.

Yr oedd Pen-y-bont a'r Fro eisiau amddiffyn hunaniaeth eu cymunedau a'u hatal rhag cael eu boddi gan broblemau cymdeithasol Abertawe a Chaerdydd.

Ac eto anwybyddodd y Cynulliad bawb a dal i weithio tuag ato trwy'r drws cefn trwy ffiniau iechyd, ffiniau'r heddlu a wardiau etholiadol. Fe wnaethant eu hunain yn llywodraeth heb refferendwm arall.

Nid yw pobl eisiau gweld eu cymunedau cytbwys yn dod yn arbrofion tai cymdeithasol i ardaloedd sydd heb gydlynid cymunedol ac sydd â gor-bwyslais ar faterion amrywiaeth.

Yr unig ateb yw cau'r Cynulliad trwy refferendwm arall.

BCW-9335 / [REDACTED] / Merthyr Tudful

Hoffwn wneud sylw am y cynnig. Yn fy marn i, mae'n drueni bod yn rhaid i'r newidiadau hyn ddigwydd. Mae'r cymoedd yn unigryw ac y mae'r diwylliant a'r anghenion mor wahanol.

BCW-9336 / [REDACTED] Y Trallwng

Rydw i'n llwyr gefnogi'r newid ffiniau arfaethedig yn y cynnig ar gyfer Maldwyn a Glyndŵr.

Mae Sir Drefaldwyn yn llawn hanes, a byddai wedi bod yn drychineb ei rhannu a'i gwasgaru rhwng ardaloedd eraill. Rydw i'n falch bod y Canolbarth yn cael ei gydnabod fel ardal o bwys.

Diolch.

BCW-9337 / [REDACTED] / Llanelli

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r map yn cynnwys y fformat presennol yn unig, gydag ail fap ochr yn ochr i'w cymharu, ar sail dewis yr ymatebydd. Mae un map gyda sawl haen o gynlluniau gwahanol yn ddryslyd AC yn annealladwy!!!

BCW-9338 / [REDACTED] / Llan-non

Pwytho cymunedau arfordirol anghymarus gyda'i gilydd heb ddim ystyriaeth o'r gefnwlod fewndirol. Gwallgof.

BCW-9339 / [REDACTED] / Aberpennar

Pontypridd ac Aberpennar ddylai enw'r etholaeth fod.

BCW-9340 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Rwy'n byw filltir o ganol tref Caerfyrddin ond Llanelli fydd fy etholaeth newydd arfaethedig. Rwy'n credu bod hyn yn annerbyniol gan fod demograffeg gweddill etholaeth Llanelli yn hollol wahanol i'r ardal lle rwy'n byw, felly rwy'n teimlo na fyddwn i'n cael fy nghynrychioli'n gywir.

BCW-9341 / [REDACTED] / Y Drenewydd

Powys ydy hanner Cymru fel mae pethau, ac mae wir yn diodde efo seilwaith gwael a chostau uwch darparu gwasanaethau mewn ardal hynod wledig, yn ogystal â thanariannu parhaus sy'n anwybyddu'r problemau yma. Byddai ychwanegu talp arall i ben ucha'r sir yn gwaethygu'r problemau yna ac mi allai ostwng ansawdd bywyd ar gyfer y trigolion.

Yn y cyfnod yma, gyda lefel uchel o dlodi yng Nghymru, mae'n ymddangos yn ansensitif a gwastraffus meddwl am newid rhanbarthau fydd yn costio miliynau o bunnoedd i'w weithredu ac yn ychwanegu cymhlethdodau pellach at 'strwythurau' statudol ac eraill sydd eisoes yn gwegian o dan straen effeithiau Covid a Brexit. Yn bersonol, byddai'n well gen i weld buddsoddiad mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, cysylltiadau cludiant a hyrwyddo busnesau sy'n talu cyflog byw deche i bobl. Yn yr hinsawdd economaidd a chymdeithasol sydd ohoni, rydw i'n ddrwgdybus o gynllun sy'n ymddangos fel petai fwy i'w wneud ag ymarferiad gwleidyddol, a llai am y bobl a ddylai gael eu blaenoriaethu.

BCW-9342 / [REDACTED] / Wrecsam

Oherwydd y cysylltiadau gweinyddol a diwylliannol rhwng y pentrefi i'r de-orllewin o Wrecsam, mi ddylai'r ardal o gwmpas Rhiwabon fod yn rhan o etholaeth Wrecsam.

BCW-9343 / [REDACTED] / Cydweli

Sut allwch chi rhoi ffin Sir Gaerfyrddin bron drwy'r dre? Oni ddylai prif dre'r sir fod ynghanol yr etholaeth, nid ar ei ffin?

Beth fydd sefyllfa'r Cynghorau Cymuned a'r Cynghorau Sir yn sgil hyn?

BCW-9344 / [REDACTED] / Y Trallwng

Does gan Sir Drefaldwyn ddim cysylltiad â Llangollen a'r Waun. Rydw i'n deall yr angen i gysoni nifer yr etholwyr ond mi fyddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr ein huno ni â rhan o Frycheiniog a Sir Faesyfed, neu hyd yn oed Gwynedd/Ceredigion. Mae hefyd yn ymddangos yn rhyfedd tynnu rhannau bychain o ardaloedd gweinyddol Wrecsam A Sir Ddinbych i mewn i sedd newydd arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr, pan fo gan gymunedau gysylltiadau naturiol â threfi eraill yn eu siroedd/ardaloedd cyngor, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Er enghraifft, mae'r Waun yn rhan o fwrdeistref Wrecsam, ac mae ei thynnu o etholaeth Wrecsam yn ymddangos yn annaturiol.

BCW-9345 / [REDACTED] / Bangor

Yn gyntaf, mae'n amhriodol gosod ffin etholaeth drwy dref Bangor, gan hollti ardal Penrhosgarnedd yn ei hanner a rhoi Ysbyty Gwynedd (sydd, yn ôl unrhyw ystyriaeth resymol, ym Mangor) mewn etholaeth wahanol i weddill y dref. Mae Ysbyty Gwynedd yn rhan bwysig o'r gymuned yma, mae'n cyflogi llawer o bobl Bangor ac yn gofalu am iechyd pobl leol, a bydd gwahanu'r ysbyty oddi wrth y gymuned fel hyn yn ei gwneud hi'n amhosib i bobl leol gael mynediad priodol at gynrychiolaeth o ran materion sy'n effeithio ar yr ysbyty. Bydd yn effeithio ar gyfathrebu, a fydd gan swyddogion etholedig ddim cymaint o ymrwymiad os na fydd y problemau yn eu hetholaeth eu hunain, hyd yn oed os ydyn nhw lai na milltir i ffwrdd yn ddaearyddol.

Yn ail, rydw i'n pryderu'n ehangach am hollti etholaeth bresennol Arfon a symud ei ffin fel ei bod ym Mangor, tra bydd ffin ddwyreiniol yr Aberconwy bresennol yn aros ger Bae Colwyn. Mae hyn yn gorfodi dwy ardal hollol wahanol gyda'i gilydd mewn ffordd artiffisial, ac yn benodol ardaloedd sydd â lefelau gwahanol iawn o siarad Cymraeg, gyda thrigolion sy'n gogwyddo tuag at gefnwledydd gwahanol. Mae cylch daearyddol lleol rhywun o Fangor yn edrych yn llawer tebycach i gylch un o drigolion Caernarfon neu Ddolgellau na chylch rhywun o Landudno neu Fae Colwyn, sy'n fwy tebygol o edrych tua'r dwyrain nag ydyn nhw o edrych tua gorllewin neu dde Gwynedd.

O ystyried yr uchod, os na ellir cadw etholaeth bresennol Arfon oherwydd yr angen am etholaethau sydd â nifer debyg o etholwyr, rydw i'n credu bod angen i dref Bangor a'r pentrefi cyfagos fod yn rhan gyfan gwbl o Ddwyfor Meirionnydd, a ddylai'r ffin ddim bod dim pellach i'r dwyrain na Llanfairfechan.

BCW-9346 / [REDACTED] / Wrecsam

Rydw i'n anhapus ynglŷn â'r cynnig i leihau nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru, dydw i ddim eto wedi gweld yr un ddadl resymol dros y newid.

Mae llais Cymru yn Senedd San Steffan yn annigonol fel mae hi. Os nad ydyn ni'n cael ein cynrychioli'n iawn - os ydyn ni'n mynd i gael ein llywodraethu hyd yn oed yn fwy llwyr gan Dŏriaid o Saeson ariangar, llwgr a hunanlesog - rydw i'n credu yr hoffwn i weld Cymru'n tynnu'n allan o'r 'undeb'. Dydy o ddim yn Undeb mewn gwirionedd, nac ydy? Meddiannu gelyniaethus ydy hyn.

A, dw i wir DDIM yn cytuno i'r Comisiwn Ffiniau gyhoeddi fy manylion personol, ond mae'n debyg bod rhaid i fi gydsynio â hynny cyn cael dweud fy nweud.

Mae llawer o feysydd lle mae angen gwario arian cyhoeddus, a dyw hwn ddim yn un ohonyn nhw.

BCW-9348 / [REDACTED] / Aberystwyth

Rwy'n bryderus iawn y bydd y newidiadau yma i'r ffiniau yn ffafrio'r blaid Geidwadol yng Nghymru. Sut byddwch chi'n sicrhau na fydd hyn yn digwydd?

Hefyd, mae etholaeth Ceredigion yn adlewyrchu diwylliant a iaith yr ardal. Bydd ei hymestyn ymhellach i'r de yn golygu cynnwys ardaloedd daearyddol a diwylliannol a allai fod yn wahanol iawn. Sut bydd uniondeb diwylliannol yn cael ei ddiogelu?

BCW-9349 / [REDACTED] / Bangor

Roedd yn well gen i bethau fel oedden nhw. Wela i ddim llawer o synnwyr stwffio Bangor i gyrion Aberconwy, pan fo'i chysylltiadau naturiol i'r de ac i'r gorllewin.

Ar y cyfan rydw i yn erbyn lleihau nifer Aelodau Seneddol Cymru. Mae'n gwanhau ein llais yn San Steffan. Fodd bynnag, os oes newid ffiniau'n mynd i ddigwydd beth bynnag, hoffwn i weld Gilwern [REDACTED], oedd yn hanesyddol yn rhan o Sir Frycheiniog, yn cael ei ychwanegu at etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. Ar hyn o bryd, y cynllun yw cynyddu maint Brycheiniog a Sir Faesyfed drwy ychwanegu Ystalyfera a Phontardawe ati, oedd yn hanesyddol yn rhan o Sir Forgannwg. Os oes rhaid cynyddu poblogaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed, gwnewch hynny drwy ychwanegu ardaloedd sy'n rhan o'r Sir Frycheiniog hanesyddol, er enghraifft Gilwern, Brynmawr, Cefncoedycymer a Phenderyn, yn hytrach nag ardaloedd o Sir Forgannwg.

BCW-9351 / [REDACTED] / Sir Fynwy

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: [REDACTED] e i 2021 17:34

At: Comisiwn Ffiniau i Gymru <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Newid ffiniau

Yn amlwg, bydd y newidiadau yma'n arwyddocaol iawn i gymunedau yng Nghymru ac i wleidyddion presennol. Fodd bynnag, rwy'n cefnogi'n fawr y gostyngiad i ddod a holl etholaethau'r Deyrnas Unedig i niter gweddol gyfartal. Dydw i ddim yn credu y bydd yn dad-sefydlogi democratiaeth yng Nghymru mewn unrhyw ffordd. Y mater allweddol yw bod gan Gymru ei Senedd sy'n gyfrifol am feysydd datganoledig o bwys fel lechyd ac Addysg, a bod y rhain yn debygol o ehangu. Mae'n anochel bodhyn yn lleihau llwyth gwaith Aelodau Seneddol San Steffan.



BCW-9352 / [REDACTED] / Aberdâr

Mae'r newid arfaethedig yma'n un ystadegol ei natur heb barch at y tir na'r cysylltiadau sy'n ffurfio Cymoedd y De. Er enghraifft, o ran gwasanaethau does fawr ddim y byddai neb yn Aberdâr yn defnyddio Merthyr ar ei gyfer gan nad yw hyd yn oed yn yr un cyngor lleol. Mae mater bach arall sef bod mynydd rhwng y ddwy dref, yn llythrennol. Fel y tywydd, mae'r farn mewn un cwm yn gallu bod yn wahanol iawn i'r farn yn y cwm nesaf ato. Rwy'n credu y byddai'r newid arfaethedig yma yn y ffiniau yn dadryddfrenio cymunedau mwy anghysbell Penderyn a'r Rhigos yn benodol gan y byddai'n rhaid rhannu unrhyw gynrychiolaeth rhwng dwy dref fawr a rhagor o bobl. Am yr un rhesymau, fydddech chi ddim yn uno etholaeth yng Nghymru ac etholaeth yn Lloegr, neu etholaeth yn Lloegr ac etholaeth yn yr Alban. Mae gan gymoedd eu hunaniaeth eu hunain ac allwch chi ddim o'u rhannu a'u torri i fyny ar fap gan anwybyddu'n llwyr realiti daearyddol y tir a sut mae'r bobl yn rhyngweithio oddi mewn iddo.

Mae'n hen bryd; mae wedi bod yn hynod annheg bod rhai etholaethau yn Lloegr wedi gorfod cynrychioli poblogaethau mwy na llawer o etholaethau presennol Cymru, dylai pob Aelod Seneddol gynrychioli nifer gymharol gyfartal o aelodau'r cyhoedd.

Bydd uno ardaloedd de Clwyd a Wrecsam hefyd yn cynrychioli pobl sir Wrecsam yn well, yn enwedig gan nad yw Clwyd fel sir yn bodoli ers dros ugain mlynedd.

BCW-9354 / [REDACTED] / Aberhonddu

Os rhywbeth, mae angen lleihau maint yr ardaloedd, nid eu hystyried. Mae'r gwasanaethau cyhoeddus ym Mhowys yn methu yn eu cyfanrwydd. Does dim gofal meddygol, does ganddon ni ddim meddyg teulu hygyrch, does ganddon ni ddim adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'r bobl cynllunio yn cymeradwyo beth bynnag sy'n mynd â'u ffansi ac yn gadael y gymuned i fynd i grogi. Mae angen ffrwyno'r awdurdod lleol gan ei fod am wario popeth ar amrywiaeth, y Gymraeg a iechyd meddwl, tra bod gwasanaethau sylfaenol yn cael eu torri o hyd. Mae angen Aelodau Seneddol sy'n rhyngweithio mwy â'u hetholaethau, nid llai. Mae hwn yn gam yn ôl a dyw e ddim yn newyddion da.

BCW-9355 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Mae etholaeth newydd arfaethedig Llanelli yn cynnwys ardaloedd sy'n amlwg ac yn hanesyddol yn rhan o dref Caerfyrddin.

Mae Llangynnwr, er enghraifft, yn cael ei ystyried yn rhan o Gaerfyrddin, ac felly hefyd Pensarn.

Mae hyd yn oed gorsaf drenau'r dref yn mynd i gael ei symud i etholaeth Llanelli. Mae tref Llanelli ugain milltir i lawr y ffordd.

Rhowch ystyriaeth i fy marn os gwelwch yn dda wrth benderfynu ar gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig.

BCW-9356 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r cynnig i dynnu Cefn Glas a Broadlands, dwy ran annatod o dref Pen-y-bont ar Ogwr, allan o etholaeth Pen-y-bont yn afresymegol. Bydd y cynnig yn rhoi pobl yn yr ardaloedd yma o dan anfantais gan nad oes dim math o gysylltiad rhyngddyn nhw a Phort Talbot. Mae'n amlwg bod y ffin afresymegol yma wedi'i gosod er mwyn ticio blychau, heb ystyried anghenion pobl leol o gwbl.

BCW-9357/ [REDACTED] / Prestatyn

O ran creu etholaethau newydd, dwi'n gweld fod hollti Dyffryn Clwyd trwy ei channol yn hollol anghywir ac afresymol. Mae hollti ardaloedd a chymunedau chlos efo poblogaethau di-wahan e.e. Rhoi Rhyl a Phrestatyn mewn etholaethau gwahanol pan y mae bywyd bob dydd i mwyafrif y poblogaeth yn cynnwys croesi rhwng y ddwy etholaeth arfaethedig ac felly yn defnyddio gwasanaethau y ddwy etholaeth (arfaethedig) ac felly mewn tir neb o fath o ran cyfrifoldeb dros y gwasanaethau. Y mae hollti Sir Ddinbych bron ar ei hanner ac felly yn rhoi hanner y sir mewn gofal un AS ar hanner arall mewn cyfrifoldeb AS arall yn gnweud dim synnwyr o gwbl. Am y resymau uchod, rwyf yn gwrthwynebu'r cynlluniau yn nerthol. Dioch

BCW-9358 / [REDACTED] / Trecelyn

Rwy'n hapus gyda'r ffiniau arfaethedig ar gyfer Islwyn. Ynghyd â'r etholaethau cyfagos, mae'r trefniant yma'n gwneud synnwyr gyda chymunedau tebyg yn cael eu cynrychioli yn yr etholaethau.

BCW-9359 / [REDACTED] / Sir Gâr

Rwy'n cytuno â'r cynnig newydd i uno Sir Gaerfyrddin fel etholaeth gyfan a fydd yn cynrychioli'r cymunedau yn fwy effeithiol.

BCW-9360 / [REDACTED] / Llanfairfechan

Pam fod angen i Ynys Môn fod yn etholaeth ar ei phen ei hun? Os oes rhaid i ffiniau newid i leihau nifer yr etholaethau, siawns na allai'r rheol bod Ynys Môn yn cael ei hetholaeth ei hun newid hefyd? Rydw i'n bryderus iawn am ddirywiad y Gymraeg a diwylliant Cymru a chadw economi wledig yr ardal, ac am gyffindwylo gan San Steffan. Rydw i'n credu y dylai Ynys Môn, Bangor, a rhan wledig Aberconwy, sef Sir Gaernarfon gynt, fod yn un etholaeth gydag enw fel Menai. Mae gan y boblogaeth yn nwyrain yr hyn sydd bellach yn Aberconwy lawer mwy yn gyffredin, o ran nodweddion y boblogaeth, gyda strïbed arfordirol Sir y Fflint a Sir Ddinbych, a byddai modd ehangu ffiniau i gynnwys y rhan sy'n weddill o Aberconwy.

BCW-9361 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Does gan Heol Bolahaul, Cwm-ffrwd, sydd yn ardal Cyngor Cymuned Llandyfaelog, ddim cysylltiad na pherthynas ag ardal Llanelli. Yn hanesyddol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd, mae yng nghyffiniau tref Caerfyrddin ac fe ddylai aros felly.

BCW-9362 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Ces i fy ngeni yng Nghaerfyrddin ac rwy wedi bod yn byw yn Llangynnwr am y rhan fwyaf o fy oes, mae Llangynnwr yn rhan o Gaerfyrddin ac mae wedi bod erioed.

Dydw i ddim am fod yn rhan o etholaeth Llanelli, mae'r syniad yn un chwerthinllyd. Enghraifft arall sy'n dangos bod rhai'n dymuno symud grym i Lanelli.

Cadwch Llangynnwr yng Nghaerfyrddin.

BCW-9363 / [REDACTED] / Caernarfon

Mae cysylltiad cymdeithasol a daearyddol arbennig o gryf rhwng y cymunedau yn etholaeth Arfon. Fyddai symud Bethesda, Mynydd Llandygái, a'r rhan fwyaf o Fangor ac ati i etholaeth Aberconwy, er y byddai'n cydbwyso'r niferoedd, yn gwneud fawr o synnwyr yn ymarferol. Mae'n amlwg mai'r rhaniad daearyddol/gymdeithasol yw'r Carneddau.

BCCW-9364 / [REDACTED] / Rhymni

Oni fyddai'n well cael Rhymni ac Islwyn gyda'i gilydd gan fod y ddwy yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili? Rhowch Flaenau Gwent i mewn gyda Thorfaen. Mae'n ddigon drwg bod Swyddfa'r Post wedi ychwanegu Tredegar at y cyfeiriad post. Mae Rhymni yn colli ei hunaniaeth o bob ochr.

BCW-9365 / [REDACTED] / Pont-y-clun

Does dim ffordd bod Pont-y-clun a Meisgyn yn rhan o Orllewin Caerdydd. Mae'r ddwy gymuned wedi'u cysylltu'n annatod gyda Thonysguboriau a Llantrisant. Rydyn ni'n rhan o Ronda Cynon Taf, ac fe ddylai ein ffiniau etholiadol adlewyrchu hynny.

BCW-9366 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Ddylai Llangynnwr ddim bod yn rhan o Lanelli. Rydyn ni fwy neu lai yng nghanol tref Caerfyrddin. Does dim synnwyr rhesymegol yn hyn o gwbl.

BCW-9367 / [REDACTED] / Wreccsam

Mae'n hollol chwerthinllyd eich bod yn cynnig y dylai Bwlch-gwyn ddod o dan Alun a Glannau Dyfrdwy at ddibenion Etholaethol. Mae gynnon ni gysylltiad agos â Wreccsam, o ran Treth y Cyngor, cludiant, siopa, popeth a dweud y gwir, a rŵan rydach chi wedi penderfynu ein cynnwys ni mewn ardal nad oes gynnon ni ddim cysylltiadau â hi o gwbl. Gwallgofrwydd pur, beth sy'n rhoi'r hawl i chi wneud y penderfyniadau gwallgof yma a rhannu cymunedau pan ddylech chi fod yn eu cadw nhw efo'i gilydd. Gwnewch y peth iawn a gadewch ni fel rydan ni er mwyn dyn.

BCW-9368 / [REDACTED] / Glanyfferi

Annwyl Syr neu Fadam,
Rwy'n byw yng Nglanyfferi ac fe hoffwn i gofrestru gwrthwynebiad i'r newid ffin a fyddai'n golygu bod Glanyfferi yn dod yn rhan o ward Llanelli. Fydden ni byth yn mynd i Lanelli, i ddim pwrpas o gwbl, gan fod ein holl gyfleusterau lleol ni yn nhref Caerfyrddin. Rydyn ni'n byw ac yn gweithio yn yr ardal yma ac yn gweld Caerfyrddin fel ein canolbwynt a'n cymuned. Mae ein cymuned wedi'i seilio ar ymdeimlad o gyd-berthyn, a'r canolbwynt yw tref Caerfyrddin. Yng Nglanyfferi rydyn ni'n llawer mwy gwledig ac yn llawer tebycach i dref farchnad Caerfyrddin nag i dref ddiwydiannol fel Llanelli. Rwy'n credu y byddai'r penderfyniad i gynnwys Glanyfferi o fewn ffiniau Llanelli yn niweidiol iawn i'n hymdeimlad o le a chymuned. Gofynnaf yn garedig ichi ystyried cynnwys Glanyfferi o fewn ffiniau Caerfyrddin. Diolch yn fawr.
Yn gywir

BCW-9369 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Un o drigolion Llangynnwr. Rhan o GAERFYRDDIN ydyn ni, does ganddon ni ddim byd o gwbl i'w wneud â Llanelli.

BCW-9370 / [REDACTED] / Cwmbran

Ar hyn o bryd rydw i yn etholaeth Mynwy gan fy mod i'n byw yn Llanyrafon. Rwy'n credu y dylwn fod yn etholaeth Torfaen gan mai Torfaen yw'n cyngor lleol a bod gan Llanyrafon fwy yn gyffredin a Thorfaen na Mynwy. Felly rwy'n cytuno a'r newid.

Hefyd, dydw i ddim yn teimlo bod ein Haelod Seneddol presennol yn cynrychioli einhardal, gan mai ei flaenoriaeth e yw Sir Fynwy wledig. Welais i erioed mohono yng Nghwmbran yn yr ugain mlynedd y bues i'n byw yma, heb son am ei weld yn canfasio i gael ein pleidleisiau adeg etholiad. Mae'n amlwg nad oes ganddo ddiddordeb yn y lle cyn bach yma yn ei etholaeth. Felly, rwy'n cytuno a'r newid.

BCW-9371 / [REDACTED] / Corwen

Mae hyn yn teimlo fel ymarferiad papur arall sy'n mynd i gostio arian i'r trethdalwr. Pwy sy'n dweud bod rhaid i Gymru ostwng o 40 i 32 etholaeth a pham? Mae hyn yn mynd yn ôl i'r saithdegau a'r wythdegau, a bryd hynny fe aethon ni'n ôl i ffiniau'r hen siroedd, felly mi aeth Clwyd yn ôl yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint, er enghraifft. Sôn am wastraff arian. Hefyd, dydw i ddim yn credu y bydd neb yn cael gwrandawriad. Pam gwneud hyn rŵan, yng nghanol pandemig, efo codiadau enfawr yng nghostau byw, costau tanwydd, nwy, bwyd, Treth y Cyngor. Yr unig beth mae'r rhai ohonon ni sy'n byw yng nghefn gwlad yn ei gael am dalu costau afresymol Treth y Cyngor ydy'r gwasanaeth casglu sbwriel.

BCW-9372 / [REDACTED] / Llanrhystud

Dyw hi ddim yn ymddangos bod unrhyw sylwadau eraill - hynny yw, does unman i glicio i'w darllen. All hyn fod yn iawn?

BCW-9373 / [REDACTED] / Caerffili

Rwy'n credu bod hwn yn newid gwych. Mae Caerffili yn ardal sy'n datblygu a byddai'n llesol iddi glosio at Gasnewydd wrth iddi hithau ddatblygu. Fe allen ni wneud cymaint mwy yng Nghaerffili i gynyddu ein cysylltiadau yn ehangach na ni ein hunain. Swnio'n dda i fi.

BCW-9374 / [REDACTED] / Caerdydd

Mae hyn yn ffordd hollol ffaidd, wrth-ddemocrataidd o gadw'r llywodraeth geidwadol mewn grym. Mae hyn yn warth i'n democratiaeth yn y Deyrnas Unedig sydd eisoes yn fregus.

BCW-9375 / [REDACTED] / Wrecsam

Mae fy ardal wedi bod o dan Wrecsam erioed, yn y 24 mlynedd rydw i wedi bod o gwmpas. Pam ddylen ni newid ein hardal a ninnau mor agos at dref Wrecsam?

Mae cyngor Wrecsam yn cynrychioli anghenion ein pentref ni yn gywir a fyswn i ddim yn hoffi gweld yr hyn sy'n digwydd i Langollen yn digwydd i ni. Gan fod eu cyngor lleol nhw yn agos at draeth, mae'n golygu nad ydy'r cyngor yn rhoi llawer o gyllid tuag at erydr eira felly roedd eu ffyrdd nhw'n llawn eira.

BCW-9376 / [REDACTED] / Aberteifi

Mae gen i ddau brif bryder.

1. Bydd y gostyngiad yn nifer Aelodau Seneddol Cymru yn effeithio'n andwyol ar rym ein gwlad ni o fewn y Llywodraeth Ganolog. Mae Cymru yn wlad denau ei phoblogaeth, o'i chymharu â Lloegr, a dylai ei chynrychiolaeth yn Senedd San Steffan fod yn seiliedig ar arwynebedd tir, nid poblogaeth. Dylai nifer yr etholaethau aros heb eu newid.
2. Dyw plethu Gogledd Sir Benfro i mewn i Geredigion yn gwneud fawr o synnwyr daearyddol na chymdeithasol. Mae Gogledd Sir Benfro yn gyfoethocach ac mae mwy o fewnfudwyr yno nag sydd yng Ngheredigion, sy'n golygu bod ei safbwyntiau a'i blaenoriaethau yn wahanol i rai Ceredigion. Dylai Ceredigion barhau i gael ei chynrychiolaeth ei hunan yn San Steffan.

BCW-9377 / [REDACTED] / Caerdydd

Mae lleihau cynrychiolaeth wleidyddol ar adeg pan mae gwledydd Prydain mewn llanast llywodraethol yn ynfydrwydd. Mae San Steffan yn ceisio sathru ar lywodraeth ddatganoledig, gan ddefnyddio pob math o ddichell. Mae angen i Brydain gynllunio ei dyfodol, p'un a yw hynny'n un ffederal, datganoledig neu, yn annhebygol yn fy marn i, fel un deyrnas unedig.

Rwy'n credu hefyd y dylid cryfhau'r gynrychiolaeth yn y cynulliadau datganoledig i sicrhau atebolrwydd priodol ac effeithiol.

A finnu'n byw ym Mhorth Tywyn ers 1985, rwy'n credu mai ni yw'r rhan o'r etholaeth bresennol sy'n cael ei hanghofio erioed. O gofio hynny, byddai'n well gen i fod yn rhan o ardal fwy gwledig Caerfyrddin.

BCW-9379/ [REDACTED] / Aberpennar

Rwy'n credu bod hollti Cwm Cynon yn ei hanner yn y newid ffiniau newydd yn syniad ofnadwy. Nid wyf yn deall pam mai'r bwriad yw i rannu'r cwm a rhoi ardal Cwm Cynon uchaf (Aberdâr) i Ferthyr ac ardal Cwm Cynon isaf i Bontypridd. Dylai Cwm Cynon aros o fewn ei ffiniau ei hun. Mae hanes cyfoethog i Gwm Cynon ac ni ddylid ei newid. Bydd pobl yn colli ymdeimlad o hunaniaeth a balchder yn eu tras. Rwy'n falch o fod wedi fy magu yng Nghwm Cynon a bod yn rhan ohono.

BCW-9380/ [REDACTED] / Caerfyrddin

Mae Pensarn a Thregynnwyr ac ardal yr orsaf reilffordd yn rhan annatod o Gaerfyrddin ac ni ddylent fod mewn etholaeth ar wahân. Cadwch dref Caerfyrddin gyfan mewn un etholaeth gydag un llais yn y senedd i siarad dros y dref gyfan town.

BCW-9381/ [REDACTED] / Pen-y-bont

Gan fod [REDACTED] yn rhan o Ben-y-bont, rwy'n teimlo fod cael ein cymryd allan o etholaeth Pen-y-bont yn wirion oherwydd mai'r newidiadau fyddai'n effeithio fwyaf arnom fyddai yn nhref Pen-y-bont fyddai'n cael ei thrin gan etholaeth arall ac felly ni fyddai modd i mi gael dweud fy nweud ar faterion sy'n cael eu codi.

Rwy'n deall eich awydd i geisio cael nifer cyfartal o bobl ym mhob etholaeth, ond mae rhai enghreifftiau amlwg lle'r ydych wedi gwneud eithriadau. Ymddengys bod Ynys Môn yn enghraifft dda o hynny yng Nghymru.

Rwy'n poeni eich bod wedi edrych ar yr ymarferiad cyfan hwn mewn termau ystadegol cul yn unig. Nid ydych wedi dangos llawer o hyblygrwydd ac yn sicr fawr ddim dychymyg wrth ddod i'ch casgliadau. Hyd yma, nid yw'r etholaethau presennol yn berffaith o bell ffordd, ond y maent yn fras yn adlewyrchu'r cysyniad o 'gymuned' a hunaniaeth glir yr ardaloedd sydd ym mhob etholaeth.

Rwy'n siomedig iawn gyda'r canlyniadau y daethoch iddynt. Mae llawer etholaeth heb unrhyw wir hunaniaeth nac unrhyw adlewyrchiad o gwbl o'u hanes a'u treftadaeth. Mae'r hyn a adeiladwyd gan bobl leol i ffurfio eu cymunedau lleol dros ddegawdau a mwy wedi cael ei anwybyddu yn gyfan gwbl. Mae eu balchder yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt wedi ei lwyr anwybyddu mewn dull oeraidd.

Rwy'n mawr obeithio y byddwch yn ail-ystyried y penderfyniadau a wnaethoch. Yr wyf yn breswyllydd pryderus yn etholaeth bresennol Castell Nedd a gaiff ei huno gyda rhan o Ddinas Abertawe. Mae ysgrifennu'r frawddeg honno yn dangos mor chwerthinllyd yw eich cynigion. Rwy'n dweud hynny gyda pharch o'r mwyaf i'r gwaith a wnaethoch a'r dull anrhydeddus y buoch wrth eich gwaith.

BCW-9383/ [REDACTED] / Wdig

Nid yw'n gwneud synnwyr diwylliannol nac economaidd i osod ardaloedd arfordirol Sir Benfro gyda Cheredigion. Dylai'r rhan hwn o Sir Benfro fod gydag ardal Hwlfordd.

BCW-9384/ [REDACTED] / Caernarfon

'Dim treth heb gynrychiolaeth (iawn)'. Y cyfan wnaiff gostwng nifer yr ASau Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin fydd cynyddu'r gefnogaeth i annibyniaeth.

A yw'n arwyddocaol fod yr ardal hon wedi ei lliwio'n Wyrdd y Blaid?

BCW-9385/ [REDACTED] / Llanhari

Da chi, gwnewch Llanhari yn rhan o BM! Rydym ar y ffin ac wedi ei hynysu oddi wrth y naill sir a'r llall. Byddai gwneud Llanhari yn rhan o BM hefyd o gymorth mawr gyda chludiant ysgol i blant sy'n mynychu Ysgol Gyfun y Bont-faen.

Mae tabl presennol 'Croeso i Fro Morgannwg' wedi ei osod yn syth ar ôl mynwent Llanhari. Gwahenir Llanhari oddi wrth Lanharan gyda ffordd hir ac o Bont-y-clun /Brynsadler. Byddai Brynsadler felly yn ffin wych i BM

Gan fod Castell Nedd Port Talbot yn Awdurdod Unedol, byddai'n fwy synhwyrol cael etholaeth Seneddol dros yr un ardal, yn hytrach na chysylltu Castell Nedd gyda rhan o Abertawe, lle nad oes unrhyw gysylltiad hanesyddol.

Mae Castell Nedd ei hun yn fwrdeistref hynafol iawn ac ni ddylid ei llyncu gan ardal sy'n rhan o ddinas fawr.

BCW-9387/ [REDACTED] / Wreccsam

Wela'i DDIM angen i newid ffiniau'r etholaethau seneddol yng Nghymru. Fel cenedl, mae arnom angen llais cryf yn San Steffan.

Bydd y newidiadau arfaethedig hyn i'r ffiniau yn rhoi rhai o gynrychiolaeth seneddol i ni, a bydd hyn yn andwyol i Gymru.

Hefyd, fedra'i ddim deall y cynnig i gynnwys Minera gydag etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae gan Minera gymaint o gysylltiad â Choedpoeth fel cymuned fel y dylai fod yn rhan o etholaeth Wreccsam.

BCW-9388/ Y Cyngorydd Richard John/ Sir Fynwy

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 04 Hydref 2021 21:53

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Ymateb i'r cynigion cychwynnol – etholaeth Sir Fynwy

Annwyl Syr/Fadam,

Hoffwn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar gynigion cychwynnol Arolwg Seneddol 2023 ar ran Grŵp Ceidwadol Cyngor Sir Fynwy. Mae'r ymateb hwn yn cynrychioli barn 25 o'r 43 o gynghorwyr sir etholedig yn awdurdod lleol Sir Fynwy. Hoffwn wneud sylwadau'n benodol am y cynigion ar gyfer etholaeth seneddol newydd 'Sir Fynwy'.

O ystyried bod gennym haen ychwanegol o lywodraeth â Senedd Cymru, rwy'n credu ei bod yn bwysicach nag erioed ein bod yn cymryd camau i wella dealltwriaeth y cyhoedd o bwy sy'n eu cynrychioli. Mae cael etholaeth newydd sy'n rhannu ffin â'r awdurdod lleol yn gwneud synnwyr perffaith, a bydd hyn yn symleiddio penderfyniadau ac atebolrwydd. Ar hyn o bryd, rydym yn cysylltu â dau Aelod Seneddol, ond nid oes yr un ohonynt yn cynrychioli ein sir yn llawn gan fod etholaeth Sir Fynwy yn cynnwys pedair adran etholiadol yn Nhorfaen (Dwyrain Llanyrafon a Phont-hir, Gorllewin Llanyrafon, De Croesyceiliog a Gogledd Croesyceiliog), ac mae'r rhan fwyaf o etholaeth Dwyrain Casnewydd yn Ninas Casnewydd. Rhaid i'n dau Aelod Seneddol edrych y ddwy ffordd wrth ymgysylltu â dau awdurdod lleol gwahanol. Byddai'r cynigion cychwynnol yn galluogi'r ASau ar gyfer Sir Fynwy, Torfaen a Dwyrain Casnewydd i ymgysylltu ag un awdurdod lleol yr un. Byddai awdurdodau lleol Torfaen a Sir Fynwy yn gallu meithrin perthynas waith agos ag un aelod seneddol hefyd.

O ystyried y bydd y ffiniau seneddol o 2023 yn wahanol i'r rhai ar gyfer Senedd Cymru, byddai cynnal rhywfaint o gynefindra drwy ddilyn ffiniau awdurdodau lleol, lle bo hynny'n bosibl, yn lleihau dryswch y cyhoedd ac yn sicrhau atebolrwydd gwell.

Mae wedi ymddangos yn rhyfedd erioed bod etholaeth bresennol Sir Fynwy yn cynnwys rhai o gymunedau Glan Hafren fel Porthsgiwed, Sudbrook, Caer-went a Chrug, ond nid Cil-y-coed, Rogiet, Magwyr na Gwndy. Mae gan y cymunedau hyn lawer mwy yn gyffredin â'i gilydd nag sydd gan weddill etholaeth Sir Fynwy ag ardaloedd Llanyrafon a Chroesyceiliog, sydd â chysylltiadau trafniadaeth a chymunedol gwell â Thorfaen. Yn wir, yr unig brif gysylltiadau trafniadaeth rhwng Llanyrafon a Chroesyceiliog a gweddill etholaeth Sir Fynwy yw'r A472 i Frynbuga a'r A4042 i'r Fenni. Mae cymunedau Glan Hafren wedi'u cysylltu gan y B4245 a'r A48, a Chil-y-coed yw'r brif dref agosaf â chyfleusterau cymunedol fel archfarchnadoedd, canolfan hamdden, atyniadau twristiaeth fel y castell, a mannau gwyrdd agored. Cil-y-coed yw ysgol uwchradd y dalgyrch ar gyfer pentrefi Glan Hafren. Mae hefyd yn ymddangos yn od bod ystad ddiwydiannol Cil-y-coed yn etholaeth Sir Fynwy, ond bod tref Cil-y-coed yn Nwyrain Casnewydd. Mae'n amlwg nad yw Cil-y-coed yng Nghasnewydd, ond mae ei lleoli yn etholaeth Dwyrain Casnewydd yn creu dryswch.

Mae'r cynigion synhwyrol hyn yn dod â Sir Fynwy yn ôl at ei gilydd mewn un etholaeth.

Nifer ragamcanol yr etholwyr ar gyfer etholaeth newydd Sir Fynwy yw 72,681, sy'n golygu ei bod o faint delfrydol ar gyfer etholaeth ac ymhell o fewn yr amrediad rhagnodedig, sef 69,724 i 77,062.

Mae fy ngrŵp yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer etholaeth seneddol newydd 'Sir Fynwy' yn llwyr.

Diolch i chi ymlaen llaw am roi o'ch amser i ystyried ein safbwyntiau.

Yr eiddoch yn gywir,

Richard

Richard John

Arweinydd, Cyngor Sir Fynwy

Cynghorydd Llanfihangel Troddi

BCW-9389/ [REDACTED] **/ Aberdâr**

Nid wyf yn hapus gyda'r newid ffiniau gan na fydd gen i lais dros redeg f'ardal. Bydd y gynrychiolaeth wedi'i chanoli o gwmpas Pontypridd . Aberdâr yw prif dref Cwm Cynon, a dim ond milltir i ffwrdd yr ydym ni, ond 14 milltir o Bontypridd. Buaswn yn hapusach o weld gwneud i ffwrdd â'n cynrychiolaeth yn San Steffan a datganoli mwy o bwerau i'r Senedd. Mae'r newid hwn yn fwriad i leihau dylanwad Cymru yn senedd San Steffan.

BCW-9390/ [REDACTED] stell-nedd

Mae hyn yn lleihau llais ac etholaethau presennol Cymru yn yr undeb. Y canlyniadyw y bydd yn hyrwyddo'r achos dros annibyniaeth Cymru.

BCW-9391/ [REDACTED] / Bangor

Mae taflu Bangor i mewn gyda'r ardaloedd mwy gwledig tua'r dwyrain yn gam- ystumio digywilydd. Trefnwyd yr holl ymarferiad hwn i sicrhau bod y pleidiau llai, e.e., Plaid, yn cael eu llyncu trwy rannu'r sylfaen etholaethol rhwng etholaethau cyfagos.

BCW-9392/ David T.C. Davies AS/ Sir Fynwy

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd [REDACTED] y ref 2021 15:20

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R FFINIAU: Etholaeth Sir Fynwy

Annwyl Gomisiynwyr,

Rwy'n gobeithio eich bod yn cadw'n iawn.

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas a'r ffiniau arfaethedig ar gyfer etholaeth Sir Fynwy. Fe gewch yn amgaeedig fy sylwadau ar y cynigion ar gyfer etholaeth newydd Sir Fynwy, fel yr amlinellir yn Arolwg Ffiniau Seneddol 2023 gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Rwyf hefyd wedi anfon copi drwy'r post.

Mae pob croeso i chi gysylltu a mi os oes gennych unrhyw

gwestiynau. Yn gywir,

David TC Davies AS
Aelod Sir Fynwy

[REDACTED]

[REDACTED]



DAVID TC DAVIES MP
Aelod Sir Fynwy

Anfonwch ateb at:



Dyddiad: 5 Hydref 2021

Ein cyf: DD6138

Eich cyf:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Ty Hastings,
Llys Fitzalan,
Caerdydd,
CF24 0BL

Annwyl Gomisiynwyr,


NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R FFINIAU: ETHOLAETH SIR FYNWY

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas a'r Ffiniau Arfaethedig ar gyfer etholaeth Sir Fynwy.

Fel yr Aelod Seneddol presennol ar gyfer etholaeth Sir Fynwy, rwyf wedi mwynhau cynrychioli'r etholaeth er 1999, yn gyntaf fel Aelod Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru erbyn hyn), ac yna fel yr Aelod Seneddol er 2005.

Er fy mod o'r farn nad oes unrhyw AS yn hoffi colli rhan o'u hetholaeth bresennol a, thrwy hynny, colli etholwyr y mae ef neu hi wedi'u cynrychioli'n bersonol er cyfnod sylweddol, rwyf o'r farn bod rheswm da i'r Comisiwn wneud y newidiadau hyn ar hyn o bryd. Felly, hoffwn gadarnhau fy mod yn croesawu'r cynigion am dri rheswm:

- 1) Byddai'r etholaeth newydd yn ffurfio'r un ffin ag awdurdod lleol presennol Sir Fynwy.
- 2) Byddai enw'r etholaeth yn adlewyrchu'r ardal y mae'n ei chwmpasu - Sir Fynwy - tra mae etholaeth bresennol Sir Fynwy yn cwmpasu 2 sir, sef 33/42 o wardiau presennol Cyngor Sir Fynwy a 4/24 o wardiau presennol bwrdeistref sirol Torfaen. Yn gwyno, mae enw newydd etholaeth Sir Fynwy yn adlewyrchu daearyddiaeth, atebolrwydd a hunaniaeth y sedd yn well.
- 3) Gyda'r nod o sicrhau bod etholaethau'n fwy cyfartal o ran niter yr etholwyr ac yn adlewyrchu newidiadau i'r boblogaeth ar draws y




DU, rhaid i bob etholaeth arfaethedig (heblaw Ynys Môn) fod â nifer etholwyr nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n fwy na 105% o gwota etholiadol y DU. Eich nifer etholwyr amcangyfrifedig ar gyfer etholaeth newydd Sir Fynwy yw 72,681, sy'n golygu ei bod yn faint delfrydol ar gyfer etholaeth ac ymhell o fewn yr amrediad o 69,724 i 77,062 y mae'r Comisiwn yn ceisio ei gyflawni.


Fel yr Aelod Seneddol ar gyfer Sir Fynwy, rwyf wedi gweld bod enw'r etholaeth bresennol yn aml yn drysu preswylwyr sydd naill ai'n byw yn y rhan o'r etholaeth sydd yn Nhorfaen (pedair ward) neu'r rhai sy'n byw mewn rhannau o Sir Fynwy heblaw Trefynwy. Byddai etholaeth newydd Sir Fynwy yn helpu o ran hunaniaeth i breswylwyr ac atebolrwydd i'r Aelod Seneddol newydd, ac yn helpu'n gyffredinol i gynnig ymdeimlad o gymuned o fewn ei chysylltiadau lleol presennol.

I gloi, rwy'n croesawu'r cynnig ar gyfer etholaeth newydd Sir Fynwy, fel yr amlinellir yn yr Arolwg Ffiniau Seneddol 2023 gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Dymuniadau gorau,



David T C Davies



BCW-9393/ [REDACTED] / Wrecsam

Gwiriondeb llwyr. Mae Rhiwabon yn rhan o Wrecsam, nid Powys, a dylai aros yn etholaeth Wrecsam.

BCW-9394/ [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n anghytuno'n llwyr â gwneud i Bontardawe ffurfio rhan o Bowys. Mae Powys eisoes yn rhy fawr, gyda'r ganolfan weinyddol ymhell i ffwrdd o dde'r sir. Mae problemau eisoes am nad yw'r sir yn cynrychioli trefi'r ffin ddeheuol. Mae gan dref Pontardawe hefyd lawer mwy yn gyffredin â threfi eraill ôl-ddiwydiannol Cwm Nedd na gydag ardal wledig Powys. Mae hyn yn ymddangos fel ymarferiad i drefnu rhifau, yn hytrach nag adolygiad ystyrlon, sydd yn cymryd i ystyriaeth yr hyn mae ar yr ardal wir ei angen.

BCW-9395/ [REDACTED] / Abertawe

Mae'n edrych yn dda ac yn etholaeth ' Gŵyr ' lawer mwy synhwyrol na'r un bresennol, er Duw a ŵyr beth mae Gendros a rhan o Townhill yn wneud yn y ward hon. Dylai'r ffin fynd i fyny'r A4216 a dylai wyro i'r chwith i lawr Heol Caerfyrddin fel nad yw Gendros a Chadle yn etholaeth ' Gŵyr ' ond yng Ngorllewin Abertawe. Gweler y llinell las wedi ei haddasu ar yr atodiad.

Fel arall, y mae'n edrych yn daclus.



BCW-9396/ [REDACTED] / Cil-y-coed

O'r diwedd daw Sir Fynwy yn etholaeth. Bydd yn gwneud llywodraeth leol yn haws, un AS, ac un cyngor i ymdrin ag ef. Hen bryd cael y newid hwn.

BCW-9397/ [REDACTED] / Llanfairpwllgwyngyll

Syniad hollol chwerthinlyd. Un peth yw lleihau nifer ein ASau yn y Senedd, peth arall yw anwybyddu pwerau Llywodraeth Cymru – a ninnau wedi pleidleisio ddwywaith dros y pwerau hynny. Mae'n teimlo fel petai pleidlais Gymreig yn werth llai nag un Seisnig, ac yn edrych fel ystumio ffiniau gan y blaid Geidwadol. Pam fod ewyllys y bobl yn cyfrif yn unig pan mae yn Lloegr?

BCW-9398/ [REDACTED] / Y Bontfaen

Rwy'n cytuno fod y system bresennol yn annheg. Rwy'n credu bod y cynnig yn decach.

BCW-9399/ [REDACTED] / Abergele

Cadwch ffiniau Conwy fel y maent. Etholaeth wledig ydym ni ac yn dymuno aros felly.

BCW-9400/ [REDACTED] / Y Drenewydd

Os yw'r newid ffiniau yn angenrheidiol, yna mae'r newid arfaethedig o Sir Drefaldwyn i Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn ymddangos yn foddhaol ac yr wyf yn ei gefnogi.

BCW-9401/ [REDACTED] / Croesoswallt

Rwy'n meddwl fod Powys yn rhy fawr a bod y gogledd yn cael ei wthio i'r ymylon ar hyn o bryd ac y dylid ei ddychwelyd i Dde Clwyd.

BCW-9402/■ Llandysul

Rwy'n anghytuno'n llwyr gyda'r newidiadau arfaethedig i Geredigion a Sir Benfro. Y cyfan mae'r etholaeth newydd yn wneud yw asio dwy ardal wahanol iawn at ei gilyddac y mae'n ffordd hynod wrth-ddemocrataidd o sicrhau nad yw llais pobl yn yr ardal yn cael ei glywed. Dylid diffinio etholaethau YN OL ARDAL, NID POBLOGAETH. Mae gosod Ceredigion a Sir Benfro gyda'i gilydd, gyda'r gwahaniaethau gwleidyddol(Plaid v Ceidwadwyr), diwylliannol (Cymraeg ei hiaith yn bennaf vs Saesneg ei hiaithyn bennaf) ac economaidd (mae cyllid Sir Benfro yn wahanol iawn i gyllid Ceredigiona llawer llai o dlodi) yn hynod beryglus. Mae'r newid arfaethedig yn rhoi'r hell bwer democrataidd i'r de ac i'r ardaloedd lie mae llawer o bobl. Mae hyn yn gwneud yn siwr nad yw cymunedau gwledig yn cael eu clywed ac y maent yn amodol ar symudiadau'r boblogaeth fwy yn y de. Os yw unrhyw etholaethau i gael eu huno, dylent fod yn y de. Dyma beth mae system cyntaf-i'r-felin yn olygu. Mae'n golygu fody rhai sy'n byw mewn ardaloedd llai eu poblogaeth yn dal i gael eu clywed.

I bwysleisio, rwyf yn GRYF YN ERBYN y newidiadau arfaethedig i Geredigion ar seiliau democrataidd, cynrychioliadol a diwylliannol. Nid oes digon o bwyslais eisoesar gefn gwlad yng Nghymru, gyda'r hol swyddi a chyfleoedd gorau yn cael eu cynnigyn y de. Y cyfan mae ffin yr etholaeth newydd hon yn wneud yw gwahanu'r de a'r gorllewin yn fwy, ac y mae unrhyw un sy'n ei gynnig yn sylfaenol wrth-ddemocrataidd. Fy argymhelliad i yw dileu'r newidiadau arfaethedig hyn, a threulio'r amser yn hytrach yn newid ffiniau etholaethau'r de sy'n rhannu llawer mwy o nodweddion diwylliannol ac economaidd. Ni ddylai diwygio democrataidd ddod ar draul cefn gwlad oherwydd bod cefn gwlad eisoes yn dioddef. Nid oes gennym swyddi i'n pobl ifanc, dim cyfleoedd addysgol, ac yr ydym yn dioddef prisiau tai syddwedi chwyddo yn afresymol. Helwch y gorllewin a gwneud yn siwr fod ganddi lais o hyd cyn troi yn Gernyw arall. Cawsoch rybudd.

BCW-9403/ [REDACTED] / Aberdaugleddau

Rwy'n cefnogi ffin newydd yr etholaeth am ei fod yn dilyn yn fras linell hynafol y Landsker yn Sir Benfro

BCW-9404/ [REDACTED] / Bangor

Ni ddylai Bangor gael ei rhannu rhwng dwy etholaeth. Mae'r trefniant arfaethedig yn golygu na fyddai gan Fangor a'i chefnwlad drosolwg strategol effeithiol a byddai hyn yn rhwystro llywodraethiant iawn.

BCW-9405/ [REDACTED] / Undy

Mae gan bentrefi glannau Hafren Magwyr ac Undy fwy yn gyffredin â Dwyrain Casnewydd na Sir Fynwy wledig.

BCW-9406/ [REDACTED] / Llanrhystud

Rwy'n llwyr gefnogi'r newidiadau oherwydd bod y rhesymau a roddir yn hollol synhwyrol ar sail y niferoedd a'r rhesymeg.

BCW-9407/ [REDACTED] / Llanilar

Mae gan Gymru lai fyth o reolaeth dros ei thynged ei hun yn San Steffan gyda'r symudiad hwn. Mae'n dweud llawer am y Deyrnas Unedig

BCW-9408/ [REDACTED] / Magwyr

Rwy'n llawn gefnogi'r newid arfaethedig i'r ffiniau. Mae fy holl wasanaethau, trethi ac ati yn rhan o Sir Fynwy; fodd bynnag, fy AS lleol ar gyfer etholiadau yw'r un dros Ddwyrain Casnewydd. Mae hyn yn wastad wedi teimlo'n chwithig. Y cyfan ddyweda'i yw bod hyn yn benderfyniad mor syml nad oes angen dadlau drosto. Diolch.

BCW-9409/ [REDACTED] /Yr Wyddgrug

Sut ar wyneb y ddaear y gall hyn weithio pan fo ffiniau etholaethau yn croesi ffiniau cynghorau sir? Ni fydd hyn yn gweithio o gwbl i gynghorau na chynghorwyr.

BCW-9410/ [REDACTED] / Caerdydd

Rwyf eisiau mynegi fy anghymeradwyaeth lwyr o'r cynnig hwn i leihau cynrychiolaeth Gymreig yn San Steffan. Rwyf yn wir yn teimlo mai ymarferiad dibwynt yw'r ymgynghoriad hwn gan fod Llywodraeth y DU eisoes wedi penderfynu lleihau cynrychiolaeth Gymreig, sy'n golygu y bydd cymunedau â dim yn gyffredin yn cael eu taflu at ei gilydd, ac y bydd llais bychan Cymru yn San Steffan yn lleihau fwy fyth. Mae'r cynnig hwn wedi cryfhau fy nghefnogaeth i annibyniaeth i Gymru.

BCW-9411/ [REDACTED] / Aberteifi

Mae'r cynllun arfaethedig yn well o lawer. Yr wyf wedi byw a gweithio yng Ngheredigion trwy f'oes ac yn awr fymryn dros y ffin yn Sir Benfro. Rwy'n ystyried bod yr hyn sy'n digwydd yng Ngheredigion yn bwysicach i mi na'r hyn sy'n digwydd yng ngogledd Penfro.

BCW-9412/ [REDACTED] / Abaty Nedd

Mae'r etholaeth hon o Ddwyrain Abertawe a Chastell nedd yn israddio dylanwad tref boblog iawn. Mae Castell Nedd yn haeddu ei hetholaeth ei hun, ac nid maestref o Abertawe ydyw. Mae'n amlwg i mi ac i nifer fawr o bleidleiswyr yn yr etholaeth mai'r nod yw cynyddu cyfran y Ceidwadwyr o'r bleidlais er mwyn herio Llafur a Phlaid Cymru yn yr etholaethau hun. Mae'n ymdrech i gipio grym, a rhaid ei atal.

BCW-9413/ [REDACTED] / Abaty Nedd

Dyma fy ail sylw, ond hoffwn nodi hefyd fod etholaeth Dwyrain Abertawe a Chastell Nedd yn croesi 2 gyngor. Oni fyddai'n gynnig gwell i ardal Cyngor Castell Nedd Port Talbot gael ei gwneud yn etholaeth trwy gyfuno etholaethau presennol C astell Nedd ac Aberafan yn hytrach na chyfuno Castell Nedd gyda Dwyrain Abertawe?

Fy ateb i fyddai gwneud y wardiau yn y ddogfen a atodais yn un etholaeth, oherwydd o leiaf felly byddai materion yr etholaeth yn dod dan ardal yr un cyngor.



BCW-9414/ [REDACTED] / Llandudno

Nid wyf yn credu bod y cynigion am ardal Aberconwy (a gogledd Cymru yn ehangach) yn adlewyrchu cysylltiadau lleol na realaeth ddaearyddol, a dylid eu hadolygu. Ymddengys bod yr holl seddi wedi eu creu ar sail gorllewin i'r dwyrain, gyda sedd estynedig Dwyfor Meirionydd fel sail. Camgymeriad yw hyn, gan ei fod yn anwybyddu llawer o wirioneddau'r ardal, ac y gellir creu seddi llawer mwy naturiol a hyfyw petai rhywun yn ail-feddwl yn fwy sylfaenol am seddi'r gogledd. Atodaf ddelwedd o'm cynigion amgen. Sylwer, mae'r holl seddi a ddarlunnir yn dod o fewn y cwrmpas etholiadol a fyddir gan yr adolygiad, ac felly y maent yn gweithio at y dibenion arfaethedig.

Yn gyntaf, nid oes gan ardaloedd Llandudno a Chonwy fawr yn gyffredin â Bangor yn gymdeithasol na cyn economaidd a dylent fod mewn sedd gyda Bae Colwyn, sy'n adlewyrchiad gwell o lawer o'r sefyllfa ar lawr gwlad. Mae angen cynnwys wardiau Llandrillo yn Rhos a Mochdre yn Aberconwy yn angenrheidiol er mwyn cael digon o niferoedd yn yr etholaeth, ond y mae'n torri ardal drefol Bae Colwyn, ac o edrych ar y cysylltu seddi ac ardaloedd trefol yn ehangach yng ngogledd Cymru, mae hyn yn hollol ddiangen.

Tra bod Llandudno a Chonwy wedi eu cynnwys yn hen sedd Conwy gyda Bangor, yr oedd hyn yn fwy o adlewyrchiad o'r ffaith fod y ddwy dref wedi bod yn rhan o Sir Gaernarfon ac yna Gwynedd, yn hytrach nag unrhyw gysylltiad rhwng y ddwy ardal. Ers ad-drefnu'r awdurdodau ym 1995, mae'r ffiniau lleol wedi adlewyrchu'n well o lawer y ffaith fod Llandudno, Conwy a Bae Colwyn yn eu hanfod yn un ardal drefol gysylltiedig. Dylai'r seddi seneddol adlewyrchu'r gwirioneddau hyn. Mae'r trigolion lleol yn siopa, gweithio a chymdeithasu'n ddyddiol rhwng y tair tref. Mae cysylltiadau â Bangor yn llawer gwannach i'r trigolion lleol, ar waetha'r A55.


Yn yr un modd, mae Bangor a Chaernarfon yn bâr naturiol i etholaeth ac yr oedd sedd bresennol Arfon yn uned naturiol a chadarn. Dylid ehangu'r sedd hon i gynnwys Penrhyn Llŷn, yn hytrach na chynnwys Bangor yn Aberconwy, yn enwedig gan fod y ffiniau o gwmpas Bangor, fel sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd, yn hynod dynn ac yn torri ymaith gefnwlod y ddinas. Mae fy nghynllun amgen a gynigir gennyf yn y ddelwedd a atodir yn dangos yr hyn sydd yn fy marn i yn sedd fwy naturiol, sy'n cyfuno Bangor a Chaernarfon gyda Phenrhyn Llŷn a'r rhannau hynny o Fwrdeistref Sirol Conwy sy'n edrych tuag at Fangor fel eu prif dref, megis Llanfairfechan. Buaswn yn galw'r sedd hon yn Gaernarfon fel tref ganolog yr etholaeth.

I droi at ddewisiadau eraill i Aberconwy, mae fy nghynigion eraill yn y ddelwedd yn uno holl brif ardaloedd trefol Bwrdeistref Sirol Conwy ar hyd yr arfordir, gyda'u cefnwlod gyfagos. Mae'r ardaloedd hyn yn debyg i'w gilydd yn gymdeithasol, yn ieithyddol ac y maent yn ffurfio uned ffisegol ac economaidd naturiol, sy'n ymestyn o dref Conwy drosodd at Fae Cinmel. Cynigiaf alw'r sedd hwn yn Llandudno a Chonwy gan mai dyma ddwy dref fwyaf a mwyaf adnabyddus yr ardal. Tra bod

Conwy wedi ei ddefnyddio yn y gorffennol ar gyfer seddi, yr oedd hen sedd Conwy o 1951-2010 yn ymestyn dros ardal wahanol iawn a defnyddir yr un enw ar gyfer sir a ward; nid yw'r naill na'r llall yn yr un ardal â'r sedd arfaethedig. Byddai hefyd yn rhannol yn nodi toriad gydag Aberconwy ac felly yn rhoi hunaniaeth newydd i'r sedd fel un newydd dros ardal newydd, ond un y gallai'r rhan fwyaf o drigolion a sylwebyddion allanol ei hadnabod.

Mewn mannau eraill yn y gogledd, yr wyf wedi cynnig sedd fydd yn cynnwys Rhyl, Prestatyn ac arfordir Sir y Fflint - eto, uned naturiol i sedd seneddol, un dros Wrecsam a Maelor, a dwy arall dros ardaloedd mwy gwledig. Mae un o'r rhain yn fersiwn estynedig o hen sedd De-Orllewin Clwyd, oedd yn bodoli cyn 1997, ond sydd yn awr yn cynnwys rhannau o Ddyffryn Conwy. Y sedd olaf yw un sy'n cynnwys Sir Drefaldwyn a Meirionnydd. Mae'r sedd hon yn fawr o ran maint, ond yn gweithio'n dda ar lawr gwlad ac y mae llawer ardal o orllewin Maldwyn, megis Machynlleth, yn debyg i lawer rhan o dde Meirionnydd ac y mae cysylltiadau agos rhwng y ddwy ardal.

Rwy'n credu bod fy nghynigion amgen am Aberconwy a'r gogledd yn fwy cyffredinol, yn adlewyrchu cysylltiadau lleol a gwirioneddau topograffyddol a chymdeithasegol yn well o lawer na'r cynigion gwreiddiol. Maent hefyd yn gweithio o safbwynt etholiadol, o gofio'r gofyniad sydd ar y comisiwn ac ni fyddant yn cael unrhyw sgil-effaith ar seddi yn rhanbarthau eraill Cymru. Rwy'n gobeithio y byddwch yn edrych ar fy nghynigion gyda diddordeb; buaswn yn falch o ehangu ar unrhyw rai o'm cynigion neu ystyriaethau os bydd angen.



Nid yw Pont-y-clun yn yr un sir â Chaerdydd felly ni ddylai fod yn yr un dosbarth etholiadol â Gorllewin Caerdydd. Ymgais ddigywilydd yw hon i gyfyngu ar nifer y seddi Llafur yng Nghymru ac ymgais gan Lywodraeth Prydain eto fyth i gynyddu safle flaen Lloegr yn yr Undeb. Rwy'n ffeiddio'r ffaith fod Llywodraeth Prydain yn ceisio cyfyngu ar nifer yr etholaethau yng Nghymru o 20%, a thrwy hynny gyfyngu ar bŵer pleidleisio cynrychiolwyr yng Nghymru. Hoelen arall yn arch fy ffydd yn senedd y DU.

BCW-9416 / [REDACTED] / Wrecsam

Am ymarferiad dibwynt. Mae Rhiwabon yn agos at Wrecsam, felly beth fyddai'r elw iddi o fod mewn sir arall? Beth fyddai'r manteision? Ni welaf rai o gwbl, ar wahân i wastraffu arian prin. Byddai'n well gen i weld ei wario ar adennill hen diroedd oedd yn arfer bod yng Nghymru ac sydd yn awr yn Lloegr! Beth am wario'r arian ar wella gwasanaethau, cynyddu niferoedd staff yn y sector yn lle gwneud newidiadau amherthnasol a dryslyd i siroedd?.

Byddai'n well gofyn i bobl Cymru bleidleisio ar hyn yn hytrach nag ymgynghoriad sy'n ddim ond ymarferiad ticio bocsys pan fo'r penderfyniadau, fwy na thebyg, eisoes wedi eu gwneud.

Fel y gwelwch o'r sylwadau ar Facebook, nid yw pobl eisiau newid y siroedd. Gwrandewch ar bobl Cymru sy'n byw yn y siroedd hyn.

BCW-9417/ [REDACTED] / Caerffili

Byddai Gerry Mander yn falch - nefi wen!

BCW-9418/ [REDACTED] / Caerdydd

Rwy'n meddwl ei bod hi'n wych y bydd yr etholaethau'n cael eu gwneud yn fwy.

Ers yn rhy hir o lawer, mae gormod o etholaethau wedi bod yng Nghymru.

Rwy'n credu bod y cynigion yma'n dda iawn, yn enwedig gan eu bod nhw'n cadw sir ac etholaeth hanesyddol Sir Drefaldwyn yn gyfan, ac yn ychwanegu cymunedau cyfagos lleol sydd ag anghenion a thirweddau tebyg.

Mae ail-drefnu map Seneddol Cymru fel ei fod yn cynrychioli demograffeg fodern y boblogaeth yn swydd hollbwysig; ac mae'r cynnig yma'n cyflawni hyn.

Rwy'n cefnogi'r cynnig.

BCW-9420 / [REDACTED] / Casnewydd

Mae gan y cymunedau ar hyd y B4245, ac i raddau llai y A48 i'r dwyrain o Gasnewydd, gysylltiad hir gyda'i gilydd, a llawer o gyd-ddibyniaeth. Mae problemau sy'n gyffredin i un yn aml yn gyffredin i'r lleill. Byddai rhannu'r cymunedau yma drwy wahanol etholaethau seneddol yn ei gwneud hi'n anoddach cydlynu datrysiadau effeithiol ac effeithlon i'r problemau cyffredin yma.

BCW-9421 / [REDACTED] / Aberystwyth

Er fy mod i'n cytuno'n llwyr gyda symleiddio etholaethau, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn ofnadwy am dargedu adnoddau at ardaloedd maen nhw'n eu ffafrio. Yn anffodus, roedd Aberystwyth yn anlwcus, gyda'r trethiant cyngor uchaf a diffyg gwasanaethau, cyfleusterau cymunedol, dim cyfathrebu a dim ymgynghoriadau â phreswyliaid na busnesau, dim cynlluniau i wella canol y dre, dim parcio, a ffyrdd hollol anymarferol yn cau. Bydd ymestyn yr ardal i'r de dim ond yn ehangu'r bwlch ymhellach, gydag adnoddau sydd eisoes yn brin yn cael eu hanfon i sicrhau bod Tyddewi a'r arfordir yn dod â mwy o refeniw i mewn. Rydyn ni'n deall cyfyngiadau Covid, ond mae Aber wedi cael ei hanwybyddu. Mae ein tref yn marw'n araf, mae busnesau wedi symud allan gan fod nifer yr ymwelwyr sy'n dod trwy'r dref wedi'i dinistrio gan fod ffyrdd wedi cau oherwydd Covid. Dydyn nhw ddim hyd yn oed yn caniatáu i'w cynghorwyr eu hunain siarad allan. Mae ganddon ni bleidlais o ddiffyg hyder yng nghynrychiolwyr y cyngor yma, felly os ydych chi'n newid yr ardal, newidiwch yr aelodau anetholedig llawn amser i roi cyfle i ni.

BCW-9422 / [REDACTED] / Abertawe

Mae etholaeth Aberhonddu eisoes yn rhy fawr yn ddaearyddol. Mae'r cynnig yma i'w hehangu hi'n fwy fyth tua'r de yn chwerthinllyd. Byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr ei rhannu yn y canol, a gwneud dwy etholaeth lai, ac felly etholaethau haws eu rheoli. Mae'n ymddangos fel pe bai'r llywodraeth bresennol ond yn poeni am addasu newidiadau ffiniau er budd eu hunain, heb feddwl dim am y bobl, a ddylai fod yn brif flaenoriaeth ganddynt.

BCW-9423 / [REDACTED] / Cas-gwent

Dydy'r newidiadau ffiniau yma ddim yn deg. Mae Cymru eisoes wedi'i hymyleiddio gan y llywodraeth ganolog, a bydd hyn yn gwaethygu'r ymyleiddio.

BCW-9424 / [REDACTED] / Casnewydd

Mae'n codi cywilydd bod y rhan fwyaf o ddinas Casnewydd i'r gorllewin o'r Wysg bellach yn rhan o Ddwyrain Casnewydd. Nid dim ond adlewyrchu poblogaeth, nac amcanion gwleidyddol un plaid, yw ffiniau etholaethau.

Mae ffiniau daearyddol hefyd yn bwysig iawn, rhywbeth yr ymddengys bod y Comisiwn yma'n ei anwybyddu, yn gyfan gwbl fwy neu lai. Pe baech chi'n adnabod Casnewydd yn dda, yna byddech yn gwybod bod Dwyrain Casnewydd a Gorllewin Casnewydd, fel y maen nhw'n bodoli ar hyn o bryd, yn llefydd gwahanol gyda phroblemau ac agweddau rhywfaint yn wahanol, wedi'u rhannu fel y maen nhw gan un o afonydd mwyaf Cymru. Mae'r cymunedau yma'n haeddu parch cynrychiolaeth sy'n cadw'r ffin draddodiadol.

BCW-9425 / [REDACTED] / Y Felinheli

Dw i'n meddwl ei bod hi'n hanfodol cadw Arfon gyfan gyda'i gilydd... Mae darpar etholaethau Aberconwy a Dwyfor Meirionnydd yn gadael Arfon wedi'i thorri yn ei hanner, ond o safbwynt cymunedol, ac un diwylliannol, mae Bangor ac Ogwen yn perthyn i Arfon, a Gwynedd, yn hytrach nag Aberconwy. Mae'r cynnig presennol yn rhannu ardal drefol fawr ym Mangor yn ei hanner (Penrhosgarnedd), ac yn torri pentref Rhiwlas oddi ar ei threfi a'i phentrefi cysylltiedig agosaf - Bangor, a Bethesda. Mae gan Rhiwlas ei hun gysylltiadau cryf â Bangor a Bethesda; mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn Rhiwlas yn gweithio ym Mangor/Arfon, a dalgylchoedd uwchradd yr ysgol gynradd yw Ysgol Dyffryn Ogwen, ym Methesda, ac Ysgol Tryfan ac Ysgol Friars ym Mangor.

Yn ddiwylliannol, mae yna raniad eithaf mawr rhwng ardal Bangor-Ogwen a Chonwy - mae angen ei thynnu yn ôl i mewn, a'i huno â gweddill Arfon.

Rydw i'n gwybod ei bod yn anodd gyda'r cwmpas cyfyng rydych chi wedi'i gael ar gyfer meintiau poblogaethau etholaethau, ond byddwn i'n awgrymu, yn ddelfrydol, y dylai ardal gyfan Bangor-Ogwen gwmpo i Ddwyrain Meirionnydd (a'i hailenwi'n Gwynedd, yn ôl yr olwg), gan ddefnyddio ffin sirol Gwynedd/Conwy fel y ffin. Fel arall, dylid symud ardaloedd Rhiwlas a Phenrhosgarnedd draw i aros gyda Bangor-Ogwen, a llunio ffin eithaf rhyfedd rhwng Bangor a'r Felinheli, gyda'r Felinheli, Bethel, Deiniolen, Llanberis ac ati yn Nwyfor Meirionnydd, a bod Bangor gyfan, Penrhosgarnedd, Rhiwlas, Caerhun, Glasinfryn, Tregarth, Mynydd Llandegai a Bethesda gyda'i gilydd ym mha etholaeth bynnag byddant yn glanio. Serch hynny, Dwyfor Meirion fyddai orau.

BCW-9426 / [REDACTED] / Llandrillo-yn-Rhos

Rydw i'n byw yn Llandrillo-yn-Rhos ac yn gwrthwynebu'r newidiadau a gynigir. Dydy Llandrillo-yn-Rhos ddim yn rhan o Fae Colwyn, a gallai'r newidiadau gyflwyno llawer o effeithiau negyddol i breswylwyr yr ardal. Newidiadau i gostau yswiriant oherwydd ystadegau troseddau ym Mae Colwyn. Newidiadau i brisiau tai, unwaith eto oherwydd hanes Bae Colwyn o droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a thai adsefydlu cyffuriau a chyn-garcharorion.

BCW-9427 / [REDACTED] / Garndolbenmaen

Nid yw'r newidiadau yn y ffiniau yn ystyried y gwahaniaethau diwylliannol yn yr ardaloedd, ac felly nid yw'n gynrychiolaeth dda o'r lleiafrifoedd diwylliannol ac ethnig yn yr ardal. Byddai ymagwedd yn seiliedig ar boblogaeth yn unig yn cuddio cyfraniad pwysig y grwpiau lleiafrifol sy'n frodorol yn yr ardaloedd yma.

BCW-9428 / [REDACTED] / Ystalyfera

Mae hwn yn syniad gwael iawn. Does gan y cymunedau i'r de-orllewin o ddarpar etholaeth Aberhonddu a Maesyfed fawr ddim yn gyffredin gyda'r trefi a'r pentrefi eraill yn yr etholaeth. O ystyried bod cymunedau'n cael eu stwffio at ei gilydd yn y cynnig yma, mae'n anodd gweld hyn fel dim byd mwy nag ymarferiad jerimandro gan y blaid mewn grym. Ni ddylai ddigwydd o gwbl, a dylai unrhyw un sy'n galluogi hyn i ddigwydd fod â chywilydd llwyr o'u rhan yn niweidio ein democratiaeth fregus.

BCW-9429/ [REDACTED] Gŵyr

Oddi wrth: [REDACTED]
 Anfonwyd: 11 Hydref 2021 23:15
 At: BCW <bcw@boundaries.wales>
 Cc: [REDACTED]
 Pwnc: Comisiau Ffiniau Seneddol i Gymru

Oddi wrth: [REDACTED] Cadeirydd y Prif Bwyllgor, Cyfeillion Gŵyr, [REDACTED]
 [REDACTED] 10 Hydref 2021
 At: Yr Ysgrifennydd, Comisiwn Ffiniau i Gymru, Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan, Caerdydd CF24 0BL bcw@boundaries.wales

Annwyl Ysgrifennydd y Comisiwn,

Sylwadau Cyfeillion Gŵyr ar yr enw arfaethedig 'Gorllewin Abertawe a Gŵyr'.
 Enwau arfaethedig awgrymedig: 'Penrhyn Gŵyr a Gorllewin Abertawe' neu 'Gŵyr a Gorllewin Abertawe'

Mae Cyfeillion Gŵyr yn Sefydliad Corfforedig Elusen sydd wedi tyfu o'i wreiddiau fel elusen a sefydlwyd ym 1948; roedd hyn cyn i'r rhan fwyaf o Benrhyn Gŵyr gael ei dynodi fel yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gyntaf yn y DU ym 1956.

Mae Prif Bwyllgor Cyfeillion Gŵyr yn nodi gwahoddiad y Comisiwn yn ei Adroddiad 2021 i roi sylwadau ar ei gynigion i ad-drefnu'r etholaethau seneddol yng Nghymru.

Mae Cyfeillion Gŵyr yn deall ac yn cefnogi nod y Comisiwn i geisio cydbwysu nifer yr unigolion mewn unrhyw etholaeth, ac yn derbyn bod newidiadau i'r ffiniau gwleidyddol yn agos at y rhai a awgrymwyd yn lleol yn rhesymol.

Mae prif hanes Abertawe yn ymwneud yn bennaf â'r rhan bwysig y chwaraeodd yn y chwyldro diwydiannol cyntaf. Yn wahanol i lawer o ddinasoedd mewn rhannau eraill o'r DU, mae ei blynnyddoedd cynnar yn cynnwys llai o briodoleddau hanesyddol, ac oes un gair yn sefyll allan mewn hanes sy'n dyddio'n ôl dros 800 o flynyddoedd, y gair hwnnw yw GOWER. Dyma'r enw a roddwyd i Arglwyddiaeth y Gororau hynafol a roddwyd gan y Brenin John i William III de Braos (Breos) yn y flwyddyn 1203, ac a oedd yn cwmpasu ardal sy'n debyg iawn i'r un sy'n cael ei chwmpasu gan Ddinas a Sir Abertawe erbyn hyn. 'Gower' oedd fersiwn Saesneg yr enw Cymraeg Gŵyr, sef cymuned yng nghantref Eginog, sydd â hanes sy'n ymestyn cannoedd o flynyddoedd gan Arglwyddiaeth y Gororau.

Erbyn hyn, mae'n bosibl nad yw cysylltiad cyntaf llawer o bobl â'r gair hwnnw'n mynd ymhellach na gwyliau i 'Gŵyr' – sydd fel arfer yn golygu teithiau i lan y môr ym Mhenrhyn Gŵyr (sydd ond yn ffurfio rhan fach o ardal hanesyddol Gŵyr). Byddai'n destun gofid diwylliannol i Abertawe a'r DU pe byddai'r Comisiwn Seneddol yn tresmasu ymhellach ar ei arwyddocâd.

I gloi felly, mae Cyfeillion Gŵyr yn gwrthwynebu enw arfaethedig y Comisiwn yn gryf. Enw dewisol y gymdeithas yw'r un a awgrymwyd yn wreiddiol bum mlynedd yn ôl, sef 'Gower Peninsula and Swansea West/Penrhyn Gŵyr a Gorllewin Abertawe'. (Yn yr un modd â'r ffaith bod y term 'Gorllewin Abertawe' ond yn cwmpasu rhan fach o Abertawe, byddai hyn yn pwysleisio'r ffaith bod y term 'Penrhyn Gŵyr' yn cwmpasu rhan fach yn unig o Gŵyr). Ei hail ddewis fyddai 'Gower and Swansea West/Gŵyr a Gorllewin Abertawe'.

Yr eiddoch yn gywir,

 (Cadeirydd, Prif Bwyllgor, Cyfeillion Gŵyr)

BCW-9430 / [REDACTED] / Powys

6 Hydref 2021

Annwyl Syr,

NEWID FFINIAU ETHOLAETHAU

Rwy'n cefnogi'r cynnig i greu etholaeth fwy sef Maldwyn a Glyndŵr.

Yr eiddoch yn gywir,

[REDACTED]

BCW-9431 / [REDACTED] / Casnewydd

Yn gyffredinol, rydw i'n gefnogol o'r cynigion o ystyried y cyfyngiadau.

Serch hynny, byddai'r ddarpar etholaeth 'Sir Fynwy' yn well pe bai'n cadw'r enw presennol 'Mynwy'. Fel un o drigolion Casnewydd yn Sir Fynwy, mae eisoes yn ddryslyd bod ag ardal llywodraeth leol nad yw'n cynnwys y sir gyfan, heb waethygu'r dryswch gydag etholaeth Seneddol nad yw'n gwneud hynny chwaith.

BCW-9432 / [REDACTED] / Llandudno

Rydw i'n gwrthwynebu unrhyw leihad yn nifer y seddi yng Nghymru. Bydd hyn yn lleihau cynrychiolaeth Cymru yn San Steffan, a bydd yn arwain at Loegr yn dominyddu'r Deyrnas Unedig yn fwy fyth.

BCW-9433 / [REDACTED] / Rhondda Cynon Taf

Pam taw Rhigos a Phenderyn sy'n cael eu symud o gwmpas bob tro? Dw i ddim eisiau bod yn rhan o Ferthyr, nhw yw'r tlotaf, mae eu cyngor nhw'n ofnadwy. Peidiwch â'n symud ni. Rwy'n gweithio mewn cegin ysgol, ac mae hyd yn oed y bwydlenni yn Rhondda Cynon Taf yn llawer gwell a mwy blasus.

BCW-9434 / [REDACTED] / Y Drenewydd

Mae Cyngor Cymuned Mochdre gyda Phenstrywaid yn falch o weld bod cysylltiadau hanesyddol mewn perthynas ag ardaloedd daearyddol bellach wedi cael eu hystyried, ac y bydd Maldwyn yn cael ei chadw'n gyfan, gyda Glyndŵr yn cael ei hychwanegu ati.

Yn anffodus, mae'n golygu colli Simon Baines AS, ond gallai arwain at ddeinameg diddorol.

BCW-9435 / [REDACTED] / Llanelli

Mae Cyngor Tref Llanelli yn dymuno nodi ei wrthwynebiadau i'r cynigion cychwynnol ar gyfer etholaeth Llanelli.

Barn y Cyngor yw bod cynnwys Ward Llangynnwr Cyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd â Ward newydd Llangyndeyrn, yn achosi i ardaloedd a ddylai ffurfio rhan naturiol o ryw etholaeth yng Nghaerfyrddin fod yn rhan o ddarpar etholaeth Llanelli. Mae hon yn sefyllfa anghynaliadwy ac amhriodol, gan y byddai ardaloedd fel:

Gorsaf drenau Caerfyrddin
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

yn cael eu cynrychioli gan AS Llanelli. Mae'n amlwg nad oes dim cyfiawnhad dros gynnwys y rhain yng nghynigion Llanelli, ac mae'n amlwg y dylid eu cadw yn yr etholaeth a gynigir ar gyfer Caerfyrddin.

Mae gan Ward Llangynnwr boblogaeth o 2,194
Awgrymir y bydd gan ward newydd Llangyndeyrn boblogaeth o 4073

Fel dewis amgen, byddai'r cyngor yn awgrymu cynnwys wardiau Saron a Phen-y-groes yn Llanelli, eu poblogaethau cyfunol yw 5,768.

Yna, byddai gan etholaeth Llanelli gyfanswm etholwyr o oddeutu 71,500, a fyddai o fewn yr argymhellion.

BCW-9436 / [REDACTED] / Bethesda

Nid yw Cyngor Cymuned Bethesda yn hapus gyda'r cynigion cychwynnol - gan bod Arfon yn diflannu! Rydyn yn teimlo mwy o ffit naturiol - demograffig a ieithyddol , buasai ymuno gyda Meirion/Dwyfor

BCW-9437 / [REDACTED] / Aberdâr

Pam fod rhaid lleihau maint ein wardiau yng Nghymru? Ers degawdau mae Cwm Cynon, ochr yn ochr â wardiau eraill yng Nghymru, wedi cael cynrychiolaeth briodol yn y Senedd. Hefyd, dydy uno Aberdâr gyda Merthyr ddim yn gymesur â phoblogaeth y cwm, gan mai Merthyr fydd â'r ffocws dros Aberdâr, gan ei bod yn ardal llawer mwy. Yn ddaearyddol, mae Cwm Cynon yn addas i fod yn ward ei hunan, a dylai aros fel hynny. Drwy leihau'r wardiau yng Nghymru, rydych chi'n lleihau llais Cymru!

BCW-9438 / [REDACTED] / Llansantffraid

Rwy'n ysgrifennu at Gomisiwn Ffiniau Cymru i gefnogi'r cynigion i newid ffiniau fel bod cymuned hanesyddol Maldwyn sy'n cael ei chadw yn yr etholaeth arfaethedig newydd a mwy, sef Maldwyn a Glyndŵr.

BCW-9439 / [REDACTED] / Caerfyrddin

Mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn dymuno nodi ei wrthwynebiad i'r cynnig i gynnwys y Gymuned yn ffiniau darpar etholaeth Llanelli.

Ymddengys nad yw cynigion Comisiwn Ffiniau Cymru yn ystyried y newidiadau a fydd yn digwydd i'r wardiau lleol ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin, mae hyn yn arwain at ddarlun dryslyd mewn perthynas â'r cynnig.

Nid yw'r Cyngor Cymuned yn credu bod y cynigion yn briodol gan nad oes gan ardal Cymuned Llandyfaelog unrhyw gysylltiad â Llanelli, a dylid ei chynnwys mewn ffin etholaeth gyda Chaerfyrddin. Mae'r cynigion hefyd yn darparu ar gyfer canlyniadau anffodus iawn, sy'n amlwg yn amhriodol, fel a ganlyn:

Mae cynnwys Llangynnwr (un o faestrefi Caerfyrddin) yn etholaeth Llanelli yn achosi i Orsaf Drenau Caerfyrddin gael ei chynnwys yn etholaeth Llanelli;

Mae cynnwys Cymuned Llandyfaelog yn etholaeth Llanelli yn golygu bod Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin (ysgol sy'n gwasanaethu ysgolion sydd bron yn llwyr y tu allan i etholaeth Llanelli, hyd yn oed yn y ffiniau arfaethedig) yn etholaeth Llanelli.

Mae'r ddau gynhwysiad hyn yn amlwg yn amhriodol.

Byddai dull mwy synhwyrol yn cynnwys wardiau Tref Rhydaman, sef Rhydaman a Phontaman (etholaeth 2022 - 4,194) ynghyd â Betws (1,896), a oedd ill dwy yn ffurfio rhan o etholaeth Llanelli tan 1997, yn hytrach na Chymunedau Llandyfaelog, Llangyndeyrn neu Langynnwr (etholaeth 2022 - 6,267).

Mae Comisiwn Ffiniau Cymru eisoes wedi gwneud penderfyniad cwbl amhriodol i rannu Ward Llanismel Cyngor Sir Caerfyrddin, a chynnwys Cymunedau Llandyfaelog a Llanismel yn Wardiau Llangyndeyrn a Chydweli yn y drefn yna. Mae'r cynnig cychwynnol yma ar gyfer etholaethau Senedd y Deyrnas Unedig yn fwy amhriodol fyth o bosib, a dylid eu hailystyried ar frys.

BCW-9440 / [REDACTED] / Gogledd Cymru

Rydyn ni'n hynod siomedig o glywed ei bod yn bosib y byddwch chi'n cynnwys ein heiddo fel rhan o Fae Colwyn. [REDACTED], lle rydyn ni'n byw, yn ardal hyfryd a dethol, ac yn rhan o'r pentref, a does ganddi ddim cysylltiad o gwbl â Bae Colwyn.

Ydych chi'n ymwybodol o'r hanes o droseddu ym Mae Colwyn? Mae'n cael ei defnyddio ar gyfer tai adsefydlu cyffuriau ac i gyn-garcharorion, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhemp (fydden ni ddim yn breuddwydio ymweld â'r lle gyda'r nos, a fydden ni ond yn ei ddefnyddio i gael mynediad at yr orsaf drenau).

Hefyd, mae'n codi ofn meddwl faint byddai ein hyswiriant tŷ a char yn codi pe baen ni'n cael ein hystyried fel rhan o Fae Colwyn.

Ail-ystyriwch eich cynnig.

[REDACTED]
Dinasyddion hŷn,

BCW-9441/ [REDACTED] / Llwchwr

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 14 Hydref 2021 13:58

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Cynigion y Comisiwn Ffiniau

Helo,

Cyfarfu Cyngor Tref Llwchwr yn ddiweddar i drafod cynigion y Comisiwn, ac mae ganddo'r sylwadau canlynol:-

"Nid yw'r cynigion yn rhesymegol ac nid ydynt yn ystyried cysylltiadau cymunedol. Dylid cadw craidd hen ardal Cyngor Dosbarth Trefol Llwchwr mewn un etholaeth, gan gynnwys Llwchwr, Pontybrenin, Gorseinon a Phenyrrheol, Pontarddulais, Penlle'r-gaer a Phontlliw, a Thregŵyr a Llangyfelach hefyd yn ddelfrydol."

Cofion

[REDACTED]

Clerc i'r Cyngor

BCW-9442 / [REDACTED] / Castell-nedd

Er fy mod i'n gwerthfawrogi nad yw fy etholaeth i'n cael ei newid llawer, rwy'n teimlo bod eu lleihau nhw yn gyffredinol yng Nghymru yn hollol ddiangen, a bydd yn achosi llawer o bryder yn y cymunedau yr effeithir arnynt.

BCW-9443 / [REDACTED] / Llangollen

Fel sy'n digwydd yn aml, mae Llangollen a Dyffryn Dyfrdwy yn cael eu trin fel ôl-ystyriaeth, er eu bod yn lleoliad twristiaeth unigryw a nodedig mewn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Does ganddo ddim cysylltiad go iawn â'r canolbarth, ac mae gwleidyddiaeth yr ardal yna'n debygol o ddominyddu ac anwybyddu cysylltiadau gwleidyddol diwylliant, amgylchedd, a ffordd o fyw Dyffryn Dyfrdwy.

O ran ardal Awdurdod Lleol, ar hyn o bryd mae'n rhan o Gyngor Sir Ddinbych, sydd eisoes yn ei thrin ag amarch, gan ffocysu adnoddau ar eu rhanbarth arfordirol a threfi mewndirol Rhuthun a Dinbych. Mewn gwirionedd, mae gan Langollen fwy o gysylltiad â Wrecsam, gan nad yw ond deuddeg milltir o dref Wrecsam, a llond llaw o filltiroedd oddi wrth y ffin yn Nhrefor/Acrefair lle mae Traphont Ddŵr Pontcysyllte, sy'n ganolog i Safle Treftadaeth y Byd.

BCW-9444 / [REDACTED] / Caernarfon

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i gyfuno arfon gyda dwyfor a meirionnydd! tydo ddim yn deg ar yr Aelod Seneddol nag etholwyr. Mae teithio i gael cyfarfod gyda AS yn anodd bethbynnag mewn ardal wledig ond mae'r pellter yma tu hwnt i reswm ee os yw AS yn cynnal syrjeri yng Nghaernarfon - tydyo ddim yn deg ar bobl sydd yn byw yn Aberdyfi - dros awr a hanner o deithio un ffordd!

Mae gogledd cymru hefyd y ward anodda bron i gyrraedd Llundain ac mae disgwyl i AS gynrychioli gymaint mwy o etholwyr ac ardal ar ben teithio mor bell yn gwbl

afresymol. Ni ellir cymharu poplogaeth wledig gydag un ddinesig - mae heriau llawer mwy. Credaf hefyd bod mwy o alw ar y cyfan am wasanaeth AS mewn ardal wledig dlawd o'i gymharu ag ardal poblog ffyniannus. Erfynwn arnoch i ail ystyried ffin Arfon gan adael sedd Arfon a Dwyfor a Meirionnydd ar wahan er budd pawb, Diolch [REDACTED]

BCW-9446 / [REDACTED] / Cwmbrân

Rwy'n croesawu'r cynnig i gynnwys Croesyceiliog a Llanyrafon yn etholaeth Torfaen. Mae'n gwneud synnwyr bod tref gyfan Cwmbrân yn yr un etholaeth.

BCW-9447 / [REDACTED] / Rhuthun

Rydw i'n gwrthwynebu cynnwys Rhuthun yn etholaeth Delyn. Mae'r dref YN Nyffryn Clwyd, yn gorfforol ac yn etholiadol - NID yw hi yn Sir y Fflint/Delyn mewn unrhyw ffordd o gwbl. Bryniau Clwyd ddylai'r ffin fod. Ar ôl byw yn nalgylch Delyn am oddeutu 35 mlynedd, dw i BYTH eisiau bod yn rhan ohoni eto.

BCW-9448 / [REDACTED] / Llanrhystud

Er mwyn cyfiawnhau'r cyflogau a delir i brif weithredwyr ac uwch aelodau eraill o staff, rydw i'n cytuno'n llwyr bod angen cynyddu nifer y preswylwyr sy'n byw mewn unrhyw ardal, ac rydw i'n cefnogi'r newidiadau a gynigir i'r ffiniau.

BCW-9449 / [REDACTED] / Port Talbot

Rwy'n byw yng Nghwm Afan. Mae'r brif ffordd y tu allan i fy nghartef ac afon Afan ar ffiniau ein heiddo yn dilyn llwybr yr afon Afan yn uniongyrchol o rannau uchaf Cwm Afan i Bort Talbot a Thraeth Aberafon. Felly, mae fy nghysylltiadau yn yr un cwm ag Oakwood, Cwmafon, Cymer, tref Port Talbot ac Aberafon.

Does gen i na fy nghymdogion ddim cysylltiad na rheswm i gael ein hychwanegu at yr ardal newydd a gynigir ar gyfer Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, ac rwy'n teimlo'n gryf y dylen ni gael ein gosod yn etholaeth bresennol Aberafan neu yn etholaeth newydd Aberafan Porthcawl.

Dydw i ddim yn teimlo bod modd i fy anghenion gael eu cynrychioli'n llwyddiannus mewn etholaeth nad yw hyd yn oed yn yr un cwm daearyddol â'r un rwy'n byw ynddo.

Mae'n hurt ac yn anghredadwy tynnu rhan fach o brif ffordd sy'n mynd drwy Gwm Afan (Dan y Bont), a'i rhoi mewn etholaeth cwm cyfagos, hynny yw etholaeth sy'n cynrychioli Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd.

Dydy'r materion sy'n effeithio arna i ddim yr un peth â'r rhai sy'n effeithio ar bobl Cwm Afan. Sut galla i gael fy nghynrychioli'n effeithiol gan AS sy'n cynrychioli pobl Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd?

Flynnyddoedd lawer yn ôl, cafodd Pont-rhyd-y-fen ei gosod yn anghywir yng Nghyngor Bwrdeistref Castell-nedd, a dyma'r cyfle i fynd ati'n synhwyrol i ail-osod ffiniau Pont-rhyd-y-fen yn ei safle daearyddol a'i hetholaeth haeddiannol, wedi'i hail-atodi i Gwm Afan.

BCW-9450 / [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Roeddwn i yn erbyn gwneud Castell-nedd a Phort Talbot yn un, ac rydw i'n gwrthwynebu newid Pen-y-bont ar Ogwr yn gryf, ac fel Castell-nedd, bydda i'n parhau i ddefnyddio'r dref unigol ac nid wedi'i huno

BCW-9451 / [REDACTED] / Caerffili

Mae fy ysbyty agosaf bedair milltir i ffwrdd yn Ystrad Mynach. Mae Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd, 8 milltir i ffwrdd. Mae Ysbyty Brenhinol Gwent 12 milltir i ffwrdd. Cefais fy nghyfeirio'n ddiweddar i'r ysbyty newydd ger Caerllion? 20 milltir i ffwrdd. Pe bawn i'n cael trawiad ar y galon, fydden i byth yn ei gwneud hi. Pe bai fy nghymydog yn cael babi, bydd yn cael ei eni mewn tagfeydd traffig ar yr M4. Gyrrais heibio i dair ysbyty i gael fy nhriniaeth, taith o 40 milltir yno ac yn ôl. Ail-luniwch y ffiniau o gwmpas yr ysbytai agosaf.

BCW-9452 / [REDACTED] / Porthcawl

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn bwriadu adeiladu ar ddau safle ym Mhorthcawl, sef Salt Lake a Sandy Bay. Bydd y prosiectau yma'n cael effaith sylweddol ar y dref yma, ei chymuned a'r sir. Bydd y newidiadau i ffiniau yn digwydd yn fuan. A fydd/ddylai Aberafon fod yn rhan o'r prosiectau hyn, ac o'r broses benderfynu?

BCW-9453 / [REDACTED] / Casnewydd

Does dim cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol go iawn rhwng Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Mae'r gwasanaethau ar wahân i raddau helaeth. Mae'r etholaeth arfaethedig yn croesi ar draws nifer o awdurdodau lleol, ac nid yw'n adlewyrchu dim cysylltiadau cyffredin.

BCW-9454 / [REDACTED] / Ystrad Meurig

Mae'r newidiadau arfaethedig i Geredigion yn ddiwylliannol amhriodol ac yn drefedigaethol. Dylai hunaniaeth unigryw Ceredigion fel sir Ryddfrydol a blaengar sy'n siarad Cymraeg, gael ei diogelu, ei pharchu a'i chynrychioli yn y Senedd. Mae etholwyr ardaloedd arfordirol Sir Benfro fel arfer yn Saeson sydd wedi ymddeol ac sy'n pleidleisio i'r Torïaid ac yn berchnogion ail dai, felly mae'r newid arfaethedig yma'n edrych fel ymdrech gan y Torïaid i fachu grym.

BCW-9455 / [REDACTED] / Glanyfferi

MAE GLANYFFERI BOB AMSER WEDI DOD O DAN GAERFYRDDIN, SEF EIN TREF AGOSAF AR GYFER SIOPA, YSGOLION, GWEITHIO A CHYMDEITHASU. DYDYN NI DDIM EISIAU DOD O DAN ETHOLAETH LLANELLI. GADEWCH EIN HARDAL I FOD. OS BYDD EIN HARDAL YN CAEL EI SYMUD, FYDDA I DDIM YN CYMRYD RHAN MEWN ETHOLIADAU MWYACH!

BCW-9456 / [REDACTED] / Dinbych

Yn y map arfaethedig, bydd Rhuthun yn cwmpo o fewn etholaeth newydd Delyn.

Rhwng Rhuthun a gweddill etholaeth Delyn, mae yna rwystr ffisegol, sef Bryniau Clwyd.

Does dim cysylltiadau hanesyddol, ieithyddol na diwylliannol rhwng Rhuthun a'r Fflint, Treffynnon, y Wyddgrug a Bagillt, na hyd yn oed Prestatyn (er bod Prestatyn a Rhuthun yn yr un Sir.) Byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr pe bai Rhuthun ac ardaloedd eraill sydd ar hyn o bryd yn rhan o etholaeth Delyn sydd ar ochr Orllewinol Bryniau Clwyd yn cael eu rhoi yn etholaeth Clwyd, gan fod cysylltiadau hanesyddol, ieithyddol a diwylliannol cryf rhwng Dinbych a Rhuthun a chymunedau eraill yn Nyffryn Clwyd.

O bwynt gweithio i unrhyw AS a fydd yn gweithio yn yr etholaeth yma, byddai hefyd yn gwneud synnwyr iddyn nhw wasanaethu ardal sydd â chysylltiadau agos lle gallai themâu tebyg ddod i'r amlwg iddynt gael eu codi yn San Steffan.

Ar ochr ymarferol, mae pobl sy'n byw mewn pentrefi anghysbell fel Bontuchel, Cyfylliog, Pwll-glas, Llanrhaeadr, Clawddnewydd, yn defnyddio Rhuthun fel eu prif le ar gyfer siopa a hamdden, ond bydden nhw mewn etholaeth wahanol.

Ond hefyd, mae prif ganolfan weinyddol Cyngor Sir Dinbych yn nhref Rhuthun, ac felly pe bai rhywun yn y pentrefi a enwyd uchod - ac yng nghyd-destun ehangach Dinbych, Llanelwy neu'r Rhyl hyd yn oed - yn dymuno cysylltu â'u Haelod Seneddol (Clwyd) i godi pryder neu gŵyn gyda Chyngor Sir Dinbych, byddai'n rhaid i'r AS wneud hynny drwy brif swyddfa Cyngor Sir Dinbych, sydd yn Rhuthun, a fyddai mewn etholaeth arall pe bai'r cynigion yma'n cael eu cymeradwyo.

Ar lefel wleidyddol, does dim cysylltiad hanesyddol rhwng Rhuthun ac ardal Delyn, ond hefyd gyda rhwystr corfforol Bryniau Clwyd rhwng Rhuthun a gweddill etholaeth Delyn, mae'n debygol iawn y bydd Rhuthun yn dod yn rhan anghofiedig o'r etholaeth yna.

BCW-9457 / [REDACTED] / Wreccsam

Mae'n amlwg nad yw'r comisiynwyr wedi cymryd daearyddiaeth leol i ystyriaeth gan fod cymunedau cyffiniol cysylltiedig yn cael eu rhannu yn ôl y newidiadau ffin arfaethedig yma

BCW-9458 / [REDACTED] / Merthyr Tudful

Rwy'n anghytuno â'r cynllun i gysylltu Merthyr Tudful â rhan ogleddol Cwm Cynon. Mae'n gryn amser ers i'r 2 ardal gael eu cysylltu'n wleidyddol.

Mae cynnig blaenorol y comisiwn ffiniau i gadw Merthyr Tudful ac Etholaeth Rhymni fwy o faint yn gwneud mwy o synwyr i mi.

Rwy'n gwerthfawrogi y byddai adio'r holl Wardiau arfaethedig blaenorol yn mynd â ni dros y nifer o etholwyr felly rwy'n awgrymu y byddai modd hepgor Ward Ystrad Mynach o'r Etholaeth ddiwygiedig a'i gysylltu â Phontypridd yn lle.

Mae gan Gwm Rhymni uchaf gysylltiadau cryf â Merthyr Tudful gan gynnwys defnyddio Ysbyty'r Tywysog Siarl am wasanaethau ysbyty brys a chynlluniedig, at ddibenion manwerthu a hamdden.

Hefyd nid yw rhai o'r "cysylltiadau" am Etholaethau arfaethedig eraill yn gwneud synwyr ond gadawaf eu hetholwyr nhw i roi sylwadau ar y rheiny.

Ni fyddai Wardiau Gogleddol Aberdâr yn draddodiadol yn dod i Ferthyr Tudful am fanwerthu a hamdden, er fy mod i'n derbyn eu bod yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf felly byddan nhw'n dod i Ysbyty'r Tywysog Siarl am rai gwasanaethau.

Mae trigolion o Aberdâr yn cael eu galw'n "nadredd" gan drigolion Merthyr Tudful nad ydyn nhw wedi anghofio bod eu glöwyr nhw wedi torri streic 1926. Mae gelyniaeth yn aros hyd heddiw.

BCW-9459 / [REDACTED] / Clunderwen

Dw i'n teimlo dylai ardal Maenclochog fod yn yr un etholaeth a Gogledd Sir Benfro yn hytrach na De Sir Benfro.

Yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol mae'r ardal i'r gogledd o Glunderwen yn debyg iawn i ogledd y sir ac yn wahanol iawn ei natur i ganol a de'r sir.

BCW-9460 / [REDACTED] / Abertawe

Ffordd arall o geisio cwtogi nifer yr ASau Llafur yn y Senedd.

BCW-9461 / [REDACTED] / Abergele

Mae hwn yn edrych yn ateb synhwyrol i'r darlun cyffredinol

BCW-9462 / [REDACTED] / Llangefni

Mae etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd yn llawer rhy fawr. Mae'n wir bod y boblogaeth yn fychan, ond dylid gwrthbwysu hynny â gallu aelod etholedig i fod yn weladwy yn holl rannau'r etholaeth. Mae hynny'n gwbl anymarferol gyda'r fath arwynebedd sy'n cael ei gynnig.

Mae'n sarhad bod Cymru'n gweld cymaint o ostyngiad yn nifer ei haelodau etholedig. Nid yw hyn yn gwneud dim i guddio'r celwydd sy'n cael ei alw'n Deyrnas 'Unedig'. Mae'n dangos nad oes gan y sefydliad Prydeinig ots o gwbl am Gymru.

BCW-9463 / [REDACTED] / Glynebwy

Mae'r cynnig i uno etholaethau yn sgandalaidd. Ar adeg pan fo pobl wedi'u dadrithio gan wleidyddiaeth, ac ar adeg pan fyddan nhw'n teimlo nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed, bydd hyn yn gwneud dim ond gwaethygu'r pryderon hynny.

Difreinio yw hyn, yn bur ac yn syml.

Mae cynnig y câi Cymru, fel cenedl, ei chynrychioli gan ddim ond 30 o Aelodau Seneddol ac nid 42 gyfystyr â dweud nad yw ein lleisiau ni'n bwysig ragor.

Yn bur ac yn syml, ni fyddaf yn pleidleisio mewn etholiadau Seneddol ragor os bydd y cynllun hwn yn dwyn ffrwyth, am ei fod nid yn unig yn gwneud fy sedd yn llai cystadleuol byth (gan wanhau fy mhleidlais mhellach byth o ganlyniad), bydd disgwyl i'm Haelod Seneddol gwmpasu ardal fwy o faint.

Mae hyn yn annemocrataidd, ac yn weithred fandaliaeth yn erbyn democratiaeth.

BCW-9464 / [REDACTED] / Aberdâr

Rwy'n pryderu am y rhagolwg o rannu Cwm Cynon rhwng Pontypridd a Merthyr. I ddechrau, mae Merthyr a Chwm Cynon wedi eu rhannu'n ddaearyddol yn weddol amlwg. Bydd y rhaniad daearyddol yma'n rhwystro unrhyw fath o gyfuno. Hefyd, mae'r ardaloedd hyn mewn cynghorau gwahanol sydd â pholisïau, protocolau a blaenoriaethau gwahanol. Mae hyn yn cymhlethu pethau ymhellach, yn enwedig er mwyn bod yna gynrychiolaeth effeithiol, gyfartal a theg i'r holl drigolion.

Mae Cynon yn Gwm mawr, dwys ei boblogaeth gyda phroblemau cymdeithasol ac economaidd cymhleth. Bydd ein rhannu rhwng dwy ardal arall â phoblogaethau yr un mor ddwys, sydd ag anghenion a phryderon eu hunain, yn ddim ond niweidiol i ni, nid yn fuddiol.

Nid ydyn ni'n sôn dim ond am symudiad rhai llinellau ar fap yma. Nid mân newid ydy hwn lle bydd un ardal fach yn cael ei symud i un arall er mwyn cadw'r ystadegau mewn cydbwysedd. Os bydd y cynllun hwn yn mynd yn ei flaen, bydd llais Cwm Cynon cyfan yn cael ei golli. Byddai hyn yn groes i'n hawliau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

BCW-9465/ [REDACTED] / Sir Benfro

Oes cynlluniau yn eu lle i alinio'r ffiniau arfaethedig hyn â Chynghorau Sir a'r Senedd.

BCW-9466 / [REDACTED] / Aberhonddu

Er mwyn cael y nifer cywir o etholwyr yn yr etholaeth, mae map wedi cael ei lunio sydd heb unrhyw debygrwydd o gwbl â chysylltiadau naturiol. Nid yw Castell-nedd a hyd yn lli byth Pontarddulais yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd ag Aberhonddu a Maesyfed, mae'r etholaeth wedi'i siapia fel cinio ci jest i ffitio'r rhifau. Nid yw hyn yn gwneud unrhyw synwyr o gwbl.

BCW-9467 / [REDACTED] / Trelawnyd

Mae'n rhaid bod costau gwneud hyn yn anferthol. Mae newid yr holl arwyddion ffiniau yn gost ar ei phen ei hun. Rwy'n poeni hefyd bod y gwaith ychwanegol y bydd rhaid i'n AS ei wneud yn golygu'n ddiau y bydd ganddyn nhw fwy o staff a gaiff eu talu o dreuliau a fydd yn dod oddi wrth drethdalwyr. Rwy'n credu y dylai pethau gael eu gadael yn eu hunfan.

BCW-9468 / [REDACTED] / Abertawe

Ychydig iawn sydd gan Bontardawe yn gyffredin â Brycheiniog a Maesyfed a llawer mwy ag Abertawe neu Gastell-nedd. Byddai'n ffitio'n well i mewn i un o etholaethau newydd Abertawe.

BCW-9469 / [REDACTED] / Llandudno

Mae gan Llandudno a Bangor ddemograffeg wahanol iawn a dylen nhw ddim fod yn yr un grŵp gan y bydden nhw'n mynnu bod gan eu AS farn a sgil gwahanol i'w gilydd. Dylai ardal Llandudno a Chonwy fod o fewn Ardal Bae Colwyn sydd i gyd yn rhnanu'r un ystyriaethau sirol ac arfordirol. Maen nhw i gyd yn delio â thwristiaeth ac ymfudiad mawr o bobl sy'n ymddeol i'r ardal sy'n pleidleisio ar sail eu gorffennol a'u barn hanesyddol. Mae ardal Bangor yn fwy tebyg i ardal Caernarfon a Gwynedd efo ystyriaethau iaith a diffyg seilwaith am waith ar gyfer eu cymuned. Ystyriwch ddiwylliant yr ardal yn ogystal â niferoedd y boblogaeth gan fod y ffactorau hyn yn bwysig i bob ardal ac mae angen cynrychiolaeth.

BCW-9470 / [REDACTED] / Llanddulas

Rwy'n gwrthwynebu'n gryf iawn fel trethdalwr a thrigolyn Llanddulas i estyn y ffin ymhellach i'r Dwyrain o Afon Clwyd yn y Rhyl a chwmpasu unrhyw ran o ran wreiddiol tref y Rhyl ac unrhyw ran o Sir Ddinbych.

Bydd y gost i Drethdalwyr presennol Conwy o ysgwyddo un o rannau mwyaf difreintiedig Cymru yn ward Gorllewin y Rhyl yn eliffant gwyn gwleidyddol ac ariannol prin y fedr trigolion CCBC ei fforddio o dan y cyfyngiadau ariannol presennol sy'n cael eu hwynebu nawr efo gwasanaethau'n cael eu cwtochi!

Nid yw Llywodraeth Cymru'n medru cael ei chymryd o ddifri pan fo'n symud pyst gôl pleidleisio gwleidyddol i ddal rheolaeth bellach dros etholaethau efo'r canlyniad y bydd Cynghorwyr Sir diwyd yn colli eu seddi presennol.

Mae hyn yn annerbyniol i'r mwyafrif o bleidleiswyr onest.

Rwy'n datgan bod y symudiad hwn yn groes i hawl yr etholwyr i gynrychiolaeth briodol!

BCW-9471 / [REDACTED] / Bangor

Mae'n hollol ridiculous bod Bethesda yn cael ei roi mewn efo Conwy o ran diwylliant, iaith a hanes. Waeth i mi beidio bleidleisio byth eto gan na fydd posib i unrhyw bleidlais i mi wneud gael unrhyw effaith o ystyried tueddiadau pleidleisio hanesyddol Conwy. Gwarthus

BCW-9472 / [REDACTED] / Llanrhystud

Mae'r gostyngiad yn Aelodau Seneddol Cymru trwy'r newid ffin yma'n dangos yn glir pam mae angen mwy o ddatganioli ar Gymru i sicrhau bod lleisiau Cymru'n cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn penderfyniadau democrataidd.

BCW-9473 / [REDACTED] / Casnewydd

Os oes rhaid i bob etholaeth gael rhwng 69 a 77000 o bobl ynddi o DAN Y GYFRAITH, sut ydych chi wedi dod i benderfyniad i leihau'r nifer o 42 i 30? Hyd yn oed os cymerwn ni'r band uchaf, mae tua 3000000 o bobl yng Nghymru, ac os rhannwch chi hynny gan 77000 fe gewch chi o leiaf 38 o etholaethau DAN Y GYFRAITH?

Byddai diddordeb gen i mewn gweld y mathemateg tu ôl i'ch cyfrifiadau chi.

BCW-9474 / [REDACTED] / Llanfairfechan

Rwy'n gwrthwynebu'r newidiadau hyn yn llwyr. Bydd y rhain yn lleihau ein cynrychiolaeth yn y senedd ac yn ei hanfod yn golygu na fyddwn ni'n medru dylanwadu ar unrhyw gamau gan y llywodraeth sy'n effeithio'n negyddol ar Gymru.

BCW-9475 / [REDACTED] / Aberystwyth

Fy sylw i yw mai 'cyffindwylllo' ydy hyn. Ac nad yw'r ymgynghoriad hwn yn golygu llawer iawn pan ddywed fod "rhaid i nifer yr etholaethau yng Nghymru leihau o 40 i 32".

BCW-9476 / [REDACTED] / Yr Wyddgrug

Yng Ngorllewin Clwyd mae'n ymddangos ein bod ni'n cael ein cynrychioli gan as sy'n drigolyn tref yn llain arfordirol y gogledd-orllewin pell. Rwy wedi sylwi pan oedd as gennyn ni oedd yn drigolyn mwy canolog yn Nyffryn Clwyd roedd mynediad i'r as yn haws mwy o empathi am faterion gwledig. Mae'r ffiniau arfaethedig am holl ardal Clwyd yn nonsens gan adnabod yr ardal gyfan am fwy na 50 o flynyddoedd llawer fel swyddog llywodraeth leol yn cwmpasu'r ardal. Dylai'r llain arfordirol gael ei rannu'n flociau etholaeth sy'n adlewyrchu gofynion niferoedd y boblogaeth efo ychydig o dreiddio na chynnwys ardaloedd gwledig. Dylai etholaeth ganolog fewndirol newydd am Ogledd Cymru sy'n cynnwys ymyl gorllewinol gwledig am etholaethau Delyn ac Alun a Glannau Dyfrdwy sy'n cael eu disodli gael ei hychwanegu at etholaeth fawr â sylfaen wledig efo gorllewin de Clwyd a Chonwy i ddod â niferoedd y boblogaeth i fyny. Fasai'r sedd yma'n fwy homologaidd ac yn galluogi'r AS i adlewyrchu materion gwledig, amaethyddol a diwylliannol ieithyddol yn well, achos mae ymwneud ag ardaloedd poblogaeth mawr arfordirol sy'n mynnu mwy o sylw yn wrthdyniad ac yn rhwystr i AS rhag ennill dealltwriaeth well o anghenion a chyfleoedd yr etholaeth

BCW-9477 / [REDACTED] / Port Talbot

Does dim byd gan Bort Talbot yn gyffredin â Phorthcawl o gwbl! Nid yw'r newid ffin yma'n gwneud dim ond gwanhau pleidlais lafur y dref adeiledig ddiwydiannol gyda llawer iawn o bobl gyfforddus eu byd glan y môr sy'n pleidleisio'n Geidwadol yn bennaf.

Gadewch lonydd i'r ardal neu ei chyfuno ag ardaloedd y cymoedd.

BCW-9478 / [REDACTED] / Yr Arberth

Mae'r comisiwn ffiniau eisiau cael niferoedd cyfartal o bleidleiswyr ym mhob etholaeth. Mae hyn i'w weld yn deg. Ond yng Nghymru mae'r boblogaeth wedi'i gwasgaru'n ehangach. Gan hynny byddwn ni'n colli seddi ac telly cynrychiolaeth yn Senedd y DU.

BCW-9479 / [REDACTED] / Bargoed

Roedd y ddeddfwriaeth yma'n mynd i effeithio ar Loegr a'r Alban yn wreiddiol ond dim ond Cymru sy'n colli seddi mewn gwirionedd, mae San Steffan yn ein trin ni fel gwladwriaeth gaeth mae angen annibyniaeth arnon ni nawr cyn i'r llywodraeth lwgr yma wneud mwy o ddifrod

BCW-9480 / [REDACTED] / Cydweli

Mae newid ffiniau yng Nghymru sy'n arwain at leihad mewn cynrychiolwyr etholedig yn ymarfer gan, llywodraeth geidwadol bresennol San Stefan i sathru pobl Cymru dan draed mewn modd annemocrataidd a sicrhau eu bod nhw'n aros mewn grym!

Mae'n sarhad! Gorau po gyntaf y caiff Cymru annibyniaeth!

BCW-9481 / [REDACTED] / Caerdydd

Oni bai bod gwir angen, dylai pob etholaeth ddefnyddio'r Gymraeg am fersiynau'r ddwy iaith (yn union fel Ynys Môn yw'r enw yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd). Mae normaleiddio'r Gymraeg a sillafiad Cymraeg fel hyn yn bwysig.

BCW-9482 / [REDACTED] / Casnewydd

Hollol wallgof. Mae Casnewydd mor wahanol i Gaerffili. Mae Casnewydd yn gymuned drefol a Chaerffili'n gymunedau'r cymoedd.

BCW-9483 / [REDACTED] / Wrecsam

Rwy'n bryderus iawn er mai [REDACTED], Coedpoeth, Wrecsam ydy fy nghyfeiriad post y baswn i'n pleidleisio yn Alun a Glannau Dyfrdwy, ardal nad ydw i'n teithio iddi nac yn defnyddio unrhyw gyfleusterau ynddi. Rwy'n methu deall sut y caf fy nghynrychioli'n deg yn San Steffan. Rwy'n gwrthwynebu'r newid hwn yn gryf ac yn eich annog i ailystyried fel bod Mwynglawdd o fewn etholaeth Wrecsam.

BCW-9484 / [REDACTED] / Rhuthun

Nid yw'n gwneud synnwyr o gwbl fod tref Rhuthun yn ardal Delyn. Mae mynyddoedd Dyffryn Clwyd yn creu ffin naturiol rhwng Rhuthun a gweddill yr etholaeth newydd, sydd yn edrych fel ei fod yn Sir Fflint. Nid oes cywllt felly gyda trefi fel Fflint a Trefynnon, ac yn fy marn i mae ardal Rhuthun yn hollol wahanol ym mhob agwedd i weddill yr etholaeth newydd.

Dylid ceisio sicrhau fod Rhuthun yn yr un etholaeth a Dinbych a Llanelwy neu ardaloedd sydd a mwy yn debyg i'n hardal ni.

Diolch

BCW-9485 / [REDACTED] / Bangor

Mae hyn yn warthus. 40 etholaeth i lawr i 32? Pan fo Lloegr yn ENNILL 10 etholaeth??

Mae San Steffan yn hoff iawn o frolio bod y deyrnas "unedig" iawn yma sydd gennyn ni o fudd i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond unwaith eto maen nhw wedi profi eu bod yn ein hystyried yn eiddo i Loegr yn hytrach nag yn wledydd cynghreiriol.

Mae llai o seddi'n golygu llai o Aelodau Seneddol yn y Senedd, llai o gynrychiolaeth yn San Steffan, a llai o bŵer yn system "y cyntaf heibio i'r pyst" ddyddiedig y DU am etholiadau cyffredinol. Hynod o amheus o ystyried bod Cymru a'r Alban - 2 wlad sy'n hysbys am beidio â phleidleisio mewn cymaint o seddi ceidwadol – yn colli allan tra bod lloegr yn ENNILL nifer cyfartal o seddi.

Mae'n amlwg nad yw ein ffin mae cymaint o lechfeddiannu arni, dinistrio ein diwylliant a'n hiaith, diwydiannau, a rhyddid i lywodraethu ein hunain yn lleol, yn ddigon i San Steffan.

Rwy'n byw yng Ngwynedd, ardal wledig ag anghenion cwbl wahanol i Sir Conwy. Mae'r ffaith o uno'r ddwy ardal yma— sy'n cynnwys parc cenedlaethol Eryri (sydd unwaith eto ag anghenion CWBL wahanol i leoedd efo dwysedd poblogaeth uwch fel Llandudno a Bangor) – yn dangos pa mor gwbl allan o gysylltiad mae'r llywodraeth "brydeinig" efo Cymru.

Heb sôn am y ffaith bod Gogledd Cymru yn cael ei thangynrychioli cymaint yn barod, a chanddi dim ond 11 etholaeth allan o 40. Mae cynlluniau arfaethedig i ddod â'r nifer yma i lawr i ddim ond 8 yn sarhaus. Rydyn ni'n un o'r ardaloedd tlotaf yn yr holl fyd gorllewinol, mae Caerdydd yn cael gorsaf drenau newydd sbon ac rydyn ni'n cael yr heddlu'n symud pobl ddigartref allan o ffryntiau siopau diffaith ar stryd fawr farw, a DIM deintyddion y GIG am filltroedd a milltiroedd.

Maen nhw'n gwybod bod hon yn wlad sydd wedi pleidleisio Llafur neu Blaid yn hanesyddol, mae lleihau ein hetholaethau yn ymosodiad bwriadol ar ddemocratiaeth y DU yn ei chrynswth! Nid dim ond i Gymru. Wrth i'r torïaid ymbalfalu'n wallgof i gadw eu hunain mewn pŵer hirdymor, er gwaetha ymdrin yn affwysol â'r pandemig a'r marwolaethau maen nhw wedi'u hachosi trwy gyni ariannol.

Diolch i'r drefn 'dyw'r Cymry ddim mor hurt ag rydych chi'n ein trin, a dylai hyn fod yn ddeffroad go iawn i'r boblogaeth gyffredinol mai'r unig ateb i Gymru nawr yw annibyniaeth.

Hynny, neu derfysgoedd ledled y DU.

Cymru am Byth.

BCW-9486 / [REDACTED] / Aberystwyth

Cyffindwylllo yw cymysgu Ceredigion gyda rhannau o Sir Benfro. Adio ardal Doriaidd iawn at Geredigion yn y gobaith y bydd Plaid Cymru yn colli eu sedd Ceredigion. Dim ymdrech i gadw cydbwysedd y pleidiau ac mae'n amlwg bod y canlyniad yn ffafrio'r blaid geidwadol. Hefyd mae'n rhy bell mewn pellter o un pen i'r llall. Sut mae un AS i fod yn effeithiol am ardal y maint yna.

BCW-9487 / [REDACTED] / Y Felinheli

Rydw i o'r farn bod y broses yma wedi creu seddi heb ystyried diwylliant a natur yr ardaloedd. Rwyf i'n byw yn Felinheli ac mae cysylltiad agos rhwng y Felinheli a Bangor gan mai yno mae gwasanaethau ond maent mewn etholaethau gwahanol.

Mae'r 4 sedd yn y gogledd ddwyrain lle bydd yr ardaloedd gwledig mewndirol yn cael eu dominyddu gan yr arfordir poblog.

Hefyd mae pleidleisiau Plaid Cymru wedi ei cyfyngu i un sedd fawr.

Os fydd y seddi yma yn parhau yna fydd dim pwrpas i bobl mewn ardaloedd gwledig bledleisio gan y bydd yr ardaloedd trefol yn rhy niferus.

BCW-9488 / [REDACTED] / Yr Arberth

Dewch â chynrychiolaeth gyrfannol i ni. Rhowch y gorau i wyro aliniadau gwleidyddol ein gwlad drwy systemau pleidleisio toredig.

BCW-9489/ [REDACTED] / Abertawe

Rwy'n cymryd y bydd lleihad cysylltiedig mewn biwrocratiaeth gyda'r cynigion hyn. Pam nad ydy'r manteision posibl yn cael eu dangos i ni ac a fydd gan y rhain effaith ddilynol ar ein cyfraddau treth gyngor sydd "ymhlith yr uchaf yn y DU" yn barod.

BCW-9490/ [REDACTED] / Caerdydd

Oddi wrth: Clerc | Cyngor Cymuned Pentre Llanelwyr

[REDACTED]

Anfonwyd: 16 Hydref 2021 19:41

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Parth: Cyhoeddi Cynigion Cychwynnol - Initial Proposals Published

Noswaith Oda

Nid yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau ar y cynigion cychwynnol gan y Comisiwn yn gyfan gwbl. Fedd bynnag, mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno ailadrodd y cysylltiadau hen-sefydledig sy'n bodoli rhwng cymunedau Pentre Llanelwyr, Pontprennau, Llysfaen a Llanisien.

Mae'r Cyngor Cymuned yn gefnogol o gynigion sy'n cadw'r cymunedau hyn mewn un etholaeth Seneddol. Nadir bod y cynigion cychwynnol yn cadw'r cymunedau hyn mewn un etholaeth.

Cofion cynnes

|

Cyn_ or C_muned Pentre Llanelwyr, Caerdydd

[REDACTED]

BCW- 9491/ [REDACTED] / Aberystwyth

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: 17 Hydref 2021 19:39

At: Enquiries <enquiries@boundaries.wales>

Pwnc: Ymgynhgori ar enwau/names consultation

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Cefais sioc wrth ddarllen cyfieithiad Cymraeg eich Arolwg Etholaethau 2023 — Cynigion Cychwynnol. <https://comffin-cymru.gov.uk/tudalen/arolwg-seneddol-2023-cynigion-cychwynnol>

Mae'r dudalen gyfan yn frith o gamgymeriadau sillafu a gramadeg elfennol sy'n tanseilio awdurdod Comisiwn Ffiniau Cymru yn fawr iawn. Cymeraf fod arian cyhoeddus wedi cael ei wario ar y gwaith cyfieithu, ac mae gan y cyhoedd Cymraeg hawl i weld Cymraeg da, cywir. Mae angen i'r dudalen gyfan gael ei gwirio'n drwyadl gan gyfieithydd profiadol. Yn ôl pob golwg mae'r dogfennau cysylltiedig wedi cael eu prawffdarllen yn briodol felly mae'n drueni eich bod yn cael eich gadael i lawr gan y dudalen gyntaf mae'ch darllenwyr yn dod ar ei thraws.

O ran enwau unigol ac ati, amgaeaf restr rannol (a chychwynnol) o enwau a ddylai gael eu hailystyried yn fy marn i:

1. Aberhonddu a Maesyfed: mae hyn yn anghywir gan mai enw tref Brecon yw Aberhonddu, nid (ac erioed) Breconshire. Y term cywir yn y Gymraeg yw **Brycheiniog a Maesyfed**.
2. Preseli: mae hyn yn anghywir. Y ffurfiau cywir yw naill ai **Preselau neu Presely**.
3. Aberdar: dylai fod **Aberdâr**.
4. Eglwysbach: (Aberconwy) dylai fod **Eglwys-bach**
5. Bettws-y-Coed: dylai fod **Betws-y-coed**
6. Tregarth a Mynydd Llandygai: dylai fod **Tre-garth a Mynydd Llandygái**
7. Deganwy: dylai fod **Degannwy** oherwydd ei tharddiad o Decanti (nt > nn).
8. Craig-y-Don : er cysondeb, **Craig-y-don**, fel Pant-yr-afon.
9. Nantyglo : dylai fod **Nant-y-glo**
10. Llanafanfawr: dylai fod **Llanafan Fawr**
11. Felin-fâch: dim acen ar fach > **Felin-fach**
12. Maescar: dylai fod **Maes-car**
13. Godre'r graig: dylai fod **Godre'r-graig**.
14. Llangors: dylai fod **Llan-gors**
15. Dyserth a Threcoed: dylai fod **Diserth a Thre-coed**
16. Llanllyr: dylai fod **Llanlly^r** (y gyda tho bach arni).
17. Clas-ar-Wy: dylai fod **Y Clas-ar-Wy**
18. Bryncoch : dylai fod **Bryn-coch**
19. Trelech : dylai fod **Tre-lech**
20. Cilycwm: dylai fod **Cil-y-cwm**
21. Penygroes (Caerfyrddin): dylai fod **Pen-y-groes**
22. Hendy-gwyn-ar-daf: dylai fod **Hendy-gwyn ar Daf** [neu -ar-Daf]
23. Llandybie: **Llandybïe**
24. Llandyfriog: dylai fod **Llandyfriog**

- 25 Llanarth (Ceredigion): **Llannarth**
- 26 Troedysaur: dylai fed **Troed-yr-aur**
- 27 Llandysilio-gogo: dylai fed **Llandysiliogogo**
- 28 Aberporth: dylai fed **Aber-porth**
- 29 Llanrhystyd: dylai fed **Llanrhystud**
- 30 Rhyd-y-Fuwch: dylai fed **Rhyd-y-fuwch**

Mae **llawer iawn yn rhagor i'w cywiro**, a gallai'r Comisiwn Ffiniau fynd ati i gychwyn hyn ei hunan drwy ymgynghori a'r rhestr o enwau lleoedd safonol Cymru a ddarperir ar wefan Comisiynydd y Gymraeg

<https://www.welshlanguagecommissioner.wales/policy-and-research/welsh-place-names>

Os bydd gennyf amser ac egni ceisiaf edrych drwy'r hell ranbarthau, end bydd yr uchod yn rhoi rhyw syniad i chi o raddfa'ch problem fel y mae. Yr un fwyaf difrifol o'r rhain, a nodwyd uchod, yw defnyddio Aberhonddu a Maesyfed yn lie **Brycheiniog a Maesyfed** am 'Brecon and Radnor'. Mae anghysondeb gennych yn Meirionydd/Meirionydd [sic]. Y ffurf gywir o safbwynt ei tharddiad yw **Meirionydd** (ag un n), a dyma'r ffurf a ddefnyddiaf fy hunan. Ond mae'r ffurf ag -nn- wedi lledaenu i'r graddau bod rhai yn credu ei bod yn gywir mewn rhyw ffordd. Mae Degannwy wedi dioddef yn yr un modd, gyda chred anghywir mai Deganwy ydyw, ffurf mae rhai erbyn hyn yn credu ei bod yn gywir.

Gobeithio bod yr awgrymiadau hyn o ryw gymorth. Rwyf yn ysgrifennu yn Saesneg am fy mod am wneud yn siwr bod y pwyntiau'n cael eu gwneud yn glir i bawb sy'n delio a'r dasg anferth hon. Ofnaf y gallai'r Gymraeg gael ei chyfieithu gan rywun sydd heb fed crystal a'r dasg.

Gobeithiaf anfon rhagor o gywiriadau pan allaf.

iiiiirir,



BCW-9492 / [REDACTED] / Castell-nedd

Oddi wrth: [REDACTED]

Anfonwyd: [REDACTED] y re f 2021 13:14

At: BCW <bcw@boundaries.wales>

Pwnc: Adolygu Newidiadau Ffin

Ysgrifennaf ar ran Cyngor Tref Castell-nedd sy'n dymuno rhoi sylwadau ar y Newidiadau i Ffiniau SanSteffan arferthedig sy'n effeithio ar Etholaethau presennol Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

Mae sylwadau'r Aelodau yn cynnwys:-

Mae Aelodau'n teimlo bod y cynigion hyn heb eu hystyried yn dda ac na dydynt yn cymryd i ystyriaeth ffiniau cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol, a ffiniau presennol Awdurdodau Lleol a Senedd.

Nid yw'r mwyafrif llethol o etholwyr Castell-nedd yn ystyried bod ganddyn nhw unrhyw gysylltiadau cymdeithasol na diwylliannol ag etholwyr Dwyrain Abertawe ac yn sicr mae yr un mar wiry bydd gan breswylwyr Dwyrain Abertawe yr un ystyriaeth am rai ardal Castell-nedd. Mae enghraifft dda o hynny i'w gweld yn y rhaniad sy'n dal i fodoli yn yddwy gymuned ynghylch uno eu Timau Rygbi yn DTm Rhanbarthol yr Ospreys gyda llawer o drigolion y ddwy gymuned yn addo peidio byth a chefnogi beth sydd yn eu barn nhw yn dTm mwngrel.

Yn ogystal, mae gan y ddwy etholaeth gysylltiad cryf blaenorol a diwydiant trwm, Gia, Dur a Chopr. Although that is mainly historical, that past is still deeply embedded in the minds of its inhabitants. They regard themselves as being from an industrial background and not that of a rural farming background. Therefore the proposal to sever the communities of the upper Abertawe Valley fel Pontardawe, Ystalyfera, Gwauncaegurwen ac yn y blaen from its gysylltiad presennol to the Etholaeth Castell-nedd makes no sense.

Another issue with the proposed changes is, currently both constituencies are represented by one Westminster MP, one Senedd Member and one Local Authority Member. The changes will mean that everyone affected by them will be represented by separate Awdurdodau Lleol ac Aelodau'r Senedd Mmbers, sefyllfa sydd and yn gallu achosi dryswch.

Mae Cyngor Tref Castell-nedd telly yn gwrthwynebu'r cynnig hwn.

[REDACTED]
Clerc y Dref - Cyngor Tref Castell-nedd

BCW-9493/ Non Thomas/ Anhysbys**Oddi wrth:** [REDACTED]**Anfonwyd:** Enquiries <enquiries@boundaries.wales>**Cc:** [REDACTED]**Pwnc:** Newidiadau Ffin Arfaethedig i Etholaethau Seneddol yn Nghymru

Wedi gweld y cynigion mae'n achos pryder bod Cwm Cynon yn cael ei dorri yn ei hanner – gan ychwanegu un hanner at etholaeth Merthyr Tudful.

Mae sawl rheswm pam mae hyn yn gwbl annerbyniol:

1. Bydd Merthyr Tudful yn dominyddu'r etholaeth ac fel y cyfryw bydd Cwm Cynon yn dod yn ôl-ystyriaeth mewn unrhyw benderfyniadau.
2. Mae Cwm Cynon yn wynebu heriau a phroblemau sy'n effeithio ar yr ardal gyfan: diffyg buddsoddiad, diffyg cyfleoedd cyflogaeth, ystyriaethau cymdeithasol, tlodi. Mae Merthyr Tudful yn ardal sydd yn y cyfnod diweddar wedi gweld buddsoddiad yn y sectorau hamdden a thwristiaeth gyda chanlyniadau positif ar gyflogaeth a phroffil yr ardal. Yn ogystal, mae cynlluniau i ddatblygu mwy o'r un peth ymhellach: datblygu potensial hanesyddol/twristaidd Castell Cyfarthfa o ganlyniad i fuddsoddiad sylweddol, cynlluniau am ganolfan sgïo dan do a gwesty. Mewn cyferbyniad mae Aberdâr a Chwm Cynon wedi cael eu hesgeuluso o safbwynt twristiaeth a buddsoddiad ac yn cael eu gweld fel perthynas dlawd ochr yn ochr â Merthyr Tudful.
3. O ganlyniad i 2, mae angen cynrychiolaeth ar Gwm Cynon i frwydro dros welliannau a buddsoddiad yn hytrach na chynrychiolydd sy'n gweld Merthyr fel yr uchafbwynt ac Aberdâr a Gogledd Cynon fel ôl-ystyriaeth.
4. Yn ddaearyddol ac yn hanesyddol nid yw Aberdâr /Gogledd Cynon a Merthyr Tudful erioed wedi'u halinio'n agos. Mae'ch cynnig yn debyg i briodas orfod.

Gobeithio y bydd synwyr cyffredin a rhesymeg yn trechu ac y sylweddolwch fod beth rydych chi'n ei gynnig yn gwbl afrealistig ac yn argoeli'n wael i Ogledd Cwm Cynon ac Aberdâr.

Non Thomas

Cynghorydd Cymuned, Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn.

BCW- 9494/ [REDACTED] / Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r Cymoedd yn wahanol iawn i Ganol Pen-y-bont ac felly nid ydy anghenion y gymuned yn gallu cael eu cyfuno'n um. Nid ardal sy'n pleidleisio dros y Toriaid ydy hon ac nid yw byth yn debygol o fod. Mae'r cynigion hyn i newid y ffiniau yn ymgais i erydu democratiaeth ac i estyn dylanwadau'r Toriaid. Byddai'r wlad yn cael ei gwasanaethu'n well gan wleidyddion sy'n cael eu pleidleisio i mewn ar eu haeddiannau yn hytrach na chamddefnyddio data i ennill dylanwad.

Mae'r Ceidwadwyr ar hyn o bryd yn gwbl warthus.

BCW-9495/ [REDACTED] / Caerffili

Rwy'n gwrthwynebu creu ardal cyngor Casnewydd-Caerffili. Mae maint yr ardal yn llawer rhy lydan ac rwy'n teimlo y bydd trigolion Bwrdeistref Caerffili yn colli eu llais ar draul trigolion Casnewydd.

Bydd y newidiadau ffiniau yn arwain at golled democratiaeth yn gyffredinol i etholwyr ledled Cymru. Er fy mod yn deall yr anhawster wrth wneud y map etholiadol yn iawn, rwy'n teimlo nad yw'r cynnig hwn yn cymryd i ystyriaeth hunaniaethau unigryw Caerffili a Chasnewydd fel ei gilydd.

Rwy'n credu y dylai'r cynigion hyn gael eu hailystyried.

BCW-9496/ [REDACTED] / Merthyr Tudful

Mae Merthyr Tudful yn Fwrdeistref Sirol sydd wedi cael ei chlymu o'r blaen â Rhymni. Nawr yn sydyn mae BCW yn dymuno clymu Merthyr ag Aberdâr, yr oedd ganddi ei Haelod Seneddol ei hun!

Ydy'n briodol i un AS gynrychioli o leiaf 67,000 o bobl? Go brin, rwy'n anghytuno â'r cynigion.

BCW-9497/ [REDACTED] / Gorseinon

A dweud y gwir rwy wedi drysu gan y ffiniau newydd sy'n cael eu creu. Nid oes unrhyw fudd dealladwy i uno Gorllewin Abertawe â Gŵyr (yr olaf yw f'etholaeth i), nid yw'r ffin newydd yn ymddangos petai'n cynyddu'r siawns y bydd pleidiau gwahanol yn ennill yng nghadarnle Llafur o gwbl; mae angen ei ail-lunio er mwyn rhoi cyfle tecach, mwy democrataidd i bleidiau eraill – neu man a man gwneud Abertawe a Gŵyr yn un etholaeth.

A barnu yn ôl ail-lunio Pen-y-bont ar Ogwr yn etholaeth Lafur, yn ôl pob golwg does dim diddordeb mewn democratiaeth yn y ffiniau newydd hyn.

Er ei bod yn ymddangos bod y Blaid Geidwadol yn ennill rhyw 12 sedd, mae sedd Caerfyrddin, a oedd sedd Ceredigion a sedd Dwyrain Sir Gâr a Dinefwr o'r blaen, yn cael ei rhoi i'r Blaid Geidwadol hefyd; mae hyn yn arwain at Blaid Cymru yn colli dwy sedd.

Rwy wedi siomi'n llwyr gan y newidiadau hyn; yn enwedig o ystyried eu bod wedi'u seilio ar y ffaith bod gan Gymru (40 sedd) ormod o seddi o'i chymharu â Lloegr (533 sedd), y wlad sy'n rheoli tua 80% o seddi'r DU; rydyn ni erbyn hyn yn gweld mwy o seddi'n cael eu trosglwyddo i Loegr o Gymru a'r Alban (59 sedd).

Afraid dweud, mae'n ymddangos - er bod y Blaid Geidwadol mewn cydbwysedd gwell â Llafur - na fydd pleidiau llai ar eu hennill ragor, mae Plaid Cymru yn arbennig yn fictim deuocratiaeth ddamweiniol sy'n deillio o'r diwygiadau ffiniau hyn.

Rwy'n erfyn yn gryf ar y comisiwn ffiniau, os na allan nhw gadw ffiniau fel y maen nhw ar hyn o bryd, i ail-lunio eu ffiniau er mwyn caniatáu siawns i bleidiau llai yn ein hetholiadau; i greu siawns tecach yn arbennig i bleidiau llai o faint.

BCW-9498/ [REDACTED] / Tredegar

Rwy'n credu bod y ffaith bod llywodraeth lloegr yn mynnu y cawn lai o ASau yn ddirmygadwy ac yn rhywbeth dylai gweinidogion Cymru fod yn brwydro yn ei erbyn.

Pam nad ydych chi wedi bod?

Rydych chi i fod yn un o'r bobl sy'n brwydro dros hawliau Cymru, gwnewch hynny plis, dewch ag ef i'r Senedd, pleidleisiwch yn ei erbyn, unrhyw beth i amddiffyn ein hawliau pleidleisio.

BCW-9499 / [REDACTED] / Y Felinheli

Mrs Shereen Williams MBE

Fy enw yw [REDACTED]. Wedi ymddeol o'm swydd fel Prif Swyddog mewn Llywodraeth Leol cefais y fraint a'r anrhydedd o fod yn aelod o Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (fel galwyd ef ar y pryd). Cefais amser pleserus iawn yng nghwmni fy nghyd Gomisiynwyr a staff y Comisiwn a mwynhad o'r mwyaf oedd y chwe mlynedd a dreuliais fel Comisiynydd. Nid oedd amgylchiadau, ar y pryd, yn caniatáu i mi roi amser i edrych yn fanwl ar yr argymhellion yn Arolwg2018. Ond cefais y cyfle i fynychu'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ym Mangor am ran o'r amser.

Roeddwn yn gefnogol i'r patrwm o etholaethau oedd yn cael eu cynnig yng Ngogledd Cymru. Roeddynt ar y cyfan yn creu etholaethau yn cynrychioli ardaloedd oedd yn wahanol eu naws. Yn fy marn i mae gan Ogledd Cymru, yn fras, dair ardal wahanol, sef yr arfordir, ardal ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, a'r gweddill i raddau helaeth yn ardal wledig. Mae problemau'r ardaloedd yn wahanol, ac mae angen i'w cynrychiolwyr etholedig fedru canolbwyntio arnynt. Felly dyna fan cychwyn fy adroddiad. Rwyf yn gryf o'r farn fy mod wedi llwyddo i greu etholaethau i gynrychioli'r ardaloedd uchod, Mae'r patrwm o etholaethau yn dilyn i raddau helaeth beth oedd yng Nghynigion 2018. Felly mae yma sail i'r Comisiwn ail ystyried eu gynigion a boed yr adroddiadhwn yn sail iddynt wneud hynny.

Rwyf hefyd yn amgáu taenlen (yn Saesneg) syn cynnwys gwybodaeth gefndir i'r adroddiad, gyda'rgobaith y bydd o gymorth i'r rhai fydd yn asesu'r adroddiad.

A fuasech mor garedig a chydabod eich bod wedi derbyn fy e-bost


[REDACTED]

Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol Cynigion Cychwynnol

Adroddiad



Gogledd Ddwyrain Cymru



Gogledd Orllewin Cymru

Hefyd addasiadau i etholaethau Wrecsam a Maldwyn Glyndŵr

Yn y rhan gyntaf o'r adroddiad mae'r sylwadau ar etholaethau Gogledd Ddwyrain Cymru â Maldwyn a Glyndwr. Rwyf yn cychwyn gyda golwg ar siroedd Clwyd, Delyn ac Alun a Glannau Dyfrdwy.

Rwyf yn gryf o'r farn bod yna dair ardal wahanol yn y rhan yma o'r Gogledd:-

1. **Arfordir** - Gyda twristiaeth fel ei phrif ddiwydiant a'i phoblogaeth o bobl mewn oed.
2. **Ardal Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy** - Gyda'i chanolfannau poblog a diwydiant.
3. **Cefn Gwlad** - Yn gasgliad o drefi marchnad gyda'r wlad o'i hamgylch yn ddibynnol ar amaethyddiaeth a thwristiaeth.

Felly fy nhasg gyntaf oedd gweld os oedd yn ymarferol i greu tair etholaeth o fewn canllawiau'r Comisiwn.

Wrth gychwyn ar y gwaith daeth i'm cof mai rhywbeth ar y patrwm yma oedd cynigion terfynol y Comisiwn yn 2018. Wedi gyrru e-bost atoch cefais gopi o'r adroddiad terfynol, ac rwy'n ddiolchgar am eich cymorth. Rwyf yn cynnwys y map sy'n dangos cynigion y Comisiwn fel **Atodiad 1**. Roedd hyn yn ysbrydoliaeth i mi fynd ymlaen gyda'm tasg gan fy mod o'r farn bod gennyf gynsail i beth oeddwn yn gobeithio ei gyflawni

Wedi didoli'r wardiau i'r tri categori dyma oedd y canfyddiad:-

Isafswm	69,724	Uchafswm	77,062
Posibiliadau		Cynigion	
Arfordir	76,863	Alun a Glannau Dyfrdwy	74,144
Diwydiannol	75,692	Clwyd	76,380
Cefn Gwlad	74,043	Delyn	76,074
Cyfanswm	226,598	Cyfanswm	226,598

Y cam nesaf oedd cadarnhau bod nifer y pleidleiswyr yn y golofn Posibiliadau yn cyd-fynd a'r nifer yn y golofn Cynigion, a gwelir uchod fod hyn wedi cael ei fodloni.

Mae'r uchod hefyd yn cyd-fynd â anghenion y Comisiwn bod nifer yr etholwyr o fewn yr ystod o 69,724 i 77,062

Mae'r atodiadau canlynol yn cynnwys y wybodaeth o sut y cafwyd yr uchod.

Atodiad 2 Yr Arfordir

Atodiad 3 Ardal Diwydiannol

Atodiad 4 Cefn Gwlad

Felly symud ymlaen i edrych ar ardal Wrecsam a Maldwyn Glyndwr. Rwy'n siŵr y bydd Cyngor Sir Ddinbych am i chwi weld eich ffordd i beidio cynnwys wardiau Llandrillo, Corwen a Llangollen yn etholaeth Maldwyn Glyndwr. Yn ddaearyddol nid yw hyn yn gwneud synnwyr gan fod mynyddoedd y Berwyn rhwng Dyffryn Dyfrdwy a Maldwyn. Problem arall yw yn yr ardal wledig uchod yw gyda lleoliad Brymbo a Mwynglawdd a ddylai fod yn etholaeth Wrecsam. Yn barod yn y cynigion mae'r Comisiwn wedi derbyn bod rhaid cynnwys rhan o etholaeth Wrecsam, a nodir mewn map ar wahân fel 'Ardal Llangollen' fel rhan o etholaeth Maldwyn a Glyndwr. Felly dyma fy nghynigion i ddod dros y problemau uchod. Yn gyntaf, trosglwyddo Brymbo a Mwynglawdd i etholaeth Wrecsam

Wrecsam		75,596
Mwynglawdd	1,870	77,466
Brymbo	3,021	80,487

Mae hyn yn golygu bod nifer yr etholwyr o 80,487 ddim o fewn y canllawiau

Felly ymlaen i drafod etholaeth Maldwyn a Glyndwr. Mae trosglwyddo Llangollen, Corwen a Llandrillo i Gefn Gwlad eto yn creu problem gyda nifer yr etholwyr.

Maldwyn a Glyndŵr	72363
Llandrillo	-931
Corwen	-1799
8 Llangollen	-3302
Cyfanswm	66,331

Y ffordd i ddatrys sefyllfa Wrecsam a Maldwyn a Glyndŵr yw drwy ymestyn 'Ardal Llangollen' gan drosglwyddo wardiau Johnstown a Pant o etholaeth Wrecsam i Faldwyn a Glyndŵr. Os yw hyn ym marn y Comisiwn yn annigonol yna gellir ychwanegu yr ardal nesaf o etholaeth Wrecsam sef Ponciau gyda 3521. Rwyf am adael y mater yna i ddoethineb y Comisiwn. Cyfanswm newydd Maldwyn Glyndŵr yw 70,320

Maldwyn a Glyndŵr	66,331
13 Johnstown	2,461
22 Pant	1,528
Cyfanswm	70,320

Mae hyn yn gwneud gwell ffin o amgylch etholaeth Wrecsam heb leihau nifer yr etholwyr, yn wir mae yma ychydig o gynnydd. Felly mae gan Wrecsam gyfanswm o 76,498 o etholwyr.

Wrecsam		75,596
Mwynglawdd	1,870	77,466
Brymbo	3,021	80,487
13 Johnstown	-2,461	78,026
22 Pant	-1,528	76,498

Effaith hyn ar Gefn Gwlad yw bod yr oll o Gyngor Sir Ddinbych yn yr etholaeth hon heblaw am y wardiau yn etholaeth yr Arfordir. Felly y sefyllfa gyda Cefn Gwlad yw etholaeth o 75,184

Cefn Gwlad		74,043
Brymbo	-3021	71,022
Mwynglawdd	-1870	69,152
Llandrillo	931	70,083
Corwen	1799	71,882
8 Llangollen	3302	75,184

Yna yn olaf at yr etholaeth Cefn Gwlad. Rydym yn barod wedi trafod trosglwyddo Brymbo a Mwynglawdd i Wrecsam, a throsglwyddo Llandrillo, Corwen a Llangollen o Faldwyn a Glyndŵr. Un mater sydd ar ôl sef wardiau Llansannan a Betws yn Rhos. buasai'n fuddiol i drosglwyddo y rhain i etholaeth Aberconwy gan eu bod yn Sir Conwy. A byddai hyn yn ychwanegu at nifer yr etholwyr yn Aberconwy a'i dod yn nes at gwota etholiadol y DU. A gweler isod y ffigyrau diweddaraf gyda 71,901 o etholwyr yng Nghefn Gwlad a 73,027 yn Aberconwy.

Cefn Gwlad	75,184
Llansannan	-1495
Betws yn Rhos	-1,623
Cyfanswm	72,066

Aberconwy	69,909
Llansannan	1,495
Betws yn Rhos	1,623
Cyfanswm	73,027

Cyn gorffen y rhan yma o'r adroddiad dyma ddau sylw ar Arfordir Gogledd Ddwyrain Cymru a'r Gogledd Ddwyrain Cymru Ddiwydiannol. Gyda'r Arfordir mae un anfantais fach ei fod yn cynnwys wardiau o dair sir. Ond mantais gyda'r ardal Ddiwydiannol yw ei bod i gyd yn Sir y Fflint.

Felly rwyf yn argymhell y canlynol fel Etholaethau i Ogledd Ddwyrain Cymru, gyda dadansoddiad pellach o Aberconwy isod

Atodiad 5 Arfordir Gogledd Ddwyrain Cymru

Atodiad 6 Gogledd Ddwyrain Cymru Ddiwydiannol

Atodiad 7 Cefn Gwlad Gogledd Ddwyrain Cymru

Atodiad 8 Wrecsam

Atodiad 9 Maldwyn a Glyndŵr

Felly cyn symud ymlaen i edrych ar Ogledd Orllewin Cymru mae angen gweld os oes cytundeb yn y niferoedd o etholwyr rhwng yr Argymhellion a'r Cynigion wedi'r newidiadau uchod.

Argymhellion		Cynigion	
Arfordir	76,863	Alun a Glannau Dyfrdwy	74,144
Diwydiannol	75,692	Clwyd	76,380
Cefn Gwlad	72,066	Delyn	76,074
Wrecsam	76,498	Wrecsam	75,596
Maldwyn a Glyndŵr	70,320	Maldwyn a Glyndŵr	72,363
Aberconwy	73,027	Aberconwy	69,909
Cyfanswm	444,466	Cyfanswm	444,466

Awn ymlaen i drafod etholaethau Aberconwy, Dwyfor Meirionnydd a chynnwys wardiau Llansannan a Betws yn Rhos o Glwyd. Yma eto mae achos i ystyried rhannu'r wardiau i ddwy ardal sef un arfordirol ac un gwledig.

Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod hyn yn bosibl.

Posibiliadau		Cynigion	
Arfordir	74,256	Clwyd	3,118
Cefn Gwlad	70,733	Aberconwy	69,909
		Dwyfor Meirionnydd	71,962
Cyfanswm	144,989	Cyfanswm	144,989

Mae dadansoddiad ar gyfer yr arfordir yn ail greu i raddau helaeth hen sedd Gonwy gydag estyniad i'r gorllewin o Fangor i gynnwys Caernarfon. Yn ddelfrydol, dylai'r etholiad gynnwys wardiau 1 Waunfawr a 22 Llanberis, y wardiau i'r de orllewin o Gaernarfon, ond buasai hyn yn mynd a'r nifer o etholwyr dros yr uchafswm.

Mae cynnwys y wardiau o Glwyd wedi gwneud yn siŵr bod y nifer o etholwyr Cefn Gwlad yn dod o fewn yr 'amrediad etholiadol statudol' sydd gan y Comisiwn. Felly rwyf yn argymhell bod y ddwy etholaeth sydd yn Atodiad 10 a 11 yn cael eu mabwysiadu gan y Comisiwn.

Atodiad 10 Arfordir Gogledd Orllewin Cymru

Atodiad 11 Cefn Gwlad Gogledd Orllewin Cymru

Mae angen cadarnhau bod nifer yr etholwyr yn yr argymhellion yn cyd-fynd gyda ffigurau'r comisiwn.

Isafswm	69,724		Uchafswm	77,062
Argymhellion			Cynigion y Comisiwn	
Arfordir Dwyreiniol	76,863		Alun a Glannau Dyfrdwy	74,144
Diwydiannol Dwyreiniol	75,692		Clwyd	76,380
Cefn Gwlad Dwyreiniol	72,066		Delyn	76,074
Wrecsam	76,498		Wrecsam	75,596
Maldwyn a Glyndŵr	70,320		Maldwyn a Glyndŵr	72,363
Arfordir Gorllewinol	74,256		Aberconwy	69,909
Cefn Gwlad Gorllewinol	70,733		Dwyfor Meirionnydd	71,962
Cyfanswm	516,428		Cyfanswm	516,428


Ar y diwedd dyma fapiau o'r etholaethau yn y dwyrain a'r gorllewin o Ogledd Cymru

Atodiad 12 Etholaethau Arfordir, Diwydiannol a Chefn Gwlad Gogledd Dwyrain Cymru

Atodiad 13 Etholaethau Arfordir a Chefn Gwlad Gogledd Orllewinol Cymru

Roeddwn ychydig yn bryderus pan welais gynigion y comisiwn am y tro cyntaf pan welais bod wardiau Mwynglawdd a Brymbo yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae'r ffordd o ddatrys hynny wedi ei drafod uchod. Ar ail fater oedd bod ardal Llandyrnog a'r Ruthin yn etholaeth Delyn. Roedd bod prif dref Dyffryn Clwyd a phencadlys y Cyngor Sir ddim yn etholaeth Clwyd yn creu pryder i mi. Mae fy awgrym o greu ardal Cefn Gwlad yn dod dros y broblem yma.

Rwyf yn gryf o'r farn bod yr argymhellion uchod yn cyd fynd â naws adroddiad terfynol y Comisiwn yn 2018. Roeddwn ar y pryd yn gefnogol iawn i gynigion y Comisiwn. Rwy'n gobeithio bod yr uchod yn dangos bod posibiladau tebyg yn yr arolwg hwn. Rwy'n siŵr y caiff hyn sylw manwl gan y Comisiwn ac yn gobeithio y byddant yn derbyn bod angen newid yr argymhellion presennol, gyda'r adroddiad hwn yn fan cychwyn i wneud hynny.



Atodiad 2

Yr Arfordir

**Clwyd Arfordirol**

7 Rhiw	4991
5 Glyn	3088
10 Eirias	2800
13 Colwyn	3373
11 Llysfaen	1,906
12 Llanddulas	1,353
16 Pentre Mawr	2,861
17 Abergele Pensarn	1,959
18 Tywyn	1,845
8 Gele	3,997
15 Bae Cinnel	4,607
4 Gorrlewin Y Rhyl	3,283
6 De Orllewin Y Rhyl	3,732
21 De Y Rhyl	2,874
22 De Ddwyrain Y Rhyl	6,253
23 Dwyrain Y Rhyl	3,693
9 Rhuddlan	2,913
2 Bolelwyddan	1,612
Cyfanswm	57,140

Delyn Arfordirol

24 Gronant	1,257
17 Ffynnongroyw	1,474
13 Gogledd Prestatyn	4,729
20 De Orllewin Prestatyn	2,861
14 Canol Prestatyn	2,829
19 Prestatyn Allt Melyd	1,529
18 Dwyrain Prestatyn	3,162
4 Dyserth	1,882
Cyfanswm	19,723

Cyfanswm yr Etholaeth 76,863

Atodiad 3

Ardal Ddiwydiannol



Delyn Ddiwydiannol

Mostyn	1,458
9 Maesglas	1,983
8 Gorllewin Treffynnon	1,762
30 Canol Treffynnon	1,465
26 Dwyrain Treffynnon	1,383
11 Gorllewin Bagillt	1,625
25 Dwyrain Bagillt	1,413
10 Coleshill Y Fflint	2,938
2 Castell Y Fflint	1,426
7 Trelawny Y Fflint	2,710
22 Oakenholt Y Fflint	2,538
Total	20,701

Alun a Glannau Dyfrdwy Ddiwydiannol

11 Cei Conna Golftyn	3,688
18 De Cei Conna	4,494
14 Canol Cei Conna	2,213
13 Cei Conna Gwepa	1,647
Sealand	2,026
12 Gorllewin Shotton	1,464
20 Dwyrain Shotton	1,219
7 Shotton Uchaf	1,669
2 Aston	2,508
5 Mancot	2,516
6 Queensferry	1,248

3 Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug	1,100
1 Saltney Stonebridge	2,672
Gogledd Ddwyrain Brychdyn	1,723
10 De Brychdyn	3,325
Ewlo	4,327
17 Mynydd Bwcle	2,555
16 Pentrobin Bwcle	4,181
15 Dwyrain Bistre Bwcle	2,653
4 Gorllewin Bistre Bwcle	3,182
Argoed	2,167
8 New Brighton	2,414
Total	54,991

Cyfanswm yr Etholaeth 75,692

Atodiad 4**Cefn Gwlad****Cefn Gwlad Clwyd**

Betws yn Rhos	1,623
Llansanan	1,495
3 Dwyrain Llanellwy	1,472
20 Gorllewin Llanellwy	1,290
Trefnant	1,503
1 Dinbych Isaf	3,483
19 Canol Dinbych	1,462
14 Dinbych Uchaf/Henllan	2,265
Llanrhaeadr Yng Nghimeirch	1,496
Efelnechtyd	1,321
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	1,830
Cyfanswm	19,240

Cefn Gwlad Delyn

16 Trelawnwyd a Gwanysgor	1,496
Chwitffordd	1,911
Tremeirchion	1,344
Caerwys	2,050
15 Brynfford	1,789
Helygain	1,427
Cilcain	1,519
21 Northop	2,596
12 Northop Hall	1,398
23 Dwyrain Yr Wyddgrug	1,556
28 Gorllewin Yr Wyddgrug	1,956
29 Broncoed Yr Wyddgrug	2,134
27 De Yr Wyddgrug	2,201
6 Gwernaffield	1,646
1 Gwernymynydd	1,399
Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla	2,033
3 Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	1,170
Llandyrnog	1,765
5 Ruthun	4,260
Total	35,650

**Cefn Gwlad Alun a Glannau Dyfrdwy**

9 Penarlâg	1,623
Penyffordd	3,543
Higher Kinnerton	1,373
Coed Llai	1,627
Yr Hôb	2,042
Llanfynydd	1,483
Treuddyn	1,346
19 Caergwrle	1,225
Brymbo	3,021
Mwynglawdd	1,870
Total	19,153

Cyfanswm yr Etholaeth 74,043

Atodiad 5**Arfordir Gogledd Ddwyrain Cymru****Clwyd Arfordirol**


7 Rhiw	4991
5 Glyn	3088
10 Eirias	2800
13 Colwyn	3373
11 Llysfaen	1,906
12 Llanddulas	1,353
16 Pentre Mawr	2,861
17 Abergele Pensarn	1,959
18 Tywyn	1,845
8 Gele	3,997
15 Bae Cinnel	4,607
4 Gortllewin Y Rhyl	3,283
6 De Orllewin Y Rhyl	3,732
21 De Y Rhyl	2,874
22 De Ddwyrain Y Rhyl	6,253
23 Dwyrain Y Rhyl	3,693
9 Rhuddlan	2,913
2 Bolelwyddan	1,612
Cyfanswm	57,140

Delyn Arfordirol

24 Gronant	1,257
17 Ffynnongroyw	1,474
13 Gogledd Prestatyn	4,729
20 De Orllewin Prestatyn	2,861
14 Canol Prestatyn	2,829
19 Prestatyn Allt Melyd	1,529
18 Dwyrain Prestatyn	3,162
4 Dyserth	1,882
Cyfanswm	19,723

Cyfanswm yr Etholaeth 76,863

Atodiad 6 Gogledd Ddwyrain Cymru Ddiwydiannol



Alun a Glannau Dyfrdwy Ddiwydiannol

11 Cei Conna Golftyn	3,688
18 De Cei Conna	4,494
14 Canol Cei Conna	2,213
13 Cei Conna Gwepa	1,647
Sealand	2,026
12 Gorllewin Shotton	1,464
20 Dwyrain Shotton	1,219
7 Shotton Uchaf	1,669
2 Aston	2,508
5 Mancot	2,516
6 Queensferry	1,248

3 Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug	1,100
1 Saltney Stonebridge	2,672
Gogledd Ddwyrain Brychdyn	1,723
10 De Brychdyn	3,325
Ewloe	4,327
17 Mynydd Bwcle	2,555
16 Pentrobin Bwcle	4,181
15 Dwyrain Bistre Bwcle	2,653
4 Gorllewin Bistre Bwcle	3,182
Argoed	2,167
8 New Brighton	2,414
Total	54,991

Cyfanswm yr Etholaeth 75,692



Cefn Gwlad Clwyd

3 Dwyrain Llanellwy	1,472
20 Gorllewin Llanellwy	1,290
Trefnant	1,503
1 Dinbych Isaf	3,483
19 Canol Dinbych	1,462
14 Dinbych Uchaf/Henllan	2,265
Llanrhaeadr Yng Nghimeirch	1,496
Efelnechtyd	1,321
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	1,830
Cyfanswm	16,122

Cefn Gwlad Alun a Glannau Dyfrdwy

9 Penarlâg	1,623
Penyffordd	3,543
Higher Kinnerton	1,373
Coed Llai	1,627
Yr Hôb	2,042
Llanfynydd	1,483
Treuddyn	1,346
19 Caergwrle	1,225
Cyfanswm	14,262

Cefn Gwlad Delyn

16 Trelawnwyd a Gwanysgor	1,496
Chwitffordd	1,911
Tremeirchion	1,344
Caerwys	2,050
15 Brynfford	1,789
Helygain	1,427
Cilcain	1,519
21 Northop	2,596
12 Northop Hall	1,398
23 Dwyrain Yr Wyddgrug	1,556
28 Gorllewin Yr Wyddgrug	1,956
29 Broncoed Yr Wyddgrug	2,134
27 De Yr Wyddgrug	2,201
6 Gwernaffield	1,646
1 Gwernymynydd	1,399
Llanarmon-yn-lâl/Llandegla	2,033
3 Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	1,170
Llandyrnog	1,765
5 Ruthun	4,260
Cyfanswm	35,650

Maldwyn a Glyndŵr

Llandrillo	931
Corwen	1799
8 Llangollen	3302
Cyfanswm	6,032

Cyfanswm yr Etholaeth 72,066

Nodyn

Mwynglawdd wedi ei drosglwyddo i Wrecsam
 Brymbo wedi ei drosglwyddo i Wrecsam
 Betws yn Rhos wedi ei drosglwyddo i Aberconwy
 Llansannan wedi ei drosglwyddo i Aberconwy

Atodiad 8

Wrecsam



Cyfanswm Etholwyr Wrecsam **75596**


Trosglwyddo i mewn

Mwynglawdd (Alun a Glannau Dyfrdwy}	1870
Brymbo (Alun a Glannau Dyfrdwy}	3021

Trosglwyddo Allan

13 <u>Johnstown</u> (Wrecsam)	-2461
22 Pant (Wrecsam)	-1528

Cyfanswm yr Etholaeth **76498**

Atodiad 9**Maldwyn a Glyndŵr
(Rhan ogleddol o'r map yn unig)**

Cyfanswm Etholwyr **72363**
Maldwyn a Glyndŵr

Trosglwyddo i mewn o
Wrecsam

22 Pant	1528	73891
13 Johnstown	2461	76352


Trosglwyddo allan i
Maldwyn a Glyndŵr

Llandrillo	-931	75421
Corwen	-1799	73622
8 Llangollen	-3302	70320

Cyfanswm yr Etholaeth 70,320

Atodiad 10

Arfordir Goglewinol

**Dwyfor Meirionnydd**

21 Pentir	2,159
16 Y Felinheli	1,803
17 Bethel	1,025
19 Penisarwaun	1,365
53 Llanrug	1,396
15 Cwm-y-Glo	753
20 Deiniolen	1,463
51 Cadnant	1,514
52 Menai (Caernarfon)	1,724
50 Seiont	2,233
42 Peblig (Caernarfon)	1,603
Cyfanswm	17,038

Aberconwy

1 Gogarth	2,795
4 Mostyn	2,758
21 Tudno	3,591
Craig-y-Don	2,685
5 Penrhyn	3,874
14 Llandrillo yn Rhos	6,110
19 Mochdre	1,425
22 Pensarn	2,274
23 Marl	3,539
20 Deganwy	3,289
3 Conwy	3,295
6 Capelulo	1,284
18 Pant-yr-afon/ Penmaenan	2,167
9 Pandy	1,463
8 Bryn	1,390
Arlechwedd	1,091
29 Garth	556
12 Hiracl	1,066
27 Marchog	1,579
11 Deiniol	920
26 Menai (Bangor)	1,548
16 Glyder	1,257
10 Hendre	940
17 Dewi	1,301
7 Gerlan	1,696
28 Ogwen	1,697
15 Tregarth & Mynydd Llandygai	1,628
Cyfanswm	57,218


Cyfanswm yr Etholaeth 74,256

Atodiad 11

Cefn Gwlad Gogledd Orllewin Cymru

Abeconwy	
Betws-y-Coed	967
Caerhun	1,677
2 Crwst	1,581
Eglwysbach	1,257
13 Llansanffraid	1,814
Trefriw	1,026
Uwch Conwy	1,276
Llangernyw	1,104
Uwchaled	1,139
25 Gower	850
Cyfanswm	12,691

Clwyd	
Betws yn Rhos	1,623
Llansannan	1,495
Cyfanswm	3,118




Dwyfor Meirionnydd	
27 Aberdaron	698
7 Aberdovey	907
10 Abererch	986
2 Abermaw	1,591
40 Abersoch	519
56 Bala	1,413
47 Botwnnog	734
38 Bowydd & Rhiw	1,235
44 Brithdir & Llanfachreth/Ganllwyd/Llanellt	1,132
23 Bryn-crug/Llanfihangel	772
33 Clynog	736
43 Corris/Mawddwy	1,023
4 Criccieth	1,280
55 Diffwys & Maenofferen	779
46 Dolbenmaen	900
28 Dolgellau North	953
48 Dolgellau South	1,072
29 Dyffryn Ardudwy	1,169
9 Efail-newydd/Buan	1,026

35 Harlech	1,516
32 Llanaelhaearn	1,187
30 Llanbedr	768
41 Llanbedrog	709
Llandderfel	1,135
26 Llanengan	847
22 Llangelynin	1,625
Llanuwchllyn	686
31 Llanystumdwy	1,547
24 Morfa Nefyn	945
25 Nefyn	1,003
45 Penrhyndeudraeth	1,826
54 Dwyrain Porthmadog	1,178
18 Gorllewin Porthmadog	1,329
36 Porthmadog-Tremadog	933

6 Gogledd Pwllheli	1,528
49 De Pwllheli	1,310
37 Teigl	1,355
Trawsfynydd	1,088
8 Tudweiliog	668
3 Tywyn	2,476
14 Bontnewydd	865
13 Groeslon	1,374
39 Llanberis	1,613
11 Llanllyfni	915
34 Llanwnda	1,507
5 Penygroes	1,369
12 Talysarn	1,399
1 Waunfawr	1,298
Cyfanswm	54,924

Cyfanswm yr Etholaeth 70,733





- 1 Clwyd - Arfordir+Cefn Gwlad
- 2 Delyn - Arfordir+Cefn Gwlad + Diwydiannol
- 3 Alyn and Deeside Diwydiannol+Cefn Gwlad
- 4 Etholaeth Arfordir
- 5 Etholaeth Diwydiannol
- 6 Etholaeth Cefn Gwlad
- 7 Etholaeth Arfaethedig Arfordir Gogleddddwyrain Cymru
- 8 Etholaeth Arfaethedig Diwydiannol Gogleddddwyrain Cymru
- 9 Etholaeth Arfaethedig Cefn Gwlad Gogleddddwyrain Cymru
- 10 Etholaeth Arfaethedig Wrecsam
- 11 Etholaeth Arfaethedig Maldwyn a GLYNDŴR
- 12 Aberconwy
- 13 Dwyfor Meirionnydd
- 14 Trosglwyddwyd o Clwyd
- 15 Etholaeth Arfaethedig Arfordir Gogledd Gorllewin Cymru
- 16 Etholaeth Arfaethedig Cefn Gwlad Gogledd Gorllewin Cymru
- 17 Golwg Terfynol
- 18 Etholaethau Arfaethedig Gogleddddwyrain Cymru
- 19 Etholaethau Arfaethedig Gogledd gorllewin Cymru

CLWYD**Arfordir**

7 Rhiw	4,991
5 Glyn	3,088
10 Eirias	2,800
13 Colwyn	3,373
11 Llysfaen	1,906
12 Llanddulas	1,353
16 Pentre Mawr	2,861
17 Abergele Pensarn	1,959
18 Towyn	1,845
8 Gele	3,997
15 Kinmel Bay	4,607
4 Rhyl West	3,283
6 Rhyl South West	3,732
21 Rhyl South	2,874
22 Rhyl South East	6,253
23 Rhyl East	3,693
2 Bolelwyddan	1,612
9 Rhuddlan	2,913

Cyfanswm**57,140****Cefn Gwlad**

Betws yn Rhos	1,623
Llansanan	1,495
3 St Asaph East	1,472
20 St Asaph West	1,290
Trefnant	1,503
1 Denbigh Lower	3,483
19 Denbigh Central	1,462
14 Denbigh Upper/Henllan	2,265
Llanrhaeadr Yng Nghimeirch	1,496
Efelnechtyd	1,321
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	1,830

Cyfanswm**19,240****Cyfanswm Etholaeth****76,380****76,380**

DELYN**Arfordir**

13 Prestatyn North	4,729	
20 Prestatyn South West	2,861	
14 Prestatyn Central	2,829	
19 Prestatyn Meliden	1,529	
18 Prestatyn East	3,162	
24 Gronant	1,257	
17 Ffynnongroyw	1,474	
4 Dyserth	1,882	
TOTAL		19,723

Diwydiannol

Mostyn	1,458	
9 Greenfield	1,983	
8 Holywell West	1,762	
30 hollywell Central	1,465	
26 Holywell East	1,383	
11 Bagillt West	1,625	
25 Bagillt East	1,413	
10 Flint Coleshill	2,938	
2 Flint Castle	1,426	
7 Flint Trelawny	2,710	
22 Flint Oakenholt	2,538	
Cyfanswm		20,701

Cefn Gwlad

16 Trelawnwyd a Gwanysgor	1,496	
Whitford	1,911	
Tremeirchion	1,344	
Caerwys	2,050	
15 Brynford	1,789	
Halkyn	1,427	
Cilcain	1,519	
21 Northop	2,596	
12 Northop Hall	1,398	
23 Mold East	1,556	
28 Mold West	1,956	
29 Mold Broncoed	2,134	
27 Mold South	2,201	
6 Gwernaffield	1,646	
1 Gwernymynydd	1,399	
Llanarmom yn ial	2,033	
3 Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	1,170	
Llandyrnog	1,765	
5 Ruthin	4,260	
Cyfanswm		35,650

Cyfanswm Etholaeth	76,074	76,074
---------------------------	---------------	---------------

ALYN AND DEESIDE**Diwydiannol**

11 Connah's Quay Golftyn	3,688	
18 Connah's Quay South	4,494	
14 Connah's Quay Central	2,213	
13 Connah's Quay Wepre	1,647	
Sealand	2,026	
12 Shotton West	1,464	
20 Shotton East	1,219	
7 Shotton Higher	1,669	
2 Aston	2,508	
5 Mancot	2,516	
6 Queensferry	1,248	
3 Saltney Mold Junction	1,100	
1 Saltney Stonebridge	2,672	
Brooughton North East	1,723	
10 Broughton South	3,325	
Ewloe	4,327	
17 Buckley Mountain	2,555	
16 Buckley Pentrerobin	4,181	
15 Buckley Bistre East	2,653	
4 Buckley Bistre West	3,182	
Argoed	2,167	
8 New Brighton	2,414	
Cyfanswm		54,991

Cefn Gwlad

9 Hawarden	1,623	
Penyffordd	3,543	
Higher Kinnerton	1,373	
Leeswood	1,627	
Hope	2,042	
Llanfynydd	1,483	
Treuddyn	1,346	
19 Caergwrle	1,225	
Brymbo	3,021	
Minera	1,870	
Cyfanswm		19,153

Cyfanswm Etholaeth	74,144	74,144
---------------------------	---------------	---------------

Etholaeth Arfordir



Arfordir CLWYD

7 Rhiw	4,991
5 Glyn	3,088
10 Eirias	2,800
13 Colwyn	3,373
11 Llysfaen	1,906
12 Llanddulas	1,353
16 Pentre Mawr	2,861
17 Abergele Pensarn	1,959
18 Towyn	1,845
8 Gele	3,997
15 Kinmel Bay	4,607
4 Rhyl West	3,283
6 Rhyl South West	3,732
21 Rhyl South	2,874
22 Rhyl South East	6,253
23 Rhyl East	3,693
9 Rhuddlan	2,913
2 Bolelwyddan	1,612

Cyfanswm **57,140**

24 Gronant	1,257
17 Ffynnongroyw	1,474
13 Prestatyn North	4,729
20 Prestatyn South West	2,861
14 Prestatyn Central	2,829
19 Prestatyn Meliden	1,529
18 Prestatyn East	3,162
4 Dyserth	1,882

Cyfanswm **19,723**

Cyfanswm Etholaeth **76,863** **76,863**

Etholaeth Diwydiannol



Diwydiannol DELYN

Mostyn	1,458	
9 Greenfield	1,983	
8 Holywell West	1,762	
30 Hollywell Central	1,465	
26 Holywell East	1,383	
11 Bagillt West	1,625	
25 Bagillt East	1,413	
10 Flint Coleshill	2,938	
2 Flint Castle	1,426	
7 Flint Trelawny	2,710	
22 Flint Oakenholt	2,538	20,701

Cyfanswm

Diwydiannol ALYN AND DEESIDE RURAL

11 Connah's Quay Golftyn	3,688
18 Connah's Quay South	4,494
14 Connah's Quay Central	2,213
13 Connah's Quay Wepre	1,647
Sealand	2,026
12 Shotton West	1,464
20 Shotton East	1,219

7 Shotton Higher	1,669	
2 Aston	2,508	
5 Mancot	2,516	
6 Queensferry	1,248	
3 Saltney Mold Junction	1,100	
1 Saltney Stonebridge	2,672	
Brooughton North East	1,723	
10 Broughton South	3,325	
Ewloe	4,327	
17 Buckley Mountain	2,555	
16 Buckley Pentrerobin	4,181	
15 Buckley Bistre East	2,653	
4 Buckley Bistre West	3,182	
Argoed	2,167	
8 New Brighton	2,414	54,991
Cyfanswm		
Cyfanswm Etholaeth	75,692	75,692

Etholaeth Cefn Gwlad

CLWYD Cefn Gwlad

Betws yn Rhos	1,623
Llansanan	1,495
3 St Asaph East	1,472
20 St Asaph West	1,290
Trefnant	1,503
1 Denbigh Lower	3,483
19 Denbigh Central	1,462
14 Denbigh Upper/Henllan	2,265
Llanrhaeadr Yng Nghimeirch	1,496
Efelnechtyd	1,321
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	1,830

Cyfanswm **19,240**

DELYN Cefn Gwlad

16 Trelawnwyd a Gwanysgor	1,496
Whitford	1,911
Tremeirchion	1,344
Caerwys	2,050
15 Brynford	1,789
Halkyn	1,427
Cilcain	1,519
21 Northop	2,596
12 Northop Hall	1,398
23 Mold East	1,556
28 Mold West	1,956
29 Mold Broncoed	2,134
27 Mold South	2,201
6 Gwernaffield	1,646
1 Gwernymynydd	1,399
Llanarmom yn ial	2,033
3 Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	1,170
Llandyrnog	1,765
5 Ruthin	4,260

Cyfanswm **35,650**

ALYN AND DEESIDE Cefn Gwlad

9 Hawarden	1,623
Penyffordd	3,543
Higher Kinnerton	1,373
Leeswood	1,627
Hope	2,042
Llanfynydd	1,483
Treuddyn	1,346
19 Caergwrle	1,225

Brymbo	3,021	
Minera	1,870	
Cyfanswm		19,153
Cyfanswm Etholaeth	74,043	74,043

Etholaeth Arfaethedig Arfordir Gogledddwyrain Cymru



Arfordir CLWYD

7 Rhiw	4,991
5 Glyn	3,088
10 Eirias	2,800
13 Colwyn	3,373
11 Llysfaen	1,906
12 Llanddulas	1,353
16 Pentre Mawr	2,861
17 Abergele Pensarn	1,959
18 Towyn	1,845
8 Gele	3,997
15 Kinmel Bay	4,607
4 Rhyl West	3,283
6 Rhyl South West	3,732
21 Rhyl South	2,874
22 Rhyl South East	6,253
23 Rhyl East	3,693
9 Rhuddlan	2,913
2 Bolelwyddan	1,612


Cyfanswm **57,140**

24 Gronant	1,257
17 Ffynnongroyw	1,474
13 Prestatyn North	4,729
20 Prestatyn South West	2,861
14 Prestatyn Central	2,829
19 Prestatyn Meliden	1,529
18 Prestatyn East	3,162
4 Dyserth	1,882

Cyfanswm **19,723**

Cyfanswm Etholaeth **76,863** **76,863**

Etholaeth Arfaethedig Diwydiannol Gogledddwyrain Cymru



Diwydiannol DELYN

Mostyn	1,458	
9 Greenfield	1,983	
8 Holywell West	1,762	
30 Hollywell Central	1,465	
26 Holywell East	1,383	
11 Bagillt West	1,625	
25 Bagillt East	1,413	
10 Flint Coleshill	2,938	
2 Flint Castle	1,426	
7 Flint Trelawny	2,710	
22 Flint Oakenholt	2,538	20,701

Cyfanswm

Diwydiannol ALYN AND DEESIDE

11 Connah's Quay Golftyn	3,688
18 Connah's Quay South	4,494
14 Connah's Quay Central	2,213
13 Connah's Quay Wepre	1,647
Sealand	2,026
12 Shotton West	1,464
20 Shotton East	1,219

7 Shotton Higher	1,669	
2 Aston	2,508	
5 Mancot	2,516	
6 Queensferry	1,248	
3 Saltney Mold Junction	1,100	
1 Saltney Stonebridge	2,672	
Brooughton North East	1,723	
10 Broughton South	3,325	
Ewloe	4,327	
17 Buckley Mountain	2,555	
16 Buckley Pentrerobin	4,181	
15 Buckley Bistre East	2,653	
4 Buckley Bistre West	3,182	
Argoed	2,167	
8 New Brighton	2,414	54,991
Cyfanswm		
Cyfanswm Etholaeth	75,692	75,692

Etholaeth Arfaethedig Cefn Gwlad Gogledddwyrain Cymru



CLWYD Cefn Gwlad		
Betws yn Rhos	1,623	
Llansanan	1,495	
3 St Asaph East	1,472	
20 St Asaph West	1,290	
Trefnant	1,503	
1 Denbigh Lower	3,483	
19 Denbigh Central	1,462	
14 Denbigh Upper/Henllan	2,265	
Llanrhaeadr Yng Nghimeirch	1,496	
Efenechtyd	1,321	
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	1,830	
Cyfanswm		19,240

DELYN Cefn Gwlad		
16 Trelawnydd a Gwanysgor	1,496	
Whitford	1,911	
Tremeirchion	1,344	
Caerwys	2,050	
15 Brynford	1,789	
Halkyn	1,427	
Cilcain	1,519	
21 Northop	2,596	
12 Northop Hall	1,398	
23 Mold East	1,556	
28 Mold West	1,956	
29 Mold Broncoed	2,134	
27 Mold South	2,201	
6 Gwernaffield	1,646	
1 Gwernymynydd	1,399	
Llanarmon yn Ial	2,033	
3 Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	1,170	
Llandyrnog	1,765	
5 Ruthin	4,260	
Cyfanswm		35,650

ALYN AND DEESIDE Cefn Gwlad		
9 Hawarden	1,623	
Penyffordd	3,543	
Higher Kinnerton	1,373	
Leeswood	1,627	
Hope	2,042	
Llanfynydd	1,483	
Treuddyn	1,346	
19 Caergwrle	1,225	
Brymbo	3,021	
Minera	1,870	19,153
Cyfanswm	74,043	74,043

Dileu oddi uchod		
Brymbo I Wrecsam	-3021	
Minera I Wrecsam	-1870	
Betws yn Rhos i Aberconwy	-1623	
Llansanan i Aberconwy	-1495	
Cynnwys 3 wards oddi		
Maldwyn Glyndŵr		
Llandrillo	931	
Corwen	1799	
8 Llangollen	3302	-1977
Cyfanswm Etholaeth	72,066	72066



Etholaeth Arfaethedig Wrecsam



Etholwyr Wrecsam **75,596** -

Trosglwyddwyd i	
Maldwyn Glyndwr	
13 Johnstown	-2,461
22 Pant	-1,528
Trosglwyddwyd o Wrecsam	
Brymbo	3021
Minera	1870
Etholwyr Arfaethedig Wrecsam	76,498

Etholaeth Arfaethedig Maldwyn a GLYNDŴR



Maldwyn a Glyndŵr
Etholwyr

72363

Trosglwyddwyd I mewn o
Wrecsam

22 Pant	1528	73891
13 Johnstown	2461	76352

Trosglwyddwyd allan o

Gogledd Ddwyrain

Llandrillo	-931	75421
Corwen	-1799	73622
8 Llangollen	-3302	70320

Cyfanswm Etholaeth

70320

Aberconwy

Arfordir

1 Gogarth	2,795
4 Mostyn	2,758
21 Tudno	3,591
24 Craig-y-Don	2,685
5 Penrhyn	3,874
14 Llandrillo yn Rhos	6,110
19 Mochdre	1,425
22 Pensarn	2,274
23 Marl	3,539
20 Deganwy	3,289
3 Conwy	3,295
6 Capelulo	1,284
18 Pant-yr-afon/ Penmaenan	2,167
9 Pandy	1,463
8 Bryn	1,390
Arllechwedd	1,091
7 Gerlan	1,696
28 Ogwen	1,697
15 Tregarth & Mynydd Llandygai	1,628
29 Garth	556
12 Hirael	1,066
27 Marchog	1,579
11 Deiniol	920
26 Menai (Bangor)	1,548
16 Glyder	1,257
10 Hendre	940
17 Dewi	1,301
Cyfanswm	57,218

Cefn Gwlad

Betws-y-Coed	967
Caerhun	1,677
2 Crwst	1,581
Eglwysbach	1,257
13 Llansanffraid	1,814
Trefriw	1,026
Uwch Conwy	1,276
Llangernyw	1,104
Uwchaled	1,139
25 Gower	850
Cyfanswm	12,691

Cyfanswm Etholaeth

69,909

Dwyfor Meirionnydd

Arfordir

21 Pentir	2,159
16 Y Felinheli	1,803
17 Bethel	1,025
19 Penisarwaun	1,365
53 Llanrug	1,396
15 Cwm-y-Glo	753
20 Deiniolen	1463
51 Cadnant	1,514
52 Menai (Caernarfon)	1,724
50 Seiont	2,233
42 Peblig (Caernarfon)	1,603
Cyfanswm	17,038

Cefn Gwlad

27 Aberdaron	698
7 Aberdovey	907
10 Abererch	986
2 Abermaw	1,591
40 Abersoch	519
56 Bala	1,413
47 Botwnnog	734
38 Bowydd & Rhiw	1,235
44 Brithdir & Llanfachreth/Gi	1,132
23 Bryn-crug/Llanfihangel	772
33 Clynnog	736
43 Corris/Mawddwy	1,023
4 Criccieth	1,280
55 Diffwys & Maenofferen	779
46 Dolbenmaen	900
28 Dolgellau North	953
48 Dolgellau South	1,072
29 Dyffryn Ardudwy	1,169
9 Efail-newydd/Buan	1,026
35 Harlech	1,516
32 Llanaelhaearn	1,187
30 Llanbedr	768
41 Llanbedrog	709
Llandderfel	1,135
26 Llanengan	847
22 Llangelynin	1,625
Llanuwchllyn	686
31 Llanystumdwy	1,547
24 Morfa Nefyn	945
25 Nefyn	1,003
45 Penrhyndeudraeth	1,826
54 Dwyrain Porthmadog	1,178
18 Gorllewin Porthmadog	1,329

36 Porthmadog-Tremadog	933
6 Gogledd Pwllheli	1,528
49 De Pwllheli	1,310
37 Teigl	1,355
Trawsfynydd	1,088
8 Tudweiliog	668
3 Tywyn	2,476
14 Bontnewydd	865
13 Groeslon	1,374
39 Llanberis	1,613
11 Llanllyfni	915
34 Llanwnda	1,507
5 Penygroes	1,369
12 Talysarn	1,399
1 Waunfawr	1,298
Cyfanswm	54,924


Cyfanswm Etholaeth **71,962**

Trosglwyddwyd o Clwyd

Cefn Gwlad

Betws yn Rhos	1,623
Llansannan	1,495
Cyfanswm	3,118

Etholaeth Arfaethedig Arfordir Gogledd Gornllewin Cymru

**Aberconwy**

1 Gogarth	2,795
4 Mostyn	2,758
21 Tudno	3,591
Craig-y-Don	2,685
5 Penrhyn	3,874
14 Llandrillo yn Rhos	6,110
19 Mochdre	1,425
22 Pensarn	2,274
23 Marl	3,539
20 Deganwy	3,289
3 Conwy	3,295
6 Capelulo	1,284
18 Pant-yr-afon/ Penmaenan	2,167
9 Pandy	1,463
8 Bryn	1,390
Arllechwedd	1,091
29 Garth	556
12 Hiracl	1,066
27 Marchog	1,579
11 Deiniol	920
26 Menai (Bangor)	1,548
16 Glyder	1,257
10 Hendre	940
17 Dewi	1,301
7 Gerlan	1,696
28 Ogwen	1,697
15 Tregarth & Mynydd Llandygai	1,628
Cyfanswm	57,218

Dwyfor Meirionnydd

21 Pentir	2,159
16 Y Felinheli	1,803
17 Bethel	1,025
19 Penisarwaun	1,365
53 Llanrug	1,396
15 Cwm-y-Glo	753
20 Deiniolen	1,463
51 Cadnant	1,514
52 Menai (Caernarfon)	1,724
50 Seiont	2,233
42 Peblig (Caernarfon)	1,603
Cyfanswm	17,038

Etholaeth Arfaethedig Cefn Gwlad Gogledd Gorllewin Cymru

**Abeconwy**

Betws-y-Coed	967
Caerhun	1,677
2 Crwst	1,581
Eglwysbach	1,257
13 Llansanffraid	1,814
Trefriw	1,026
Uwch Conwy	1,276
Llangernyw	1,104
Uwchaled	1,139
25 Gower	850

Cyfanswm**12,691****Dwyfor Meirionnydd**

27 Aberdaron	698
7 Aberdovey	907
10 Abererch	986
2 Abermaw	1,591
40 Abersoch	519
56 Bala	1,413
47 Botwnnog	734
38 Bowydd & Rhiw	1,235
44 Brithdir & Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd	1,132

23 Bryn-crug/Llanfihangel	772
33 Clynnog	736
43 Corris/Mawddwy	1,023
4 Criccieth	1,280
55 Diffwys & Maenofferen	779
46 Dolbenmaen	900
28 Dolgellau North	953
48 Dolgellau South	1,072
29 Dyffryn Ardudwy	1,169
9 Efail-newydd/Buan	1,026
35 Harlech	1,516
32 Llanaelhaearn	1,187
30 Llanbedr	768
41 Llanbedrog	709
Llandderfel	1,135
26 Llanengan	847
22 Llangelynin	1,625
Llanuwchllyn	686
31 Llanystumdwy	1,547
24 Morfa Nefyn	945
25 Nefyn	1,003
45 Penrhyndeudraeth	1,826
54 Dwyrain Porthmadog	1,178
18 Gorllewin Porthmadog	1,329
36 Porthmadog-Tremadog	933
6 Gogledd Pwllheli	1,528
49 De Pwllheli	1,310
37 Teigl	1,355
Trawsfynydd	1,088
8 Tudweiliog	668
3 Tywyn	2,476
14 Bontnewydd	865
13 Groeslon	1,374
39 Llanberis	1,613
11 Llanllyfni	915
34 Llanwnda	1,507
5 Penygroes	1,369
12 Talysarn	1,399
1 Waunfawr	1,298
Cyfanswm	54,924


Clwyd	
Betws yn Rhos	1,623
Llansannan	1,495
Cyfanswm	3,118

Cyfanswm Etholaeth **70,733**


Golwg Terfynol

Isafswm	69,724		Uchafswm	77,062
Proposed			Commission's Proposals	
Coastal Northeast Wales	76,863		Alyn and Deeside	74,144
Industrial Northeast Wales	75,692		Clwyd	76,380
Rural Northeast Wales	72,066		Delyn	76,074
Wrexham	76,498		Wrexham	75,596
Maldwyn a Glyndŵr	70,320		Maldwyn a Glyndŵr	72,363
Coastal Northwest Wales	74,256		Aberconwy	69,909
Rural Northwest Wales	70,733		Dwyfor Meirionnydd	71,962
Cyfanswm	516,428		Cyfanswm	516,428

Etholaethau Arfaethedig Gogledddwyrain Cymru



Etholaethau Arfaethedig Gogledd gorllewin Cymru





Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru